

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 67/2014

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o Strategaeth Tlodi Plant Cymru Adroddiad Terfynol



Gwerthusiad o Strategaeth Tlodi Plant Cymru: Adroddiad Terfynol

Ipsos MORI a'r Sefydliad Polisi Newydd

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid barn Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Michael Harmer

Adran: Y Tîm Dadansoddi – Llywodraeth Leol a Chymunedau, Gwasanaethau

Gwybodaeth a Dadansoddi, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Llywodraeth Cymru

Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8550

E-bost: Michael.Harmer@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 9 Gorffennaf 2014

ISBN: 978-1-4734-1311-5

© Hawlfraint y Goron 2014



Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	2
2	Tlodi plant yng Nghymru	9
3	Atal tlodi	23
4	Helpu pobl i godi allan o dlodi	42
5	Lliniaru effeithiau tlodi.....	55
6	Effaith bod â strategaeth ar gamau Llywodraeth Cymru	69
7	Adolygu strategaethau tlodi plant eraill.....	78
8	Effaith y Mesur ar Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus.....	84
9	Casgliadau ac argymhellion	103
	Atodiad A: Strategaeth Tlodi Plant Cymru – Dangosyddion Sylfaen.....	113
	Crynodeb a chyflwyniad.....	114
1	Canfyddiadau cyffredinol.....	121
2	Tlodi incwm	131
3	Gwaith a bod heb waith.....	137
4	Addysg a Chymwysterau.....	151
5	Tai a gwasanaethau	163
6	Iechyd.....	168
7	Atodiad – Rhestr o bolisiâu perthnasol (yn nhrefn yr wyddor).....	180
	Atodiad B: Crynodeb o dystiolaeth: atal tlodi yn y genhedlaeth nesaf.....	184
	Atodiad C: Crynodeb o dystiolaeth: helpu pobl i godi allan o dlodi.....	186
	Atodiad D: Crynodeb o dystiolaeth: lliniaru effaith tlodi	188

1 Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Mawrth 2012 comisiynwyd Ipsos MORI a'r Sefydliad Polisi Newydd gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Strategaeth Tlodi Plant (2011) yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad terfynol hwn yn rhoi asesiad llawn o'r Strategaeth, gan gynnwys adolygu effaith polisïau Llywodraeth Cymru a strategaethau cyrff cyhoeddus ar dlodi plant, ac i ba raddau y mae bodolaeth strategaeth wedi effeithio ar sut y caiff polisi ei ddylunio, ei gyflenwi a'i werthuso.

Strategaeth tlodi plant

- 1.2 Mae dileu tlodi plant erbyn 2020 yn flaenoriaeth sylfaenol i Lywodraeth Cymru. Mae gan Gymru gyfran uwch o blant yn byw mewn tlodi na Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, a chyfran uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr y tu allan i Lundain. Mae hefyd gan Gymru gyfran uwch o blant mewn aelwydydd heb waith – unwaith eto, llawer yn uwch nag yn yr Alban a'r rhan fwyaf o Loegr. Ceisiai Strategaeth Tlodi Plant 2005 fynd i'r afael â hyn, ond yn cyd-daro â lansio'r Strategaeth, gwelwyd yr economi yn arafu ledled y Deyrnas Unedig. Er mai yn 2008 y dechreuodd y dirwasgiad, 2005 oedd y flwyddyn yr oedd diweithdra ar ei isaf. Ar ôl hynny, bu'r amodau economaidd yn llawer llai ffafriol.
- 1.3 Yn dilyn gwaith ymgynghori a wnaed 2010¹, lluniodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Tlodi Plant statudol cyntaf ym mis Chwefror 2011. Nod hyn oedd rhoi eglurder ynglŷn â'r cyfraniad y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud i leihau tlodi plant, yn ogystal â gosod y cyfeiriad ar gyfer trefniadau cyflawni lleol effeithiol. Roedd yn adeiladu ar Strategaeth Tlodi Plant gwreiddiol 2005² ac yn adlewyrchu strategaeth statudol newydd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (2010) (a elwir 'y Mesur' o hyn ymlaen) a roddodd ddyletswydd ar amrywiaeth eang o Gyrrff Cyhoeddus, yn ogystal a Gweinidogion Cymru, i ddatblygu a gweithredu

¹ Dogfen Ymgynghori: Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2010; a: Dogfen Ymgynghori: Cynllun Cyflawni Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2010.

² Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* (Merthyr Tudful, 2011), darllenwyd ar-lein ar 24 Rhagfyr 2013 fan hyn: <<http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/policy/110203newchildpovstrategy2cy.pdf>>.

Strategaethau Tlodi Plant. Roedd y Mesur yn diffinio 13 o nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant³; rhoddwyd crynodeb o'r nodau hyn yn y tri amcan strategol trosfwaol a ddisgrifiwyd yn y Strategaeth Tlodi Plant.

1.4 Yn dilyn ymlaen o hyn, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ym mis Mehefin 2012. Roedd y cynllun hwn yn ategu'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Tlodi Plant statudol ac mae'n ddull mwy cyfannol o ystyried tlodi, gyda thlodi plant yn un rhan ohono. Mae Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn atgyfnerthu tri amcan y Strategaeth Tlodi Plant drwy ddatgan y dylai fod i gamau sy'n mynd i'r afael â thlodi y nodau canlynol:

- Atal tlodi a'i wneud yn llai tebygol yn y tymor hir, drwy gynnig cymorth yn gynharach a chynnal y cymorth hwnnw hyd nes bod y teuluoedd yn gadarn a hunangynhaliol. Mae hyn yn cynnwys codi dyheadau; gwella safonau addysg; cynyddu lefelau sgiliau a lleihau anghydraddoldebau iechyd a lles.
- Helpu pobl i godi allan o dlodi a chymryd cyfleoedd gwaith ac ennill incwm drwy gydweithio â phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi gwahaniaethau mewn cyflogau a chyflogaeth ar sail rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.
- Camau i liniaru effaith tlodi sydd i'w gweld heddiw, drwy gynnig cymorth i leddfu'r profiad o fyw mewn tlodi. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i dderbyn gwasanaethau cyngor ariannol, cyngor ar dderbyn budd-daliadau, cymorth i ffynonellau credyd fforddiadwy,

³ Yr 13 o nodau eang, sydd yn dal i fod yn berthnasol, yw:

(a) cynyddu incwm i aelwydydd sy'n cynnwys plentyn neu blant gyda'r bwriad o sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, nad oes unrhyw aelwyd yn y grŵp incwm perthnasol;

(b) sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, nad yw plant sy'n byw ar aelwydydd yn y grŵp incwm perthnasol wedi'u hamddifadu'n sylweddol;

(c) hybu a hwyluso cyflogaeth am dâl i rieni plant;

(d) darparu i rieni plant y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth am dâl;

(e) lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant;

(f) cefnogi rhianta plant;

(g) lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd rhwng plant a rhwng rhieni plant (i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau lles eu plant);

(h) sicrhau y caiff pob plentyn ei fagu mewn tŷ gweddus;

(i) sicrhau y caiff pob plentyn ei fagu mewn cymuned ddiogel a chydlynus;

(j) lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant (i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau lles eu plant);

(k) helpu pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant;

(l) helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth;

(m) helpu pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

cymorth i atal tlodi tanwydd, trafnidiaeth, mynediad fforddiadwy at y rhyngwrwyd, a darparu cyfleusterau hamdden, chwaraeon a chwarae rhad.

- 1.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gweithredu'r strategaeth drwy nifer o ddulliau sy'n gosod ystyriaethau trechu tlodi yn rhan o bopeth a wnânt. Mae hyn yn cynnwys: rhaglennu uniongyrchol, rhoi dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru a Chyrff Cyhoeddus i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Tlodi Plant, Tîm Trechu Tlodi mewnol, Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant a'r Grŵp Cyngori Allanol ar Drechu Tlodi, gwefan Datrys Tlodi Plant⁴ a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill a all ddylanwadu ar dlodi plant yng Nghymru.

Cwmpas y gwerthusiad

- 1.6 Nod cyffredinol y gwerthusiad yw deall effaith Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru ar dlodi plant, ond hefyd yr effaith y mae bodolaeth y strategaeth yn cael ar gamau Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus i leihau tlodi plant. Yn fwy penodol, cwestiynau craidd y gwerthusiad yw:
- Mesur effeithiolrwydd ac effaith net y Strategaeth Tlodi Plant o ran dylanwadu ar benderfyniadau, cydlynu a blaenoriaethu'r gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid (drwy gydol y gwaith o ddylunio, gweithredu, monitro a gwerthuso'r camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant mewn cyrff cyhoeddus perthnasol).
 - Mesur effeithiolrwydd ac effaith net polisi a gwaith cyflenwi ymyriadau sydd â'r nod o leihau tlodi plant gan Gyrff Cyhoeddus o ganlyniad i'r ddyletswydd newydd ar y sector cyhoeddus a'r Strategaeth Tlodi Plant.
 - Datblygu dealltwriaeth o'r dylanwad sydd gan bolisi llywodraeth y DU a lefelau pŵer heb eu datganoli ar dlodi plant yng Nghymru a sut mae hyn wedi cyfyngu ar effaith Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru neu alluogi effaith y Strategaeth.

⁴ Peidiodd y wefan hon â bod ar 31^{ain} Mawrth 2013.

- Nodi a chymharu cost a budd net (i'r graddau y mae hynny'n bosibl) yr ymyriadau a ddyluniwyd i leihau tlodi gydag atebion eraill (yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt).
- Darparu tystiolaeth ac adborth parhaus ynglŷn â sut y gellid gwneud y gorau o effaith y strategaeth.

Dull y gwerthusiad

1.7 Mae'r adroddiad hwn yn dwyn tystiolaeth o:

- Adroddiad sylfaen ac adroddiad diweddar (gan ddefnyddio'r data sydd ar gael ar 14 Chwefror 2014) sy'n mesur dangosyddion tlodi plant yng Nghymru (gan ddefnyddio'r data sydd ar gael ar 14 Chwefror 2014), gan gymharu â 2005 pan gyflwynwyd y Strategaeth Tlodi Plant cyntaf
- ymgynghoriadau â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru a fu'n ymwneud â gweithredu'r Strategaeth, neu waith sy'n berthnasol i'r strategaeth, ym mis Mehefin-Gorffennaf 2013, cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ar ei newydd wedd (nid yw'r gwerthusiad hwn yn cwmpasu pob datblygiad a fu er hynny)
- ymgynghoriadau â rhanddeiliaid mewn Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu Strategaeth Tlodi Plant eu sefydliadau, ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2013
- meta-adolygiad o effeithiolrwydd ac effaith sampl o raglenni allweddol Llywodraeth Cymru, a ddewiswyd yn 2012, y mae eu nodau yn berthnasol i dri amcan craidd y Strategaeth Tlodi Plant (data perfformiad ac effaith a oedd ar gael ar 31 Ionawr 2014 wedi eu cynnwys), a'r gwersi a ddysgwyd o werthusiadau'r rhaglenni hyn (nid yw'r polisïau a'r rhaglenni newydd felly wedi eu cwmpasu gan y gwerthusiad hwn)
- dadansoddiad cost a budd y rhaglenni a ddewiswyd ar gyfer y meta-adolygiad, lle y bo data o'r fath ar gael.

1.8 Dygwyd yr elfennau hyn o weithgarwch gwerthuso at ei gilydd a'u dadansoddi gan ddefnyddio fframwaith Theori Newid. Diben Theori Newid yw gosod dealltwriaeth glir o natur y strategaeth, y sail resymegol (hynny yw, diagnosis o'r 'broblem' y mae'n ceisio ei datrys), a'r

gweithgareddau, yr allbynnau y canlyniadau a'r effeithiau a ddisgwylir. Mae'n cynnig fframwaith dadansoddi clir i'r gwerthusiad, gan ddiffinio'r data sydd angen ei gasglu, a'r materion sydd angen eu hystyried wrth werthuso'r Strategaeth Tlodi Plant.

Cyfngiadau Methodolegol

1.9 Fel yn achos unrhyw werthusiad, mae nifer o gyfngiadau methodolegol y dylid cadw mewn cof wrth adolygu'r canfyddiadau.

1.10 **Mae'r gwerthusiad hwn yn dibynnu'n fawr ar ansawdd y dystiolaeth a gasglwyd gan werthusiadau rhaglenni unigol a ph'un a yw'r dystiolaeth honno ar gael.** Roedd hyn yn amrywio ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru ac mewn cyfran sylweddol o achosion roedd y dystiolaeth ynglŷn ag effaith y rhaglen yn amhendant neu heb fod ar gael eto. Yn ychwanegol, nid yw'r data ynglŷn â chostau ar gael, neu mae'n anghyflawn neu'n annibynadwy mewn nifer fach o achosion. Y rheswm am hyn yw mai cyfuniad o lawer o raglenni yw rhai o'r 'rhaglenni' a ddadansoddwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn (megis y Cynllun Digartrefedd), ac felly nid oes iddynt gostau hawdd eu nodi. Mewn rhai achosion (er enghraifft y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion) mae'r rhaglenni eu hunain braidd yn amwys, felly nid yw'n bosibl nodi data ynglŷn â'r costau penodol.

1.11 **Nifer gyfyngedig o randdeiliaid Llywodraeth Cymru oedd ar gael a allai roi sylw ar y cyd-destun hanesyddol** i gamau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threchgu tlodi plant. Mewn llawer o achosion, sylwadau ar y tymor byr yn unig y gallai'r rhanddeiliaid wneud, yn hytrach nag ar dueddiadau hanesyddol hirdymor, gan fod llawer wedi newid swydd neu'n newydd i'w swydd. Bu rhanddeiliaid mewn Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus yn eu swyddi yn hwy yn gyffredinol, ac felly roeddynt mewn gwell sefyllfa i roi sylwadau ar newidiadau dros amser mewn polisi a gwaith rhaglennu i drechu tlodi plant.

Strwythur yr adroddiad

1.12 Dyma strwythur yr adroddiad:

- **Pennod 2: Tlodi plant yng Nghymru:** Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o sut mae dangosyddion tlodi plant yng Nghymru wedi newid ers 2005. Y mae wedyn yn ystyried pa bwerau polisi sy'n bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi plant sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru, a pha rai sydd ym meddiant llywodraeth y DU yn San Steffan.
- **Pennod 3: Atal Tlodi:** Mae'r bennod hon yn adolygu effeithiolrwydd ac effaith gwaith rhaglennu Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar atal tlodi.
- **Pennod 4: Helpu pobl i godi allan o dlodi:** Mae'r bennod hon yn adolygu effeithiolrwydd ac effaith gwaith rhaglennu Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i godi allan o dlodi.
- **Pennod 5: Lliniaru effaith tlodi:** Mae'r bennod hon yn adolygu effeithiolrwydd ac effaith gwaith rhaglennu Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar liniaru effaith tlodi.
- **Pennod 6: Effaith bod â strategaeth:** mae'r bennod hon yn adolygu barn rhanddeiliaid polisi Llywodraeth Cymru ar b'un a yw bod â strategaeth wedi cael effaith ar brosesau dylunio, gweithredu neu adolygu polisi.
- **Pennod 7: Adolygu strategaethau tlodi plant eraill:** Mae'r bennod hon yn adolygu strategaethau tlodi plant a ddatblygwyd gan Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn ogystal â Llundain. Mae'n nodi tebygrwydd a gwahaniaethau wrth gymharu â Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r gwersi a ddysgwyd ynglŷn â datblygu a monitro strategaethau tlodi plant.
- **Pennod 8: Effaith y Mesur ar Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus:** Mae'r bennod hon yn adolygu'r dystiolaeth ynglŷn ag effaith Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) ar gamau Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus yng Nghymru i drechu tlodi plant.
- **Pennod 9: Casgliadau a'r gwersi a ddysgwyd:** Mae'r bennod hon yn dwyn canfyddiadau'r gwerthusiad ynghyd er mwyn dod i gasgliadau ynglŷn ag effaith ac effeithiolrwydd gwaith rhaglennu

Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus, ac i ba raddau y mae bod â Strategaeth yn ei lle wedi cael effaith ar y gwaith rhaglennu hwnnw. Y mae hefyd yn cynnig nifer o wersi er mwyn gwneud y gorau o effaith y Strategaeth Tlodi Plant.

2 Tlodi plant yng Nghymru

- 2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried sut mae tlodi plant yng Nghymru wedi newid dros amser ers blwyddyn sylfaen 2005, pan gyflwynwyd Strategaeth Tlodi Plant cyntaf Cymru, hyd at fis Rhagfyr 2013. Trafodir wedyn y pwerau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau tlodi plant. Yn olaf, dadansoddir effeithiau posibl y newidiadau i'r system dreth a budd-daliadau ar incwm aelwydydd a'r cyflenwad llafur yng Nghymru, ac ar dlodi ar lefel y Deyrnas Unedig.

Tlodi plant yng Nghymru ers 2005

- 2.2 Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, cynhaliwyd astudiaeth sylfaen o 23 o ddangosyddion tlodi plant, a ddewiswyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Dewiswyd 2005 yn flwyddyn sylfaen, gan mai hon yw'r flwyddyn y cafodd y Strategaeth Tlodi Plant ei chyflwyno. Er hyn, mewn llawer o achosion, yn bennaf yn achos mesurau tlodi incwm er mwyn sicrhau cywirdeb ystadegol, caiff tair blynedd o ddata (2003-2005) eu cyfuno i sefydlu'r llinell sylfaen.
- 2.3 Bu'r tîm gwerthuso yn dilyn trywydd y dangosyddion hyn, ac mae Tabl 2.1 yn cyflwyno eu lefel yn y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael, p'un a ydynt wedi gwaethygu ers 2005 neu beidio, ac yn cymharu â Gogledd Lloegr. Dewisir Gogledd Lloegr fel 'cymydog ystadegol' agos, gan fod y gyfradd tlodi plant yno yn debyg i'r hyn a oedd yng Nghymru ar ddechrau'r cyfnod.
- 2.4 Mae'r ffaith mai 2005 yw'r flwyddyn sylfaen yn bwysig iawn ac yn lliwio nifer o'r canfyddiadau. O edrych yn ôl, gwelir mai 2005 oedd y flwyddyn gryfaf i economi'r Deyrnas Unedig. Ni bu diweithdra mor isel wedyn ag y bu yn 2005, a'r lefel bryd hynny oedd 4.6 y cant.

Tabl 2.1: Tlodi plant yng Nghymru a Gogledd Lloegr ers 2005

Pwnc	Dangosydd	Data diwedd-araf ⁵	Cymru: lefel yn y flwyddyn ddiwedd-araf	Cymru: newid ers y flwyddyn sylfaen	Gogledd Lloegr: lefel yn y flwyddyn ddiwedd-araf	Gogledd Lloegr: newid ers y flwyddyn sylfaen
Tlodi incwm	Plant mewn tlodi cymharol (AHC)	3 blynedd hyd at 2011/12	33%	Gwaeth	30%	Dim newid
	Plant mewn tlodi mewn gwaith (AHC)	3 blynedd hyd at 2011/12	24%	Gwaeth	21%	Gwaeth
Gwaith a bod heb waith	Heb waith	2012	33%	Gwaeth	32%	Gwaeth
	Cyflenwad llafur posibl	2012	17%	Gwaeth	17%	Gwaeth
	Plant mewn aelwydydd heb waith	3 blynedd hyd at 2012	19%	Gwaeth	18%	Gwaeth
	Cyfraddau cyflogaeth unig rieni	3 blynedd hyd at 2012	54%	Dim newid	57%	Gwell
	Cyflog yr awr gros – gwerth degfed canradd	2012	£6.30	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Cyflog yr awr gros – gwerth canolrifol	2012	£10.10	Gwaeth	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
Sgiliau a chymwysterau	Bwlch cyrhaeddiad yn CA2	2013	18 pwynt canran	Gwell	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Bwlch cyrhaeddiad yn CA4	2013	33 pwynt canran	Gwaeth	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Oedolion ifanc heb gymwysterau Lefel 3	3 blynedd hyd at 2012	45%	Dim newid	44%	Gwell
	Oedolion ifanc NEET	2012	19%	Gwaeth	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau Lefel 3	2012	48%	Gwell	49%	Gwell
Tai a gwasanaethau	Teuluoedd digartref mewn llety dros dro	2012/13	2,500	Gwell	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Teuluoedd â phlant yn byw mewn amodau gorllawn	2010	23,000	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu


⁵ Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys pob data perthnasol sydd ar gael hyd at 14 Chwefror 2014.

Pwnc	Dangosydd	Data diwedd-araf ⁵	Cymru: lefel yn y flwyddyn ddiwedd-araf	Cymru: newid ers y flwyddyn sylfaen	Gogledd Lloegr: lefel yn y flwyddyn ddiwedd-araf	Gogledd Lloegr: newid ers y flwyddyn sylfaen
	Teuluoedd (â phlant) heb fynediad at gyfrifon banc	3 blynedd hyd at 2011/12	1%	Gwell	2%	Gwell
Iechyd	Cymhareb marwolaethau babanod rhwng y mwyaf difreintiedig a'r pumed canol	2008	1.2	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Cymhareb pwysau geni isel yn ôl cwintellau amddifadedd	2007	1.2	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Cymhareb plant 5 oed â phydredd dannedd yn ôl cwintellau amddifadedd	2007-08	1.5	Gwell	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Cymhareb pobl ifanc â phydredd dannedd yn ôl cwintellau amddifadedd	2008-09	1.4	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Rhai dan 16 oed sy'n beichiogi yn ôl cwintellau amddifadedd	4 blynedd hyd at 2008	1.7	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Anafiadau i gerddwyr 5-14 oed (cleifion preswyl mewn ysbyty) yn ôl cwintellau amddifadedd	4 blynedd hyd at 2008	1.7	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Plant a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damwain ffordd	2012	92	Gwell	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu

2.5 Mae Tabl 2.1 yn dangos y bu i'r dangosyddion ynghylch tlodi incwm a gwaith a bod heb waith fynd yn waeth ar y cyfan rhwng 2005 a 2012, gan ddefnyddio'r data sydd ar gael ar 14 Chwefror 2014. Mae Llinell Amser 2.1 yn dangos newidiadau yng nghyfradd tlodi plant a chyfradd y plant mewn aelwydydd heb waith o gymharu â'r lefel yn 2005, sydd wedi eu gosod ar 100%. Rhoddir llinellau ar gyfer Cymru a Phrydain (GB). Mae cyfnod cyflwyno polisiau allweddol wedi eu nodi ar y siart ond rhoi

cyd-destun yn unig yw diben hyn, er mwyn deall beth oedd yn digwydd a phryd. Caiff effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni hyn ar dlodi plant eu hasesu ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.

Ffigur 2.1: Tueddiadau mewn tlodi plant, plant mewn aelwydydd heb waith a diweithdra ymysg pobl o oedran gweithio, gyda datblygiadau polisi allweddol wedi eu nodi



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Aelwydydd o dan y cyfartaledd incwm; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Aelwydydd Heb Waith

- 2.6 Daeth y gyfres tlodi plant i'w phwynt isaf yn 2006. Ond bu'r gyfres o blant mewn aelwydydd heb waith yn parhau i ddisgyn hyd nes i'r dirwasgiad ddechrau yn 2008, ac wedi hynny cododd yn sydyn gan barhau i godi hyd 2012. Mae'r data ar gyfer hanner cyntaf 2013 yn awgrymu bod y duedd hon tuag i lawr (yn sydyn) er y byddai angen data o leiaf blwyddyn arall i gadarnhau hyn.
- 2.7 Rhwng 2008/09 a 2011/12, ni chododd tlodi plant ym Mhrydain, a chododd ychydig bach yn unig yng Nghymru ar ôl cyfnod o amrywiad sylweddol yng nghyfradd tlodi plant. Gallai'r arian ychwanegol a roddwyd tuag at gredydau treth, a addawyd yn 2007 ac a gyflenwyd yn 2008, fod yn gyfrifol am hyn i ryw raddau. Ond yr un mor bwysig fu'r gwmp yn yr incwm canolrifol, sydd wedi golygu bod y llinell dlodi ei hun wedi dod i lawr.

- 2.8 Fel a welir yn Nhabl 2.1, gwaethygodd sawl dangosydd arall ynghylch gwaith a bod heb waith rhwng 2005 a 2013, gan gynnwys y gyfradd heb waith gyffredinol, y gyfradd dangyflogaeth 'eang', cyflog yr awr gros – gwerth degfed canradd, a chyflog yr awr gros – gwerth canolrifol. Yr unig ddangosydd yn y categori hwn na newidiodd yn ystod y cyfnod hwn oedd cyfradd cyflogaeth unig rieni. Mae cyswllt clir rhwng y gwaethygiad hwn yn nangosyddion gwaith a bod heb waith a'r gwaethygiad yn yr amodau economaidd cyffredinol yn y Deyrnas Unedig a'r cynnydd mewn diweithdra cyffredinol yn sgil hynny.
- 2.9 Mae dangosyddion sgiliau a chymwysterau yn rhoi darlun cymysg, wrth i ddau ohonynt wella, dau yn gwaethygu ac un heb newid ers 2005. Nid oes patrwm amlwg o welliant o ran lefel addysg.
- 2.10 Mae dangosyddion amodau tai hefyd yn rhoi darlun cymysg, wrth i lai o deuluoedd yn awr fyw mewn llety dros dro, ond nid oes newid yn y nifer sy'n byw mewn amodau gorlawn. Mae gan ragor o deuluoedd yn awr fynediad at gyfrifon banc nag yn 2005.
- 2.11 Mae dangosyddion iechyd ar y cyfan yn dangos na fu newid ers 2005, a'r unig welliant yw gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ffordd.
- 2.12 O ystyried bod tlodi plant ychydig yn uwch yng Nghymru nag ym Mhrydain yn 2005, a bod llawer o'r dangosyddion wedi gwaethygu ers hynny, mae sail resymegol gref i Gymru gael strategaeth resymegol i drechu tlodi plant.
- 2.13 Caiff pob un o'r 23 dangosydd a fesurwyd fel rhan o'r adroddiad sylfaen ar dlodi plant yng Nghymru eu trafod yn fanylach yn adroddiad llawn y dangosyddion sylfaen yn Atodiad A.

Pwerau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi plant

- 2.14 Gweinyddiaeth ddatganoledig oddi mewn i'r Deyrnas Unedig yw Llywodraeth Cymru. O'r herwydd, er bod gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros rai o'r meysydd polisi sydd eu hangen i fynd i'r afael â thlodi yn effeithiol, mae gan Lywodraeth y DU reolaeth dros nifer o'r pwerau. Mae hyn yn cyfyngu ar y camau y gall Llywodraeth Cymru

gymryd i fynd i'r afael â tlodi plant, ac yn golygu y gallai Llywodraeth y DU gymryd camau a all gael effaith ar dlodi plant yng Nghymru.

2.15 Mae Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod yr 20 maes polisi, neu 'bynciau', y mae gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd drostynt. Diffiniad y Strategaeth Tlodi Plant o dlodi yw "cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaeth a mannau agored deniadol) mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn."⁶ Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, pynciau Llywodraeth Cymru sydd fwyaf perthnasol i agenda trechu tlodi plant yw:

- diwylliant
- datblygu economaidd
- addysg a hyfforddiant
- yr amgylchedd
- bwyd
- iechyd a gwasanaethau iechyd
- priffyrdd a thrafnidiaeth
- tai
- llywodraeth leol
- lles cymdeithasol
- chwaraeon a hamdden⁷

2.16 Mae i strategaethau datblygu economaidd, er enghraifft, y potensial i gael effaith ar dlodi plant. Yn ei Chynllun Adnewyddu Economaidd⁸, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel, gan olygu bod Cymru yn lle mwy deniadol i gynnal busnes, gan ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau, annog arloesedd a thargedu'r cymorth busnes y mae'n ei gynnig. Ystyrir bod y lefel isel o sgiliau yng ngweithlu Cymru yn wendid strwythurol sylfaenol

⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* (Merthyr Tudful, 2011), darllenwyd ar-lein ar 24 Rhagfyr 2013 fan hyn:

<<http://wales.gov.uk/docs/ds/jlg/policy/110203newchildpovstrategy2cy.pdf>>: 6.

⁷ Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Cymru, "The Government of Wales Acts", *Devolution settlement: Wales* (27 Chwefror 2013), darllenwyd ar-lein ar 24 Rhagfyr 2013 fan hyn:

<<https://www.gov.uk/devolution-settlement-wales>>.

⁸ <http://wales.gov.uk/docs/det/report/100705anewdirectioncy.pdf>

yn economi Cymru, ac mae'n gysylltiedig â diweithdra, cyflogau isel a chynhyrchiant isel. Heriau eraill sy'n wynebu economi Cymru yw'r diffyg cytref mawr (er bod potensial i adeiladu ar yr amcanestyniadau o dwf cyflym yng Nghaerdydd) a'r ffaith bod cyfran cymharol uchel o'r boblogaeth o oedran ymddeol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gael ei harwain yn rhannol gan amcanion tegwch yn ei hymyriadau yn yr economi, ac o safbwynt Strategaeth Tlodi Plant, dylai hyn olygu canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau oedolion sydd â phlant yn benodol.

2.17 Mae gan Lywodraeth Cymru felly bŵer dros nifer fawr o'r meysydd sy'n bwysig i agenda trechu tlodi, yn benodol mewn perthynas ag ail a thrydydd nod yn y Strategaeth Tlodi Plant, sef gwella sgiliau rhieni/gofalwyr a phobl ifanc i wella eu rhagolygon o ran cyflogaeth, a lleihau anghydraddoldebau yn yr amryw feysydd sy'n cael eu heffeithio gan dlodi (iechyd ac addysg yn benodol). Mae gan Lywodraeth Cymru lawer yn llai o reolaeth dros nod cyntaf y Strategaeth Tlodi Plant, sef lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, sydd yn cael ei effeithio i raddau mwy gan yr hinsawdd economaidd ehangach a newidiadau i bolisiâu economaidd yn San Steffan.

2.18 Caiff hyn ei gydnabod yn y Rhagair i'r Strategaeth Tlodi Plant:

“Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod cyflawni'r nod hwn yn dibynnu hefyd ar gyfraniad parhaus Llywodraeth y DU i ddileu tlodi yn y meysydd sydd heb eu datganoli, sef trethi a thaliadau lles, cyflogaeth dan gymorth ac adferiad parhaus yr economi ehangach.”⁹ Trafodir tri phrif bŵer a allai ddylanwadu ar gyfraddau tlodi plant yng Nghymru ond nad ydynt yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru: polisi lles, polisi ariannol a pholisi cyllidol¹⁰.

2.19 Llywodraeth y DU sy'n gosod **polisi lles**, neu bolisiâu sy'n ymwneud â diweithdra ac aiddosbarthu cyfoeth, ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyfan. Gallai penderfyniadau ynglŷn â lefelau Credydau Treth Plant, a gaiff eu

⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* (Merthyr Tudful, 2011), darllenwyd ar-lein ar 24 Rhagfyr 2013 fan hyn:

<<http://wales.gov.uk/docs/ds/jlg/policy/110203newchildpovstrategy2cy.pdf>>: 3.

¹⁰ Mae adroddiad Comisiwn Silk Rhan II yn argymhell nad oes newid mewn pwerau ym maes polisi macroeconomaidd, gan gynnwys y system nawdd cymdeithasol (<http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2014/03/Empowerment-Responsibility-Legislative-Powers-to-strengthen-Wales.pdf>).

gosod gan y Canghellor ym mhob cyllideb, budd-daliadau tai a budd-daliadau eraill, gael effaith ar nifer y plant sy'n byw mewn tlodi incwm. Mae polisi lles hefyd yn cwmpasu rhaglennu ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan i helpu pobl i gael gwaith, megis y Rhaglen Waith, a allai helpu i godi plant allan o dlodi drwy helpu eu rhieni i mewn i gyflogaeth.

2.20 Pŵer polisi economaidd pwysig arall, nad yw'n cael ei reoli gan lywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru, yw **polisi ariannol**, sydd yn y Deyrnas Unedig yn cael ei reoli gan Fanc Lloegr. Mae bod â'r awdurdod i osod polisi ariannol yn golygu dau brif bŵer: rheoli cyflenwad arian yn yr economi (argraffu arian) a gosod y gyfradd llog. Gall yr offer hyn effeithio ar gostau byw (drwy eu heffaith ar chwyddiant), cyfradd diweithdra a thwf economaidd cyffredinol, ac o ganlyniad gallant effeithio ar dlodi plant hefyd.

2.21 Llywodraeth y DU sy'n rheoli **polisi cyllidol**, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â threthi (ar wahân i'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig, y mae gan Lywodraeth Cymru ryw faint o ddylanwad drostynt) a lefelau gwariant a benthyca'r llywodraeth. Yn bresennol, mae'r rhan fwyaf o gyllideb Llywodraeth Cymru yn dod o grant bloc gan lywodraeth y DU. Caiff maint y grant hwn ei bennu gan fformiwla Barnett, sy'n golygu bod y Cynulliad yn derbyn cyfran ar sail poblogaeth o'r newidiadau i'r gwariant a gynllunnir ar wasanaethau tebyg yn Lloegr.¹¹ Mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros gyfanswm y swm y bydd yn gwario mewn unrhyw flwyddyn benodol. Pe byddai llywodraeth y DU yn penderfynu dilyn mesurau caledi i geisio lleihau lefel y diffyg, fel y gwnaeth yn y pedair blynedd diwethaf, bydd grant Llywodraeth Cymru yn lleihau yn unol â hynny. Y canlyniad yw bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru leihau gwariant ar wasanaethau cyhoeddus, a allai arwain at gynydd yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru neu brofiad byw gwaeth.

2.22 Canlyniad arall i'r ffaith mai Llywodraeth y DU sy'n gosod lefel gwariant cyffredinol y llywodraeth yw na all Llywodraeth Cymru benderfynu ar

¹¹ Trysorlys ei Mawrhydi a Swyddfa Cymru, *Empowerment and responsibility: devolving financial powers to Wales* (Tachwedd 2013), darllenwyd ar-lein ar 24 Rhagfyr 2013 fan hyn <https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/259359/empowerment_and_responsibility_181113.pdf>: 5.

wahân sut y mae'n ymdrin ac chyfnodau o ddirwasgiad. Ni all, er enghraifft, benderfynu cynyddu gwariant Llywodraeth Cymru fel ysgogiad cyllidol i'r economi (er y gallai ailddyrannu gwariant o ran arall o'r gyllideb, i ysgogi i greu swyddi er enghraifft). Ni all Llywodraeth Cymru chwaith benderfynu, ar hyn o bryd, fenthg i gynyddu buddsoddiad cyfalaf (er bod hyn yn debygol o newid yn y dyfodol agos), gan olygu na allai, er enghraifft, gychwyn ar raglenni seilwaith tai neu drafnidiaeth, ar wahân i'r rhai y gall eu fforddio oddi mewn i gyfyngiadau'r grant bloc a gymeradwywyd gan Senedd y Deyrnas Unedig¹².

2.23 Mae cynlluniau i ddatganoli mwy o bwerau cyllidol i Gymru, fel sydd wedi ei osod mewn dogfen gan Drysorlys ei Mawrhydi a Swyddfa Cymru ym mis Tachwedd 2013¹³. Gwnaeth y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) argymhellion allweddol, sydd eisoes wedi eu derbyn gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru fenthg ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, datganoli treth tirlenwi a threth dir y dreth stamp yng Nghymru, a darparu ar gyfer refferendwm i'w gynnal er mwyn i bobl Cymru allu penderfynu p'un a ddylai cyfrifoldeb am rywfaint o'u treth incwm gael ei ddatganoli. Y mae'n bosibl, felly, y bydd gan Gymru fwy o awdurdod yn y dyfodol dros faes polisi allweddol arall er mwyn trechu tlodi plant. Wrth i ragor o bwerau cyllidol gael eu datganoli i Gymru, bydd yn bwysig sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am y maes polisi yn ymwybodol o'r effaith y gall gael ar leihau tlodi plant.

2.24 Yn olaf, mae hefyd gan lywodraeth y DU y pŵer i ddatblygu polisiau yn ymwneud â thlodi plant yn y Deyrnas Unedig. Gall polisiau ledled y Deyrnas Unedig i drechu tlodi plant gael eu holrhain i 1999, pan y gwnaeth Tony Blair addewid i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Yn gysylltiedig â hynny, cafwyd amrywiaeth o bolisiau gan gynnwys Credyd Treth Plant a'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol. Roedd y rhan fwyaf o'r polisiau allweddol ledled y Deyrnas Unedig wedi eu cyflwyno

¹² Trysorlys ei Mawrhydi, *Empowerment and responsibility: devolving financial powers to Wales* (Tachwedd 2013), darllenwyd ar-lein ar 24 Rhagfyr 2013 fan hyn <https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/259359/empowerment_and_responsibility_181113.pdf>: 6.

¹³ *Ibid.*

erbyn 2005, pan gyflwynwyd Strategaeth Tlodi Plant gyntaf Cymru, er ym mis Chwefror 2014 cyhoeddodd llywodraeth y DU ddrafft Strategaeth Tlodi Plant newydd sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd¹⁴. Y prif nodau sydd wedi eu gosod yn y Strategaeth Tlodi Plant ddrafft yw:

- Cynorthwyo teuluoedd i gael gwaith a chynyddu eu henillion
- Gwella safonau byw
- Atal plant tlawd rhag datblygu i fod yn oedolion tlawd drwy wella eu cyraeddiadau addysgol

Effaith bosibl diwygiadau lles led-led y Deyrnas Unedig

2.25 Cafodd y newidiadau i'r systemau lles a budd-daliadau a gynigwyd gan Lywodraeth y DU rhwng 2010 a 2012 eu disgrifio fel y newid mwyaf sylweddol i strwythur y system les ers y 1940au¹⁵. Erbyn 2014-15, bydd Llywodraeth y DU yn gwneud toriadau o ryw £21 biliwn i'r gwariant lles blynyddol. Y mae hefyd wedi dechrau cyflwyno'r Credyd Cynhwysol fesul cam, sef budd-dal integredig unigol i ddisodli chwe math o fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd.

2.26 Yn ôl amcangyfrifon y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS), pe na byddai unrhyw un yn newid eu hymddygiad mewn ymateb i'r diwygiadau, byddai'r newidiadau hyn yn gyfwerth â cholli incwm o ryw £6.40 i bob teulu bob wythnos ar gyfartaledd yng Nghymru, neu tua 1.5 y cant o'u hincwm net¹⁶. Mae'r diwygiadau lles a ddadansoddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn cynnwys datganiadau a wnaed hyd at ac yn cynnwys Cyllideb 2012. Mae toriadau ychwanegol i les a wnaed ers hynny yn golygu y bydd y colledion yn uwch. Bydd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn diweddarau'r dadansoddiad hwn, a disgwylir i hynny gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2014. Mae'n bwysig nodi y caiff y ffigurau uchod eu cyfrifo drwy rannu cyfanswm y golled mewn hawliau budd-dal a chredyd treth yng Nghymru gan nifer y teuluoedd. Mae hyn

¹⁴

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/285387/Cm_87_82_Child_Poverty_Strategy_Consultation_Print.pdf

¹⁵ Stuart Adam a David Phillips, *An ex-ante analysis of the effects of the UK Government's welfare reforms on labour supply in Wales* (Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2013), darllenwyd ar-lein ar 7 Ebrill 2014 fan hyn <http://www.ifs.org.uk/comms/r75.pdf> : 1.

¹⁶ *Ibid.*

yn fesuriad gwahanol i golledion y rhai a gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan y diwygiadau lles. Amcangyfrifir y bydd y colledion i'r rhai sy'n cael eu heffeithio yn fwy na £3,500 y flwyddyn (neu £70 yr wythnos) o ganlyniad i ddiwygiadau penodol o'u hystyried ar wahân¹⁷. Yn achos y rhai sy'n cael eu heffeithio gan fwy nag un diwygiad, gallai'r colledion fod yn fwy na'r swm hwn.

2.27 Gan edrych yn fanylach ar sut mae gwahanol fathau o deuluoedd a'r rhai hynny ar wahanol lefelau o'r dosbarthiad incwm yn cael eu heffeithio, disgwylir mai'r rhai a fydd yn profi'r colledion cyfartalog mwyaf yw teuluoedd heb waith, sydd ar eu colled yn sgil y Credyd Cynhwysol (os oes ganddynt incwm sylweddol heb ei ennill, megis drwy gynilion neu gynhaliaeth priod) ac yn sgil toriadau ehangach i fudd-daliadau.¹⁸ Ar draws y dosbarthiad incwm, caiff y colledion cyfartalog mwyaf eu profi gan deuluoedd incwm isel i ganolog.

2.28 Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn mynd ymhellach i ddadansoddi effaith y newidiadau hyn ar gymhellion ariannol i weithio, er mwyn rhagweld effaith y diwygiadau ar y cyflenwad llafur yng Nghymru. Daw'r awduron i'r casgliad bod y pecyn cyfan o ddiwygiadau yn cryfhau'r cymhelliad i deuluoedd fod â rhywun mewn swydd, ond yn gwanhau'r cymhelliad i gyplau fod â'r ddau bartner mewn swydd¹⁹, o gymharu â llinell sylfaen 2010. Er bod y diwygiadau yn cynyddu'r cymhellion i'r rhan fwyaf o deuluoedd i gynyddu eu henillion, gan gynnwys rhai ar incwm isel, maent yn lleihau'r cymhelliant i nifer fach o aelwydydd sydd ag incwm isel iawn (llai na £7,000 y flwyddyn)²⁰.

2.29 Yn gyffredinol, disgwylir i'r diwygiadau arwain at gynydd bach yn nifer yr unig famau sydd mewn swydd, a lleihad bach mewn cyflogaeth ymysg cyplau sydd â phlant. Mae'r cymhellion yn golygu y caiff teuluoedd eu hannog i fod â rhywun mewn swydd, felly gallai nifer yr aelwydydd heb

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2014), Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 3. Rhan 2: Effeithiau mewn ardaloedd awdurdodau lleol. <http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/publications/analysingreforms/?lang=cy>

¹⁸ *Ibid.*

¹⁹ *Ibid.*, 2.

²⁰ *Ibid.*

waith leihau, ond cânt eu cymell i beidio â chael dau yn ennill cyflog, felly gallai nifer yr aelwydydd lle mae un yn ennill cyflog gynyddu.

- 2.30 Daw'r adroddiad i'r casgliad bod diwygiadau lles llywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig yn cryfhau cymhellion ariannol bod mewn gwaith ychydig, ar gyfartaledd, ac felly mae'r effaith gyfatebol ar gyflogaeth, oriau gweithio ac enillion yng Nghymru yn edrych yn debyg o fod yn gadarnhaol ond yn fach.²¹
- 2.31 Nid yw'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dadansoddi'r effaith y gallai'r newidiadau lles hyn gael ar dlodi ar y lefel grynsyth. Er hyn, y mae wedi asesu effaith gyfunol y newidiadau i drethi a budd-daliadau ar dlodi ar lefel y Deyrnas Unedig²². O gymharu â 2011-12, rhagwelir y bydd tlodi plant 3.7 pwynt canran (neu 500,000) yn uwch gan ddefnyddio'r mesur incwm-isel cymharol a 4.6 pwynt canran (neu 600,000) yn uwch gan ddefnyddio'r mesur incwm-isel absoliwt yn 2014-15 o gymharu â'r sefyllfa pe na byddai'r diwygiadau wedi eu gwneud. Yn y tymor hir, mae amcanestyniadau'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dangos bod y lleihad yn y tlodi a ddaw yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn cael ei ddadwneud gan effaith diwygiadau eraill, yn benodol newid y rhan fwyaf o fudd-daliadau i bobl oedran gweithio i fynegai CPI. Yn 2020-21, rhagwelir y bydd tlodi plant 4.4 pwynt canran (600,000) yn uwch gan ddefnyddio'r mesur incwm-isel cymharol a 6.0 pwynt canran (900,000) yn uwch gan ddefnyddio'r mesur incwm-isel absoliwt o ganlyniad i'r newidiadau i drethi a budd-daliadau.

Crynodeb

- 2.32 Mae tlodi plant yng Nghymru bellach yn uwch nag oedd yn 2006. Caiff hyn ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd sydyn yng nghyfran y plant sydd mewn teuluoedd sy'n gweithio sydd mewn tlodi. Mae'r ffaith i 2005 cael ei dewis yn llinell sylfaen yn cael effaith ar y canlyniadau.
- 2.33 Gwaethygodd y rhan fwyaf o'r dangosyddion eraill ynghylch gwaith a bod heb waith rhwng 2005 a 2013, ac eithrio cyfradd cyflogaeth unig

²¹ *Ibid.*, 6.

²² James Browne et al, *Child and working-age poverty in Northern Ireland over the next decade: an update* (Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2014)
<http://www.ifs.org.uk/publications/7054>

rieni, a arhosodd heb newid²³. Mae dangosyddion sgiliau a chymwysterau a thai yn rhoi darlun o welliant, ond aros heb newid ers 2005 a wna'r dangosyddion iechyd ar y cyfan.

2.34 Er mai Llywodraeth Cymru sy'n rheoli llawer o'r pwerau sydd eu hangen arni i drechu tlodi plant yn effeithiol ar lefel leol, nid oes ganddi reolaeth dros agweddau allweddol ar bolisi macroeconomaidd sy'n debygol o ddylanwadu ar gyfraddau tlodi plant. Mae'r rhain yn cynnwys polisi lles, polisi ariannol a pholisi cyllidol, er bod rhywfaint o ddatganoli polisi cyllidol ar y gorwel..

2.35 Mae Llywodraeth y DU wrthi'n rhoi diwygiadau sylweddol ar waith i'r system les. Mae'r rhain yn cynyddu ychydig ar y cymhellion ariannol i weithio, ar gyfartaledd, a gallai arwain at effeithiau cadarnhaol, bach, ar gyflogaeth, oriau gweithio ac enillion yng Nghymru. Ar lefel y Deyrnas Unedig, o gymharu â 2011-12, rhagwelir y bydd tlodi plant 3.7 pwynt canran (neu 500,000) yn uwch gan ddefnyddio'r mesur incwm-isel cymharol a 4.6 pwynt canran (neu 600,000) yn uwch gan ddefnyddio'r mesur incwm-isel absoliwt yn 2014-15 o gymharu â'r sefyllfa pe na byddai trethi a budd-daliadau yn cael eu diwygio.

²³ Gallai cyfradd gyflogaeth unig rieni gael ei dylanwadu gan y newidiadau i ymrwymïadau unig rieni o dan Gymorth Incwm rhwng Tachwedd 2008 a Mai 2012 (<https://www.gov.uk/government/publications/lone-parent-obligations-an-impact-assessment-rr845>).

3 Atal tlodi

Y Strategaeth Tlodi Plant a rhaglenni allweddol cysylltiedig

3.1 Dros y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar nifer fawr o raglennu sy'n cyfrannu at y nod o leihau tlodi plant, a phob un ohonynt a'i hamcanion a'i chynulleidfaoedd targed ei hun. Grwpwyd y rhaglenni hyn yng Nghynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn ôl yr amcan trechu tlodi y maent yn ceisio ei gyflawni:

- Atal tlodi a gwneud tlodi yn llai tebygol yn y tymor hir, drwy gynnig cymorth yn gynharach a chynnal y cymorth hwnnw hyd nes i deuluoedd ddod yn gadarn a hunangynhaliol.
- Helpu pobl i godi allan o dlodi a chymryd cyfleoedd gwaith ac ennill incwm drwy gydweithio â phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi gwahaniaethau mewn cyflogau a chyflogaeth ar sail rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.
- Camau i liniaru effaith tlodi sydd i'w gweld heddiw, drwy gynnig cymorth i leddfu'r profiad o fyw mewn tlodi.

3.2 Mae Penodau 3, 4 a 5 yr adroddiad hwn yn adolygu'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd ac effaith gwaith rhaglennu Llywodraeth Cymru yn erbyn pob un o'r amcanion hyn. Rhoddir crynodeb o'r adolygiad o'r gwaith rhaglennu o dan amcan Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, Atal Tlodi, yng ngweddill y bennod hon.

Camau Llywodraeth Cymru i atal tlodi


3.3 Mae atal tlodi yn y genhedlaeth nesaf yn golygu '[b]uddsoddi i roi'r dechrau gorau posibl i blant. O'r adeg y bydd rhywun yn cael ei genhedlu hyd nes y bydd yn oedolyn ifanc, ein nod [Llywodraeth Cymru] fydd lleihau anghydraddoldeb cyn gynted ag y bod modd a thorri'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol, tangyflawni addysgol a'r cyfleoedd gwannach mewn bywyd a ddaw yn eu sgîl'²⁴.

3.4 Caiff polisïau allweddol a weithredir gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, a'r themâu allweddol y dylent fynd i'r afael â hwy, eu crynhoi yn y ffigur isod. Nod y polisïau yn y maes hwn yw: gwella iechyd mamolaeth,

²⁴ <http://wales.gov.uk/docs/dsijg/publications/socialjustice/120625tackpovplancy.pdf>

darparu cymorth a gwasanaethau i blant ifanc, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol, a darparu cymorth cynnar.

Ffigur 3.1: Sut mae polisiâu allweddol yn cyfrannu at atal tlodi yn y genhedlaeth nesaf



*Hefyd Grant Amddifadedd Disgyblion a Chymunedau yn Gyntaf

Ffynhonnell: Ipsos MORI

3.5 Yn ychwanegol at weithredu polisi, mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gweithgareddau eraill a fydd yn helpu i wneud cynnydd tuag at atal tlodi yn y genhedlaeth nesaf. Mae hyn yn cynnwys gorchymyn ar gyrff cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnwys nodau yn ymwneud â thlodi plant yn eu strategaethau a chynlluniau gweithredu tlodi plant, i sicrhau y cynhelir gweithgarwch yn ymwneud â thlodi plant ar bob lefel o lywodraeth ac ar draws gwasanaethau²⁵. Oddi mewn i Lywodraeth Cymru, yr Is-adran Trechu Tlodi a'r Is-adran Cymunedau sydd â chyfrifoldeb dros hyrwyddo'r agenda hon drwy gynnal cyswllt â'r Trydydd Sector, Llywodraeth y DU a Chyflogwyr a'u lobïo. Roedd gan y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant rôl yn y gwaith o nodi'r blaenoriaethau a'r heriau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy er mwyn trechu tlodi plant a rhoi cyngor i Weinidogion. Cynhaliodd aelodau'r grŵp ddadansoddiad o Ffigurau Incwm Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog 2009 a rhoddwyd ystyriaeth yn benodol i ddau adroddiad a

²⁵ Trafodir effaith y ddyletswydd statudol hon ymhellach ym Mhennod 7.

gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree: *What is needed to end child poverty in Wales* (Winckler)²⁶ a *What is needed to End Child Poverty in 2020* (Hirsch)²⁷.

3.6 Gall amrywiaeth o randdeiliaid ddylanwadu ar ganlyniadau sydd o bwysigrwydd allweddol i atal tlodi. Y rhanddeiliaid sydd â'r mwyaf o botensial o ran dylanwad ar atal tlodi yw Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys Awdurdodau Lleol).

3.7 Mae nifer o dybiaethau ynghlwm wrth ddylunio'r rhaglennu sydd yn eu lle yn y maes hwn.

- **Mae'r rhaglennu yn defnyddio modelau ymyrraeth gynnar.** Gellir cymhwyso geirfa 'ymyrraeth gynnar' mewn dwy ffordd, ac mae'r ddwy ffordd yn disgrifio rhaglenni yn y maes hwn. Yn gyntaf, mae'r rhaglenni yn canolbwyntio ar flynyddoedd cynnar y plant, a gaiff eu hystyried yn gyfnod cyfyngedig ar gyfer datblygu sgiliau allweddol: ystyrir bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym mlynnyddoedd cynnar bywydau plant yn allweddol i gau'r bwlch cyrhaeddiad.²⁸ Yn ail, mae'r rhaglenni yn ceisio ymyrryd yn gynnar i ddiwallu anghenion teuluoedd cyn iddynt ddatblygu i fod yn faterion mwy cymhleth sydd yn fwy costus i'w datrys. Caiff y rhaglenni hyn eu priodoli ar y dybiaeth y bydd ymyrraeth gynnar yn fwy effeithiol ac yn fwy costeffeithiol na cheisio datrys problemau sydd wedi ymwreiddio; mae'r model 'buddsoddi i arbed' hwn yn amlwg ar draws gwaith rhaglennu Llywodraeth Cymru.

- **Mae'r rhaglenni yn defnyddio cymysgedd o wasanaethau cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu.** Mae gwasanaethau cyffredinol yn cynnwys darpariaeth addysg statudol, ac mae'r cymorth wedi'i dargedu yn canolbwyntio ar grwpiau dan anfantais. Mae sawl ffurf i'r dulliau targedu, gan gynnwys targedu daearyddol, a thargedu grwpiau risg penodol. Y dybiaeth sy'n sylfaen i'r rhaglenni yw y bydd cymysgedd o wasanaethau cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu yn

²⁶ <http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/end-child-poverty-wales-summary.pdf>

²⁷ http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/2275_0.pdf

²⁸ <http://www.dwp.gov.uk/docs/early-intervention-next-steps.pdf>

helpu i fynd i'r afael â'r amcanion polisi sy'n flaenoriaeth yn y maes hwn.

Effeithiolrwydd ac effaith camau Llywodraeth Cymru i atal tlodi

3.8 At ddibenion y gwerthusiad, penderfynodd y tîm gwerthuso a Llywodraeth Cymru ar ddetholiad o raglenni allweddol a fydd yn cyfrannu at atal tlodi yn y genhedlaeth nesaf er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd a'u heffaith. Dewiswyd y rhaglenni canlynol:

- Cymorth
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Dechrau'n Deg
- Canolfannau Plant Integredig
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd
- Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru (Rhagori)
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

3.9 Dewiswyd y rhaglenni hynny a fyddai'n debygol o gyfrannu'n fwyaf sylweddol at ddangosyddion yn ymwneud â thlodi plant yn y maes hwn, a chan roi amrywiaeth o raglenni ar draws y prif feysydd canlyniadau fel a amlinellir yn Ffigur 3.1. Bu tîm y gwerthusiad yn adolygu'r dystiolaeth oedd ar gael ynglŷn â gweithredu ac effaith pob un o'r rhaglenni. Mae nifer o'r rhaglenni hyn yn gysylltiedig â Strategaeth Tlodi Plant gyntaf Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2005. Ceir disgrifiad o bob un o'r rhaglenni a adolygwyd yn yr Atodiad a rhoddir crynodeb yn Nhabl 3.1.

Tabl 3.1: Crynodeb o nodweddion y rhaglenni: atal tlodi yn y genhedlaeth nesaf

<i>Rhaglen</i>	<i>Canlyniadau sy'n berthnasol i'r Strategaeth?</i>	<i>Targedu</i>	<i>Maint y broblem / rhaglen</i>	<i>Cost y rhaglen</i>	<i>Amserlen y rhaglen</i>	<i>Canlyniadau allweddol / effaith</i>
Dechrau'n Deg	Oes: canlyniadau'r plant yn cwrmpasu datblygu sgiliau gwybyddol a chorfforol.	Pob teulu â phlant 0-3 oed yn y 140 ardal o amddifadedd mwyaf yng Nghymru	Mae tua 1 o bob 3 plentyn yng Nghymru yn byw mewn teulu incwm isel, ac mae i'r plant hyn ganlyniadau cymharol wan ar draws dangosyddion iechyd ac addysg. Mae Dechrau'n Deg yn targedu teuluoedd mewn 140 ardal (18,000 o blant), i'w ehangu i 286 ardal (36,000). Rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2012, derbyniodd 19,171 o blant 0-3 oed wasanaethau ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg, a derbyniwyd eu cynigion gan 3,113 o blant 2 neu 3 oed a oedd newydd ddod yn gymwys i gael cynnig gofal plant llawn neu ostyngedig.	£74m y flwyddyn + £19m ar gyfer gwariant cyfalaf 2013.	Ers 2006/07, ac yn parhau.	Rhy gynnar i sefydlu effeithiau tymor hwy. Diffyg data llinell sylfaen neu grwpiau i gymharu'n dda yn golygu bod ansicrwydd ynglŷn ag effaith y rhaglen. Rhywfaint o dystiolaeth y gallai Dechrau'n Deg fod yn gwella canlyniadau addysgol i blant, yn arwain at newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad rhieni. 76.3 y cant o'r plant sy'n byw yn ardaloedd a elwai ar Dechrau'n Deg, a drodd yn 4 oed rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012, wedi eu himiwneddio yn llawn erbyn eu pen-blwydd yn 4 oed. 62.6 y cant o blant Dechrau'n Deg, rhwng 35 a 37 oed ac a aseswyd rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2012, yn ôl asesiad Ymwelwyr Iechyd, wedi cyrraedd neu fynd y tu hwnt i'r normau datblygiadol ar gyfer yr oedran hwn.
Canolfannau Plant Integredig	Ydyn. Addysg blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd.	Targedu yn ddaearyddol yn ardaloedd Cymorth.	Ar hyn o bryd, 44 Canolfan mewn 22 Awdurdod Lleol.	Costau cyfalaf cychwynnol £12m. (Ariannu drwy Cymorth)	2008 ac yn parhau	Tystiolaeth gyfyngedig sydd bod gan y Canolfannau systemau sy'n casglu data meintiol cynhwysfawr i fonitro a gwerthuso eu gwaith. Ar sail data ansoddol: O ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig yn y Canolfannau, mae gan blant sy'n mynychu'r Canolfannau well sgiliau cymdeithasol a gwybyddol. Mae cymryd rhan mewn cyrsiau addysg a hyfforddiant yn y Canolfannau wedi arwain at rieni yn ennill cymwysterau a chael swyddi. Mae'r ddarpariaeth gofal plant yn y Canolfannau yn galluogi llawer o rieni i fynychu cyrsiau addysg a hyfforddiant. Teimla'r rhieni a'r teuluoedd sy'n ymweld â'r Canolfannau bod eu hiechyd corfforol a seicolegol wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau ymwybyddiaeth iechyd a gynhelir yn y Canolfannau. Mae rhieni a theuluoedd sy'n defnyddio'r Canolfannau yn elwa o well mynediad at wasanaethau am fod amrywiaeth o weithgareddau, sefydliadau a gwasanaethau wedi eu lleoli mewn un Canolfan Plant Integredig.

Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion	Ydyn. Lleihau bwlch cyrhaeddiad addysgol.	Cyffredinol	Pob ysgol yn elwa. Roedd y bylchau cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill yn 20 pwynt canran (CA2) a 34 pwynt canran (CA4) yn 2011.	Ddim ar gael.	2008-2011	Nid yw gwerthusiad 2010 o'r cynlluniau peilot yn cynnwys unrhyw asesiad meintiol o ganlyniadau/effaith. Yn ôl y gwerthusiad, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y cynlluniau peilot, ond bod disgwyl iddynt gyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru o drechu tlodi cyfleoedd addysgol a datblygu sgiliau a gwybodaeth o'n gweithlu sy'n dysgu. Maent hefyd wedi cryfhau'r pwyslais ar rôl ysgolion wrth hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.
Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru (Rhagori)	Ydyn. Cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol (CA) 1-4	Ysgolion sydd â chyfran uchel (20%+) o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	Cyfranogodd mwy na 600 o ysgolion. Roedd y bylchau cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill yn 20 pwynt canran (CA2) a 34 pwynt canran (CA4) yn 2011.	£14.5m y flwyddyn ym mlyneddodd a 2. 2008-09: £16.26m 2009-10: £6.59m 2010-11: £1.03m + £1m y flwyddyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal	Rhaglen 2 flynedd i gychwyn, o 2006/07. Estynnwyd hyd 2010-11.	Rhywfaint o dystiolaeth bod Rhagori yn cael effaith ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn CA2: gwelwyd lleihad o 10.2 pwynt canran i 4.4 pwynt canran dros gyfnod 2006-2008 yn y bwlch rhwng perfformiad disgyblion prydau ysgol am ddim yn Rhagori a'r ysgolion nad oeddynt yn rhan o Rhagori.
Menter Brechwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd	Ydyn. Canlyniadau'n ymwneud â deiet yn cael effaith ar ddatblygu sgiliau gwybyddol a chyrhaeddiad.	Pob plentyn yn yr ysgolion a gynhelir yng Nghymru. (Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn unig yn y flwyddyn gyntaf.)	Cyfranogodd mwy na thri chwarter yr ysgolion. Roedd y bylchau cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill yn 20 pwynt canran (CA2) a 34 pwynt canran (CA4) yn 2011.	£12.7m yn 2012-13	Dechreuwyd yn 2005, yn parhau.	Roedd plant yn ysgolion yr ymyriadau yn bwyta nifer fwy o eitemau iach i frecwast na phlant yn ysgolion y grŵp rheoli, a gwelwyd cynnydd uwch yn yr ysgolion o amddifadedd mwyaf. Er nad oedd prif effeithiau ar osgoi brechwast, gwelwyd rhyngweithio sylweddol, gan awgrymu llai o achosion o osgoi brechwast yn yr ysgolion a'r aelwydydd o amddifadedd mwy.
Cymorth	Ydyn. Canlyniadau yn cynnwys cymorth i deuluoedd, a hyfforddiant a mentora i leihau NEETs	Daearyddol, a thargeddu yn ôl angen. Plant 0-25	Cynhaliwyd 890 o raglenni lleol. Bron i 1 mewn 4 o bobl 16-24 yn NEET.	Cyfanswm o £235m rhwng 2003/04 a 2008/09. £50m y flwyddyn wedi hynny.	2003/04 – 2011/12 (disodlwyd gan Deuluoedd yn Gyntaf)	Cyflawnodd Cymorth ei rôl o ran gwella'r arfer o weithio mewn partneriaeth er mwyn cynorthwyo gwasanaethau i blant a phobl ifanc dan anfantais, helpu i roi gwasanaethau ataliol yn eu lle ac ar agenda'r darparwyr gwasanaethau prif ffrwd, a chyflwyno ffyrdd arloesol o weithio. Nifer gyfyngedig yn unig o gynigion a wnaed i ddangos i ba raddau mae'r Partneriaethau a'u prosiectau a ariannwyd gan Cymorth wedi gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc.
Teuluoedd yn Gyntaf	Oes: canlyniadau yn cynnwys cyflogaeth i rai mewn teuluoedd incwm isel, a phlant mewn tlodi yn cyflawni eu potensial.	Daearyddol (canolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.	Yn cwmpasu pob un o'r 22 ALI. Bron i 1 ym mhob 4 o bobl 16-24 oed yn NEET.	£42m y flwyddyn am 5 mlynedd	Ardaloedd arloesi o 2010 ymlaen. Cyflwyno fesul cam yn genedlaethol o 2012 ymlaen.	Nid yw'r dystiolaeth ar ganlyniadau i deuluoedd ar gael hyd yma. Er hyn, mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at rai manteision cynnar y rhaglen: Mae Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn helpu i greu cyswllt â theuluoedd yn fwy effeithiol a gwella effeithiolrwydd gwaith yr asiantaethau. Ystyrir bod paneli Tîm o Amgylch y Teulu yn fwy ymatebol o gymharu â'r trefniadau blaenorol i asesu anghenion teuluoedd. Gwell gwaith amlasiantaeth yn golygu cymorth mwy effeithiol i deuluoedd ag anghenion niferus yn ogystal â gwell defnydd o adnoddau lleol.

Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd	Ydyn. Ceisio cryfhau teuluoedd a mynd i'r afael â chanlyniadau gwannach sy'n gysylltiedig â gofal plant.	Daearyddol, a thargeddu yn ôl angen.	Adroddiad Niwed Cudd 2008 yn amcangyfrif bod 17,500 o blant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio gan rieni sy'n camddefnyddio cyffuriau. Targed yw cynorthwyo 270 o deuluoedd y flwyddyn. Ar gael mewn 13 Awdurdod Lleol. Bwriedir iddi weithredu ledled Cymru erbyn 2014.	Bydd £4.5m ar gael pan gaiff ei chyflwyno yn genedlaethol.	Peilota ers 2010. Cyflwyno yn genedlaethol 2011-14.	Rhywfaint o dystiolaeth o effaith ar les oedolion mewn teuluoedd a gynorthwyir drwy'r rhaglen, gyda sgorau cymedrig ar Raddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh (WEMWBS) yn cynyddu o 45.13 cyn yr ymyrraeth i 51.44 wedyn. Ceir tystiolaeth hefyd o welliant bach yn ymddygiad y plant, yn seiliedig ar Holiaduron Cryfderau ac Anawsterau hunanlenwi. Data Graddfa Cyrraedd Nod hefyd yn dangos y cafwyd llwyddiant sylweddol yn ystod y cyfnod dwys cychwynnol ar draws pob safle, gyda pherfformiad mwy 'cyson' rhwng diwedd y cyfnod dwys a'r adolygiad chwe mis.
--	--	--------------------------------------	---	--	---	---

Nodweddion rhaglenni sy'n canolbwyntio ar drechu tlodi

- 3.10 Yn nodweddiadol, mae'r rhaglenni yn y maes hwn yn gweithio tuag at ganlyniadau sy'n uniongyrchol berthnasol i ganlyniadau'r Strategaeth Tlodi Plant. Yn benodol, mae Cymorth, a'r rhaglen a ddaeth i'w holynu, Teuluoedd yn Gyntaf, yn mynd i'r afael â phob un o dri nod cyffredinol y Strategaeth Tlodi Plant, ac mae dogfennau polisi Teuluoedd yn Gyntaf yn cydnabod yn glir bod y rhaglen yn rhan greiddiol o waith Llywodraeth Cymru i gyrraedd nodau'r Strategaeth. Mae ei nodau yn cynnwys sicrhau bod plant yn cyflawni eu llawn botensial, a sicrhau bod teuluoedd yn 'meithrin ei gilydd, yn gallu gwrthsefyll problemau ac yn ddiogel'.
- 3.11 Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn ceisio mynd i'r afael a'r bwlch cyrhaeddiad addysgol (fel oedd Rhagori, a ddisodlwyd gan Grant Amddifadedd Ysgolion). Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd i blant, ond hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar lywodraethu (gan gynnwys rheoli'n effeithiol ar draws lefelau cenedlaethol/lleol/ysgol, a rôl cymunedau lleol a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol). Mae Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn gysylltiedig yn anuniongyrchol â'r canlyniadau hyn, yn y modd y mae'n ceisio gwella ymddygiad deietegol a ddylai effeithio ar ddatblygiad gwybyddol a chyrhaeddiad academiaidd y plant.
- 3.12 Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd – fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymorth – yn fath o raglen ymyrraeth gynnar, ond ei bod yn cael ei thargedu at deuluoedd mewn perygl. Mae'n ceisio galluogi plant i aros yn y teulu, yn hytrach na mynd i ofal, gyda'r dybiaeth y bydd eu canlyniadau hirdymor yn well petaent yn aros yn y teulu.

Targedu

- 3.13 Mae'r rhaglenni yn y maes hwn yn aml yn defnyddio cymysgedd o ddulliau targedu daearyddol ac unigol. Mae Dechrau'n Deg wedi ei chanolbwyntio mewn ardaloedd daearyddol penodol a chaiff ei chynnig i grŵp targed o fuddiolwyr. Mae Dechrau'n Deg yn targedu pob rhiant i

blentyn 0-3 oed yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae'r modd y caiff gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf eu targedu yn cael ei bennu yn lleol ond dylent gael eu cyfeirio at deuluoedd sydd ag anghenion nad ydynt yn galw am wasanaethau statudol. Ym mholisi addysg, bu rhywfaint o dargedu unigol hefyd (e.e. Rhagori, a'r rhaglen a'i holynodd, Grant Amddifadedd Disgyblion, sy'n canolbwyntio ar blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim), er bod tystiolaeth y bu tuedd i hyn arwain at ollyngiadau, gydag arian yn cael ei ddargyfeirio i blant sy'n tangyflawni yn hytrach na phlant difreintiedig²⁹. Mae rhai o'r rhaglenni addysg yn rhai cyffredinol, gan gynnwys Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, a Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Maint

- 3.14 Dechrau'n Deg yw'r rhaglen fwyaf o bell ffordd yn yr elfen hon, ac eto y mae'n amlwg ei bod yn cyrraedd cyfran cymharol fach o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru.
- 3.15 Ers i'r rhaglenni gael eu dewis ar gyfer yr adolygiad hwn, y mae'n amlwg bod anghydraddoldebau addysgol yn llawer uwch ar yr agenda bellach, a chyflwynwyd cyfres o bolisïau yn ddiweddar i geisio cau'r bwlch cyrhaeddiad: mae mentrau newydd yn cynnwys y Cyfnod Sylfaen, y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, Grant Amddifadedd Disgyblion, a'r Cynllun Gwella Ysgolion. Yn flaenorol, roedd menter cymharol isel o ran cost yn ei lle (Rhagori) i gau bwlch mawr a pharhaus mewn cyrhaeddiad. Yn y gorffennol, byddai ysgolion yn cael eu cymell i gyrraedd targedau cyrhaeddiad cyffredinol ('codi'r bar a chau'r bwlch') a oedd, mewn rhai ffyrdd, yn tynnu sylw oddi

²⁹ Dyma ganlyniad gwerthusiad rhaglen Rhagori. Mae'r arweiniad i ysgolion ar Grant Amddifadedd Disgyblion yn llawer mwy clir y dylai'r grant gael ei ddefnyddio i ariannu mentrau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn unig. Mae'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 yn nodi y dylai'r Grant Amddifadedd Disgyblion gael ei ddefnyddio i wella cyrhaeddiad i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn unig. (<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131216-pdg-short-guidance-for-practitioners-cy.pdf>) Er hyn, mae'r dystiolaeth gynnar o werthuso'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn awgrymu bod y grant yn cael ei ddefnyddio i dargedu disgyblion yn ehangach na'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn unig.

wrth gau'r bwllch cyrhaeddiad, gan gyfyngu ar effaith agenda'r Strategaeth Tlodi Plant yn y maes hwn. Er hynny, mae datblygiadau diweddar yn dangos y ceir mwy o ganolbwyntio ar wella cyrhaeddiad ymysg plant difreintiedig fwyaf.

- 3.16 Mae'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn targedu cyfran cymharol fach o'r teuluoedd yr amcangyfrifir sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau: i ryw raddau, gallai hyn fod yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhaglen wedi ei thargedu at y rhai sydd ag anghenion eithafol.

Cost ac amseru

- 3.17 Ar draws y rhaglennu a werthuswyd, tair rhaglen y blynyddoedd cynnar / ymyrraeth gynnar – Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymorth – sy'n cyfrif am gyfran fawr o'r gwariant. Mae hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth bod blynyddoedd cynnar plant yn gyfnod cyfyngedig i ddatblygu sgiliau hanfodol, a bod buddsoddi fan hyn yn fwy costeffeithiol nag mewn ymyriadau yn nes ymlaen.
- 3.18 Mae dystiolaeth yn dechrau dod i'r amlwg ynglŷn ag effaith y polisïau mwyaf yn yr elfen hon. Er enghraifft, rhyddhawyd adroddiad sylfaen Teuluoedd yn Gyntaf yn 2013 a chyhoeddwyd adroddiad effaith Dechrau'n Deg yn niwedd 2013. Mae dystiolaeth gwerthuso Dechrau'n Deg yn awgrymu y ceir effeithiau cadarnhaol ar ddylunio a defnyddio gwasanaethau, a'i fod yn cael ei dderbyn yn dda ymysg y buddiolwyr³⁰. Daw i'r casgliad hefyd ei bod yn *bosibl* y cafodd Dechrau'n Deg effaith gadarnhaol ar ganlyniadau rhyant a phlentyn ond nid oedd y dystiolaeth hon yn gadarn.

³⁰ <http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/2014/140131-flying-start-synthesis-report-en.pdf>

“Gan dybio bod teuluoedd sy’n byw yn ardaloedd Dechrau’n Deg wedi dechrau o ‘sylfaen’ is na’r rhai yn y grŵp cymharu cyn cyflwyno’r rhaglen, mae’r diffyg gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn yr adroddiad hwn yn awgrymu y gallai Dechrau’n Deg fod wedi peri gwelliannau i deuluoedd yn ardaloedd Dechrau’n Deg (yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru), felly mae eu canlyniadau bellach ar yr un lefel â rhai mewn ardaloedd tebyg llai difreintiedig. Serch hynny, ychydig bach iawn o ddata sy’n cynnig tystiolaeth gadarn bod teuluoedd yn ardaloedd Dechrau’n Deg cyn y rhaglen wedi dechrau o sylfaen is o ran y canlyniadau a fesurir yn y gwerthusiad hwn. Mae’r data sydd ar gael – data cyrhaeddiad addysgol er enghraifft – yn awgrymu bod yr esboniad hwn yn dal dŵr.”

(Wedi ei gyfieithu) Adroddiad Gwerthuso Effaith Dechrau’n Deg (Ionawr 2014)

- 3.19 Sut bynnag, mae gwerthusiadau yn annog i roi ystyriaeth mwy hirdymor i raglenni megis Dechrau’n Deg y gallai eu heffeithiau gymryd amser i ddod i’r amlwg. Yn yr un modd, mae gwerthusiad llawn Teuluoedd yn Gyntaf yn ei ddyddiau cynnar, er bod tystiolaeth flaenorol am raglen Cymorth a’i rhagflaenai yn awgrymu y cafodd effaith gadarnhaol ar ddylunio gwasanaethau.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd ac effaith

- 3.20 Mae diwylliant o werthuso ym maes rhaglennu ar gyfer plant a theuluoedd, ac iechyd, ac mae tystiolaeth gref o’r gwaith gwerthuso mewn perthynas â nifer o bolisiau, gan gynnwys gwerthusiad effaith lled-arbrofol o Ddechrau’n Deg (ond â rhywfaint o wendidau yn sgil dyluniad y rhaglen) a Hap-dreial wedi’i Reoli i fesur effaith Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Mae pedwar gwerthusiad arall yn defnyddio (neu’n gobeithio defnyddio) data gweinyddol a gesglir yn rheolaidd i fesur effaith, ynghyd ag asesiadau ansoddol a meintiol o weithredu. Mae dadansoddi gwerth am arian yn fwy cyfyngedig, a gwneir hyn yn achos Teuluoedd yn Gyntaf yn unig. Mae cwmpas y

gwerthusiad yn dueddol o fod yn gryf neu'n gymharol gryf, gan gwmpasu amrywiaeth o fesurau canlyniadau a chwmpas da i'r rhaglen. Mae'r rhaglenni yn y maes hwn yn defnyddio mesurau canlyniadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nodau'r Strategaeth Tlodi Plant. Caiff Teuluoedd yn Gyntaf ei hybu i fod o bwys arbennig o ran cyrraedd nodau'r Strategaeth, gan y lluniwyd y rhaglen i fynd i'r afael ag anghenion y Strategaeth ym mhob un o'r tair elfen o ganlyniadau.

- 3.21 Mae'r diffyg data sylfaen neu grŵp cymharu cadarn yn golygu bod ansicrwydd ynglŷn ag effaith Dechrau'n Deg. Mae tystiolaeth y gwerthusiad yn awgrymu y gallai Dechrau'n Deg fod wedi chwarae rhan wrth helpu plant i fod ar yr un lefel â'u cyfoedion mwy breintiedig o ran canlyniadau addysgol³¹. Bu i'r gwerthusiad hefyd weld newidiadau mesuradwy a chadarnhaol yn ymddygiad rhieni, a'r gwelliannau mwyaf ym maes disgyblu a gosod ffiniau³². "Canfu'r astudiaeth hydredol nad oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ystadegol rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg a'r ardaloedd heb fod yn rhan o Dechrau'n Deg o ran hyder rhieni, amgylchedd y cartref, lefel y gefnogaeth i rieni neu iselder, fodd bynnag, efallai mai dim ond adlewyrchu diffyg data cyn Dechrau'n Deg am ganlyniadau rhieni mae hyn, sy'n golygu nad oes posibil mesur graddfa'r newid sydd wedi digwydd efallai yn ardaloedd Dechrau'n Deg."³³
- 3.22 Yn yr un modd, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Rhagori yn cael effaith ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2: bu i'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion prydau ysgol am ddim yn ysgolion Rhagori ac ysgolion heb fod yn rhan o Ragori leihau o 10.2 pwynt canran i 4.4 pwynt canran dros gyfnod 2006-2008.
- 3.23 Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael effaith gadarnhaol ar les oedolion ac ymddygiad plant mewn teuluoedd a gynorthwyr drwy'r gwasanaeth hwn. Mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi y ceir llwyddiant sylweddol yn ystod cyfnod

³¹ <http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/2014/140131-flying-start-synthesis-report-cy.pdf>

³² *Ibid.*

³³ *Ibid.*

dwys cychwynnol y rhaglen o ran cyrraedd y nodau y mae'r teuluoedd yn gosod i'w hunain.

- 3.24 Gwelwyd bod Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr eitemau iach yr oedd plant yn ysgolion yr ymyriadau yn eu bwyta i frecwast³⁴.
- 3.25 Mae'n ymddangos bod y rhaglenni yn y maes hwn wedi gwneud cynnydd o ran newid systemau a chyflwyno arferion gweithio newydd. Er enghraifft, ystyrir mai un o lwyddiannau mawr gwerthusiad Cymorth oedd sefydlu partneriaethau amlasiantaeth effeithiol, a hynny o sylfaen o ychydig bach iawn o weithio mewn partneriaeth. Bu'r partneriaethau hyn yn sail i raglenni eraill, megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Yn yr un modd, daw gwerthusiad ail flwyddyn Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i'r casgliad bod y gwasanaeth yn dechrau cael effaith ar gyflenwi gwasanaethau yn ehangach, a bod y gwerthusiad o ardaloedd arloesi Teuluoedd yn Gyntaf yn gallu nodi gwersi ynglŷn â chyflenwi gwasanaethau yn effeithiol. Yn yr un modd, daeth gwerthusiad Rhagori i'r casgliad y caiff gwaddol y rhaglen ei gweld yn y modd y mae proffil anfantais economaidd-economaidd ymysg ysgolion wedi codi, a gwell dealltwriaeth gan ysgolion o sut i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae rhaglenni eraill yn nodi enghreifftiau penodol o effaith, gan gynnwys Dechrau'n Deg (mae gan rieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg well mynediad at wasanaethau, ac mae ganddynt farn gadarnhaol iawn ar y gwasanaethau).
- 3.26 Ceir tystiolaeth bod timau Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn y meysydd hyn yn peilota'r rhaglenni cyn eu cyflwyno ledled y wlad er mwyn treialu'r dulliau cyflenwi a chyda'r bwriad o asesu'r effaith cyn buddsoddi ar lefel ehangach. Er hyn, mae angen i ddadansoddwyr, swyddogion polisi a gwleidyddion gydweithio'n agos, gyda chymorth arbenigwyr allanol fel sy'n briodol, i sicrhau y gall tystiolaeth y rhaglenni peilot hyn gael ei defnyddio i gyfarwyddo penderfyniadau polisi a'r camau i'w cyflwyno'n ehangach. Er enghraifft, cafodd Menter Brecwast

³⁴ Graham F Moore¹, Simon Murphy, Katherine Chaplin, Ronan A Lyons, Mark Atkinson a Laurence Moore, "Impacts of the Primary School Free Breakfast Initiative on socio-economic inequalities in breakfast consumption among 9–11-year-old schoolchildren in Wales", *Public Health Nutrition* (2013).

am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, Dechrau'n Deg a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd eu cyflwyno'n genedlaethol cyn i'r gwaith gwerthuso ddod i gasgliadau ynglŷn ag effaith y rhaglennu yn ardaloedd cyfnod 1.

3.27 Yn yr un modd, gallai fod yn fuddiol ystyried sut gall tystiolaeth ynglŷn â gweithredu gael ei rhannu'n fwy effeithiol ag ymarferwyr yn ogystal â thimau rhaglenni cenedlaethol. Mae nifer o bolisiâu yn caniatáu hyblygrwydd sylweddol yn lleol o ran cyflenwi, ac felly mae'n hollbwysig bod yr ymarferwyr sy'n ymwneud â dylunio a gweinyddu'r rhaglenni yn lleol yn ymwybodol o'r hyn sy'n gweithio. Er enghraifft, mae tystiolaeth gynnar o rai o'r gwerthusiadau yn y maes hwn yn dangos nad yw rhai ymarferwyr yn ymwybodol o dystiolaeth o'r cyfnodau arloesi ynglŷn â'r hyn sy'n 'gweithio' wrth weithredu. Mae model 'Setiau Dysgu' Teuluoedd yn gyntaf – sy'n annog y staff cyflenwi i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu strwythuredig i rannu enghreifftiau o arferion da – yn ffordd werthfawr y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

3.28 Ar draws y rhaglenni yn yr elfen hon, ceir tystiolaeth o nifer o themâu, sydd wedi eu hamlinellu isod.

- Mae ymyriadau ar gyfer teuluoedd yn dueddol o fod ar ffurf 'buddsoddi i arbed', gan geisio ymyrryd ar bwynt cyn i broblemau'r teuluoedd waethygu i'r graddau bod angen ymyriadau cymharol gostus. Yr egwyddor hon sy'n sail i fuddsoddiadau dwys Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, ac mae egwyddor debyg yn berthnasol i raglen Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (sy'n ymyrryd ar bwynt o argyfwng i deuluoedd, ond cyn bod angen ymyrraeth statudol gostus / cymharol aneffeithiol). Er bod elfennau eraill o dystiolaeth yn awgrymu bod yr egwyddor hon yn gadarn, ni chaiff ei rhoi ar brawf yn gadarn yng ngwerthusiadau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn gyntaf na Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae hyn arbennig o arwyddocaol yn achos gwerthusiad Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, nad yw'n rhoi ar brawf yr egwyddor ganolog sy'n sail i'r rhaglen: bod canlyniadau plant yn well petaent yn gallu cael eu gofalu'n ddigonol yn eu teuluoedd yn

hytrach na gorfod mynd i ofal neu dreulio cyfnod estynedig mewn gofal am resymau amddiffyn³⁵.

- Mae ymdrech glir yn nifer o'r polisïau yn y maes hwn i gyfuno cyflenwi â rhaglennu ategol. Er enghraifft, gall ysgolion wneud cais am Arian Cyfatebol Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion: mae'r arian cyfatebol ar gael i'r ysgolion hynny a all ddangos y byddant yn defnyddio'r grant i gynnwys y gymuned leol yn addysg a gwaith y plant fel rhan o glwstwr o ysgolion. Mae defnyddio'r grant fel hyn yn cyd-fynd â nodau'r ddau bolisi: er bod y dystiolaeth yn dangos bod cynnwys y gymuned yn addysg y plant a gweithio mewn clwstwr o ysgolion yn effeithiol, mae'r arferion hyn yn weddol gyfyngedig ar hyn bryd. Bydd angen i waith gwerthuso'r rhaglenni hyn ystyried i ba raddau y mae cynnig arian cyfatebol ychwanegol wedi ysgogi'r defnydd o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Yn yr un modd, mae'r canllawiau i Deuluoedd yn Gyntaf yn annog awdurdodau lleol i greu cyswllt rhwng rhaglenni megis Cymunedau yn Gyntaf, ac mae ardaloedd Dechrau'n Deg hefyd yn gorgyffwrdd ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i ryw raddau. Drwy greu cyswllt rhwng y rhaglenni, caiff yr awdurdodau eu hannog i ddarparu cymorth o ansawdd gwell a llyfnach i deuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Er hyn, mae'r cysylltiadau hyn yn golygu bod adnoddau yn cael eu cyfeirio'n gynyddol i ardaloedd penodol ac nid i deuluoedd difreintiedig sy'n byw y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- Er bod dystiolaeth bod rhai cysylltiadau unigol yn bodoli rhwng rhaglenni penodol, **cyhoeddwyd cynllun integredig y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn 2013**³⁶. Mae'r cynllun yn torri ar draws saith o adrannau'r llywodraeth, gan gwmpasu iechyd a lles, rianta, teuluoedd, cymunedau, addysg gynnar, addysg a gofal plant. Mae'n anelu i integreiddio polisi ar gyfer plant 0-7 oed a'r nodau yn y pen

³⁵ Gwnaed yr argymhellad hwn gan werthusiad rhaglen Opsiwn 2 a'i rhagflaenodd, ond mae'r ffaith i Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd gael ei chyflwyno'n genedlaethol yn golygu nad yw'r dybiaeth hon yn cael ei rhoi ar brawf mwyach fel rhan o'r gwerthusiad sydd yn canolbwyntio'n awr ar weithredu'r gwersi yn hytrach na mesur yr effaith.

³⁶ <http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf>

draw yw lleihau anghydraddoldebau a thlodi; y mae felly yn ategu ac yn ymestyn gweithgarwch y Strategaeth Tlodi Plant yn y meysydd hyn. Wrth ddatblygu'r cynllun, lluniwyd adolygiad cynhwysfawr o dystiolaeth hirdymor ryngwladol y rhaglenni yn y maes hwn. Comisiynwyd y cynllun gan yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Iechyd, ond bu'r Tîm Trechu Tlodi ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu'r cynllun. **Mae ffocws a chynnwys y Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn gydnaws iawn â nodau'r Strategaeth Tlodi Plant ac yn cynnig cyfle i wella effeithiolrwydd y gwaith rhaglennu yn y maes hwn.** Cyhoeddwyd **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid** hefyd yn 2013³⁷. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET, ac ar gynorthwyo plant 11-15 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET. Ymhellach, diben y **Datganiad Polisi ar Sgiliau**³⁸, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, yw cyfarwyddo'r camau ynghylch polisi sgiliau a chyflogaeth ôl-14 dros y deng mlynedd nesaf.

- Mae dystiolaeth gwaith gwerthuso cychwynnol y rhaglenni yn awgrymu ei bod yn bwysig cael fframwaith clir yn ei le o'r man cyntaf i nodi'n glir sut bydd yr ymarferwyr / timau gweithredu yn cael eu barnu. Caiff hyn ei ddarparu'n rhannol drwy'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n nodi'r dangosyddion y bydd perfformiad yn cael ei fesur yn eu herbyn, ynghyd â'r fframweithiau, y cynlluniau a'r datganiadau polisi megis y rhai a nodir uchod, a'r dangosyddion perfformiad a gaiff eu pennu ar lefel y rhaglenni unigol. Yr un mor bwysig fydd sicrhau bod y dystiolaeth werthuso yn cyrraedd yr ymarferwyr, a bod gan y gwerthusiadau strategaethau clir yn eu lle i sicrhau bod y dystiolaeth yn cael ei rhannu. Mae nifer o raglenni yn yr elfen hon yn defnyddio cymysgedd o ragnodi a hyblygrwydd lleol wrth gyflenwi (e.e. Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Grant Amddifadedd Disgyblion). Mae hyn yn esgor ar heriau ynglŷn â'r ffordd orau i

³⁷ <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf>

³⁸ <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140129-policy-statement-on-skills-cy.pdf>

fonitro'r modelau y mae'r ymarferwyr yn eu defnyddio a nodi enghreifftiau addawol o ymarfer.

- Mae'r ymyriadau addysgol newydd yn canolbwyntio ar godi safonau arweinyddiaeth ysgol ac addysgu, ar wella strwythurau sefydliadol drwy gyflwyno consortia rhanbarthol i arwain a monitro cynnydd, ynghyd â pharhau i dargedu arian er budd plant difreintiedig. Mae'r mentrau hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth y caiff safonau eu gwella ymysg plant difreintiedig drwy ethos yr ysgol, ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r addysgu, gymaint â thrwy gymorth ychwanegol wedi ei dargedu er budd plant dan amgylchiadau difreintiedig. Ymddengys bod y ffocws cryf ar gau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol wedi ei ysgogi yn rhannol drwy ganlyniadau siomedig Cymru yn asesiadau rhyngwladol PISA 2009, ond mae'n cynnig cyfle i'r Tîm Trechu Tlodi symud ymlaen ar ei agenda yn y maes hwn³⁹.

Costau / buddion y rhaglenni sy'n ceisio atal tlodi

3.29 Nid oedd y dystiolaeth sydd ar gael ar gost a budd y gwaith rhaglennu yn yr elfen hon yn ddigonol i alluogi cynnal dadansoddiad cost a budd. I gynnal dadansoddiad cost a budd, mae angen tystiolaeth gadarn ynglŷn ag effaith rhaglen, yn ogystal â'i chostau. Yn ychwanegol, mae angen i'r effeithiau a fesurir fod â budd y gellir mesur ei werth ariannol⁴⁰. Yn yr achos hwn, i gynnal dadansoddiad cost a budd ar gyfer yr elfen hon o'r Strategaeth Tlodi Plant, byddai angen bod data ar gael am effeithiau a chostau pob rhaglen mewn modd y gellir eu mesur yn ariannol.

3.30 O'r wyth gwerthusiad rhaglen a ddadansoddir yn yr elfen hon o'r Strategaeth Tlodi Plant, mae saith yn ceisio creu buddion y gellir eu

³⁹ Er enghraifft, yn Lloegr, mae cyllid Pupil Premium (sy'n defnyddio dull tebyg i Grant Amddifadedd Disgyblion) wedi ei gynyddu'n ddiweddar i ysgolion cynradd (i £1300 am bob plentyn cymwys mewn ysgolion cynradd) ac mae trefniadaeth arolygu Ofsted bellach yn golygu bod gofyn i ysgolion roi tystiolaeth o sut maent yn cau'r bwlch cyrhaeddiad er mwyn i'r ysgolion gael y graddau uchaf.

⁴⁰ Er enghraifft, gallai rhaglen gyflogaeth fesur effaith cynyddu faint o amser mae rhywun yn treulio mewn cyflogaeth. Gellir mesur hyn yn ariannol drwy luosi'r misoedd ychwanegol mewn cyflogaeth â chyflog y person.

mesur yn ariannol, ond nid oedd y llall (Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd) yn benthyg ei hun i'r math hwn o werthusiad⁴¹.

- 3.31 Mae dau werthusiad (Canolfannau Plant Integredig a Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion) yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ddata ansoddol, gan olygu ei bod yn amhosibl mesur y buddion a gafwyd drwyddynt yn ariannol.
- 3.32 Mae dau arall (Dechrau'n Deg a Rhagori) wedi ceisio mesur yr effaith, ond oherwydd dyluniad y gwerthusiad (sy'n aml yn gysylltiedig â dyluniad y rhaglen neu'r modd y cafodd ei chyflwyno fesul cam) nid ydynt yn glir ynglŷn â faint o'r effaith a fesurwyd y gellir ei phriodoli i'r rhaglen.
- 3.33 Yng ngwerthusiad Cymorth, nid oedd digon o enghreifftiau o brosiectau a oedd â gwybodaeth ddigonol i allu amcangyfrif eu buddion er mwyn cynnal dadansoddiad cost a budd o'r rhaglen gyfan.
- 3.34 Nid oes data ar gael eto am effaith rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.
- 3.35 Roedd gwerthusiad Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn gallu mesur buddion y rhaglen yn nhermau bwyta eitemau iach i frecwast. Er hyn, ni allai bennu cyswllt rhwng hyn a chyrhaeddiad addysgol, felly ni ellir mesur y buddion yn ariannol.
- 3.36 Ar ochr arall yr hafaliad, nid oes data ar gael am y costau yn achos Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.
- 3.37 Daethpwyd i'r casgliad felly nad oedd yn bosibl cynnal dadansoddiad cost a budd ar gyfer yr elfen hon o'r Strategaeth Tlodi Plant.

Crynodeb

- 3.38 Mae diwylliant o werthuso yn bodoli, a diwylliant o ddefnyddio cyfnodau arloesi i dreialu modelau cyn eu cyflwyno fesul cam yn genedlaethol. Mae'r gwerthusiadau yn gryf yn gyffredinol, ac yn uniongyrchol gysylltiedig â chanlyniadau sy'n berthnasol i'r Strategaeth Tlodi Plant, a byddant yn cynnig sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ymyriadau yn y

⁴¹ Er hyn, gweler e.e.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/209107/greenbook_valuationtechniques.pdf i gael mwy o wybodaeth am adnabod gwerth lles goddrychol, a <http://www.lse.ac.uk/GranthamInstitute/publications/Policy/docs/PP-non-monetised-factors-project-programme-policy.pdf> i weld adolygiad o sut y gall ffactorau na ellir eu mesur yn ariannol gael eu hystyried wrth werthuso rhaglen.

dyfodol. Mae sawl rhaglen yn yr elfen hon (ac elfennau eraill) yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd lleol wrth eu gweithredu: mae'n hollbwysig bod y staff cyflenwi yn ymwybodol o ganfyddiadau'r gwerthusiadau blaenorol ac yn gwybod beth sy'n gweithio er mwyn iddynt ddilyn y gwersi a ddysgwyd.

- 3.39 Nid yw effeithiau'r buddsoddiadau mawr a wnaed yn y maes hwn (Teuluoedd yn Gyntaf hynny yw) yn amlwg eto, gan fod y gwerthusiadau hirdymor yn dal i fod ar y gweill. Daeth gwerthusiad Dechrau'n Deg, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, i'r casgliad ei bod yn bosibl bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau rhiant a phlentyn, ond nid oedd y dystiolaeth hon yn bendant yn sgil cyfyngiadau dylunio ym methodoleg y gwerthusiad sy'n codi o'r ffordd y cafodd y rhaglen ei chyflwyno fesul cam. Ymddengys bod y rhaglenni eraill yn llwyddiannus ar y cyfan, ond targedu nodau atodol y Strategaeth Tlodi Plant fu'r rhaglenni hyn, a/neu maent yn rhaglenni cymharol fach a/neu mae eu tystiolaeth ynghylch effaith yn gymharol wan. Gallai'r camau i integreiddio rhaglenni gynig ffyrdd i gynyddu eu heffaith (am gostau cymharol fach) a chreu cyswllt rhwng y gwaith o'u cyflenwi. Mae cynllun integredig y blynyddoedd cynnar yn benodol yn gyfle i dîm y Strategaeth Tlodi Plant adolygu a chymhwyso tystiolaeth i'r rhaglenni yn y meysydd hyn.
- 3.40 Gallai amserlen y cyfnodau peilot ac ansawdd y gwaith o'u gwerthuso gael eu hadolygu i sicrhau bod tystiolaeth ar gael i gyfarwyddo penderfyniadau ynglŷn â chyflwyno'r rhaglenni fesul cam yn genedlaethol.
- 3.41 Ceir tystiolaeth o newid ffocws yn y rhaglenni addysg yn y blynyddoedd diwethaf, wrth i lawer mwy o adnoddau gael eu neilltuo ar gyfer cau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae'r adnoddau yn y maes hwn bellach yn fwy addas ar gyfer maint y mater dan sylw.

4 Helpu pobl i godi allan o dlodi

Camau Llywodraeth Cymru i helpu pobl i godi allan o dlodi

- 4.1 Mae helpu pobl i godi allan o dlodi yn golygu '[c]ydnabod mai'r ffordd orau allan o dlodi yw drwy gyflogaeth' a'r nod yw 'helpu pobl i wella eu sgiliau a gwella perthnasedd eu cymwysterau'. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn anelu i '[g]ael gwared ar y rhwystrau eraill i gyflogaeth – o rwystrau ymarferol fel hygyrchedd trafnidiaeth ac adeiladau i rwystrau llai pendant fel diffyg uchelgais – gan helpu pobl i symud ymlaen ac i fyny'r ysgol gyflogaeth'⁴².
- 4.2 Twf a swyddi cynaliadwy yw un o themâu allweddol y Rhaglen Lywodraethu, gyda phwyslais ar fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, arloesi a gwella'r amgylchedd busnes⁴³. Mae'r thema hon yn arbennig o berthnasol i helpu pobl i godi allan o dlodi gan ei bod yn cwmpasu creu swyddi a gwella sgiliau, ymysg elfennau eraill, a ddylai gyfrannu at wella rhagolygon cyflogaeth pobl Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi.
- 4.3 Rhoddir crynodeb yn y ffigur isod o'r polisiâu allweddol yn y maes hwn a'r themâu allweddol y dylent fynd i'r afael â hwy. Nod y polisiâu yn y maes hwn yw creu swyddi, gwella sgiliau pobl ifanc fel eu bod mewn gwell sefyllfa i gael swydd, gwaredu rhwystrau i gyflogaeth ymysg oedolion o oedran gweithio, a chryfhau cymunedau.

⁴² <http://wales.gov.uk/docs/ds/jlg/publications/socialjustice/120625stackpovplancy.pdf>

⁴³ <http://wales.gov.uk/docs/strategies/110929chap1cy.pdf>

Ffigur 4.1: Sut mae polisïau yn cyfrannu at helpu pobl i godi allan o dlodi



Ffynhonnell: Ipsos MORI

- 4.4 Yn ychwanegol at weithredu polisi, mae'r Llywodraeth yn ymwneud ag elfennau eraill o weithgarwch sydd yn ceisio helpu i wneud cynnydd tuag at helpu pobl i godi allan o dlodi. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyswllt â chyflogwyr i fapio lle mae swyddi gwag ar gael i rai sydd â sgiliau lefel mynediad a fydd yn arbennig o berthnasol i grwpiau incwm isel, a gwaith y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant ar archwilio problemau anweithgarwch economaidd a thlodi mewn gwaith.
- 4.5 Gall amrywiaeth o randdeiliaid ddylanwadu ar ganlyniadau sydd o bwysigrwydd allweddol i helpu pobl i godi allan o dlodi. Ymysg y rhanddeiliaid hyn, Llywodraeth y DU sydd â'r dylanwad mwyaf, yn arbennig drwy bolisi lles. Mae hefyd gan gyflogwyr – a'r polisïau ac arferion cyflogaeth y maent yn defnyddio – ddylanwad mawr dros y maes hwn, ac ystyrir mai cymedrol yw gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ganlyniadau.
- 4.6 Fel y crybwyllwyd yn gynharach, dylid adolygu'r canfyddiadau yn y maes hwn yng nghyd-destun y cyfyngiadau sydd ar Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, ac yn arbennig y rôl fawr sydd i Lywodraeth y DU. Mae canlyniadau'r Strategaeth Tlodi Plant yn tybio y gall Llywodraeth Cymru weithio drwy'r sector preifat a chyda'r sector preifat i ysgogi cyfleoedd gwaith newydd ar raddfa fawr iawn, er mwyn lleihau lefelau diweithdra.

Mae'r Strategaeth hefyd yn tybio y gall Llywodraeth Cymru wella'r cyflenwad o swyddi cynaliadwy o ansawdd da – unwaith eto drwy weithio gyda'r sector preifat – er mwyn lleihau cyfraddau tlodi gwaith (a fu'n cynyddu yng Nghymru a ledled y DU). Yn eu tro, mae'r tybiaethau hyn yn tybio bod digon o gymhellion i'r sector preifat ymwneud â Llywodraeth Cymru a mynd ati i greu cyfleoedd gwaith newydd a chynaliadwy.

- 4.7 Mae gan Lywodraeth y DU rôl hyd yn oed yn fwy sylweddol, ac mae llwyddiant y Strategaeth yn y maes hwn yn tybio y gall Llywodraeth Cymru gydweithio â Llywodraeth y DU i ddylanwadu ar bolisi economaidd, sgiliau a lles er mwyn ysgogi'r economi, darparu cymhellion i gyflogwyr a rhieni i gymryd cyfleoedd gwaith, a gwaredu rhwystrau i weithio.
- 4.8 Mae'r rhaglenni yn y maes hwn yn aml yn canolbwyntio ar waredu'r rhwystrau i weithio, yn arbennig ymysg rhieni, ac mae'r rhaglenni hyn yn tybio bod rhieni yn fodlon ac yn gallu cymryd cyfleoedd gwaith.

Effeithiolrwydd ac effaith camau Llywodraeth Cymru i helpu pobl i godi allan o dlodi

- 4.9 Dewiswyd y rhaglenni canlynol gan y tîm gwerthuso a Llywodraeth Cymru i'w cynnwys yn y meta-adolygiad at ddibenion y gwerthusiad hwn:
- Cymunedau yn Gyntaf
 - Lwfans Cynhaliaeth Addysg
 - Cronfa Gymdeithasol Ewrop
 - Twf Swyddi Cymru
 - Strategaeth Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru: Adnewyddu'r Economi
 - Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid⁴⁴
- 4.10 Dewiswyd y rhaglenni hynny a oedd yn debygol o gyfrannu fwyaf at y dangosyddion sy'n berthnasol i dlodi plant yn y maes hwn, ac er mwyn

⁴⁴ Cyhoeddwyd Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET, ac ar gefnogi plant 11-15 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET, tuag at ddiwedd 2013 ac mae'n rhy newydd i'w gynnwys yn y gwerthusiad hwn.

rhoi amrywiaeth o raglenni ar draws y prif feysydd canlyniadau, fel a amlinellir yn Nhabl 4.1. Bu'r tîm gwerthuso yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael am weithredu pob rhaglen a'u heffeithiau; rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yng ngweddill yr adran hon.

Tabl 4.1: Crynodeb o Raglenni Allweddol: Helpu Pobl i Godi Allan o Ddodi

	<i>Canlyniadau sy'n berthnasol i'r Strategaeth?</i>	<i>Targed</i>	<i>Maint y broblem / rhaglen</i>	<i>Cost y rhaglen</i>	<i>Amserlen y rhaglen</i>	<i>Canlyniadau allweddol / effaith</i>
Strategaeth Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru: Adnewyddu'r Economi	Ydyn. Cyfraddau cyflogaeth, cyflogaeth ieuencid, enillion, cymwysterau / sgiliau.	Cyffredinol / poblogaeth o oedran gweithio.	Cwmpasu amryw raglenni. 100,000 o oedolion yn ddi-waith yn Ch3 2013 yng Nghymru, a 448,000 yn economaidd anweithgar. ⁴⁵	Amrywiaeth o raglenni, e.e. £400m ar gontractau dysgu seiliedig ar waith, £10m ar Adduned Cyflogwr Sgiliau Sylfaenol.	O 2010 ymlaen	Nid yw'r Strategaeth hon wedi ei gwerthuso yn swyddogol. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn trywydd y cynnydd ar y dangosyddion yn ei Rhaglen Lywodraethu, er na ellir priodoli'r cyraeddiadau na'r meysydd hynny sy'n dangos dirywiad i'r Strategaeth. Cynyddodd nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET o 11.5 y cant yn 2010 i 12.1 y cant yn 2011, ond gostyngodd y nifer yn achos y rhai 19-24 oed o 22.9 y cant i 22.1. Mae canran yr oedolion o oed gweithio sydd â chymhwyster cyfwerth â 5 TGAU gradd A*-C, neu brentisiaeth sylfaen o 72 yn 2010 i 75 y cant yn 2012. Gostyngodd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth Cymru a'r DU o 3.49 y cant yn Ch1 2010 i 2.34 y cant yn Ch4 2012.
Twf Swyddi Cymru	Ydyn. Lleihau nifer NEETs.	Pobl ifanc ddi-waith 16-24 oed.	Creu 4,000 o gyfleoedd gwaith y flwyddyn i rai 16-24 oed yn erbyn 48,400 o rai 16-24 oed yn ddi-waith yn Hydref Oct 2012-Medi 2013. ⁴⁶	£25m y flwyddyn am bedair blynedd	2012/13 – 2015/16	Roedd rhaglen Twf Swyddi Cymru wedi creu 11,851 o gyfleoedd gwaith, a llanwyd 9,181 o'r rhain, erbyn 27 Mawrth 2014, ymhell y tu hwnt i'r 8,000 o swyddi yr oedd yn cynllun yn anelu i'w llenwi yn y ddwy flynedd gyntaf.
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Ydyn. Canlyniadau yn ymwneud â chyfraddau cyflogaeth, cyflogaeth ieuencid, enillion, cymwysterau / sgiliau	Amryw raglenni (yn cynnwys Twf Swyddi Cymru)	Cwmpasu amryw raglenni. Swmp yr arian wedi ei ganolbwyntio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Y cyfraddau diweithdra uchaf ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhymni.	Amryw raglenni. Erbyn Gorffennaf 2013 £756m	Cylchoedd cyllido o: 2000-2006; 2007-2013; 2014-2020	Canfuwyd bod perfformiad yn erbyn y canlyniadau targed gryn ffordd y tu ôl i'r hyn a ddisgwyliid ym mhob un o'r prif fesurau, a nodwyd mai'r rheswm mwyaf cyffredin oedd oedi wrth weithredu'r prosiectau i gychwyn. Mae'r data yn dangos bod y rhaglenni yn tanberfformio yn erbyn pob un o'r targedu blaenoriaeth cyffredinol, a dyma'r data allweddol: - Yn erbyn targed o 10,500 o bobl ifanc a fu'n NEET yn flaenorol yn dechrau dysgu ymhellach, dim ond 609 oedd wedi gwneud hynny erbyn 31 Hydref 2011. - Dim ond 7,727 o gyfranogwyr oedd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill

⁴⁵ <http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/por/2013265930/report.aspx>

⁴⁶ Detholiad NOMIS o bobl 16-24 oed ddi-waith yng Nghymru am y cyfnod Hydref 2012 – Medi2013 (<http://www.nomisweb.co.uk/default.asp>)

						megis lleoliadau gwaith, gwirfoddoli neu fynd i gyfweiliad am swydd, sydd yn 41 y cant o'r targed o 19,000. Roedd 5,535 o gyfranogwyr wedi ennill cymhwyster, sef 47 y cant o'r targed blaenoriaeth o 10,500.
Lwfans Cynhaliaeth Addysg	Ydyn. Gwaredu rhwystrau i addysg a gwaith.	Pobl ifanc 16-18 oed o aelwydydd incwm isel.	31,970 o geisiadau Lwfans Cynhaliaeth Addysg wedi eu derbyn yn 2012/13, a chymeradwywyd 95% ohonynt.	£28.1m o gyllid + £2.6m ar gyfer gweinyddu	Parhaus o 2004/05 ymlaen	Comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o'r Lwfans ond ni chyhoeddwyd adroddiad hyd yma. Yn ôl dangosyddion y Rhaglen Lywodraethu, aeth 30 y cant o'r myfyrwyr a dderbyniodd Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn 2010/11 yn eu blaen i addysg uwch (24 y cant yn 2011/12 a 6 y cant yn ychwanegol yn 2012/13). Hyd yma, aeth 27 y cant o'r myfyrwyr a dderbyniodd y lwfans yn 2011/12 yn eu blaen i addysg uwch. Disgwylir y bydd y nifer o blith y garfan hon yn cynyddu yn 2013/14. Er hyn, nid yw effaith y lwfans ar ddatblygiad y myfyrwyr hyn yn glir.
Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid	Ydyn. Lleihau nifer NEETS.	Amrywiol, ond caiff ei dargedu at y rhai sy'n NEET neu mewn perygl o fod yn NEET	48,400 o bobl 16-24 oed yn ddi-waith ar hyn o bryd (25% o'r grŵp oedran hwn yn ddi-waith).	Amryw raglenni gan gynnwys Llwybrau at Brentisiaethau, Recriwtiaid Newydd, ac eraill	2011-15	Ni wnaed gwerthusiad ffurfiol o'r Cynllun Gweithredu. O 2011 y daw'r data diweddaraf ar NEETs, ac ni ellir eu priodoli i'r Cynllun Gweithredu beth bynnag.
Cymunedau yn Gyntaf	Ydyn, yn arbennig ers adlinio yn 2012. Canolbwyntio'n llwyr ar dlodi. Meysydd canlyniad (dysgu, economi, iechyd) yn ategu amcanion y Strategaeth Tlodi Plant.	Targedu'r bobl mwyaf difreintiedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.	Amcangyfrifir bod 591,000 o bobl (20% o boblogaeth Cymru) yn fuddiolwyr.	Tua £300m rhwng 2001 a 2011/12	Parhaus. Sefydlwyd yn 2001. Adlinio o fis Ebrill 2012 ymlaen.	Cyfyngwyd ar y gwerthusiad gan amrywiaeth y prosiectau a ariannwyd drwy'r rhaglen, natur feddal llawer o effeithiau'r prosiect, a'r diffyg pwyslais ar fesur effaith ar lefel leol. Er hyn, llwyddwyd i ddod i rai casgliadau. Yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, canfu'r gwerthusiad effaith gadarnhaol ac ychwanegol, er yn gyfyngedig, ar y lefel heb waith. Canfu hefyd y cafodd y rhaglen effaith ar 'faterion sbwriel a throseddau' gan gynnwys gwelliannau yn safonau cynnal a chadw, gwelliannau amgylcheddol bach, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chynyddu gweithgareddau difyrru ieuenctid. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y manteision cadarnhaol sydd i'r rhaglen yn cynnig gwerth rhesymol am arian".

Nodweddion y rhaglenni sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i godi allan o dlodi

4.11 Mae'r rhaglenni a weithredir o dan y thema hon yn arbennig o berthnasol i amcanion y Strategaeth Tlodi Plant. Mae'r ffrwd ariannu fwyaf yn y maes hwn (Cronfa Gymdeithasol Ewrop) yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ganlyniadau gan gynnwys datblygu sgiliau sylfaenol ar draws yr holl grwpiau oedran, symud y gweithlu yn agosach at y farchnad lafur, creu cyfleoedd hyfforddiant seiliedig yn y gwaith, ac ymgysylltu ag ieuenctid⁴⁷. Mae rhaglenni eraill yn canolbwyntio ar amcanion tebyg megis cynyddu lefelau sgiliau oedolion (Strategaeth Datblygu Economaidd, Lwfans Cynhaliaeth Addysg), gwaredu rhwystrau i gyflogaeth neu fynd i'r afael â'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET (Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid), a chreu swyddi i bobl ifanc (Twf Swyddi Cymru – wedi ei ariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop). Mae'r Strategaeth Datblygu Economaidd hefyd yn canolbwyntio ar nifer o themâu i greu'r amgylchedd i gefnogi cyflogaeth uchel, megis gwelliannau i seilwaith, cymorth busnes, a chynorthwyo ymchwil a datblygu. Mae'r rhaglenni yn y maes hwn yn canolbwyntio ar baratoi oedolion at y farchnad lafur, neu greu amodau sy'n arwain at gyflogaeth, yn hytrach na chreu swyddi.

4.12 Yn achos Lwfans Cynhaliaeth Addysg, mae Cymru wedi diogelu ymyrraeth lwyddiannus sydd wedi ei thorri yng ngweddill y DU. Dyma un o nifer o feysydd lle y mae llwybr polisi Llywodraeth Cymru yn wahanol i weddill y DU er mwyn hwyluso pobl ifanc o aelwydydd incwm is i dderbyn addysg uwch; mae polisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru yn enghraifft amlwg arall. Mae hefyd gan Lywodraeth Cymru gronfeydd eraill yn eu lle i helpu rhai o gefndiroedd difreintiedig i dderbyn addysg uwch, megis benthyciadau cynhaliaeth, y Cronfeydd Ariannol wrth Gefn, a Grant Dysgu Cymru. Er hyn, drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid gwelwyd bod y farn yn amrywio ar b'un a yw'r cydbwysedd yn gywir rhwng polisi ariannu addysg uwch a gwella sgiliau sylfaenol oedolion: er enghraifft, roedd rhai yn ystyried p'un a fyddai canolbwyntio ar ben is y

⁴⁷ Yn seiliedig ar gyfres o raglenni y cyfeiriwyd atynt gan Lywodraeth Cymru: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/europeansocialfund/strategicframeworks/?jsessionid=AC1559E6544256C7756F65D89BEB0748?lang=cy>

sbectrwm sgiliau, yn hytrach nag addysg uwch, yn fwy buddiol i'r economi, ac yn cyfeirio at dystiolaeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a ddaeth i'r casgliad yn ddiweddar bod lleihau'r gyfran o bobl mewn rhanbarth sydd â sgiliau isel iawn, yn gyffredinol, yn ymddangos yn fater pwysicach na chynyddu'r gyfran sydd â lefelau uchel iawn o sgiliau⁴⁸.

Targedu

- 4.13 Mae'r rhaglenni yn targedu'r boblogaeth o oedran gweithio, pobl ifanc ddi-waith neu rai sydd mewn perygl o fod yn NEET, ac ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn ddaearyddol.
- 4.14 Mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud i gynnal cyswllt â'r sector preifat, er nad oes unrhyw bolisi unigol a adolygwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn targedu cyflogaeth yn benodol. Mae Strategaeth Adnewyddu'r Economi yn nodi chwe sector sy'n gadarn, sy'n cyflogi cyfran fawr o'r gweithlu ac sydd am dyfu yn y blynyddoedd sydd i ddod yn ôl yr amcanestyniadau. Y chwe sector yw TGCh, ynni a'r amgylchedd, deunyddiau datblygedig a gweithgynhyrchu, y diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd, a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol⁴⁹. Dyma'r sectorau sy'n cynnig y cyfleoedd gorau, ac mae'r Strategaeth yn amlinellu bwriad i gynnal cyswllt â busnesau yn fwy strategol drwy ganolbwyntio ar y sectorau hyn sy'n cynnig y cyfleoedd gorau o ran twf a chyflogaeth.
- 4.15 Mae'r Tîm Cyflogaeth a Sgiliau yn trafod yn rheolaidd â'r Bwrdd Gwaith, Cyflogaeth a Sgiliau sy'n cynnwys cynrychiolwyr o fusnesau a sectorau allweddol, ac mae'n fforwm i drafod y potensial posibl sydd i fyd busnes helpu i godi pobl allan o dlodi. Ceir rhaglenni sy'n rhan o Gynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid sy'n annog lleoliadau profiad gwaith, sy'n ariannu Prentisiaethau (yn arbennig i bobl ifanc), ac sy'n gosod cymalau cymdeithasol yng nghontractau'r llywodraeth sy'n nodi creu/darparu cyfleoedd i bobl ifanc.

⁴⁸ OECD, 'Promoting Growth in All Regions' <http://www.oecd.org/site/govrdpc/49995986.pdf>

⁴⁹ www.wlga.gov.uk/download.php?id=3971&l=1. Mae tri sector blaenoriaeth arall, adeiladu, twristiaeth a bwyd a ffermio, bellach wedi eu hychwanegu at y rhestr wreiddiol o chwech.

Maint

- 4.16 Fel a nodwyd uchod, cymharol anodd yw dod i gasgliadau ynglŷn â pham mor briodol yw maint yr ymyriadau yn y maes hwn, gan yr adolygwyd nifer o strategaethau a chronfeydd ac maent yn cwmpasu nifer fawr o brosiectau llai. Er hyn, mae maint mawr y cronfeydd a'r strategaethau hyn yn pwysleisio'r sefyllfa economaidd cymharol wan (ac mewn lleoedd eraill) ar hyn o bryd.
- 4.17 Mae ffigurau diweithdra Cymru ar gyfer cyfnod Hydref 2012 hyd at Fedi 2013 yn dangos bod cyfradd diweithdra y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) 10 pwynt yn uwch yn achos pobl 16-24 oed na rhai 25-49 oed⁵⁰. Yn unol â hyn, ceir ffocws yn Strategaeth Adnewyddu'r Economi a'r rhaglenni a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar fentrau ieuenctid; ochr yn ochr â hyn, mae Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn amlinellu cyfres o ymyriadau sydd wedi eu targedu at bobl ifanc. Mae'r ffocws hwn yn ymddangos yn briodol o ystyried maint diweithdra ieuenctid, ond gallai fod angen mwy o ffocws i adlewyrchu maint y broblem.
- 4.18 O ran nifer y buddiolwyr, Cymunedau yn Gyntaf yw un o'r prosiectau mwyaf a adolygwyd, gydag amcangyfrif o 591,000 o fuddiolwyr ers i'r prosiect gychwyn (er ei fod yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd, a dim ond un ohonynt yw prosiectau economaidd). Y maen glir mewn llawer o feysydd polisi, megis polisi addysg a theuluoedd, bod rhaglenni yn cael eu 'plygu' i wella eu heffeithiolrwydd a denu arian Cymunedau yn Gyntaf (e.e. Grant Amddifadedd Disgyblion, a Theuluoedd yn Gyntaf). Nid yw'n glir ar y cam hwn i ba raddau y caiff Cymunedau yn Gyntaf ei defnyddio i wella maint rhaglenni economaidd a'r nifer sy'n elwa ohonynt.

Cost ac amserlenni

- 4.19 Mae'r rhaglenni yn y maes hwn yn gymharol fawr, gyda chostau uchel ac amserlenni hir. Mae'n werth nodi bod costau ymyriadau yn uwch na'r rhai yn yr elfen atal tlodi. Nododd y rhanddeiliaid yr ymgynghorom ni â

⁵⁰ Ffigurau NOMIS ar bobl 16-49 oed ddi-waith yng Nghymru ar gyfer y cyfnod Hydref 2012 - Medi 2013 (<http://www.nomisweb.co.uk/default.asp>)

hwy bod lefelau sgiliau ymgeiswyr addysg uwch ymhlith y rhwystrau allweddol i ehangu mynediad i addysg uwch, a bod angen i welliannau gael eu gwneud ymhellach i fyny yn sector addysg statudol, er mwyn gallu derbyn nifer ddigonol o ymgeiswyr o galibr uchel. Mae'r ail safbwynt yn cyd-fynd â'r egwyddor 'buddsoddi i arbed' sy'n berthnasol i lawer o raglenni Llywodraeth Cymru.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd ac effaith

4.20 Mae'r gweithgareddau o dan y rhaglenni a'r strategaethau hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r Strategaeth Tlodi Plant, gan eu bod yn ceisio gwella lefelau sgiliau oedolion o oedran gweithio a/neu symud unigolion yn agosach at y farchnad lafur a/neu waredu rhwystrau at gyflogaeth ymysg pobl ifanc yn benodol. Cymharol anodd yw asesu'r dystiolaeth yn y maes hwn gan ei fod yn cynnwys nifer o strategaethau mawr iawn a hwythau yn eu tro yn cwmpasu nifer fawr o ymyriadau llai: Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, y Strategaeth Datblygu Economaidd ac, i ryw raddau, Cymunedau yn Gyntaf. Ac eithrio Cymunedau yn Gyntaf a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, nid oes meta-werthusiadau o'r ffrydiau cyllido a'r strategaethau hyn sy'n ein galluogi i ddod i gasgliadau cyffredinol am ansawdd y dystiolaeth neu effaith y cronfeydd fel cyfanwaith. Yn ychwanegol, er bod y prosiectau unigol a ariennir fel arfer wedi eu gwerthuso (yn arbennig o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop), mewn sawl achos mae'r allbynnau a'r canlyniadau a gaiff eu mesur yn canolbwyntio ar yr economi ac nid ydynt yn rhoi gwybodaeth am allbynnau'r Strategaeth Tlodi Plant. Er enghraifft, mae Arolwg Cronfa Gymdeithasol Ewrop o'r Rhai a Adawodd 2012 yn defnyddio methodoleg grŵp cymharu gadarn i fesur effaith ymyriadau'r farchnad lafur a weithredwyd o drwy Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop, ond nid ydynt yn cynnwys ffigurau ynglŷn â rhieni / rhai nad ydynt yn rhieni⁵¹.

4.21 Yn 2011, cyhoeddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) werthusiad o Faes Blaenoriaeth 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n

⁵¹ <http://wales.gov.uk/docs/wefo/report/140127esfleaverssurvey2012reporten.pdf>

ceisio mynd i'r afael â thangyflawni a gwella sgiliau a dyheadau plant a phobl ifanc 11 i 19. Canfu'r gwerthusiad y cafwyd cyswllt â rhwng 39,000 a 49,000 o bobl ifanc mewn gweithgareddau drwy'r Maes Blaenoriaeth hwn, yn erbyn targed o 41,000⁵². Barnwyd bod y perfformiad yn erbyn y canlyniadau targed gryn ffordd yn brin o'r disgwyliadau ym mhob un o'r prif fesurau, a'r rheswm mwyaf cyffredin y cyfeiriwyd ato oedd oedi wrth roi'r prosiectau ar waith i gychwyn⁵³. Mae'r data yn dangos bod y rhaglenni yn tanberfformio yn erbyn pob un o'r targedau blaenoriaeth cyffredinol, a dyma'r data allweddol:

- Yn erbyn targed o 10,500 o bobl ifanc a arferai fod yn NEET yn dechrau dysgu ymhellach, dim ond 609 oedd wedi gwneud hynny erbyn 31 Hydref 2011⁵⁴.
- Dim ond 7,727 o gyfranogwyr oedd wedi cael canlyniadau cadarnhaol eraill megis lleoliadau gwaith, gwirfoddoli neu fynd i gyfweiliadau swydd, sy'n cynrychioli 41 y cant o'r targed o 19,000⁵⁵.
- Roedd 5,535 o gyfranogwyr wedi ennill cymwysterau, sef 47 o'r targed o 10,500⁵⁶.

4.22 Gwerthuswyd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf fel cyfanwaith yn 2011. Roedd y gwerthusiad yn gyfyngedig oherwydd amrywiaeth y prosiectau a ariannwyd drwy'r rhaglen, natur feddal llawer o effeithiau'r prosiectau, a'r diffyg pwyslais ar fesur effaith ar lefel leol. Er hyn, daethpwyd i rai casgliadau ynglŷn ag effaith y rhaglen. Canfu'r gwerthusiad effeithiau cadarnhaol, er cyfyngedig, ac ychwanegol y gellir eu priodoli i fod heb waith yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.⁵⁷ Daethpwyd i'r casgliad hefyd bod y rhaglen wedi cael effaith ar faterion 'troseddu a sbwriel' gan gynnwys gwelliannau i safonau cynnal a chadw, gwelliannau amgylcheddol ar raddfa fach, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a

⁵² Aidan Moss, Rakhee Patel, Darren Ivey, Daljeet Johal, Naomi Williamson, Ross Neilson, James Kearney, Steph Charalambous, Jessica Daggers, *Thematic Evaluation of ESF Convergence Priority One in West Wales and the Valleys* (2012): iii-iv.

⁵³ *Ibid.*, iv.

⁵⁴ *Ibid.*, 42.

⁵⁵ *Ibid.*, 43.

⁵⁶ *Ibid.*, 44.

⁵⁷ Amion Consulting Limited ac Old Bell 3 Limited, *The Evaluation of Communities First* (Llywodraeth Cymru: Merthyr Tudful, 2011): 174.

chynyddu gweithgareddau difyrru ieuenctid⁵⁸. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y manteision cadarnhaol sy'n deillio o'r rhaglen yn werth rhesymol am arian.”⁵⁹

- 4.23 Roedd rhaglen Twf Swyddi Cymru wedi creu 11,851 o gyfleoedd swyddi, a llenwyd 9,181 o'r rhain, yn ôl y data at 27 Mawrth 2014, sydd ymhell y tu hwnt i'r 8,000 o swyddi yr oedd y cynllun yn anelu i'w llenwi yn ei ddwy flynedd gyntaf. Caiff gwerthusiad interim o'r rhaglen, sy'n defnyddio dulliau lled-arbrofol i fesur effaith gan ddefnyddio grŵp cymharu o ymgeiswyr aflwyddiannus y rhaglen, ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2014, a chaiff dadansoddiad gwerth am arian ei gynnwys yn y gwerthusiad terfynol.
- 4.24 Deallwn y bydd ansawdd y dystiolaeth yn y maes hwn yn gwella o safbwynt y Strategaeth Tlodi Plant dros y blynyddoedd nesaf. Rhoddwyd gwedd newydd i raglen Cymunedau yn Gyntaf yn ddiweddar, gan roi llawer mwy o bwyslais ar fesur ac adrodd ar effaith, llai o ardaloedd a phrosiectau Cymunedau yn Gyntaf, a strwythurau rheoli tynnach, a dylai hyn oll hwyluso gwell arfer o adrodd ar effeithiau. Mae strategaeth sgiliau newydd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014 yn canolbwyntio ar ddangosyddion mesur cydraddoldebau yn ogystal â chanlyniadau economaidd. Yn yr un modd, bydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ychwanegu trechu tlodi yn flaenoriaeth trawsbynciol o 2014 ymlaen, a bydd hyn yn sicrhau y caiff trechu tlodi ei gwmpasu yn fwy penodol mewn gwerthusiadau ac adroddiadau. Serch hynny, lle y bo'n briodol ac ymarferol, bydd yn ddefnyddiol i ymyriadau gasglu data yn systematig ynglŷn â ph'un a oes gan y cyfranogwyr blant, gan y byddai hyn yn galluogi i asesu eu cyfraniad at leihau tlodi plant.

Cost a budd rhaglenni sy'n ceisio helpu pobl i godi allan o dlodi

- 4.25 Nid oedd y dystiolaeth a oedd ar gael ar gost a budd y rhaglenni yn yr elfen hon yn ddigonol i alluogi i gynnal dadansoddiad cost a budd. Byddai cynnal asesiad cost a budd ar gyfer yr elfen hon yn dibynnu ar fod asesiadau cost a budd wedi eu cynnal ar gyfer y rhaglenni gan

⁵⁸ *Ibid.*

⁵⁹ *Ibid.*, 177.

gwmpasu nifer o brosiectau (e.e. Cynllun Adnewyddu'r Economi, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid). Nid yw adroddiad gwerthuso'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg wedi ei gyhoeddi eto. Y mae'n rhy gynnar cynnal dadansoddiad cost a budd ar gyfer Twf Swyddi Cymru a Chymunedau yn Gyntaf gan y bydd y buddion i'w gweld dros gyfnod o amser ac mae'r rhaglenni hyn yn gymharol newydd.

Crynodeb

- 4.26 Mae'r rhaglenni yn yr elfen hon yn canolbwyntio ar barodrwydd y farchnad lafur, a darparu fframwaith a seilwaith addas i'r sector preifat weithredu, yn hytrach na chreu swyddi. Mae'r rhan fwyaf o werthusiadau a data monitro'r rhaglen yn canolbwyntio ar allbynnau economaidd nad ydynt yn gydnaws ag amcanion y Strategaeth Tlodi Plant (er enghraifft, nid ydynt yn gwahaniaeth rhwng rhieni a rhai nad ydynt yn rhieni). Byddai'n ddefnyddiol pe byddai ymyriadau yn casglu data yn systematig ynglŷn â ph'un a oes gan y cyfranogwyr blant, gan y byddai hyn yn galluogi i asesu eu cyfraniad at leihau tlodi plant.
- 4.27 Mae'r rhaglenni yn yr elfen hon yn uwch o ran gwerth na rhaglenni'r elfennau eraill, gan adlewyrchu maint y materion sy'n ymwneud â bod heb waith ac ysgogi'r economi. Wrth lunio rhaglenni, ni chaiff pwyslais priodol ei roi ar ddiweithdra ieuenctid, sy'n adlewyrchu cyfraddau diweithdra llawer uwch ymysg rhai 16-24 oed nag ymysg oedolion hŷn.
- 4.28 Er bod Llywodraeth Cymru yn casglu a chyhoeddi mwy o ddata perfformio na'r hyn oeddynt, mae diffyg tystiolaeth hygyrch o effaith gyffredinol rhai o'r ffynonellau cyllido mwy, megis Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Strategaeth Adnewyddu'r Economi, Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, a Chymunedau'n Gyntaf, sydd oll yn ariannu nifer fawr o brosiectau. O'r herwydd, anodd yw ynysu enghreifftiau o ymyriadau penodol y gwelir eu bod yn cael effaith fawr ar helpu pobl i godi allan o dlodi. Golyga hyn mai anodd yw dod i gasgliadau am effaith y rhaglenni sy'n cyrraedd y nifer fwyaf o bobl.

5 Lliniaru effeithiau tlodi

Camau Llywodraeth Cymru i liniaru effeithiau tlodi

- 5.1 Mae'n bwysig cydnabod y gall pobl fynd i dlodi yn sydyn iawn (drwy golli eu swydd, er enghraifft) neu gallent lwyddo i gael swydd a dal i fyw mewn tlodi. Mae'r polisïau yn yr elfen hon yn ymwneud â sicrhau nad yw plant o dan anfantais yn sgil byw mewn tlodi heddiw. Bydd Llywodraeth Cymru yn 'sicrhau mwy o gamau gweithredu i liniaru effaith tlodi ar unwaith.' Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, 'i fwy a mwy o bobl, nid yw hyd yn oed bod mewn gwaith yn sicrhau eu bod yn gallu dianc rhag tlodi. Gallwn [Llywodraeth Cymru] weithredu i wella ansawdd bywyd y cymunedau, y teuluoedd a'r unigolion hyn⁶⁰.
- 5.2 Yn y ffigur isod, rhoddir crynodeb o bolisïau allweddol yn y maes hwn, a'r themâu allweddol y dylent fynd i'r afael â hwy. Nod y polisïau yn y maes hwn yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, rhoi gwasanaethau cyngor a chymorth fel bod teuluoedd incwm isel yn ymwybodol o'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo, ac yn manteisio ar y cymorth hwnnw, a hybu cymunedau cryfach.

Ffigur 5.1: Polisïau allweddol i liniaru effaith tlodi



Meysydd polisi	Polisïau allweddol	Canlyniadau polisi
Cymorth cynnar i deuluoedd	Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd; Teuluoedd yn Gyntaf; Dechrau'n Deg	Plant heb fod o dan anfantais yn sgil cefndir teuluol
Iechyd	Cynllun Lleihau Annhegwch Iechyd; Cynllun Gweithredu Tybaco; Dechrau'n Deg	Llai o anghyfartaleddau iechyd
Gwasanaeth cyngor a chymorth	Strategaeth Cynhwysiant Ariannol; defnyddio budd-daliadau	Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro / gorlawn; Lliniaru effaith toriadau Llywodraeth y DU
Cydnerthu cymunedol	Cymunedau yn Gyntaf	Gwell iechyd a lles i bawb drwy Ganlyniadau Cymunedau Iachach

Ffynhonnell: Ipsos MORI

⁶⁰ <http://wales.gov.uk/docs/ds/jlg/publications/socialjustice/120625stackpovplancy.pdf>

- 5.3 Yn ychwanegol at weithredu polisi, mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gweithgareddau eraill a fydd yn helpu i symud ymlaen ar liniaru effaith tlodi. Mae hyn yn cynnwys denu cymorth gan y Trydydd Sector wrth gynnal rhaglenni i liniaru effaith tlodi a'r ddyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i gynnwys nodau tlodi plant yn eu cynlluniau gweithredu. Bu'r Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant yn edrych yn benodol hefyd ar faterion addysgol yn ymwneud â thlodi plant i blant 4-14 ac 14-19 oed ac anghydraddoldebau iechyd.
- 5.4 Gall amrywiaeth o randdeiliaid ddylanwadu ar y canlyniadau sydd o bwysigrwydd allweddol i liniaru effaith tlodi, er bod y farn yn amrywio ynglŷn â phwy yw'r rhanddeiliaid allweddol. Mae'r rhai sydd â'r potensial mwyaf i ddylanwadu yn cynnwys y Trydydd Sector, sy'n chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o liniaru effeithiau byrdymor tlodi. Mae hefyd gan Lywodraeth Cymru ddylanwad mawr, er bod rhai'n teimlo nad yw'r dylanwad hwn am helpu i gyflawni canlyniadau'r Strategaeth. Mae Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau prif ffrwd hefyd yn chwarae eu rhan. Mae effaith Llywodraeth Cymru yn yr elfen hon felly yn cael ei chyfyngu gan y cyddestun y mae'n gweithredu ynddo, ond mae'n dal i chwarae rhan bwysig (a chanolog ym marn rhai) yn y gwaith o liniaru effaith tlodi.
- 5.5 Ceir rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y rhaglenni sy'n cyfrannu at y maes hwn yn y strategaeth a'r rhai sy'n ceisio atal tlodi: o'r herwydd, mae rhai o'r tybiaethau a'r risgiau yn berthnasol. Yn benodol, ceir gorgyffwrdd rhwng y rhaglenni hynny sy'n cynnig cymorth cynnar i deuluoedd, ac sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt waethygu, a thrwy hynny leddfu'r profiad o fyw mewn tlodi (yn ogystal â mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt gael effaith andwyol a pharhaol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad y plant).
- 5.6 Mae'r rhaglenni yn defnyddio cymysgedd o wasanaethau cyffredinol – megis gwasanaethau iechyd rhywiol cyffredinol – yn ogystal â chymorth wedi ei dargedu i gynorthwyo'r grwpiau mwyaf difreintiedig. Mae sawl ffurf i'r dulliau targedu, gan gynnwys targedu daearyddol, a thargedu grwpiau risg penodol. Y dybiaeth sy'n sylfaen i'r rhaglenni yw y bydd cymysgedd o wasanaethau cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu yn

helpu i fynd i'r afael â'r amcanion polisi sy'n flaenoriaeth yn y maes hwn, a lleddfu'r profiad o fyw mewn tlodi i grwpiau targed allweddol.

- 5.7 Yn aml, mae'r rhaglenni yn y maes hwn yn darparu gwasanaethau cyngor a chymorth a fydd yn helpu sefyllfaoedd ariannol pobl, drwy eu hannog i dderbyn y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a helpu i wella amodau byw teuluoedd sydd dan anfantais, megis tai a sicrhau bod tanwydd ar gael. Y dybiaeth yw y gall y gwasanaethau hyn sydd wedi'u targedu helpu i liniaru effaith toriadau lles Llywodraeth y DU, gan y caiff yr effeithiau eu teimlo mewn modd anghymesur gan deuluoedd heb waith yng Nghymru.⁶¹
- 5.8 Mae tybiaeth hefyd bod rhaglenni yn y maes hwn yn chwarae rhan sylweddol wrth leddfu anfantais, ac y bydd gwaith i fynd i'r afael â throseddau a chamddefnyddio sylweddau ymysg ieuenctid, er mwyn creu cymunedau mwy diogel sydd yn llai ar wahân yn gymdeithasol, yn helpu i osgoi bod plant dan anfantais yn sgil yr ardaloedd y cânt eu magu ynddynt.

Effeithiolrwydd ac effaith camau Llywodraeth Cymru i liniaru effeithiau tlodi

- 5.9 Dewiswyd y rhaglenni canlynol gan y tîm gwerthuso a Llywodraeth Cymru i'w cynnwys yn y meta-adolygiad at ddibenion y gwerthusiad hwn:
- Undebau Credyd (fel un enghraifft o gam y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd i hybu cynhwysiant ariannol)⁶²
 - Cymorth
 - Teuluoedd yn Gyntaf
 - Dechrau'n Deg
 - Cychwyn Iach

⁶¹ <http://wales.gov.uk/docs/dcells/report/130218wr-stage2-summary-cy.pdf>

⁶² Bu gan Lywodraeth Cymru Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ers 2009 (<http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/090924fininclstratcy.pdf>), ac mae hyn wedi ei ddiweddarau â chamau blaenoriaeth ar gyfer 2011-2013 (<http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/111018finstrat1213cy.pdf>). Mae camau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu cynhwysiant ariannol, nad ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad hwn, yn cynnwys cynorthwyo i ddefnyddio budd-daliadau a phrosiect Cyngor Da, Byw'n Well.

- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)
- Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol 2010-2015
- Cryfhau Teuluoedd
- Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd
- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid

5.10 Dewiswyd y rhaglenni hynny a fyddai'n debygol o gyfrannu'n fwyaf sylweddol at ddangosyddion sy'n berthnasol i dlodi plant yn yr elfen hon, ac er mwyn rhoi amrywiaeth o raglenni ar draws y prif feysydd canlyniadau fel a amlinellir yn Ffigur 5.1 uchod. Adolygwyd y dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â gweithredu ac effaith pob rhaglen gan y tîm gwerthuso; rhoddir crynodeb o'r canlyniadau allweddol yng ngweddill yr adran hon.

Tabl 5.1: Crynodeb o raglenni: lliniaru effaith tlodi

<i>Rhaglen</i>	<i>Canlyniadau sy'n berthnasol i'r Strategaeth?</i>	<i>Targedu</i>	<i>Maint y broblem / rhaglen</i>	<i>Cost y rhaglen</i>	<i>Amserlen y rhaglen</i>	<i>Canlyniadau allweddol / effaith</i>
Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)	Oes: cysylltiadau cryf â'r amcan o liniaru drwy gryfhau teuluoedd sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.	Daearyddol, a thargeddu yn ôl angen.	Adroddiad Niwed Cudd 2008 yn amcangyfrif y gallai 64,000 o blant a phobl ifanc fod yn cael eu heffeithio gan broblemau alcohol rhieni. Rhaglen beilot wedi targedu 270 o deuluoedd buddiolwyr y flwyddyn. Ar gael mewn 13 awdurdod lleol.	Bydd £4.5m ar gael pan gaiff ei chyflwyno fesul cam drwy'r wlad.	Peilota yn 2010. Cyflwyno'n genedlaethol 2011-14.	Rhywfaint o dystiolaeth o effaith ar les oedolion mewn teuluoedd a gynorthwyir drwy'r rhaglen, gyda sgorau cymedrig ar Raddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh (WEMWBS) yn cynyddu o 45.13 cyn yr ymyrraeth i 51.44 wedyn. Ceir tystiolaeth hefyd o welliant bach yn ymddygiad y plant, yn seiliedig ar Holiaduron Cryfderau ac Anawsterau hunanlenwi. Data Graddfa Cyrraedd Nod hefyd yn dangos y cafwyd llwyddiant sylweddol yn ystod y cyfnod dwys cychwynnol ar draws pob safle, gyda pherfformiad mwy 'cyson' rhwng diwedd y cyfnod dwys a'r adolygiad chwe mis.
Cymorth	Oes: canlyniadau yn cynnwys chwarae, hamdden a chyfoethogi, a gwasanaethau iechyd.	Daearyddol, a thargeddu yn ôl angen. Plant 0-25	Mae canlyniadau iechyd i blant mewn aelwydydd incwm isel yn gymharol isel, gan gynnwys iechyd deintyddol a chyfraddau anafiadau (gweler yr adran ar gyd-destun yn gynharach)	Cyfanswm o £235m o 2003/04 – 2008/09. £50m y flwyddyn wedi hynny.	2003/04 - 2011/12 (disodlwyd gan Deuluoedd yn Gyntaf)	Llwyddodd Cymorth yn ei rôl o wella gwaith partneriaeth yn lleol i gynorthwyo gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc difreintiedig, gan helpu i roi gwasanaethau ataliol yn eu lle ac ar agenda y darparwyr gwasanaeth prif ffrwd, a chyflwyno ffyrdd arloesol o weithio. Nifer fach yn unig o geisiadau a fu i ddangos i ba raddau y llwyddodd y Partneriaethau a'u prosiectau a ariannwyd gan Cymorth i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc.
Teuluoedd yn Gyntaf	Oes: yn cynnwys canlyniadau yn ymwneud â theuluoedd iach a diogel, a sicrhau bod teuluoedd yn hyderus, yn gallu gwrthsefyll problemau ac yn meithrin ei gilydd.	Daearyddol (canolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi	Cwmpasu pob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae canlyniadau iechyd i blant mewn aelwydydd incwm isel yn gymharol isel, gan gynnwys iechyd deintyddol a chyfraddau anafiadau (gweler yr adran ar gyd-destun yn gynharach)	£42m y flwyddyn am 5 mlynedd	Ardaloedd arloesi o 2010 ymlaen. Cyflwyno'n genedlaethol o 2012 ymlaen.	Nid yw'r dystiolaeth ar ganlyniadau i deuluoedd ar gael hyd yma. Er hyn, mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at rai manteision cynnar y rhaglen: Mae Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn helpu i greu cyswllt â theuluoedd yn fwy effeithiol a gwella effeithiolrwydd gwaith yr asiantaethau. Ystyrir bod paneli Tîm o Amgylch y Teulu yn fwy ymatebol o gymharu â'r trefniadau blaenorol i asesu anghenion teuluoedd. Gwell gwaith amlasiantaeth yn golygu cymorth mwy effeithiol i deuluoedd ag anghenion niferus yn ogystal â gwell defnydd o adnoddau lleol.
Dechrau'n Deg	Oes: canlyniadau i blant yn cwmpasu datblygu sgiliau	Pob teulu sydd â phlant o dan 4 oed yn 140 ardal mwyaf difreintiedig	Canlyniadau cymharol isel ar draws iechyd a thlodi i rai mewn tlodi. Targeddu teuluoedd mewn 286 ardal (36,000 o blant).	£74m y flwyddyn + £19m ar gyfer gwariant cyfalaf yn 2013.	Ers 2006-07, a pharhaus.	Rhy gynnar i sefydlu effeithiau tymor hwy. Rhywfaint o dystiolaeth y gallai Dechrau'n Deg fod yn gwella canlyniadau addysgol i blant, yn arwain at newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad rhieni. Diffyg data llinell sylfaen neu grwpiau i gymharu'n dda yn

	gwybyddol a chorfforol.	Cymru				golygu bod ansicrwydd ynglŷn ag effaith y rhaglen.
Cychwyn Iach	Oes: gwella iechyd mam/plentyn drwy ddarparu talebau bwyd	Menywod beichiog incwm isel, mamau newydd i blant hyd at 4ydd pen-blwydd	Cyfraddau is o fwyta'n iach ymysg DE (24% yn bwyta 5 y dydd o gymharu â 41% o AB). Tua 95,000 yn gymwys bob blwyddyn.	Tua £400,000 y flwyddyn	Parhaus ers 1940	Ni wnaed gwerthusiad o raglen Cychwyn Iach sy'n dadgyfuno'r canfyddiadau ar gyfer Cymru, ac nid oes unrhyw ddata ynglŷn ag iechyd mamolaeth wedi ei gynnwys yn nangosyddion y Rhaglen Lywodraethu.
Cryfhau Teuluoedd	Oes: ceisio atal pobl ifanc rhag camddefnyddio alcohol, cyffuriau a thybaco. Canolbwyntio ar rianta a sut mae'r teulu yn gweithredu.	Daearyddol, gyda hunangyfeirio gan gymysgedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol	748 o deuluoedd yn rhan o'r peilot. Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol yng Nghymru 2009/10 yn dangos bod 50% o ferched a 47% o fechgyn 15 oed wedi bod yn feddw ddwywaith neu ragor; nododd 16% o ferched ac 11% o fechgyn eu bod yn ysmygu sigarêts o leiaf unwaith yr wythnos; a nododd 20% o ferched a 22% o fechgyn eu bod wedi defnyddio cannabis.	£2.8m ar gyfer y peilot, a Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £675,000	2009-2014	Ni wnaed gwerthusiad o'r rhaglen genedlaethol, ond mae un ar y gweill ar gyfer 2014.. Nid yw data'r Rhaglen Lywodraethu yn caniatáu ar gyfer dadgyfuno dangosyddion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol yn ôl oed.
Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl	Nid yn benodol gysylltiedig â phlant a phobl ifanc. Bydd yn helpu i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd, drwy nodi ac atgyfeirio materion iechyd meddwl yn well ymysg pobl ifanc.	Gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc; cwrs datblygu proffesiynol parhaus ar gael i weithwyr proffesiynol ledled Cymru	Yn Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol 2009/10, roedd plant 11-16 oed o'r teuluoedd lleiaf cefnog yn sylweddol llai tebygol o ddweud eu bod yn fodlon â'u bywydau na'r rhai o'r teuluoedd mwyaf cefnog. Mae gan un ym mhob pedwar oedolyn broblemau iechyd meddwl.	Ddim ar gael	Ers 2007 ac yn barhaus	Mwy na 10,000 wedi eu hyfforddi ar y cwrs erbyn 2012. 96 y cant o'r cyfranogwyr yn teimlo'n hyderus neu wedi eu paratoi'n well i helpu rhywun sydd mewn trallod meddyliol na chyn iddynt dderbyn yr hyfforddiant.
Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol 2010-2015	Oes: gwella iechyd rhywiol / mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a lleihau cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau	Cyffredinol, targedu yn ôl oedran (rhai o dan 18 oed mewn perygl o feichiogi; pob person ifanc o dan 25 oed)	Yn Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol 2009/10, defnydd o ddulliau atal cenhedlu gan ddisgyblion blwyddyn 11 10 pwynt yn is ymysg y rhai o'r teuluoedd lleiaf cefnog na'r rhai o'r teuluoedd mwyaf cefnog. Cyfraddau beichiogi yn gymharol uchel mewn grwpiau incwm isel.	LARC: £150,000 2012/13. Ffigurau eraill ddim ar gael.	2010-15	Cynigwyd dull atal cenhedlu gwrthdoradwy hirdymor (LARC) i 2,500 yn eu harddegau bob blwyddyn. Ymddengys bod cyfraddau beichiogi ymysg rhai o dan 18 oed yng Nghymru yn disgyn, o 44.2 ym mhob 1,000 preswlydd benywaidd 15-17 yn 2008 i 34.8 ym mhob 1,000 preswlydd benywaidd yn Ch4 2011, ac i 28.3 ym mhob 1,000 preswlydd benywaidd yn Ch4 2012 ond ni ellir priodoli hyn i'r Cynllun.
Undebau Credyd	Oes: goresgyn anghydraddol-	Cyffredinol, ond yn	62,000 aelod o 22 UC ledled Cymru; yn 2012, derbyniodd 7,996	£1.9m ar gyfer peilot Cyfnod 1; £3.5m ar	Parhaus, cychwynnwyd yn	Wedi helpu 12,629 o oedolion a oedd wedi eu hallgau yn ariannol i dderbyn gwasanaethau

	deb ariannol	canolbwyntio ar grwpiau sydd wedi eu hallgau yn ariannol.	wasanaeth UC. Ledled y wlad. 4% o deuluoedd heb gyfrif banc 2011.	gyfer gweithredu Cyfnod 2 (2010-2013)	2009	ariannol erbyn Rhagfyr 2012.
Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd	Oes: cysylltiadau ag iechyd, lles ac anghydraddol- debau ariannol.	Wedi ei anelu at rai digartref neu sydd mewn perygl o fod	Cynllun yn gosod allan yr egwyddorion, ac yn bwydo i mewn i raglenni eraill.	Ddim ar gael.	2009-19	Cynyddodd nifer y teuluoedd a dderbyniwyd yn ddigartref yn 2010/11 a 2011/12, ond disgynnodd 11 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn 2012/13, ac mae'r duedd hon wedi parhau yn 2013/14, ond ni ellir priodoli hyn i'r Cynllun.

Nodweddion rhaglenni sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i godi allan o dlodi

5.11 Mae i'r rhaglenni yn y maes hwn ganlyniadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag amcan lliniaru tlodi. Ar draws y rhaglenni a adolygwyd, ceir ffocws cryf ar wasanaethau i deuluoedd a gwasanaethau ieched yn hytrach na gwasanaethau ariannol.

Targedu

5.12 Mae pump o'r rhaglenni a adolygwyd yn y maes hwn yn targedu'n ddaearyddol (y rhai sy'n canolbwyntio ar wasanaethau i deuluoedd yn bennaf), ac fel arfer cânt eu targedu at grwpiau penodol yn yr ardaloedd targed hyn. Mae dau wasanaeth wedi eu targedu yn llwyr neu'n bennaf at grwpiau incwm isel (Cychwyn Iach ac Undebau Credyd), ac mae'r Strategaeth Digartrefedd wedi ei hanelu at grŵp targed penodol sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae un rhaglen – Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol – wedi ei dargedu yn gyffredinol, ond gan ganolbwyntio ar rai yn eu harddegau sydd mewn perygl o feichiogi.

Maint

5.13 Mae Cymorth a Theuluoedd yn Gyntaf yn mynd i'r afael â materion a grwpiau eang. Awdurdodau lleol unigol sy'n pennu maint y materion a'r adnoddau a gaiff eu cyfeirio atynt ac anodd yw asesu i ba raddau y mae hyn yn briodol. Dylai'r trefniadau monitro sydd yn eu lle ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf ar lefel genedlaethol adolygu hyn yn barhaus.

5.14 Mae Dechrau'n Deg, prif raglen Llywodraeth Cymru i blant ifanc, yn ceisio cyrraedd at 18,000 o blant, a disgwylir i nifer y buddiolwyr ddyblu pan fydd y rhaglen yn cael ei hehangu.

5.15 Mae cynllun Cychwyn Iach yn cwmpasu'n eang (ond nid i ddyfnder) – 95,000 o deuluoedd cymwys y flwyddyn – ac mae nifer dda yn manteisio ar y cynllun. Cymharol gyfyngedig yw'r manteision a gynigir – talebau gwerth £3 yr wythnos i brynu bwyd – ond mae'r nifer fawr sy'n manteisio arnynt yn awgrymu eu bod yn werthfawr i'r buddiolwyr.

5.16 Mae elfen Dull Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor (LARC) y cynllun Iechyd a Lles Rhywiol yn ymyrraeth cymharol isel o ran cost, sydd wedi ei anelu at grŵp risg uchel. Fel yn achos Gwasanaethau Integredig

Cymorth i Deuluoedd, er bod nifer y rhai sy'n cael eu heffeithio yn gymharol fach, maent ymhlith grŵp risg uchel iawn lle y mae'r canlyniadau yn debygol o fod yn wan pe na chaiff y mathau hyn o ymyriadau cynnar eu gweithredu. Yn yr un modd, mae'r gwaith i gynorthwyo Undebau Credyd wedi ei dargedu at unigolion sydd wedi eu hallgau yn ariannol ac felly mae'n mynd i'r afael â methiant y farchnad ar gyfer grŵp agored i niwed.

5.17 Mae cynnig yr Undebau Credyd bellach yn cwmpasu Cymru gyfan, ond mae'r nifer sy'n dewis ymaelodi ag Undeb Credyd yn parhau'n isel ymysg y grŵp targed (llai nag 1%), er bod hyn yn cyd-fynd â nifer yng ngweddill y DU. Er hyn, fel a nodir uchod, un rhan o waith cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru yw rhaglen yr Undebau Credyd, sydd hefyd yn cynnwys, er enghraifft:

- darparu cymorth i sicrhau y gall Swyddfeydd Post ddarparu gwasanaethau ariannol i gymunedau lleol
- codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau ariannol a'r cymorth sydd ar gael, gan ymestyn nifer y bobl y mae Moneyline Cymru yn eu cyrraedd
- cefnogi darparwyr cyngor y trydydd sector i gynorthwyo pobl sydd â phroblemau dyled i reoli eu harian
- parhau i gydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol
- cyflwyno addysg ariannol fesul cam mewn ysgolion a datblygu sgiliau ariannol pobl ifanc yng Nghymru.

Costau ac amserlenni

5.18 Mae'r rhaglenni – a'r gwerthusiadau – yn y maes hwn yn dueddol o ddilyn amserlenni hir. Ceir tystiolaeth o raglenni yn cael eu cyflwyno fesul cam, gyda thystiolaeth y cyfnodau arloesi cynnar yn cyfarwyddo'r rhaglenni wrth iddynt gael eu cyflwyno fesul cam yn ddiweddarach. Mae hyn yn wir yn achos rhaglen yr Undebau Credyd, Cryfhau Teuluoedd (sydd yn y cyfnod peilot ar hyn o bryd), ynghyd â Theuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i ryw raddau⁶³. Mae'r

⁶³ Cafodd rhaglen Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd ei chyflwyno fesul cam cyn i'r gwerthusiad ddod i gasgliadau ynglŷn â'r effaith yn yr ardaloedd arloesi – er bod tystiolaeth

rhaglenni mwyaf yn y maes hwn – Dechrau'n Deg a Chymorth / Teuluoedd yn Gyntaf – yn canolbwyntio'n bennaf ar ymyrraeth gynnar ac yn mynd i'r afael â holl amcanion y Strategaeth Tlodi Plant.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd ac effaith

- 5.19 Fel a nodwyd yn gynharach, mae'r rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gymorth cynnar i deuluoedd (trafodwyd llawer ohonynt o dan Atal Tlodi uchod) yn dueddol o gynnig tystiolaeth gref ynglŷn ag effaith, ac maent ynghlwm yn benodol wrth nodau'r Strategaeth Tlodi Plant. Mae amserlenni hir i lawer o'r rhaglenni hyn, a'u gwerthusiadau, ac felly cyfyngedig yw'r wybodaeth sydd ar gael am effaith ar hyn o bryd. Daeth gwerthusiad rhaglen Cymorth i'r casgliad y bu'r rhaglen yn effeithiol wrth hybu newid systemau, a datblygu partneriaethau – o sylfaen o ychydig yn unig o weithio mewn partneriaeth – ond nid oedd yn gallu gwneud asesiad cadarn o effaith y rhaglen ar ganlyniadau i deuluoedd. Mae'r gwersi a ddysgwyd o raglen Cymorth a'i werthusiad wedi cyfarwyddo'n uniongyrchol y modd y lluniwyd rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a'i holynodd: mae Teuluoedd yn Gyntaf yn sefydlu fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau cryfach er mwyn i'r effeithiau ar deuluoedd a phlant gael eu mesur ar lefel leol, ac mae'n gwrthio i nifer lai, ond mwy strategol, o bartneriaethau gael eu datblygu'n lleol.
- 5.20 Mae'r dystiolaeth mewn perthynas â Dechrau'n Deg yn gyfyngedig ar hyn o bryd gan fod casgliadau adroddiad Gwerthusiad Effaith 2014 yn nodi y *gallai'r* rhaglen fod wedi effeithio ar ganlyniadau i rieni a phlant ond nad oedd y dystiolaeth yn bendant. Mae tystiolaeth ehangach o werthuso'r rhaglen hon yn dangos bod mwy o deuluoedd incwm isel yn defnyddio'r gwasanaethau. Cafodd teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg fwy o gyswllt ag ymwelwyr iechyd na rhieni yn yr ardaloedd cymharu, ac roedd ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn rhagweithiol wrth annog rhieni i dderbyn cymorth rhianta ehangach. Roedd rhieni ag

addawol bod y systemau yn newid – ac mae Teuluoedd yn Gyntaf yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd yn gynharach yn y rhaglen a'i rhagflaenodd, Cymorth, yn ogystal ag ardaloedd arloesi Teuluoedd yn Gyntaf.

incwm aelwyd gros o lai na £10,000 y flwyddyn a'r rhai mewn aelwydydd heb waith wedi cael mwy o gyswllt ag ymwelwyr iechyd na'r cyfartaledd.

5.21 Mae'r rhaglenni a luniwyd i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd hefyd yn dueddol o gynnig tystiolaeth gref: mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS), Cychwyn Iach, a Chryfhau Teuluoedd. Cynhaliwyd cynllun peilot Cryfhau Teuluoedd yng Nghaerdydd, a chynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb i asesu'r posibilrwydd o'i chyflwyno fesul cam drwy'r wlad. Mae dull hap-dreial wedi'i reoli yn cael ei ddefnyddio i fesur effaith y rhaglen genedlaethol.

5.22 Fel mewn meysydd eraill, mae'r dystiolaeth ynglŷn â chynlluniau a strategaethau ehangach yn dueddol o fod yn fwy cyfyngedig na thystiolaeth rhaglenni unigol, gan eu bod yn cwmpasu amrywiaeth eang o raglenni, ac ni chaiff effaith gyffredinol y strategaethau ei gwerthuso. Er hyn, bydd tystiolaeth ar sail ystadegau'r boblogaeth yn cynnig rhai awgrymiadau o'r cyfeiriad (os nad mesuriadau effaith y gellir eu priodoli'n uniongyrchol) yn achos Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol, a'r Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd. Er enghraifft, mae cyfradd feichiogi rhai o dan 18 oed yng Nghymru yn disgyn, 44.2 ym mhob 1,000 preswylydd benywaidd 15-17 oed yn 2008 i 34.8 ym mhob 1,000 preswylydd benywaidd yn Ch4 2011 a 28.3 ym mhob 1,000 preswylydd benywaidd yn Ch4 2012⁶⁴. Cynyddodd nifer yr aelwydydd a dderbynnir yn ddigartref yn 2010/11 a 2011/12, ond gostyngodd 11 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn 2012/13, ac mae'r duedd hon wedi parhau yn 2013/14⁶⁵. Er hyn, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r cynlluniau eu hunain wedi dylanwadu ar y newidiadau hyn.

5.23 Mae gwerthusiad cyfnod peilot Mynediad at Undebau Credyd wedi helpu i ffurfio'r rhaglen wrth ei chyflwyno fesul cam ynghyd â'r amcanion yn yr ail gyfnod, ac mae'n enghraifft dda o dystiolaeth werthuso amserol sydd

⁶⁴ Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol i Gymru, 2010-2015 ([http://www.shnwales.org.uk/Documents/485/Strategy%20\(Welsh\).pdf](http://www.shnwales.org.uk/Documents/485/Strategy%20(Welsh).pdf)) a *Quarterly Conceptions to Women Aged Under 18 – England and Wales*, Ch4 2012 (<http://www.ons.gov.uk/ons/datasets-and-tables/index.html?pageSize=50&sortBy=none&sortDirection=none&newquery=conceptions&content-type=Reference+table&content-type=Dataset>)

⁶⁵ <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2014/140326-homelessness-october-december-2013-en.pdf>

ar gael i gyfarwyddo gweithrediad y rhaglen. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod "angen cryf a rhesymeg bolisi gref dros ymyrraeth y sector cyhoeddus i gefnogi a datblygu'r mudiad undebau credyd yng Nghymru."⁶⁶ Roedd yn dadlau y bu'r penderfyniad i ddarparu cyllid cyfalaf yn ogystal â refferniw yn briodol, ond y dylai arian fod wedi cael ei fuddsoddi mewn modd mwy strategol sy'n gydnaws â chanlyniadau CAMPUS a chyffredin.⁶⁷ Yn olaf, daeth i'r casgliad bod gormod o flaenoriaethau wedi eu gosod ar gyfer y prosiect i gychwyn, a bod diffyg cyswllt rhwng yr amcanion a'r targedau a osodwyd ar lefel undeb credyd, lefel prosiect a lefel strategol unigol⁶⁸.

5.24 Fel a nodwyd yn gynharach, mae nifer o wasanaethau i deuluoedd yn defnyddio model ymyrraeth gynnar, gan ymyrryd ym mhroblemau teuluoedd cyn iddynt waethgu i fod yn faterion mwy cymhleth (sydd hefyd yn fwy costus i'w datrys). Mae'r modelau hyn yn aml yn defnyddio dull amlasiantaeth, ac yn ceisio trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaeth ei weithredu yn ogystal â chyflwyno ymyriadau newydd i deuluoedd. Mae'r gwerthusiadau felly yn canolbwyntio ar y graddau y mae gweithredu'r gwasanaeth wedi newid yn ogystal â'r canlyniadau i deuluoedd (mewn rhai achosion, megis Cymorth, a gwerthusiad cyfredol y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, canlyniadau newid gwasanaeth yw'r prif ffocws yn hytrach na chanlyniadau i deuluoedd; i ryw raddau, mae hyn hefyd yn wir yn achos gwerthusiad Teuluoedd yn Gyntaf, er bod hyn yn mesur 'pellter a deithiwyd' i deuluoedd gan awdurdodau lleol).

5.25 Fel mewn meysydd eraill, mae'r dystiolaeth o effaith fwyaf yn achos rhaglenni llai o faint. Er enghraifft, gwerthuswyd cynllun Cychwyn Iach yn 2006 a daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

- roedd Cychwyn Iach yn ategu llawer o amcanion eraill ym maes gwasanaethau ieuchyd a phlant, ond ni wnaed cysylltiadau gweithredol â gwasanaethau eraill ar lawr gwlad

⁶⁶ Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd: Adroddiad Blwyddyn Gyntaf.

⁶⁷ *Ibid.*

⁶⁸ *Ibid.*

- er bod y rhan fwyaf o weithwyr ieched yn ymwybodol o'r rhaglen ac yn ei defnyddio, roedd rhywfaint o ddiffyg eglurder ynglŷn â rheolau cymhwysedd penodol
- nid oedd yr uwch reolwyr wedi cynnig arweinyddiaeth a chymorth digonol i staff y rheng flaen
- roedd lefelau o ymwybyddiaeth a chymorth yn uchel ymysg manwerthwyr, ond roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r angen i gofrestru
- roedd y camau i hyrwyddo'r rhaglen i fuddiolwyr yn canolbwyntio ar y talebau sydd ar gael, yn hytrach na hybu ieched, ac mae newid ymddygiad bwyta yn galw am weithredu ar sawl haen dros gyfnod hwy.

Gwerthuswyd model Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid yn 2001, a chynhaliwyd gwerthusiad ar raddfa fach ymysg gweithwyr ieched Cymru a hyfforddwyd i weinyddu'r rhaglen. Canfu gwerthusiad y rhaglen fod 96 y cant o'r cyfranogwyr yn teimlo'n fwy hyderus neu eu bod wedi eu paratoi'n well i helpu rhywun sydd mewn trallod meddyliol nag oeddynt cyn derbyn hyfforddiant. Caiff rhaglen Cryfhau Teuluoedd ei gwerthuso drwy werthusiad o ansawdd uchel gan ddefnyddio hap-dreial wedi'i reoli (rhagwelir y caiff y gwerthusiad hwn ei gyhoeddi ar ddiwedd 2014⁶⁹).

Cost a budd y rhaglenni sy'n ceisio helpu pobl i godi allan o dlodi

5.26 Nid oedd y dystiolaeth a oedd ar gael ar gost a budd y rhaglenni yn yr elfen hon yn ddigonol i alluogi cynnal asesiad cost a budd. Mae'r anawsterau yn debyg i'r rhai a drafodwyd ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn, gan mai'r un rhaglenni yw llawer ohonynt. Yn achos Cychwyn Iach, nid oes data ar gael sy'n benodol i Gymru. Anodd iawn fyddai mesur Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid yn ariannol. Nid yw'n bosibl priodoli'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyfraddau beichiogi dan

⁶⁹ Mae papur protocol ar gyfer y gwerthusiad eisoes wedi ei gyhoeddi: Jeremy Segrott, David Gillespie, Jo Holliday, Ioan Humphreys, Simon Murphy, Ceri Phillips, Hayley Reed, Heather Rothwell, David Foxcroft, Kerenza Hood, Zoe Roberts, Jonathan Scourfield, Claire Thomas, a Laurence Moore, "Preventing substance misuse: study protocol for a randomised controlled trial of the Strengthening Families Programme 10–14 UK (SFP 10–14 UK)", *BMC Public Health* 2014, 14:49.

16 oed a digartrefedd i'r Cynlluniau perthnasol. Ac ar ochr arall yr hafaliad, nid oedd data ar gael am gostau dwy o'r rhaglenni. Penderfynwyd felly na fyddai asesiad cost a budd yn addas ar gyfer yr elfen hon.

Crynodeb

- 5.27 Ar draws y rhaglenni a adolygwyd, caiff gwasanaethau ymyrraeth gynnar eu blaenoriaethu o ran ariannu yn y maes hwn.
- 5.28 Mae'r rhaglenni yn dueddol o gael eu targedu yn ddaearyddol, ond cânt eu canolbwyntio weithiau ar grwpiau targed incwm isel neu grwpiau targed penodol megis rhai sydd mewn perygl o feichiogi / bod yn ddigartref / eu plant yn cael eu cymryd i ofal.
- 5.29 Mae tystiolaeth y rhaglenni sydd â chanlyniadau iechyd yn arbennig o gryf (e.e. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, Cryfhau Teuluoedd).
- 5.30 Mae tystiolaeth rhaglenni ymyrraeth gynnar ar raddfa fawr yn aml yn canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaeth ac ail-ddylunio gwasanaeth yn hytrach na'r effeithiau ar deuluoedd: mae hyn yn wir yn achos gwerthusiadau Cymorth, Teuluoedd yn Gyntaf, a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae'r gwerthusiadau hyn yn dibynnu ar wybodaeth fonitro sy'n cael ei chasglu'n rheolaidd a/neu ddangosyddion poblogaeth i asesu effaith y rhaglenni ar deuluoedd, a gall gwybodaeth fonitro yn aml fod yn amrywiol o ran ansawdd a pha mor gyflawn ydyw.
- 5.31 Mae'r dystiolaeth ynglŷn â gweithredu rhaglen a'i heffaith yn dueddol o fod gryfaf ymysg rhaglenni ar raddfa fach, ac mae'n fwy cyfyngedig yn achos rhaglenni mwy. Y rheswm am hyn yw y caiff amserlenni hwy eu defnyddio yng ngwerthusiadau rhaglenni mwy, sy'n golygu na allwn ddod i gasgliadau ynglŷn â'u heffaith eto (e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf), a hefyd oherwydd eu bod yn dibynnu ar ddata monitro sydd weithiau'n dameidiog i gyfarwyddo'r gwaith o asesu effaith. Mae casglu tystiolaeth o effaith sydd ynghlwm wrth y math o ymyrraeth yn arbennig o heriol yn achos rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf, am fod asiantau cyflenwi lleol yn ffurfio'r hyn sy'n cael ei gyflenwi.

6 Effaith bod â strategaeth ar gamau Llywodraeth Cymru

- 6.1 Mae'r adran hon yn adolygu pa effaith y mae bod â strategaeth wedi ei gael ar lunio a gweithredu polisi ar Lywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynrychioli canfyddiadau ymgynghori â 13 o randdeiliaid ar draws tîm polisi Llywodraeth Cymru (gan gynnwys adrannau Cymunedau a Threchu Tlodi; Addysg a Sgiliau; Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; Tai ac Adfywio) ym mis Mehefin-Gorffennaf 2013 ac adolygiad o dystiolaeth y rhaglenni.

Gwerth symbolaidd y strategaeth

- 6.2 Gwelwyd o'r gwaith ymgynghori bod gwerth symbolaidd y Strategaeth Tlodi Plant yn bwysig. Mae'r ffaith bod gan Lywodraeth Cymru Strategaeth yn helpu i lunio'r meddwl gan greu naratif cyffredinol ynglŷn ag effeithiau blaenoriaethau polisiau ac adrannau. Mae'r Strategaeth yn ailddiffinio'r ffocws ar dlodi, gan bwysleisio nid yn unig y dylai polisi greu cyfleoedd, ond i bwy y maent yn creu cyfleoedd, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf agored i niwed. Yn fwyaf diweddar, bu'r Strategaeth yn rhan o bwyslais mwy ar osod targedu drwy annog gwahanol adrannau i osod targedau i leihau tlodi plant, sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi. Mae'r ffaith bod ffocws ar dlodi plant fel a fynegwyd yn y Strategaeth Tlodi Plant hefyd wedi galluogi adrannau i ddenu cyllid ar gyfer prosiectau penodol sy'n cael effaith ar dlodi plant mewn cymunedau penodol.

- **Mae'r Strategaeth yn llunio naratif ynglŷn â'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni.** Credai un rhanddeiliad bod cynnwys y Strategaeth yn benodol yn llai pwysig na'r ffaith bod Strategaeth yn bodoli, sy'n pwysleisio yr effaith a gaiff ar flaenoriaethu. Roedd y rhanddeiliaid yn siarad am y strategaeth yn nhermau cyfiawnhad dros gyfeiriad polisi cyffredinol a hyd yn oed offeryn marchnata ar gyfer y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud – gan helpu'r cyhoedd i ddeall yr effaith mae'r Llywodraeth yn ei chael a'r hyn y mae'n ceisio cyflawni. Yn hyn o beth, gall y Strategaeth Tlodi Plant gael ei hystyried yn gyfrif ac eglurhad dros

bolisiâu megis cadw'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg er ei fod wedi ei waredu yn Lloegr, ac yn erbyn cynyddu ffioedd Prifysgol.

- **Mae'r Strategaeth yn ailddiffinio'r ffocws ar dlodi plant.** Mae dystiolaeth y gwaith ymgynghori yn dangos bod gan y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ystyriaethau ychwanegol ynglŷn ag ar bwy y bydd polisi yn effeithio, yn hytrach na pha effaith a gaiff yn unig. Yn ôl rhai rhanddeiliaid, cyn y polisi, byddai cynnwys camau i liniaru tlodi, megis fframio'r polisi o amgylch creu cyfleoedd o ran swyddi neu liniaru tlodi mewn cymuned, yn cael ei ystyried yn ddigonol, ond mae'r Strategaeth yn golygu bod y drafodaeth yn ymwneud ag i bwy y mae'r polisi yn creu cyfleoedd. Y mae wedi peri i'r timau sy'n gweithredu polisi ddeall nad creu cyfleoedd yn unig sy'n bwysig, ond bod angen mabwysiadu ymagwedd Rawls⁷⁰ a gwneud yn siŵr bod y cyfleoedd yn cael eu creu i'r bobl iawn; i'r rhai sydd mewn tlodi neu'n fwyaf tebygol o fynd i dlodi. Fel yma, mae'n ychwanegu dyfnder i'r meddwl sydd ynghlwm wrth lunio polisi ac i'r gwaith o fonitro ac asesu llwyddiant polisi.
- Rhoddodd y Strategaeth bwyslais ar fonitro, gwerthuso a gosod targedau. Mae'r Strategaeth wedi annog gwahanol adrannau i osod targedau ar gyfer lleihau tlodi plant, sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi. Mae hyn yn golygu bod perfformiad yn haws ei fesur, yn ogystal â pheri i adrannau fod yn llawer mwy ymwybodol o amcan y mae angen iddynt weithio tuag at ei gyflawni drwy bolisi sy'n canolbwyntio ar hynny.

⁷⁰ Mabwysiadu strategaeth cyfiawnder cymdeithasol sy'n gwella rhagolygon i'r rhai lleiaf cefnog.

Enghraifft o'r ffocws ar dlodi ac ar osod targedau yw'r targed addysg sy'n ymwneud â'r bwlch cyrhaeddiad. Yn flaenorol, roedd polisïau addysg yn canolbwyntio ar y gyfran gyffredinol o blant a fyddai'n cyrraedd y targedau, nid ar *ba ddisgyblion* oedd neu nad oedd yn cyrraedd y targedau neu ba grwpiau y byddai'r polisïau yn dylanwadu arnynt. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn pwysleisio pwysigrwydd cydnabod mai'r grŵp tlotaf o fyfyrwyr fyddai'n cael eu gadael ar ôl yn anghymesur waeth faint o lwyddiant a geir wrth godi'r lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol. Yn ddiweddar, yn sgil dylanwad y Strategaeth, bu'r ffocws ar y bwlch cyrhaeddiad, a sut i wella'r disgyblion tlawd heb ddal disgyblion eraill yn ôl.

Ffynhonnell: ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2013

6.3 Mae'r Strategaeth yn ei gwneud yn bosibl denu neu gynnal cyllid er mwyn targedu'n well y problemau hynny yn ymwneud â thlodi plant mewn cymunedau penodol. Drwy gynnal tlodi plant fel blaenoriaeth uchel i'r Prif Weinidog, mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn dylanwadu ar y gweinidogion adrannol eraill a'r gwaith o lunio polisi yn yr adrannau hyn. Mae hyn yn golygu y gallai mwy o adnoddau fod ar gael i'r rhaglenni hyn sydd ag amcanion penodol ynghylch tlodi.

- Nododd rhai rhanddeiliad bod cyfiawnhau polisi drwy gyfeirio at y Strategaeth Tlodi Plant yn golygu eu bod yn gallu denu cyllid er mwyn mynd i'r afael â phroblem gymunedol benodol. Y mae hefyd yn golygu bod gwaith gwahanol adrannau sy'n canolbwyntio ar dlodi plant neu'n cael ei ddylanwadu gan Gynllun Gweithredu Trechu Tlodi, yn cael mwy o gydnabyddiaeth trawsadrannol, ac yn cael mwy o sylw oherwydd y Strategaeth.
- Ymhellach, meddai rhai rhanddeiliaid bod y Strategaeth Tlodi Plant yn bwysig iawn o ran diogelu polisïau rhag cael eu torri. Yn yr hinsawdd economaidd anodd, gyda thoriadau yn angenrheidiol, gallai'r Strategaeth Tlodi Plant fod wedi bod â'r swyddogaeth ynghlwm wrthi o arbed polisïau rhag cael eu torri, megis Lwfans Cynhaliaeth Addysg,

neu gadw polisiâu penodol, megis gwersi nofio ac ymweliadau ag amgueddfeydd am ddim. Unwaith yn rhagor, eithriadol anodd yw mesur effaith y Strategaeth ar y materion hyn, ond nododd sawl rhanddeiliad bod hyn yn un o gyflawniadau'r Strategaeth a'r ffocws ar dlodi plant fel blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru.

- 6.4 Er y gallai'r Strategaeth fod wedi dod i fodolaeth yn sgil rhoi blaenoriaeth uchel i dlodi plant, anodd iawn yw pwysu a mesur gwir effaith y strategaeth. Gallai Llywodraeth Cymru a'r adrannau fod wedi rhoi blaenoriaeth i dlodi plant heb fod â strategaeth ysgrifenedig, gan fod gweinidogion wedi ei wneud yn flaenoriaeth uchel beth bynnag. Hefyd, roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn cyfeirio at y Strategaeth Tlodi Plant fel un o nifer o bethau y mae angen iddynt gyfeirio atynt yn eu deunydd polisi, fel ymarferiad 'ticio blychau' (ynghyd â chydaddoldebau, yr amgylchedd ac ati). Roedd un rhanddeiliad o'r farn y dylai ffocws ar dlodi plant fod ynghlwm wrth yr holl waith y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud beth bynnag ac mai "anaeddfed" yw bod â pholisi.

Camau strategol

- 6.5 Esblygodd y Tîm Trechu Tlodi o'r Tîm Tlodi Plant a fu yn ei le yn Llywodraeth Cymru ers 2005. Mae gweithgareddau allweddol y Tîm Trechu Tlodi yn cynnwys: llobio'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, a llywodraeth y DU, i hybu nodau'r Strategaeth Tlodi Plant a denu cymaint â phosibl o gyllid ar gyfer polisiâu perthnasol; cydweithio â rhanddeiliaid yn nhimau polisi Llywodraeth Cymru a thu hwnt; gweithredu yn 'borth polisi', gan gryfhau'r modd y mae polisiâu a rhaglenni newydd yn cysylltu â'r agenda tlodi plant drwy sicrhau eu bod yn rhoi'r cymorth mwyaf posibl i deuluoedd incwm isel; rhannu tystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n 'gweithio' wrth drechu tlodi plant ar draws y llywodraeth; a defnyddio rhwydwaith o Hyrwyddwyr Trechu Tlodi i hybu'r agenda trechu tlodi ar draws llywodraeth ganolog a chyrrff cyhoeddus, a sicrhau bod gwybodaeth am y ffyrdd orau o drechu tlodi plant wedi ymwreiddio ar draws y llywodraeth.

6.6 Mae'r Tîm Trechu Tlodi yn ceisio dylanwadu ar y canlynol mewn perthynas â rhaglenni sy'n cael effaith ar dri amcan craidd y Strategaeth Tlodi Plant:

- Dylunio polisi (Sail Resymegol, Amcanion, Gwerthuso): mae'r Tîm Trechu Tlodi yn ceisio sicrhau bod y gwaith o ddylunio polisi yn seiliedig ar dystiolaeth, ac y rhoddir blaenoriaeth i ddulliau o drechu tlodi plant sy'n seiliedig ar dystiolaeth oddi mewn i feysydd polisi allweddol a all ddylanwadu ar dlodi plant. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Tîm Trechu Tlodi yn ceisio sicrhau bod pob polisi a rhaglen newydd yn rhoi cymaint â phosibl o gymorth i deuluoedd incwm isel. Yn olaf, mae'r Tîm Trechu Tlodi yn ymwneud â phroses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i effeithiau posibl ar drechu tlodi a'r canlyniadau i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig wrth i bolisi gael ei ddatblygu.
- Gweithredu polisi a chyflenwi rhaglen (Monitro): mae'r Tîm Trechu Plant yn ceisio sicrhau y caiff dulliau i fynd i'r afael â thlodi plant eu blaenoriaethu yn y modd y caiff polisiâu eu gweithredu, a bod y ffyrdd o weithredu polisiâu yn cael eu haddasu i wella'r effaith ar dlodi plant. Mae'r Tîm Trechu Tlodi, drwy'r Bwrdd Gweithredu, hefyd yn dal adrannau i gyfrif am gyrraedd y targedau a'r cerrig milltir allweddol yn y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi.
- Adolygu polisi (Gwerthuso ac Adborth): mae'r Tîm Trechu Plant yn ceisio adeiladu'r sylfaen dystiolaeth o'r hyn sy'n 'gweithio' wrth drechu tlodi plant a chodi ymwybyddiaeth y gwleidyddion, swyddogion polisi a dadansoddwyr o'r dystiolaeth hon, er mwyn iddynt allu cydweithio i gymhwyso'r dystiolaeth wrth ddatblygu polisi i'r dyfodol.

Effaith ar ddylunio polisi

6.7 Roedd yr adborth ynglŷn â gwaith y Tîm Trechu Tlodi a'i effaith yn amrywio yn ôl maes polisi. Roedd y rhan fwyaf o'r timau polisi yn eu hystyried eu hunain yn arbenigwyr yn y dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio yn eu meysydd ledled Cymru. Nododd llawer o dimau polisi eu bod yn ymwybodol o dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, a'u bod yn casglu hyn eu hunain yn eu hadrannau penodol. Roeddynt yn ystyried mai gwaith y

Tîm Trechu Tlodi oedd annog adrannau i gasglu a defnyddio tystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio yn hytrach na rhannu'r dystiolaeth honno eu hunain.

- 6.8 Cynhaliwyd llawer o gyfarfodydd rhwng y Tîm Trechu Tlodi a'r timau polisi, ac mae gan y Tîm Trechu Tlodi bresenoldeb mewn cyfarfodydd dylunio / gweithredu rhaglenni allweddol ac maent wedi cyfrannu at ffocws targedau a'r gwaith o'u gosod. Nododd rai rhanddeiliaid bod angen i geisiadau am gyllid i brosiectau bellach ganolbwyntio'n benodol ar dlodi plant, er na welwyd gwir ddylanwad hyn ar geisiadau hyd yma gan ei bod yn rhy gynnar i ddweud p'un a yw eu ffocws yn wahanol. Drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid, gwelwyd bod y Strategaeth Tlodi Plant a'r Tîm Trechu Tlodi hefyd wedi cael effaith ar y timau cyflenwi o ran yr adrannau yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffocws ar dlodi plant. Er y gallai mynd i'r afael â thlodi plant fod wedi bod yn flaenoriaeth i'r adran, ac felly i'r tîm datblygu polisi, nid dyma oedd yr achos bob amser i'r tîm cyflenwi.

Yn ôl un rhanddeiliad, effaith y Tîm Trechu Tlodi ar gyflenwi rhaglen oedd un o'r effeithiau pennaf ar newidiadau i'r polisi; mae rhan o'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi wedi arwain at adolygu rhaglenni presennol i wneud yn siŵr bod y timau cyflenwi a'r cyflenwyr yn deall yn glir y nodau a'r amcanion mewn perthynas â thlodi, a'u bod yn gallu monitro'r canlyniadau.

Ffynhonnell: ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2013

- 6.9 Swyddogaeth yr Hyrwyddwyr Trechu Tlodi yw cydweithio â'r Tîm Trechu Tlodi ar draws adrannau Llywodraeth Cymru er mwyn hybu'r agenda trechu tlodi ar draws llywodraeth ganolog a chyrff cyhoeddus, a sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn â'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â thlodi plant wedi ei hymwreiddio. Mae hyn wedi helpu i wella pa mor weladwy yw tlodi fel congylfaen allweddol yng ngwaith Llywodraeth Cymru, er hyn (pan gynhaliwyd yr ymgynghoriadau ym mis Gorffennaf 2013) roedd eu

swyddogaeth benodol fel Hyrwyddwyr yn aneglur i lawer. Mae tystiolaeth yr ymgynghoriadau yn dangos na ystyriwyd bod hyn, mewn nifer o achosion, yn newid y ffordd y maent yn gweld yr Hyrwyddwyr yn ymgymryd â'r swyddogaeth y mae disgwyl iddynt wneud beth bynnag, o ran edrych ar dystiolaeth a'r hyn sydd wedi gweithio yn eu hadran hwy, ac nid oeddynt o'r farn eu bod yn ychwanegu unrhyw beth gwahanol yn sgil cael eu henwi'n 'Hyrwyddwyr'.

- 6.10 Er hyn, mae rhai o'r rhanddeiliaid yn credu bod yr Hyrwyddwyr, a hwythau'n bobl sydd wedi ymwreiddio ym mhrosesau llunio polisi'r adran, yn rhan annatod wrth ystyried pa effeithiau fydd y polisi'n cael ar dlodi plant. Fel rhan o'r broses bolisi, maent wedi "sicrhau bod Trechu Tlodi a Thlodi Plant wedi eu hystyried yn llawn wrth baratoi, ymgynghori a lansio'r polisi newydd". Caiff yr Hyrwyddwyr eu gwahodd i adolygu polisi i weld ba effaith a gaiff ar dlodi plant, ac mae'r berthynas weithio yn dda yn ôl rhai o'r rhanddeiliaid, ac maent yn disgwyl parhau i gydweithio yn y dyfodol. O'r Dirprwy Gyfarwyddwr i fyny, ystyriwyd y gall yr Hyrwyddwyr gael dylanwad ar ffurfio polisi yn unol â'r agenda trechu tlodi.

Effaith ar weithredu polisi a rhaglenni

- 6.11 Yn y misoedd diwethaf, bu newid mewn blaenoriaethau rhai meysydd i gyd-fynd â'r pwysigrwydd a roddir i'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi a chaiff y canlyniadau y mae'n gobeithio ei gyflawni eu hintegreiddio'n well yn y meysydd hyn, megis rhaglenni addysg, sgiliau ac adfywio. Bu swyddogaeth gref i'r Tîm Trechu Tlodi wrth gynnal cyswllt â rhai o'r rhaglenni a ddylai wella'r effaith gyffredinol a gwerth am arian – y maes lle y gwelwyd y mwyaf o gynnydd oedd mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf ac elfennau eraill o waith rhaglennu (nodwyd bod y cyswllt agos rhwng y Tîm Trechu Tlodi a thîm Cymunedau yn Gyntaf yn hollbwysig i sicrhau hyn). Ystyriwyd y gellid gwneud hyn yn fwy systematig ac y gallai fod swyddogaeth allweddol i'r Tîm Trechu Tlodi wrth gyflawni hyn.

6.12 Bu'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Tîm Trechu Tlodi hefyd yn llwyddiannus wrth gydlyn arian a sicrhau bod y ffocws ar dlodi plant ar draws yr adrannau, gan gynyddu'r cydweithio rhwng gwahanol adrannau a rhaglenni. Mewn cyfarfodydd â'r sector preifat, y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr byd busnes, rhoddwyd sylw yn ddiweddar i dlodi plant a Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi am y tro cyntaf, gan drafod yr effaith y bydd yn cael arnynt, a'r syniad y bydd yn helpu i ddatblygu polisi sy'n ymgorffori ystyriaethau ynglŷn â thlodi plant. Ymhellach, yn sgil y ffocws ar y Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, gellid denu cyllid er mwyn ychwanegu gwerth.

Mae prosiect adfywio yn y Barri yn enghraifft o ddylanwad y Tîm Trechu Tlodi i ddenu cyllid. Roedd hon yn ardal Dechrau'n Deg, a oedd yn canolbwyntio ar wella'r gymuned a dod ag aelwydydd heb waith yn ôl i waith. Ond nid oedd gan y ganolfan blant ddigon o le i dderbyn y plant er mwyn i'r rhieni fynd yn ôl i weithio, ac nid oedd arian Dechrau'n Deg yn ddigon i wella'r ganolfan. Llwyddodd y tîm adfywio i ddenu arian drwy Dechrau'n Deg oherwydd yr ymagwedd gyfannol at dlodi er mwyn adfywio'r ganolfan blant.

Ffynhonnell: Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2013

Effaith ar adolygu polisi

6.13 Ers ymgynghori â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013, bu'r Tîm Trechu Tlodi yn ymwneud mwy â gwerthuso rhaglenni. Er enghraifft, y mae'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â datblygu mesurau perfformiad cyffredin ar draws y rhaglenni trechu tlodi megis Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf, ac yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu fframwaith y blynyddoedd cynnar a gofal plant, er mwyn sicrhau bod dangosyddion y boblogaeth yn gydnaws â'r fframwaith a'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi.

Crynodeb

- 6.14 Mae'r Strategaeth yn cynnig naratif defnyddiol ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru a'r amryw dimau polisi yn ceisio cyflawni, a gall weithredu fel 'offeryn marchnata' defnyddiol yn fewnol wrth geisio tynnu sylw rhanddeiliaid at ffocws a chyfraniad Llywodraeth Cymru. Caiff ei hystyried yn offeryn defnyddiol hefyd i gyfiawnhau diogelu rhaglenni penodol megis Lwfans Cynhaliaeth Addysg, gwersi nofio am ddim a mynediad i amgueddfeydd ac ati. Mae bodolaeth y Strategaeth hefyd wedi annog timau polisi i ganolbwyntio ar dargedu'r rhai sy'n byw ag effeithiau tlodi – cyfeiriwyd at hyn yn benodol gan y timau adfywio ac addysg.
- 6.15 Fel rhan o weithredu'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu, aethpwyd ati i adolygu rhaglenni presennol i wneud yn siŵr bod y timau cyflenwi a'r cyflenwyr yn deall y nodau a'r amcanion yn glir, a'u bod yn gallu monitro'r canlyniadau. Bu gan y Tîm Trechu Tlodi swyddogaeth gref yn y gwaith o greu cyswllt rhwng rhai o'r rhaglenni a ddylai wella'r effaith gyffredinol a gwerth am arian. Y maes lle y gwelwyd y mwyaf o gynnydd oedd mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf ac elfennau eraill o waith rhaglenni. Ystyriwyd y gellid gwneud hyn yn fwy systematig ac y gallai fod swyddogaeth allweddol i'r Tîm Trechu Tlodi wrth gyflawni hyn.
- 6.16 Mae'r Hyrwyddwyr Tlodi wedi helpu i wella pa mor weladwy yw tlodi fel congflaen allweddol yng ngwaith Llywodraeth Cymru. Er hyn roedd eu swyddogaeth benodol fel Hyrwyddwyr yn aneglur i lawer ac mewn nifer o achosion ni ystyriwyd bod hyn yn newid y modd y mae'r Hyrwyddwr yn gwneud ei swydd / yn ymgymryd â'i swyddogaeth.
- 6.17 Cynhaliwyd llawer o gyfarfodydd rhwng y Tîm Trechu Tlodi a'r timau polisi, ac mae gan y Tîm Trechu Tlodi bresenoldeb mewn cyfarfodydd dylunio / gweithredu rhaglenni allweddol ac maent wedi cyfrannu at ffocws targedau a'r gwaith o'u gosod. Gallai'r Tîm Trechu Tlodi wneud mwy o'r gwaith o gasglu a rhannu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio mewn meysydd eraill. Mae mwy o swyddogaeth i'r Tîm Trechu Tlodi bellach ym mhroses adolygu polisi, gan helpu i ddatblygu targedau gwerthuso a fframweithiau
monitro.

7 Adolygu strategaethau tlodi plant eraill

- 7.1 Mae'r gwerthusiad yn cynnwys adolygiad o strategaethau tlodi plant eraill, gyda'r nod o ganfod unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu a gweithredu'r strategaethau hyn a allai fod yn berthnasol i Gymru. Ystyriwyd strategaethau cenedlaethol yn y DU (o 2011, nid Strategaeth Tlodi Plant newydd y DU a gyhoeddwyd i ymgynghori yn ei chylch ym mis Chwefror 2014) ynghyd â Gweriniaeth Iwerddon a rhai o ranbarthau Lloegr. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y strategaethau a luniwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon, yr Alban, a Llundain, ac mae'n cynnwys adolygu dogfennau yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys un rhanddeiliad o'r llywodraeth neu'r gwasanaeth sifil, ac un rhanddeiliad allanol a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth.
- 7.2 Yn gyffredinol, roedd strategaeth Cymru yn fwy datblygedig na'r strategaethau eraill, o ran amser ei lansio (llawer yn gynharach) a'i chynnwys (mwy manwl a thrylwyr). Yn benodol, ystyriwyd bod monitro a mesur yn elfennau safonol i anelu atynt. Er hyn, roedd gwersi i'w dysgu o hyd o'r strategaethau eraill, a'r rhain yw ffocws y bennod hon.

Strategaethau eraill y DU

- 7.3 Elfen gyffredin o'r strategaethau a adolygwyd a strategaeth Cymru oedd y pwyslais ar gyflogaeth rhieni. Yn yr holl ddogfennau a adolygwyd, roedd consensws mai gwaith yw'r ffordd orau i godi allan o dlodi. At y diben hwn, mae addysg, a chyrhaeddiad addysgol plant tlawd yn benodol, yn ganolog.
- 7.4 Ond, y tu hwnt i hyn, roedd gwahaniaethau allweddol. Nid yw'r strategaeth ar gyfer y DU gyfan o 2011⁷¹, er enghraifft, braidd yn crybwyll incwm o gwbl, ac yn pwysleisio chwalu teulu a dyled mewn ffordd nad yw'r strategaethau eraill (er bod drafft strategaeth 2014⁷², sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar fynd

⁷¹ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/177031/CM-8061.pdf

⁷² https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/285387/Cm_87_82_Child_Poverty_Strategy_Consultation_Print.pdf

i'r afael â bod heb waith a chynyddu enillion, gwella safonau byw a gwella cyraeddiadau addysg plant tlawd). Roedd adroddiad Comisiwn Tlodi Plant Llundain yn bwrw golygon tuag allan. Roedd un o'i brif ganfyddiadau yn ymwneud â'r angen i wthio'r llywodraeth ganolog i barhau i wneud cynnydd ar leihau tlodi plant a chydabod na all y targedau cenedlaethol ynghylch tlodi plant gael eu cyrraedd heb leihau'r lefelau yn sylweddol yn y brifddinas.

- 7.5 Mae Tabl 9.1 yn rhoi crynodeb o'r meysydd ffocws sydd gan bob strategaeth yn gyffredin â strategaeth 2005 Cymru. Y mae hefyd yn dangos rhai meysydd allweddol o ffocws ychwanegol, ac mae llawer o hyn yn ymwneud ag amseru yn hytrach na gwahaniaethau rhwng lleoedd – roedd tlodi mewn gwaith yn fater oedd yn cael llawer mwy o gydnabyddiaeth yn 2009 nag yn 2005.

Tabl 9.1: Crynodebau o strategaethau eraill a thebygrwydd rhyngddynt o ran cynnwys a strategaeth 2005 Cymru

	<i>Yr Alban</i>	<i>Llundain</i>	<i>Gogledd Iwerddon</i>	<i>Y DU</i>	<i>Gweriniaeth Iwerddon</i>
Dyddiad	2011/2014	2008	2011	2011/2014	2006
Prif nodau	Gwneud y mwyaf o adnoddau aelwydydd; gwella lles a chyfleoedd bywyd plant; lleoedd cynaliadwy wedi eu dylunio'n dda	Dim nodau, ond datblygwyd 26 o argymhellion, gan gwmpasu datblygiad plentyn, incwm, cyflogaeth a thai	1. Lleihau gwaith cyflog isel a diweithdra ymysg oedolion sydd â phlant 2. Gwella rhagolygon tymor hwy drwy ymyriadau sy'n seiliedig ar y plentyn a ddylunnir i fynd i'r afael â natur gylchol tlodi plant	Nodir mai'r sbardunau allweddol yw cryfhau teuluoedd, a mynd i'r afael â bod heb waith, dyled, methiant addysgol, ac iechyd gwael	Datblygiad plentynod, gwella addysg ac iechyd, incwm
Elfennau sy'n debyg i Gymru	Ffocws ar gynyddu incwm drwy leihau bod heb waith, cydweithio yn lleol	Ffocws ar gynyddu incwm drwy leihau bod heb waith ac addysg	Ffocws ar gynyddu incwm drwy leihau bod heb waith ac addysg (drwy ymyrraeth gynnar)	Ffocws ar gynyddu incwm drwy leihau bod heb waith ac addysg	Ffocws ar gynyddu incwm drwy leihau diweithdra, gwella canlyniadau addysg ac iechyd
Gwahaniaethau allweddol	Asedau a galluoedd i drechu tlodi, cyflog byw	Nid strategaeth go iawn, ffocws ar lobïo llywodraeth ganolog	Cynnwys tlodi mewn gwaith, costau byw	Cryfhau teuluoedd, dyled	Rhan o strategaeth fwy sy'n cwmpasu fframwaith cytuniad

					cymdeithasol
Strwythurau	Tîm Trechu Tlodi trawsbynciol yn Llywodraeth yr Alban, grŵp cyngori gweinidogion yn cynnwys tri gweinidog	Comisiwn wedi ei gadeirio gan gynghorydd i'r Maer, ddim yn bodoli mwyach	Is-grŵp tlodi plant a fforwm tlodi'r Gweinidog yn adrodd i'r Is-bwyllgor Gweithredol ar Dlodi ac Allgáu Cymdeithasol	Uned Tlodi Plant drawsbynciol, arweiniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, rhedeg ochr yn ochr a'r uned Symudedd Cymdeithasol	Roedd yr Asiantaeth Trechu Tlodi yn gorff cyhoeddus y tu allan i'r llywodraeth, wedi ei integreiddio i'r llywodraeth yn 2009
Wedi eu dewis i'w cyfweld	Do	Do	Do	Naddo	Naddo

Ffynhonnell: Ipsos MORI

- 7.6 Yn yr Alban, roedd strategaeth tlodi plant 2011 yn adeiladu ar strategaeth 2008 ar gyfer pob oed. Mae'n rhedeg ochr yn ochr â strategaethau penodol ar gyfer anghydraddoldebau iechyd a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n wahanol iawn i ddulliau strategaethau eraill, ac yn diffinio meysydd go wahanol megis asedau a galluoedd.
- 7.7 Mor ddiweddar â 2009 y cyhoeddwyd y strategaeth yng Ngogledd Iwerddon. Ceir rhai gwahaniaethau o ran pwyslais oherwydd hynny, ar gostau nwyddau hanfodol. Rhoddir pwyslais hefyd ar waith sy'n talu, yn hytrach na gwaith ei hun a gwaith er ei fwyn ei hun.
- 7.8 Mae gweddill yr adran hon yn adolygu nodweddion allweddol a gwersi i'w dysgu o'r strategaethau a adolygwyd.

Gogledd Iwerddon

- 7.9 Mae Strategaeth Tlodi Plant Gogledd Iwerddon⁷³ yn gosod allan yr amcanion allweddol a gynigwyd gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi plant er mwyn cyflawni ei hymrwymiaadau o dan Ddeddf Tlodi Plant 2010. Mae'r strategaeth yn bapur strategol lefel uchel a gaiff ei ddilyn gan gynllun cyflenwi sy'n rhoi manylion y mentrau allweddol, y prosiectau nodedig a'r canlyniadau mesuradwy i wneud cynnydd ar y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun. Olynwyd y cynllun gweithredu hwn, serch hynny, â pholisi sy'n dwyn y teitl '*Delivering Social Change*': sef polisi ymbarél er mwyn cyflenwi'r strategaeth tlodi plant fesul cam.

⁷³ <http://www.ofmdfmi.gov.uk/de/index/equality-and-strategy/equality-human-rights-social-change/poverty-and-social-inclusion/child-poverty.htm>

Cyhoeddwyd dau adroddiad cynnydd sy'n edrych ar dueddiadau mewn macro-ddangosyddion tlodi yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys tlodi absoliwt a chymharol, a thlodi cyfun ac amddifadedd meddyliol. Mae'r llywodraeth hefyd wedi mynd drwy broses o ddatblygu model canlyniadau tlodi plant sy'n defnyddio data a gesglir gan adrannau i fesur effaith camau penodol yr adrannau ar leihau tlodi plant. Mae'r rhain wedi eu gosod yn Atodiad adroddiad cynnydd 2013⁷⁴. Nid yw'r model yn gosod targedau, ond yn adrodd ar y camau a gymerwyd ym mhob maes blaenoriaeth a'r effaith a gawsant. Edrychir eto ar y Strategaeth Tlodi Plant yn 2014 i sicrhau ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â thlodi plant.

7.10 Fel rhan o'r gwaith o adolygu Strategaeth Tlodi Plant Gogledd Iwerddon, cynhaliwyd dau gyfweiliad trylwyr ag unigolion sy'n wybodus yn y maes hwn. Drwy'r cyfweiliadau, tynnwyd sylw at nifer o wersi pwysig:

- mae targedau clir, mesuriadau a arwyddion o ddyrannu a gwariant yn hanfodol;
- mae angen amser ac adnoddau digonol i ddatblygu strategaeth effeithiol;
- mae gan y sector gwirfoddol gyfoeth o wybodaeth a dylid eu cynnwys drwy gydol y broses o ddatblygu, cyflenwi a monitro'r strategaeth;
- mae presenoldeb hyrwyddwyr tlodi yn aml yn pennu llwyddiant strategaeth; mae angen integreiddio rhwng strategaethau neu bolisiâu sy'n ymwneud â lleihau tlodi plant.

Yr Alban

7.11 Mae Strategaeth Tlodi Plant yr Alban, a lansiwyd ym mis Mawrth 2011⁷⁵ ac a ddiweddarwyd yn 2014⁷⁶, yn amlinellu'r amcanion allweddol a'r camau blaenoriaeth i fynd i'r afael â thlodi plant yn yr Alban. Roedd yr ymagwedd gyffredinol yn seiliedig ar ymyrraeth ac atal. Oddi mewn i'r amcan cyffredinol hwn, mae'r strategaeth yn trafod cynyddu adnoddau aelwydydd, gwella cyfleoedd bywyd plant a rôl cymunedau a lle.

⁷⁴ <http://www.ofmdfmni.gov.uk/de/child-poverty-strategy-second-annual-report-2013.pdf>

⁷⁵ <http://www.scotland.gov.uk/Publications/2011/03/14094421/6>

⁷⁶ <http://www.scotland.gov.uk/Resource/0044/00445863.pdf>

Sefydlwyd camau blaenoriaeth yn bennaf pan fo cyfle i gydweithio ar draws y llywodraeth a phan fo mesurau eisoes yn eu lle i adeiladu arnynt.

7.12 Y tu hwnt i dargedau'r DU gyfan a osodwyd yn Neddf Tlodi Plant 2010, mae'r strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol adrodd yn erbyn y fframwaith perfformiad cenedlaethol sy'n amlinellu canlyniadau cenedlaethol ar ddangosyddion megis tlodi plant, iechyd, tai, a thlodi. Er hyn, nid oes unrhyw fesuriadau clir i gyd-fynd â rhai o'r nodau allweddol yn y strategaeth.

7.13 Cyfwelwyd â dau unigolyn fel rhan o'r gwaith o adolygu Strategaeth Tlodi Plant yr Alban. Y gwersi allweddol a ddysgwyd o ddatblygu a chyflenwi'r strategaeth oedd:

- heb fesurau neu ddangosyddion clir, mae'n amhosibl canfod cyswllt rhwng canlyniadau a gweithredoedd;
- er bod yr hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant yn cael ei gyfyngu gan y pwerau datganoledig presennol, mae llawer mwy y gellir ei wneud na'r hyn a wneir ar hyn o bryd;
- er mwyn i ardaloedd lleol fod yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth, rhaid bod yn glir ynghylch sut maent am wneud hynny a sut y dylid mesur eu llwyddiant.

Llundain

7.14 Mae'r sefyllfa yn Llundain yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Gymru. Nid oes gan Awdurdod Llundain Fwyaf y pwerau sydd eu hangen i wir fynd i'r afael â thlodi plant – mae'r fath bwerau naill ai'n ganolog neu yn lleol, nid yn rhanbarth Llundain. Nod y comisiwn oedd codi proffil tlodi plant yn Llundain, nodi'r materion pwysig a gwneud argymhellion i lywodraeth ranbarthol, lleol a chenedlaethol. Roedd lobïo “am i fyny”, tuag at San Steffan, yn rhan hollbwysig o hyn.

7.15 Cododd yr angen am gomisiwn o'r ffaith bod cyfradd tlodi plant Llundain lawer yn uwch na gweddill y wlad, ac yn sylweddol uwch na'r rhanbarth waethaf agosaf hyd yn oed. Roedd synnwyr bod rhywbeth yn benodol i Lundain a olygai bod tlodi plant yn uchel – ffactor lleol nad oedd yn berthnasol i weddill y wlad.

7.16 Er y gwahaniaethau arwynebol, mae gwersi i'w dysgu o Gomisiwn Llundain y gellid eu trosi i Gymru.

- Roedd y “lobïo am i fyny”, i ryw raddau, yn llwyddiannus – gwnaed consesiynau mewn amryw Gyllidebau i Lundain;
- Roedd cael arweiniad gan y Maer yn helpu i nodi tlodi plant yn flaenoriaeth gan sicrhau bod cyfraniad gan bob adran i'w wneud. Roedd hefyd yn helpu i argyhoeddi rhai a allai fod yn amheugar o fanteision ystyried tlodi plant mewn cyd-destunau gwahanol;
- Anodd oedd ceisio nodi ffactorau oedd yn perthyn i Lundain yn benodol, ond llwyddwyd i nodi rhai, e.e. drwy ganolbwyntio ar gyflogaeth unig rieni.
- Nid oes gan Awdurdod Llundain Fwyaf ffocws mwyach ar dlodi plant, ar ôl dod â'r comisiwn i ben yn 2010. Roedd y rhai a gyfwelwyd o'r farn mai priodol oedd dod â'r comisiwn i ben, wrth i'r ffocws droi mwy at strategaethau lleol. Er hynny, nid yw nodau'r ardaloedd lleol o anghenraid yn gydnaws â'i gilydd. Gallai buddsoddiad economaidd mewn un ardal olygu diffyg buddsoddiad mewn ardal gyfagos. Dyma lle y gallai darlun strategol o'r wlad (neu'r rhanbarth) yn gyfan fod o gymorth.

8 Effaith y Mesur ar Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus

- 8.1 Roedd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (2010) ('y Mesur') yn rhoi dyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, yn ogystal â Gweinidogion Cymru, i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Tlodi Plant⁷⁷. Mae'r Mesur yn adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai'r ffordd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â thlodi plant yw drwy gynnwys sefydliadau eraill a all gael effaith arno. Diben y Mesur yw sicrhau bod y camau y mae Cyrff Cyhoeddus yn eu cymryd sy'n cyfrannu at waredu tlodi plant wedi eu diffinio'n dda ac y gellir eu monitro.
- 8.2 Mae'r bennod hon yn dadansoddi ymatebion Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus eraill i'r Mesur. Yn benodol, mae'n ystyried yr hyn yr oeddynt yn gwneud i drechu tlodi plant cyn i'r Mesur gael ei weithredu, sut maent yn dehongli'r Mesur, newidiadau i'r rhaglenni a'r adnoddau ar gyfer y camau i drechu tlodi plant pan ddaeth y Mesur i'w le, ac effaith y newidiadau hyn ar dlodi plant yng Nghymru. Mae'r bennod yn asesu effeithiolrwydd ac effaith y Mesur ar gamau Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus eraill i drechu tlodi plant.
- 8.3 Mae'r canfyddiadau yn y bennod hon yn seiliedig ar adolygiad o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc a Chynlluniau Integredig Sengl Awdurdodau Lleol a Strategaethau Tlodi Plant Cyrff Cyhoeddus, cyfweiliadau trylwyr a gynhaliwyd dros y ffôn â phob un o 22 Awdurdod Lleol a 9 Corff Cyhoeddus arall⁷⁸, ac asesiad o allbynnau monitro a gwerthuso os oeddynt ar gael. Cwblhawyd y gwaith maes rhwng 18 Tachwedd 2013 ac 17 Ionawr 2014.

⁷⁷ www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1

⁷⁸ Y Cyrff Cyhoeddus a gyfwelwyd oedd: Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parciau Cenedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Y cyd-destun cyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (2010)

- 8.4 Cyn cyflwyno'r Mesur, roedd pob Awdurdod Lleol a Chorff Cyhoeddus arall yn cyflenwi gwasanaethau oedd yn cyfannu mewn rhyw ffordd at drechu tlodi plant, ond roedd y sbectrwm yn eang o ran lefel y ffocws a roddwyd ar dlodi plant. Roedd gan rai Awdurdodau Lleol unigolion neu dimau penodol i fynd i'r afael â thlodi plant ac yn ystyried hyn yn un o brif elfennau cylch gwaith eu sefydliad, ond roedd eraill yn mynd i'r afael â thlodi plant yn anuniongyrchol drwy gyflenwi gwasanaethau statudol a fyddai mewn rhyw ffordd yn gwella bywydau plant sy'n byw mewn cymdogaethau difreintiedig neu mewn teuluoedd incwm isel. Yn yr un modd, roedd Cyrff Cyhoeddus yn cyfrannu at wella profiadau plant tlotach drwy gyflawni eu cylch gwaith, a llawer ohonynt yn cynnwys nodau yn ymwneud yn benodol â gwella mynediad neu ganolbwyntio ar ardaloedd mwy difreintiedig, neu grwpiau sy'n agored i niwed neu mewn risg. Ond rhoddwyd llawer llai o sylw i dlodi plant yn yr achosion hynny lle'r oedd y mathau hyn o amcanion yn llai eglur.
- 8.5 Cyn 2010, roedd amryw ofynion statudol ar Awdurdodau Lleol i ddatblygu partneriaethau a chreu cynlluniau a strategaethau. Roedd rhai Awdurdodau Lleol yn cynnwys nodau'n ymwneud â threchu tlodi plant yn y partneriaethau a'r cynlluniau hyn. Ers 2000 pan ddechreuwyd sefydlu Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc mewn Awdurdodau Lleol, bu gan yr Awdurdodau Lleol dimau sy'n gyfrifol am wasanaethau i blant a phobl ifanc, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol eraill. Mewn rhai Awdurdodau Lleol, roedd gan y Partneriaethau Fframwaith hyn nodau penodol ynghylch tlodi plant. Er enghraifft, roedd Partneriaeth Fframwaith un Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar grwpiau agored i niwed, gofawyr ifanc a phobl anabl.
- 8.6 Pasiwyd y Ddeddf Plant yn 2004, gan ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gyhoeddi cynllun sy'n gosod ei strategaeth i ymgymryd â'i swyddogaethau mewn perthynas â phob plentyn a pherson ifanc⁷⁹. Rhwng 2004 a 2012, pan oedd yn ofynnol i bob Corff Cyhoeddus ddatblygu strategaeth tlodi plant, y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc hyn, a

⁷⁹ Plant yng Nghymru, "Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc", darllenwyd ar-lein ar 27 Ionawr 2014 fan hyn: <http://www.childreninwales.org.uk/inyourarea/singleplans/index.html>.

ddiweddarwyd yn 2008 a 2011, oedd y strategaethau cyffredinol a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdodau Lleol i nodi'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer plant a phobl ifanc ac i gynllunio eu gwasanaethau. Unwaith yn rhagor, roedd y ffocws ar blant a phobl ifanc yn eang, yn hytrach nag ar dlodi plant yn benodol, ac roedd yr Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio ar wahanol flaenoriaethau yn eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, yn ôl yr anghenion lleol. Roedd rhai, er hynny, yn cynnwys 'nod craidd' yn ymwneud â threchu tlodi plant, yn gysylltiedig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mewn llawer o achosion, ymddengys bod yr ysgogiad y tu ôl i hyn yn gysylltiedig â chael aelod uwch sy'n frwdfrydig ynglŷn â threchu tlodi plant. Yn aml, arweinydd gwleidyddol y Cyngor fyddai hyn, ond mewn rhai achosion un o uwchswyddogion yr Awdurdod Lleol fyddai (yn rhan o'r Tîm Plant a Phobl Ifanc yn aml).

“Gwnaeth ein Hawdurdod Lleol strwythuro'r partneriaethau sy'n berthnasol i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan 7 grŵp strategol, gan ddefnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn arweiniad. Grŵp 7 sy'n arwain ar dlodi plant ac mae ganddo swyddogaeth oruchwyllo mewn perthynas â hyn.” – Awdurdod Lleol

- 8.7 Roedd yr Awdurdodau Lleol a oedd ag amcan yn ymwneud â thlodi plant neu dîm tlodi plant yn amrywio o ran pa mor llydan neu gul oedd eu diffiniad o dlodi plant, ac roedd hyn yn effeithio ar y mathau o wasanaethau a rhaglenni a gynhaliwyd ganddynt. Yn fwyaf cyffredin, ystyriwyd bod tlodi plant yn fater yn ymwneud ag incwm, yn hytrach na mater sy'n cwmpasu nifer o fathau o amddifadedd, gan gynnwys effaith ar fynediad at ddiwylliant, cyrhaeddiad addysgol ac iechyd. Roedd hyn yn arwain at lunio rhaglenni a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar sgiliau hyfforddiant cyflogaeth i oedolion a NEETs. Roedd gan eraill ddarlun ychydig yn ehangach. Roedd o leiaf un Awdurdod Lleol wedi cynnwys amcan yn ei Gynllun Plant a Phobl Ifanc na fyddai'r un plentyn o dan anfantais yn sgil tlodi, ond cafodd hi'n anodd sicrhau bod y sefydliadau

partner yn deall bod hyn yn golygu mwy na threchgu tlodi economaidd yn unig.

“Dechreuom edrych ar dlodi yn y 1980au wrth i’r pyllau glo ddechrau cau ac roedden ni’n sylwi bod gennym weithlu a oedd heb y sgiliau priodol. Rydym o’r farn nad mater yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn unig yw trechu tlodi plant, ond mater economaidd – mae’n golygu cefnogi’r economi.” – Awdurdod Lleol

- 8.8 Roedd y rhai a weithiai mewn timoedd â chanddynt gylch gwaith i drechu tlodi plant cyn 2010 yn aml yn dweud mor anodd ydoedd i gyfleu wrth gydweithwyr a weithiai ar wasanaethau nad oedd yn ymwneud ag incwm teuluoedd y gallent hwythau hefyd gyfrannu at agenda tlodi plant, a chyn lleied o drosoledd oedd ganddynt i annog cydweithwyr i addasu rhaglenni fel eu bod yn mynd i’r afael â thlodi plant yn fwy effeithiol. Nododd y rhai a gyfwelwyd fod eu cydweithwyr yn aml yn ystyried mai elfennau ychwanegol at eu gwaith bob dydd oedd camau’n ymwneud â thlodi, yn hytrach na rhan greiddiol o’u gwaith. Felly hyd yn oed pan fyddai tlodi plant wedi ei nodi’n fater penodol, roedd y ffactorau hyn yn golygu na fyddai tlodi plant yn cael ei flaenoriaethu dros amcanion eraill yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, a byddai’r camau i fynd i’r afael â thlodi plant yn aml heb eu cydlynu neu eu prif-ffrydio ar draws yr holl wasanaethau perthnasol.
- 8.9 Y prif fathau o wasanaethau a rhaglenni yn ymwneud â thlodi plant a gyflenwyd cyn y Mesur oedd y rhai a oedd yn anelu i dyfu’r economi leol, cynyddu cyflogaeth drwy wella sgiliau a mynediad at addysg i oedolion, gwella cyrhaeddiad addysgol a lleihau cyfraddau NEETs. Mewn rhai achosion, roedd y rhaglenni hyn wedi eu hanelu at grwpiau sy’n arbennig o agored i niwed, megis unig rieni, ac roedd rhai yn cynnwys elfen o waredu rhwystrau, er enghraifft drwy ddarparu gofal plant i alluogi rhieni i ddilyn cyrsiau addysg bellach. Maes arall y canolbwyntiwyd arno cyn 2010 oedd gwella iechyd a lles plant, yn benodol lleihau gordewdra ymhlith plant a lleihau nifer y babanod

pwysau geni isel. Roedd gan lawer o Awdurdodau Lleol wasanaethau hefyd i gynnig cymorth dwys i deuluoedd sydd ag anghenion cymhleth.

- 8.10 Er nad oedd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn ei le tan 2012, mae'n ddefnyddiol cymharu'r mathau o wasanaethau a gynigir ar yr adeg hon a'r tri nod craidd a ddiffiniwyd yn y Cynllun Gweithredu TPAP, er mwyn ystyried sut y newidiodd hyn ar ôl i'r Mesur gael ei gyflwyno ac ar ôl i'r Cynllun Gweithredu cael ei gyhoeddi. Cyn 2010 ystyriwyd fel arfer bod tlodi yn ymwneud ag incwm yn bennaf, felly gellid dweud bod y rhan fwyaf o'r rhaglenni yn cyfrannu at nod y Cynllun Gweithredu o helpu pobl i wella eu sgiliau a gwella perthnasedd eu cymwysterau i'w helpu i gael swydd. Yn aml, ni fyddai atal tlodi a lliniaru effaith tlodi yn nodau eglur, ac aethpwyd i'r afael â hwy drwy gyflenwi gwasanaethau neu raglenni statudol wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf, yn hytrach na rhaglenni a oedd yn unigryw i Awdurdodau Lleol.

Dehongli'r Mesur ac ymateb iddo

Dehongli'r Mesur

- 8.11 Pan gyflwynwyd y Mesur, tasg gyntaf y Cyrff Cyhoeddus oedd deall beth oedd gofyn iddynt wneud o dan y Mesur. I gynorthwyo'r Cyrff Cyhoeddus, yn ychwanegol at y ddeddfwriaeth ei hun, lluniodd Llywodraeth Cymru wefan Datrys Tlodi Plant⁸⁰. Roedd canllawiau hefyd wedi eu cyflwyno i Awdurdodau Lleol, sef *Cydamcanu – Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau*⁸¹, fel rhan o'r symud tuag at y Cynlluniau Integredig Sengl, a gallai'r Cyrff Cyhoeddus eraill gyfeirio at *Mynd i'r Afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau i Awdurdodau Cymreig*⁸².
- 8.12 Nid oedd dehongli'r hyn oedd gofyn iddynt wneud yn anhawster i'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus. Defnyddiodd pob Corff Cyhoeddus y

⁸⁰ www.childpovertysolutions.org.uk. Mae'r wefan hon wedi ei chau ers hyn.

⁸¹ Llywodraeth Cymru, *Cydamcanu – Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau* (2012), darllenwyd ar-lein ar 27 Ionawr 2014 fan hyn <http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/130205sharedpurpdeliveryv2cy.pdf>.

⁸² Llywodraeth Cymru, *Mynd i'r Afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau i Awdurdodau Cymreig* (Merthyr Tudful: Uned Tlodi Plant, Is-adran Cymunedau, 2011), darllenwyd ar-lein ar 27 Ionawr 2014 fan hyn <http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/110513tacklingcy.pdf>.

ddeddfwriaeth ein hun i ddeall yr hyn oedd yn rhaid iddynt wneud, a defnyddiodd nifer fach ohonynt ffynonellau ychwanegol i ategu hyn, megis gwefan Datrys Tlodi Plant a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Daeth gwerthusiad o wefan Datrys Tlodi Plant, a gyhoeddwyd yn 2013, i'r casgliad, er bod tystiolaeth bod y wefan “wedi cael croeso da ac yn cael ei hystyried yn ‘adnodd defnyddiol a gwerthfawr’”, nid oedd yn cael ei defnyddio gan bob Awdurdod Lleol ac nid oedd bob amser yn cael ei diweddar⁸³. Mewn gwirionedd, pan gyhoeddwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2011, nid oedd cam newydd y wefan, a oedd i fod i helpu Awdurdodau Lleol i ddatblygu eu strategaethau, wedi ei gyhoeddi, ac roedd rhai Awdurdodau Lleol o'r farn bod hyn yn rhwystredig gan nad oedd y ffynhonnell hon o wybodaeth yn barod i'w defnyddio⁸⁴. Cyfeiriodd ambell un at gyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd rhai o'r rheiny a ddefnyddiodd y canllawiau o'r farn nad oeddynt yn glir iawn, neu'n dweud eu bod yn “anodd i'w deall”.

“Nid oedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn llawer o gymorth. Roeddynt yn fwy o gyfarwyddiadau na chanllawiau – dyma'r hyn sydd angen ichi wneud.” – Awdurdod Lleol

8.13 Nododd y rhan fwyaf fod lefel o amwysedd yn y ddeddfwriaeth (ac yn y canllawiau swyddogol hefyd ym marn rhai), ond roedd y farn yn gymysg ynghylch p'un a oedd hyn yn fanteisiol neu beidio. Teimlai rhai bod hyn yn fanteisiol gan ei fod yn eu galluogi i adeiladu ar yr hyn oedd ganddynt yn ei le eisoes ac yn sicrhau dull o weithredu a oedd wedi ei deilwra at gryfderau a phroblemau penodol pob Awdurdod Lleol.

“Roedd y diffyg eglurder yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau swyddogol yn awgrymu wrthym y dylid ei dehongli ar lefel leol, gan roi ystyriaeth i'r hyn

⁸³ Arad Research, *Gwerthusiad o effeithiau Datrys Tlodi Plant Cymru* (Merthyr Tudful: Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013), darllenwyd ar-lein ar 31 Ionawr 2014 fan hyn <<http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/130304-evaluation-effects-child-poverty-solutions-cy.pdf>>: 10.

⁸⁴ Yn y diwedd, lansiwyd y cyfnod hwn o'r wefan ym mis Tachwedd 2011.

sy'n briodol ar gyfer ein Hawdurdod Lleol ni, a gwneud mân newidiadau yn unol â'n hamgylchiadau lleol. Mae hyn yn beth cadarnhaol." – Awdurdod Lleol

- 8.14 Teimlai grŵp ychydig yn fwy nad oedd y diffyg manylion yn y ddeddfwriaeth o gymorth, gan ei fod yn gadael gormod o le i ddehongli ac nid oedd yn ddigon clir ynglŷn â'r camau oedd gofyn eu cymryd. Teimlai llawer o'r Cyrff Cyhoeddus hefyd nad oedd y ddeddfwriaeth yn rhoi amlinelliad clir o'r hyn oedd yn ceisio cyflawni, a byddent wedi hoffi i Lywodraeth Cymru lywio mwy ar yr allbynnau y byddai disgwyl iddynt gyflawni. Ystyriwyd mai dyma'r un o'r rhwystrau pennaf i ddatblygu Strategaethau Tlodi Plant a fyddai'n cyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru.
- 8.15 Y mae hefyd yn werth nodi bod rhywfaint o ddryswch ymysg y rhai sy'n gweithio mewn Cyrff Cyhoeddus ynglŷn â'r amryw gynlluniau a strategaethau sydd yn eu lle. Er bod y rhan fwyaf yn ymwybodol o'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, nid oedd llawer yn gwybod tri nod allweddol y Cynllun Gweithredu na sut maent yn gysylltiedig â'r Strategaeth. Roedd rhai yn mynegi blinder ynghylch nifer y gwahanol strategaethau a chynlluniau sy'n cael eu cyflwyno, gan ddweud mai anodd yw sicrhau eu bod yn ymgyswngi â'r datblygiadau newydd a deall sut maent yn perthyn i gynlluniau eraill sydd eisoes yn eu lle.

Ymateb i'r Mesur

- 8.16 I gyd-fynd â'r camau i integreiddio gweithio mewn partneriaeth, yn 2012 rhoddodd Llywodraeth Cymru orchymyn i ddatblygu Cynlluniau Integredig Sengl, a fyddai'n cwmpasu nifer o ofynion statudol am gynlluniau, gan gynnwys strategaethau Cymunedol, Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (yn cynnwys y gofynion o dan y Mesur); Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; a strategaethau i leihau trosedd ac anhrefn, strategaethau i drechu camddefnyddio cyffuriau, alcohol a

sylweddau eraill, a strategaethau i leihau aildrosedd⁸⁵. Wrth i'r Cynlluniau Integredig Sengl ddod i fodolaeth, yn raddol maent wedi disodli'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc fel y brif ddogfen sy'n gosod allan sut bydd Awdurdodau Lleol yn mynd i'r afael â thlodi plant. Mae gan Gyrff Cyhoeddus eraill ddogfennau a elwir yn Strategaethau Tlodi Plant.

8.17 Er mwyn llunio eu Strategaethau Tlodi Plant neu i gyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Integredig Sengl, aeth y rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus drwy broses debyg. Yn gyffredinol, roedd y cyfnod cyntaf yn cynnwys gwneud gwaith ymchwil ar dlodi plant. Defnyddiodd y Cyrff Cyhoeddus ddata gan Uned Ddata Cymru ac o ffynonellau eraill, ynghyd â'u data eu hunain, i ddeall yr anghenion yn eu hardaloedd lleol. Cyfeiriai llawer ohonynt at yr angen i ddefnyddio data ar lefel y gymdogaeth yn ychwanegol at ddata ar lefel yr Awdurdod Lleol er mwyn deall ble'r oedd anghenion penodol yn fwy cyffredin. Defnyddiai rhai ddata gwasanaethau cymdeithasol hefyd ynglŷn â grwpiau o deuluoedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r problemau'r oeddynt yn wynebu. Bu rhai o'r Awdurdodau Lleol yn ymgynghori â dinasyddion i gael gwell dealltwriaeth o'u canfyddiad hwy o'r blaenoriaethau.

8.18 Wedyn, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol eraill megis Byrddau Gwasanaethau Lleol, bu'r Cyrff Cyhoeddus yn asesu pa raglenni oedd eisoes ganddynt yn eu lle i fynd i'r afael â thri nod y Strategaeth Tlodi Plant. Bu'r Cyrff Cyhoeddus hefyd yn casglu data monitro a gwerthusiadau rhaglenni er mwyn deall effaith y rhaglenni a oedd eisoes yn eu lle. Aethant ati wedyn i nodi'r ddarpariaeth bellach neu'r newidiadau i raglenni presennol fyddai angen i gyflawni eu nodau.

“Cynhaliom gyfres o weithdai ynglŷn â'r hyn yr oedd y Mesur yn ei olygu i'r sefydliad fel cyfanwaith. Yn bennaf, roedd yn golygu cael pobl i edrych ar yr hyn yr oeddynt eisoes yn gwneud. Drwy'r broses hon, roedd pobl yn sylweddoli bod pethau eisoes yn digwydd.” – Awdurdod Lleol

⁸⁵ Llywodraeth Cymru, “Cydamcanu – Cydymdrechu”, darllenwyd ar-lein ar 27 Ionawr 2014 fan hyn <http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationevents/publications/sharedpurpdel/?lang=cy>.

8.19 Roedd y cyfnod hwn o gydweithio â sefydliadau eraill i bennu'r rhaglenni a oedd eisoes yn eu lle yn aml yn golygu cefnogi newid diwylliannol at ddiffiniad ehangach o tlodi plant. Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn sôn am orfod addysgu cydweithwyr ynglŷn â'r ffaith eu bod, yn eu swyddi a thrwy eu rhaglenni, eisoes yn cyfrannu at drechu tlodi plant neu y gallent fod yn cyfrannu at hynny.

“Roedd bod â'r tri nod allweddol yn eu lle yn rhoi mwy o gyfle inni ymestyn y diffiniad o dlodi a'r camau i fynd i'r afael â thlodi.” – Awdurdod Lleol

“Roedd cael tri nod y Strategaeth Tlodi Plant wedi eu hintegreiddio yn y Cynllun Integredig Sengl yn ei gwneud yn fwy eglur beth mae mynd i'r afael â thlodi plant yn golygu i'n partneriaid. Mae'n pwysleisio nad yw tlodi plant yn golygu faint o arian sydd gan y teulu yn unig, ond ei fod hefyd yn ymwneud â mynediad, cydraddoldeb, a rhwystrau, gan olygu bod gan bob partner rôl i'w chwarae i liniaru tlodi plant. Roeddem wedi bod yn ceisio cyfleu'r neges hon ers amser hir, ac mae'r cynllun integredig wedi bod yn help mawr yn hyn o beth.” – Awdurdod Lleol

8.20 Roedd y rhan fwyaf yn nodi bod y broses hon o fapio darpariaeth bresennol yn gyfle i gadarnhau o'r newydd eu bod eisoes yn gwneud y rhan fwyaf o'r pethau yr oedd angen iddynt wneud i gyrraedd nodau'r Strategaeth Tlodi Plant. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwelai'r Cyrff Cyhoeddus eu bod yn gallu tynnu rhaglenni presennol i mewn o dan ymbarél tlodi plant, yn hytrach na gorfod creu rhai newydd.

Effaith y Mesur ar ddulliau'r Cyrff Cyhoeddus o fynd i'r afael â thlodi

8.21 Nid yw'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus wedi sefydlu rhaglenni newydd. Y rheswm am hyn yw bod rhaglenni eisoes yn eu lle, yn y rhan fwyaf o achosion, a fyddai'n eu galluogi i fynd i'r afael â thri nod y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, er na fu i'r un Awdurdod Lleol na Chorff Cyhoeddus strwythuro eu rhaglenni yn ôl y nodau hynny.

“Nid ydym wedi gwneud newidiadau mawr iawn i'r gwasanaethau sydd gennym yn eu lle na'r ffordd yr ydym yn dyrannu adnoddau. Mae'r Mesur wedi cadarnhau o'r newydd yr hyn yr oeddem eisoes yn gwneud.” – Awdurdod Lleol

8.22 Er hyn, mae'r Mesur wedi cael nifer o effeithiau eraill ar waith Cyrff Cyhoeddus sy'n ymwneud â thlodi plant.

- **Mae gosod dyletswydd i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant wedi sicrhau bod Cyrff Cyhoeddus yn gweithio mewn fframwaith a thuag at nodau clir yn y maes hwn, ac mae hyn wedi helpu i wella'r cydweithrediad rhwng gwahanol sefydliadau a rhaglenni ar lefel leol.** Roedd cyfnod cychwynnol y broses o ddatblygu strategaeth yn cynnwys edrych ar y ddarpariaeth bresennol, gan arwain at well dealltwriaeth o'r holl raglenni oedd gan bob Corff Cyhoeddus yn eu lle. Ymhellach, i ateb y gofynion monitro, mae llawer o'r Cyrff Cyhoeddus wedi creu strwythurau sydd yn monitro eu holl waith sy'n ymwneud â thlodi plant ac mae hyn wedi arwain at well cydweithrediad oddi mewn i'r sefydliadau a chyda phartneriaid.

“Roedd y dotiau yno'n barod, ac roedd y mesur yn ein galluogi i gysylltu'r dotiau hynny.” – Awdurdod Lleol

- **Mae codi'r arfer o drechu tlodi plant i lefel dyletswydd statudol wedi codi ei phroffil fe mater o flaenoriaeth i fynd i'r afael ag ef, ar lefel wleidyddol ac ar lefel weithredol.** Ni ellir ystyried trechu tlodi fel mater moesol yn unig bellach; y mae'n awr yn fater cyfreithiol. Mae arweinwyr Cyrff Cyhoeddus yn fwy ymwybodol bellach o'r gwaith sydd ynghlwm wrth drechu tlodi plant ac maent yn talu mwy o sylw i fonitro'r canlyniadau. Mae un arweinydd Awdurdod Lleol hyd yn oed wedi rhoi tlodi plant yn fesur perfformiad personol – y mae'n adrodd i'r Cabinet fel rhan o'i arfarniad blynyddol ynglŷn â'r hyn sydd wedi ei wneud a pha effaith gafodd y camau hyn. Ar lefel weithredu, mae hyn yn rhoi mwy o bwys i'r rhai sy'n trio gwthio'r agenda hon ymlaen, ac yn eu rhoi mewn gwell sefyllfa wrth weithio gyda thimau na fu'n

ystyried hyn yn flaenoriaeth, o bosibl, yn flaenorol. Yn ôl un swyddog mewn Awdurdod Lleol sydd bellach yn Hyrwyddwr Gwrthdlodi, arferai trechu tlodi gael ei ystyried yn ‘rhywbeth meddal, braf i’w wneud”, a bod cydweithwyr yn ystyried bod “gwaith pwysicach i’w wneud”. Er bod y rhan fwyaf o’r farn bod gwneud trechu tlodi plant yn ddyletswydd statudol yn gam cadarnhaol, roedd rhai yn ystyried bod Llywodraeth Cymru yn rhoi nifer gynyddol o ddyletswyddau ar Gyrrff Cyhoeddus heb gymryd dim oddi arnynt, a chan leihau cyfanswm y cyllid maent yn derbyn hefyd.

- **Mae nifer fach o Gyrrff Cyhoeddus wedi gwneud newidiadau i raglenni presennol o ganlyniad i’r Mesur. Mae’r newidiadau hyn yn cynnwys mireinio targedau’r rhaglenni ac addasu’r cynnwys.** Er enghraifft, mae rhai wedi symud oddi wrth ddarpariaeth gyffredinol ac mae rhai rhaglenni bellach wedi eu targedu at y rhai mwyaf difreintiedig.

“Rydym bellach yn targedu adnoddau yn fwy tuag at ardaloedd difreintiedig nag erioed o’r blaen.” – Corff Cyhoeddus

Hyd yn oed pan fo’r un buddiolwyr yn dal i allu cael mynediad at y rhaglen, mae’r rhai sy’n rheoli’r rhaglen yn canolbwyntio mwy ar wella canlyniadau i’r rhai mwyaf difreintiedig. Er enghraifft, maent yn monitro mynediad a chanlyniadau’r rhaglen i’r cwintel mwyaf difreintiedig yn erbyn y cwintel lleiaf difreintiedig er mwyn ceisio deall a gwella’r gwahaniaethau. Roedd hon yn thema benodol ymysg y Cyrff Cyhoeddus ar wahân i’r Awdurdodau Lleol. Mewn rhai achosion, mae cynnwys y rhaglen wedi ei addasu gan eu bod o’r farn y byddai cynnwys gwahanol yn cael mwy o effaith ar dlodi. Er enghraifft, ym maes addysg i oedolion, mae un Awdurdod Lleol wedi rhoi mwy o ffocws ar sgiliau hanfodol i gael swydd yn hytrach na phynciau y gallai oedolion fod yn eu hastudio er hamdden.

- **Gwelwyd ychydig bach o newid yn y modd y caiff adnoddau eu dyrannu mewn rhai Cyrff Cyhoeddus. Mae llawer yn nodi eu bod yn ariannu aelodau presennol o staff i dreulio mwy o amser ar yr agenda tlodi plant, ac mae nifer fach iawn wedi sefydlu rhaglenni newydd ar raddfa fach, wedi cynyddu maint rhaglenni presennol neu'n ariannu rhaglenni eu hunain pan fo arian grant wedi dod i ben.** Mewn llawer o Awdurdodau Lleol, mae unigolyn neu dîm yn ei le bellach i fonitro'r holl raglenni sy'n ymwneud â thlodi plant ac yn llunio adroddiadau i arweinydd yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Gallai'r tîm hwn hefyd fod yn ymateb i ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth ynglŷn â thlodi plant. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid aelodau newydd o staff yw'r tîm hwn (er i un Corff Cyhoeddus gyflogi dau aelod ychwanegol o staff yn sgil yr Mesur), ond yn hytrach mae'n golygu bod staff presennol yn cymryd cyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â thlodi plant. Mae'r amser ychwanegol hwn sy'n cael ei dreulio ar dlodi plant yn cael ei ariannu gan y Corff Cyhoeddus. Hefyd, mae ambell Gorff Cyhoeddus wedi llunio rhaglenni newydd (ond heb ariannu'r rhaglenni hyn eu hunain o anghenraid), wedi cynyddu maint rhaglenni presennol neu wedi barhau i ariannu rhaglenni a allai fod wedi eu torri fel arall, gan eu bod yn benodol o effeithiol yn cyrraedd eu nodau ac yn cael effaith ar dlodi plant. Cyfeiriodd rai hefyd at fod yn fwy rhagweithiol ynglŷn â dod o hyd i adnoddau i raglenni yn y maes hwn.

“Rydym wedi newid sut mae pobl yn treulio eu hamser. Maent bellach yn treulio llawer mwy o amser yn cyflwyno cynigion i dderbyn adnoddau, oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau er enghraifft.” – Awdurdod Lleol

“Daethom o hyd i £300,000 y flwyddyn o arian ychwanegol i barhau â rhaglen sy'n cynnig cludiant i NEETs nad ydynt ar lwybrau bysiau er mwyn iddynt allu derbyn hyfforddiant sgiliau, gan y gallem weld bod hynny'n gweithio. Arferai'r rhaglen gael ei hariannu gan Gronfa

Gymdeithasol Ewrop, ond mae'n rhaid i ni ddod o hyd i'r arian o'n cyllideb ein hun bellach." – Awdurdod Lleol

- **Rhoddir mwy o bwyslais ar fonitro a gwerthuso tueddiadau yn yr ardal leol ac mewn rhaglenni.** Am fod y rheoliadau yn nodi bod angen cyhoeddi adolygiad o'u strategaethau tlodi plant, mae llawer o'r Cyrff Cyhoeddus yn gwella eu galluoedd monitro a gwerthuso. Er bod y rhan fwyaf o'r Cyrff Cyhoeddus eisoes yn monitro allbynnau'r rhaglenni, a'r canlyniadau mewn rhai achosion, byddai hyn yn dueddol o fod ar lefel rhaglen unigol. Mae gan y Cyrff Cyhoeddus well synnwyr bellach o'r effaith y mae eu holl gamau yn cael gyda'i gilydd ar drechu tlodi plant.

"Rydym yn treulio mwy o amser yn casglu a dehongli data ar lefel ronnynog. Er enghraifft, rydym wedi bod yn edrych ar ddata diweithdra yn ôl grwpiau oedran o fis i fis ar lefel ward. Mae hyn yn ein galluogi i dargedu rhaglenni ac adnoddau at y mannau lle mae anawsterau go iawn." – Awdurdod Lleol

Strwythurau sefydliadol i fynd i'r afael â thlodi plant

8.23 Fel yr awgrymwyd yn flaenorol, roedd llawer o Gyrff Cyhoeddus wedi datblygu strwythurau newydd i gydlyn a monitro camau i fynd i'r afael â thlodi plant. Roedd gan bob Awdurdod Lleol Hyrwyddwr Gwrthdlodi yn ei le ar lefel lleidyddol, pennaeth etholedig y Cyngor fel arfer. Hefyd, byddai gan lawer uwch-swyddogion a fyddai'n Hyrwyddwyr Gwrthdlodi, neu unigolyn a fyddai'n ymgymryd â rôl debyg ond heb fod â theitl Hyrwyddwr Gwrthdlodi. Byddai'r unigolion hyn yn aml yn gwirfoddoli i ymgymryd â'r rôl, er i rai sôn am orfod mynd drwy broses gystadleuol i gael eu penodi. Yn aml, byddai ganddynt rolau a arferai fod ag elfen o gyfrifoldeb am drechu tlodi plant neu am wasanaethau plant a phobl ifanc yn fwy cyffredinol. Mewn rhai achosion, hwy fyddai Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Dim ond rhai o'r Cyrff Cyhoeddus eraill oedd â Hyrwyddwr Gwrthdlodi.

- 8.24 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan yr uwch-swyddogion sy'n Hyrwyddwyr Gwrthdlodi gyfrifoldebau dyddiol rheolaidd fel rhan o'u swyddi ehangach, ond yn neilltuo amser ychwanegol ar gyfer tlodi plant. Mae eu gweithgarwch sy'n ymwneud yn benodol â thlodi plant yn aml yn cynnwys codi proffil nodau'r Corff Cyhoeddus ynghylch tlodi plant oddi mewn i'r sefydliad, anfon diweddariadau rheolaidd i sicrhau bod pobl allweddol yn ymwybodol o'r materion diweddaraf a bod yn bwynt cyswllt i rai yn y sefydliad ar faterion yn ymwneud â thlodi plant. Maent yn neilltuo mwy o amser ar gyfer tlodi plant ar adegau allweddol yn y flwyddyn, megis pan fo angen llunio adroddiadau monitro chwe-misol neu flynyddol. Swyddogaeth yr Hyrwyddwyr Gwrthdlodi fel arfer yw derbyn data gan y rhaglenni a'u paratoi ar ffurf adroddiad i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac arweinydd y Cyngor neu bennaeth y Corff Cyhoeddus. Mae'r Hyrwyddwyr Gwrthdlodi hefyd fel arfer yn gyfrifol am sicrhau bod nodau eu Cynllun Integredig Sengl / Strategaeth Tlodi Plant yn dal i fod yn iawn, a'u diweddarau pan fo angen.
- 8.25 Mewn Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn y pen draw sy'n gyfrifol am wthio'r agenda tlodi plant yn ei blaen. Fel arfer, nid oes gan Gyrff Cyhoeddus eraill gorff cyfrifol; yn achos y rhai sydd, pwyllgor strategol neu Fwrdd y sefydliad yw'r corff cyfrifol fel arfer.

Effaith y newidiadau ar dlodi plant mewn Awdurdodau Lleol ac yng Nghymru

- 8.26 Mae'r adran hon yn ystyried sut mae Cyrff Cyhoeddus yn monitro cynnydd ar drechu tlodi plant, gan gynnwys pa mor aml y mae'r cynnydd yn cael ei fonitro, yr offer a ddefnyddir, a'r dangosyddion a fesurir. Y mae hefyd yn ystyried pa effaith, os o gwbl, y cafodd y Mesur ar dlodi plant hyd yma.
- 8.27 Mae Rheoliad 6 *Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011* yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus gynnal adolygiad o'u strategaeth tlodi plant cyntaf erbyn 31 Mawrth 2014⁸⁶. Rhaid cynnal adolygiadau bob

⁸⁶ Llywodraeth Cymru, *Mynd i'r Afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau i Awdurdodau Cymreig* (Merthyr Tudful: Uned Tlodi Plant, Is-adran Cymunedau, 2011), darllenwyd ar-lein ar

tair blynedd wedi hynny, a rhaid eu cyhoeddi ar wefan y Corff Cyhoeddus. Yn sgil y gofyniad hwn, mae llawer o'r Cyrff Cyhoeddus wedi gwella eu galluedd monitro a gwerthuso, er bod awgrym y gallai rhai fynd ymhellach yn hyn o beth.

- 8.28 Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus yn defnyddio cyfuniad o hunanwerthusiadau, gwerthusiadau annibynnol a data monitro i asesu perfformiad. Rhaid i unrhyw raglen sy'n defnyddio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop gael ei gwerthuso'n annibynnol ar gost buddiolwr y cyllid. Mae'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus yn hunanwerthuso rhaglenni eraill, a hefyd yn defnyddio data monitro'r rhaglenni i gadw golwg ar y cynnydd.
- 8.29 Mae'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus yn adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, pwyllgor strategol neu'r Bwrdd bob chwe mis neu unwaith y flwyddyn. Dyma'r tro cyntaf erioed i rai Cyrff Cyhoeddus fynd ati'n gydlynol i fonitro cynnydd ar drechu tlodi plant. Yn y gorffennol, byddai llawer yn asesu rhaglenni unigol ond ni fyddent yn cyfuno canlyniadau pob rhaglen a fyddai'n berthnasol i'r agenda tlodi plant er mwyn cael trosolwg o ba mor effeithiol ydynt yn y maes hwn. Mae'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus hefyd yn ystyried p'un a yw eu targedau yn parhau i fod yn briodol, fel rhan o'r broses fonitro hon.
- 8.30 Er mwyn gwerthuso'r effaith y mae'r Mesur wedi ei gael ar dlodi plant hyd yma, mae angen asesu sut mae'r Mesur wedi newid gwasanaethau a rhaglenni Cyrff Cyhoeddus, a'r effaith a gafodd y newidiadau hynny ar dlodi plant. Yn ôl y Cyrff Cyhoeddus, effaith gyfyngedig iawn gafodd y Mesur o ran rhaglenni newydd a dim ond ychydig bach o adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer rhaglenni yn sgil y Mesur (er nad oedd hyn ymysg nodau penodol y Mesur). Nid yw'n bosibl mesur effaith y nifer fach iawn o raglenni ychwanegol na'r adnoddau ychwanegol a neilltuwyd ar dlodi plant, gan mai allbynnau a chanlyniadau'r rhaglenni yn unig y bydd y Cyrff Cyhoeddus yn mesur, ac yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r data hwn ar gael eto hyd yn oed.

- 8.31 Teimlai'r Cyrff Cyhoeddus bod y Mesur, serch hynny, wedi cael effaith o ran codi proffil tlodi plant, galluogi i raglenni a gwasanaethau gael eu cydlynu'n well, ac annog Cyrff Cyhoeddus i weithredu gwell systemau monitro sydd yn eu tro yn eu galluogi i dargedu adnoddau at yr ardaloedd neu'r grwpiau hynny sydd angen y mwyaf o gymorth. Er hyn, yn y tymor hwy yn unig y mae effaith y newidiadau strategol hyn yn debygol o ddod i'r amlwg wrth i raglenni wella eu heffeithiolrwydd a'u heffaith.
- 8.32 Roedd gan y Cyrff Cyhoeddus bryderon hefyd ynglŷn ag asesu effaith eu camau i drechu tlodi plant yn fwy cyffredinol. Gwahaniaethai'r Cyrff Cyhoeddus rhwng mesur canlyniadau, megis symud unigolion i mewn i waith, a'r effaith ar dlodi plant. Ni cheisiodd rai o'r Cyrff Cyhoeddus fesur yr effaith, gan eu bod o'r farn na chant lawer o ddylanwad ar lawer o'r hyn sy'n sbarduno tlodi plant. Yn sgil hyn, maent yn dadlau mai gwell yw iddynt ganolbwyntio ar fesur allbynnau a chanlyniadau'r rhaglenni, megis y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a lefelau boddhad buddiolwyr y rhaglenni.

“Mae gan yr economi macro fwy o ddylanwad ar dlodi plant na ni fel Awdurdod Lleol. Ni allwn wneud gwahaniaeth ar y prif ddangosyddion. Ar lefel prosiect yn unig y gallwn fesur llwyddiant, megis edrych ar faint o'r plant sy'n derbyn gofal sydd â chynlluniau i'w cael i mewn i gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg.” – Awdurdod Lleol

- 8.33 Mae eraill yn ceisio mesur effaith, naill ai effaith rhaglenni neu'r effaith ar dlodi plant, er nad yw hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gadarn bob amser. Er enghraifft, mae un Awdurdod Lleol yn defnyddio hunanasesiadau cynnydd cyfranogwyr i fesur effaith y rhaglen. Mae'r rhai sy'n ceisio mesur effaith ar lefel rhaglen yn cydnabod bod hyn yn haws i rai rhaglenni nag eraill. Mae rhai yn defnyddio Fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau™ fel offeryn rheoli perfformiad. Wrth ddefnyddio'r Fframwaith, mae gofyn nodi'r canlyniadau y mae'r rhaglen yn ceisio eu cyflawni, o ran canlyniadau poblogaeth a pherfformiad, ystyried beth fyddai angen i gyflawni'r canlyniadau hynny,

ac asesu'r perfformiad drwy ateb tri chwestiwn allweddol: Faint a wnaethom? Pa mor dda y gwnaethom hynny? A oes unrhyw un ar ei ennill yn sgil hynny?⁸⁷

“Rydym yn defnyddio fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i asesu effaith. Mae hyn yn golygu gofyn tri chwestiwn: ‘Faint?’, ‘Pa mor dda?’ ac ‘A oes unrhyw un ar ei ennill?’ Mae’r cwestiwn olaf hwn yn haws ei ateb yn achos rhai rhaglenni nag eraill.” – Corff Cyhoeddus

- 8.34 Mae ambell Awdurdod Lleol yn edrych ar sut maent yn perfformio ar ddangosyddion macro tlodi plant, ac yn cymharu hynny â pherfformiad Cymru gyfan ac Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Mae’r rhan fwyaf o’r rhain yn dweud nad yw’r dangosyddion wedi newid, a bod hynny, yn eu barn hwy, yn dangos na chawsant “unrhyw effaith o gwbl”. Bu i rai o blith y grŵp hwn fynegi pryderon hefyd ynglŷn â’r dangosyddion y maent yn defnyddio. Mewn un achos, roedd y dewis o ddangosyddion wedi ei gyfyngu i rai sydd â hanes pum mlynedd ac sy’n cael eu hadrodd yn flynyddol, ond yr oeddid o’r farn nad y rhain oedd y dangosyddion gorau.
- 8.35 Roedd llawer hefyd yn dadlau ei bod yn rhy gynnar i fesur effaith, ac nad yw mesur effaith ar gam interim yn golygu llawer o ystyried mor hir mae’n cymryd yn gyffredinol i weld effaith rhaglenni sy’n ceisio trechu tlodi.

“Nid yw tynnu rhywun allan o ddiweithdra yn gyfystyr a chodi rhywun allan o dlodi. Gellid dadlau p’un a ellir gweld effaith hyd nes i’w plant gychwyn eu teuluoedd eu hunain.” – Awdurdod Lleol

- 8.36 Nifer fach iawn a gyfeiriodd at asesu gwerth am arian y rhaglenni, sy’n agwedd bwysig arall ar werthuso rhaglenni ac un sydd eisoes wedi ei nodi yn wendid yng ngwerthusiadau rhaglenni Llywodraeth Cymru.

⁸⁷ I gael mwy o wybodaeth am Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, gweler, er enghraifft: http://www.raguide.org/1_1.shtml.

Crynodeb

- 8.37 Cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno, roedd pob Corff Cyhoeddus yn darparu gwasanaethau a gyfrannai mewn ryw ffordd at drechu tlodi plant. Ond roedd y Cyrff Cyhoeddus yn amrywio o ran i ba raddau yr ystyriwyd Tlodi Plant yn flaenoriaeth a'r lefel o gydlynw gwasanaethau a gyfrannai at drechu tlodi plant. Roedd eisoes gan rai unigolyn neu dîm yn ei le; roedd eraill heb fod â nodau na thimau penodol, ond roeddynt yn cyfrannu at leihau tlodi plant drwy gyflawni eu dyletswyddau statudol.
- 8.38 Nid oedd dehongli'r hyn oedd yn ofynnol ganddynt o dan y Mesur yn anhawster i'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus. Byddent yn defnyddio'r ddeddfwriaeth ei hun i ddeall hyn, a byddai rhai hefyd yn defnyddio'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â chyingor swyddogion Llywodraeth Cymru. Gwnaeth lawer sylw ar lefel yr amwysedd yn y ddeddfwriaeth o ran yr hyn oedd yn ofynnol iddynt wneud, ond nid oeddynt yn gytûn ynglŷn â ph'un a oeddynt yn ystyried hyn yn beth cadarnhaol neu negyddol. Teimlai'r rhan fwyaf bod hyn yn gadael gormod o le i ddehongli ac nad oedd yn ddigon clir ynglŷn â pha gamau oedd yn ofynnol, ac yn benodol pa ganlyniadau yr oedd yn ceisio eu cyflawni. Roedd nifer fach, serch hynny, yn gadarnhaol ynglŷn â'r ffaith bod hyn yn eu galluogi i deilwra eu hymateb i anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol.
- 8.39 Roedd rhywfaint o ddryswch ymysg y rhai a weithiai mewn Cyrff Cyhoeddus ynglŷn â'r amryw gynlluniau a strategaethau sydd yn eu lle. Er bod y rhan fwyaf yn ymwybodol o'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, nid oedd llawer yn gwybod tri nod allweddol y Cynllun Gweithredu na sut maent yn gysylltiedig â'r Strategaeth. Roedd rhai yn mynegi blinder ynghylch nifer y gwahanol strategaethau a chynlluniau sy'n cael eu cyflwyno, gan ddweud mai anodd yw sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r datblygiadau newydd a deall sut maent yn perthyn i gynlluniau eraill sydd eisoes yn eu lle.
- 8.40 Nododd y rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus nad oedd cyflwyno'r Mesur wedi peri iddynt gyflwyno gwasanaethau neu raglenni newydd na chynyddu faint o gyllid a ddyrannwyd i raglenni tlodi plant (er nad oedd y rhain ymhlith nodau penodol y Mesur). Ond gwnaeth y Mesur arwain at

godi proffil tlodi plant fel pwnc ymysg Cyrff Cyhoeddus, a rhoddodd hyn fantais i unigolion a thimau a hyrwyddai'r achos wrth annog adrannau eraill a sefydliadau partner allanol i gefnogi mentrau tlodi plant. Y mae hefyd wedi arwain at lefel uwch o gydlyn ymysg rhaglenni sydd ag amcanion yn ymwneud â thlodi plant, yn rhannol yn sgil yr ymarferiad mapio a wnaed gan Gyrff Cyhoeddus wrth ddatblygu eu strategaethau, a thrwy systemau monitro sydd wedi eu cydlynu'n well. Mae nifer fach o Gyrff Cyhoeddus wedi gwneud newidiadau i wasanaethau, megis targedu mwy o grwpiau difreintiedig neu addasu cynnwys rhaglenni. Yn olaf, mae nifer fach yn neilltuo adnoddau ychwanegol cymharol fach i raglenni sy'n ceisio trechu tlodi plant, ac mae llawer yn ariannu staff i dreulio mwy o amser ar y pwnc.

- 8.41 Daeth gwella systemau monitro a gwerthuso yn flaenoriaeth i lawer o Gyrff Cyhoeddus o ganlyniad i'r gofyniad i adolygu cynnydd erbyn mis Mawrth 2014 a phob tair blynedd wedi hynny. Mae'r Cyrff Cyhoeddus yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd eu systemau monitro, ac mae'r sbectwm yn amrywio o'r rhai sy'n mesur allbynnau rhaglenni yn unig, i'r rhai sy'n ceisio mesur yr effaith a'r gwerth am arian.
- 8.42 Yn ôl y Cyrff Cyhoeddus, effaith gyfyngedig iawn gafodd y Mesur o ran rhaglenni newydd a dim ond ychydig bach o adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer rhaglenni yn sgil y Mesur. Nid yw'n bosibl mesur effaith y nifer fach iawn o raglenni ychwanegol na'r adnoddau ychwanegol a neilltuwyd ar dlodi plant, gan mai allbynnau a chanlyniadau'r rhaglenni yn unig y bydd y Cyrff Cyhoeddus yn mesur, ac yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r data hwn ar gael eto hyd yn oed. Teimlai'r Cyrff Cyhoeddus bod y Mesur, serch hynny, wedi cael effaith o ran codi proffil tlodi plant, galluogi i raglenni a gwasanaethau gael eu cydlynu'n well, ac annog Cyrff Cyhoeddus i weithredu gwell systemau monitro sydd yn eu tro yn eu galluogi i dargedu adnoddau at yr ardaloedd neu'r grwpiau hynny sydd angen y mwyaf o gymorth. Er hyn, yn y tymor hwy yn unig y mae effaith y newidiadau strategol hyn yn debygol o ddod i'r amlwg wrth i raglenni wella eu heffeithiolrwydd a'u heffaith.

9 Casgliadau ac argymhellion

Prif gasgliadau

- 9.1 Mae camau cadarnhaol wedi eu cymryd gan Lywodraeth Cymru ers 2010 i leihau tlodi plant yng Nghymru, ac mae polisïau bellach yn eu lle i gefnogi'r amcanion trechu tlodi ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Lywodraethu⁸⁸ yn atgyfnerthu'r agenda trechu tlodi ymhellach drwy ei gydnabod yn glir yn un o dri blaenoriaeth allweddol y Llywodraeth. Y mae hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar fesur effaith a phennu p'un a yw camau Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yn gwneud gwahaniaeth.
- 9.2 Gellir gweld effaith y camau hyn i roi mwy o bwys i bryderon tlodi ar draws Llywodraeth Cymru yn y ffaith bod pwyslais cynyddol ar yr agenda yn adrannau Llywodraeth Cymru, yn y ffordd y caiff rhaglenni newydd eu llunio, ac yn yr allbynnau sydd i raglenni.
- 9.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (Results-Based Accountability™) ar draws nifer o'i rhaglenni, ac mae hynny wedi helpu i roi eglurder a phwyslais i'r canlyniadau a geisir a sut y bydd gweithgareddau yn arwain at y canlyniadau hynny. Serch hynny, y mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r dystiolaeth ar lefel canlyniadau ac effeithiau wedi eu gwireddu a'u cipio eto yn achos rhai o weithgareddau Llywodraeth Cymru.
- 9.4 Er y caiff Cymru ei hystyried ar y blaen i nifer o ranbarthau / ardaloedd eraill y Deyrnas Unedig o ran ei ymagwedd at fod â strategaeth i drechu tlodi plant, y mae'n dal i fod ar ei hôl hi ar nifer o ddangosyddion allweddol. Yn gyffredinol, mae'r rhaglenni a roddwyd yn eu lle o dan drechu tlodi yn dilyn ymagwedd 'buddsoddi i arbed' ac mae hyn yn debygol o arwain at ganlyniadau, ond nid yn y tymor byr. Mae dystiolaeth y gwerthusiad hwn yn awgrymu:
- Bod mwy y gellir ei wneud i greu cyswllt rhwng strategaethau twf economaidd ac amcanion tlodi. Er enghraifft, mae angen i raglenni creu swyddi ganolbwyntio ar y rhai sydd â chymwysterau addysgol isel (ym maes helpu pobl i godi allan o dlodi);

⁸⁸ <http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/performance?lang=cy>

- Nid oes tystiolaeth gref fod maint y gwaith rhaglennu yn ddigon i sicrhau maint y newid sydd ei angen;
- Mae'r ddyletswydd a roddwyd ar Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus eraill wedi sicrhau eu bod oll wedi datblygu Strategaethau Tlodi Plant, sef prif nod y ddyletswydd. Ar adeg cynnal yr ymchwiliad (Tachwedd-Rhagfyr 2014), bach iawn o effaith a gafodd y Mesur o ran rhaglenni newydd neu ddyrannu adnoddau ychwanegol i gyrraedd nodau tlodi plant (er nad oedd y rhain ymhlith nodau penodol y Mesur). Roedd y mesur yn annog Cyrff Cyhoeddus i adolygu eu rhaglenni a'u hasesu i ganfod bylchau; yn y mwyafrif helaeth o achosion ni chanfuwyd unrhyw fylchau sylweddol drwy'r broses hon, er bod nifer fach o Gyrff Cyhoeddus wedi ymestyn gweithgareddau presennol, wedi gwella'r modd y maent yn targedu plant difreintiedig neu ddechrau cyflenwi gweithgareddau newydd o ganlyniad i'r Mesur. Prif effeithiau'r ddyletswydd fu gwell cydlynw rhwng rhaglenni a gwasanaethau ar lefel leol, a gwelliannau i systemau monitro.

Casgliadau manwl

Tlodi plant yng Nghymru

- 9.5 Mae tlodi plant yng Nghymru bellach yn uwch nag oedd yn 2005. Caiff hyn ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd sydyn yng nghyfran y plant sydd mewn teuluoedd sy'n gweithio sydd mewn tlodi. Mae'r ffaith i 2005 cael ei dewis yn llinell sylfaen yn cael effaith ar y canlyniadau⁸⁹.
- 9.6 Gan ddefnyddio'r data sydd ar gael hyd at 14 Chwefror 2014, bu i ran fwyaf y dangosyddion eraill ym maes gwaith a phobl sydd heb waith waethygu hefyd rhwng 2005 a 2012, ar wahân i gyfradd gyflogaeth unig rieni a arhosodd heb newid. Mae dangosyddion sgiliau a chymwysterau a dangosyddion tai yn rhoi darlun cymysg o welliant, ac mae dangosyddion iechyd ar y cyfan wedi parhau heb newid ers 2005.
- 9.7 Er bod gan Lywodraeth Cymru mwy o'r pwerau i wella canlyniadau addysgol, iechyd ac economaidd yr aelwydydd hynny sy'n byw mewn

⁸⁹ Roedd 2005 yn flwyddyn 'dda', gyda'r lefel isaf o dlodi plant yng Nghymru ar unrhyw adeg yn y 15 mlynedd diwethaf. Petai'r flwyddyn cynt neu wedyn wedi ei defnyddio i gymharu, byddai'r cynnydd wedi bod yn llai, ond 2005 oedd y flwyddyn y cychwynnwyd ar weithgarwch y strategaeth ac felly cafodd ei dewis yn flwyddyn sylfaen.

tlodi, nid oes ganddi'r rheolaeth dros agweddau allweddol o bolisi macro-economaidd sy'n debygol o ddylanwadu ar gyfraddau tlodi plant. Mae'r rhain yn cynnwys polisi lles, polisi ariannol a pholisi cyllidol, er bod rhywfaint o ddatganoli polisi cyllidol ar y gorwel.

Effaith gwaith rhaglennu Llywodraeth Cymru ar dlodi plant yng Nghymru

- 9.8 Mae tystiolaeth Adroddiad ar Gynnydd Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru 2013⁹⁰ yn rhoi manylion ynglŷn â'r allbynnau hynny a gyflenwyd gan raglenni sy'n canolbwyntio ar drechu tlodi ymhlith plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer o gyflawniadau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: leoedd gofal plant â chymorth i blant difreintiedig, sut mae'r cyswllt rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a Chanolfannau Plant Integredig yn cynyddu nifer yr atgyfeiriadau a bod Cynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith yn cyrraedd eu targedau ac yn mynd y tu hwnt iddynt, ac yn sicrhau canlyniadau cyflogaeth, swyddi yn cael eu creu drwy raglen Twf Swyddi Cymru, a sut mae Dechrau'n Deg ar y ffordd i gyrraedd y targedau o ran nifer y teuluoedd y mae'n eu cynorthwyo.
- 9.9 Y tu hwnt i'r data ar lefel allbynnau a ddarparwyd gan y rhaglenni eu hunain, mae'r dystiolaeth o'r hyn a gynhyrchwyd o dan y strategaeth yn amrywiol a gellid ei chryfhau: mae i rai meysydd fel plant a theuluoedd ac iechyd ddiwylliant cryfach o gynnal gwerthusiadau mwy cadarn. Ond nid yw gwerthusiadau bob amser yn addas i fwydo i mewn i bolisi ar y gorau (neu heb fod â'r lefel iawn o gywirdeb) sydd felly yn cyfyngu ar y casgliadau y gellir eu gwneud ynglŷn â'r effaith o dan y strategaeth. Mae hyn yn wir am nifer o resymau, gan gynnwys y ffordd y caiff rhaglenni eu gweithredu (e.e. diffyg meysydd i gymharu â hwy, dechrau gweithredu prif gam y rhaglen cyn i ganfyddiadau gwerthusiad peilot fod ar gael). O ran helpu pobl i gael gwaith, caiff y gallu i fesur yr effaith drosfwaol ei gyfyngu gan y diffyg gwerthuso ar lefel 'Cynlluniau Gweithredu', 'Strategaethau' neu 'Cronfeydd' – yn aml, caiff y gwaith gwerthuso a/neu

⁹⁰ <http://wales.gov.uk/docs/dsijlg/policy/131129child-poverty-strategy-progress-reportv2-cy.pdf>

monitro ei wneud ar lefel gweithgareddau unigol ac ni chaiff ei ystyried fel cyfanwaith.

- 9.10 Er bod yr arfer o ddefnyddio cyfnodau peilot yn gyffredin ar draws y rhaglenni, nid ydynt bob amser yn cael eu defnyddio i sicrhau'r effaith orau. Er enghraifft, cafodd Dechrau'n Deg ei gyflwyno'n llawn cyn i dystiolaeth o effaith yn yr ardaloedd peilot gael ei chasglu, ac felly hefyd yn achos y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Mewn rhai achosion, gellid bod wedi cynnal gwerthusiadau mwy manwl yn ystod y cyfnodau peilot er mwyn sicrhau bod tystiolaeth gryfach yn sail i'r penderfyniadau a wnaed: er enghraifft, natur ansoddol yn bennaf oedd i werthusiad cychwynnol Teuluoedd yn Gyntaf. Mae angen i wleidyddion, swyddogion polisi a dadansoddwyr gydweithio i sicrhau y caiff yr hyn a ddysgir o gyfnodau peilot ei fwydo i mewn wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno fesul cam ac wrth i raglenni gael eu dylunio yn y dyfodol. Prin y caiff yr hyn y ddysgir ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio mewn cyfnodau peilot neu raglenni blaenorol ei rannu y tu hwnt i'r timau ar lefel genedlaethol a gellir gwella'r arfer o drosglwyddo gwybodaeth i ardaloedd lleol. Yn groes i hyn ceir rhai enghreifftiau o ddefnyddio cynlluniau peilot yn dda – megis yn achos rhaglen Mynediad at Undebau Credyd.
- 9.11 Bydd maint yr hyn a gynigir a/neu a gyflenwir mewn llawer o feysydd polisi yn cyfyngu ar y graddau y gellir gweld unrhyw newid ledled Cymru ar lefel dangosyddion y boblogaeth. Er enghraifft, mae Dechrau'n Deg a'r rhaglenni cyflogaeth a sgiliau i ieuenctid (gan gynnwys Twf Swyddi Cymru), yn fach o ran nifer y buddiolwyr y maent yn ceisio eu targedu o gymharu â maint y mater y maent yn ceisio mynd i'r afael ag ef.
- 9.12 Nid yw'r tîm gwerthuso wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gydlyn sylweddol rhwng rhaglenni sy'n ceisio helpu pobl i gael gwaith a rhaglenni sy'n ceisio creu swyddi. Mae'n bosibl y gallai hyn gyfyngu ar yr hyn y gall ail elfen y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi gyflawni.
- 9.13 Drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid, gwelwyd bod pryder ymysg nifer o'r arweinwyr polisi nad yw'r tybiaethau sy'n sylfaen i'r hyn y disgwylir y gellir ei gyflawni o dan y strategaeth yn dal dŵr. Er enghraifft, roedd rôl Llywodraeth y DU, maint yr ymyriadau a'r hinsawdd economaidd anodd

dros gyfnod 2008-2013 yn annhebygol o gynorthwyo i wireddu canlyniadau lefel uchel y strategaeth yn llwyddiannus (er enghraifft – dileu tlodi plant erbyn 2020).

Effaith bod â strategaeth

9.14 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod 'effaith y strategaeth' yn bodoli i ryw raddau. Mae'r effaith hon wedi amrywio gydag amser, yn gysylltiedig â'r hinsawdd gweinidogol ac allanol (e.e. blaenoriaethau cyllid yr Undeb Ewropeaidd). Cafodd yr effeithiau hyn eu gwella'n sylweddol yn ddiweddar wrth i'r blaenoriaethau Gweinidogol gael eu cyfathrebu. Ar y cyfan, mae'r strategaeth yn cynnig naratif defnyddiol ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru a'r timau polisi unigol yn ceisio cyflawni, ac yn ddull mewnol defnyddiol wrth geisio tynnu sylw at y cyfraniad y gallai gwaith tîm polisi wneud ac yn allanol wrth dynnu sylw rhanddeiliaid at ffocws a chyfraniad Llywodraeth Cymru. Roedd y strategaeth hefyd yn offeryn defnyddiol i gyfiawnhau diogelu rhaglenni penodol megis Lwfans Cynhaliaeth Addysg, gwersi nofio am ddim a mynediad am ddim i amgueddfeydd ac ati. Yn ychwanegol, mae bodolaeth y strategaeth wedi annog timau polisi i dargedu'n benodol y rhai hynny sy'n byw ag effeithiau tlodi.

9.15 Bu gan y Tîm Trechu Tlodi rôl gref yn y gwaith o greu cyswllt rhwng rhai o'r rhaglenni a ddylai wella effaith gyffredinol a'r gwerth am arian – roedd y maes lle y gwelwyd y mwyaf o gynnydd yn ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf a gwaith rhaglennu eraill. Ystyriwyd y gellid gwneud hyn yn fwy systematig ac y gallai'r Tîm Trechu Tlodi chwarae rôl allweddol yn hyn o beth. Mae mwy o rôl i'r Tîm Trechu Tlodi hefyd yn y broses o adolygu polisi, gosod targedau gwerthuso a fframweithiau monitro (i sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn ystyried effaith yn nhermau gwella canlyniadau teuluoedd incwm isel).

9.16 Mae Hyrwyddwyr Trechu Tlodi wedi eu sefydlu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ac mae hyn wedi helpu i wella pa mor weladwy yw tlodi fel un o gonglfeini mandad Llywodraeth Cymru. Er hyn, ers mis Gorffennaf 2013, roedd eu rôl benodol fel Hyrwyddwyr yn aneglur. Mae

gwaith mwy diweddar gan y Tîm Trechu Tlodi wedi rhoi mwy o eglurder a ffocws i'r rolau hyn.

- 9.17 Daeth tymor y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant, a benodwyd i ddechrau ym mis Ebrill 2008, i ben ym mis Mai 2011. Nod y grŵp oedd nodi'r blaenoriaethau a'r heriau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy er mwyn trechu tlodi plant yng Nghymru. Rhoddodd y Grŵp argymhellion ar sail tystiolaeth i'w hystyried gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Bu'r Grŵp hefyd yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyrraedd ei thargedau ynghylch tlodi plant, gan roi cyngor arbenigol ar weithredu deddfwriaeth tlodi plant, Strategaeth Tlodi Plant Cymru a dogfennau perthnasol eraill. Yn ystod y tymor hwn, datblygodd y grŵp argymhellion polisi penodol ar nifer o themâu ar sail tlodi, bu'r grŵp yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a chynhaliodd y grŵp adolygiad gan gymheiriaid o'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Cyflawni yng Nghymru, ymysg tasgau eraill.
- 9.18 Sefydlwyd y Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi gan lywodraeth bresennol Cymru gan gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2012. Mae'r Grŵp Cynghori Allanol yn cyfarfod bob chwarter ac yn adrodd i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae cylch gwaith y grŵp hwn yn ehangach na chylch gwaith y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant gan ei fod yn adlewyrchu'r agenda tlodi ehangach yn ôl diffiniad y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi. Mae'r Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi yn rhoi cyngor arbenigol ar sail tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar weithredu a'r gofynion polisi pellach sydd eu hangen i gyflawni Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yng Nghymru. Mae'r Grŵp Cynghori Allanol hefyd yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei thargedau ynghylch trechu tlodi fel sydd wedi ei osod yn y Rhaglen Lywodraethu a Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi.
- 9.19 Yn y misoedd diwethaf, bu newid o ran blaenoriaethau mewn rhai meysydd polisi, megis addysg, sgiliau ac adfywio, yn unol â'r pwysigrwydd â roddir ar Gynllun Gweithredu Trechu Tlodi a'r canlyniadau y mae'n gobeithio eu cyflawni wedi eu hintegreiddio'n well yn y meysydd hyn. Ymhellach, sefydlwyd Bwrdd Gweithredu Trechu Tlodi (a gaiff ei gadeirio gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi). Mae'r

Bwrdd Gweithredu yn monitro sut y caiff yr ymrwymadau yng Nghynllun Gweithredu Trechu Tlodi eu cyflawni, a dyma'r dull i ddwyn gwahanol adrannau i gyfrif am y targedau allweddol a'r cerrig milltir sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Trechu Tlodi.

Effaith y Mesur ar Gyrff Cyhoeddus

- 9.20 Cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno, roedd pob Corff Cyhoeddus yn cyflenwi gwasanaethau a gyfrannai mewn rhyw ffordd at drechu tlodi plant. Er hyn, byddai'r Cyrff Cyhoeddus yn amrywio i ba raddau yr oeddynt yn ystyried tlodi plant yn flaenoriaeth a'r lefel o gydlynw gwasanaethau a gyfrannai at drechu tlodi plant. Roedd eisoes gan rai berson neu dimau penodol yn eu lle, ac roedd eraill heb nodau na thimau penodol, ond yn cyfrannu at leihau tlodi plant drwy gyflawni eu dyletswyddau statudol yn unig.
- 9.21 Nid oedd dehongli'r hyn oedd yn ofynnol ganddynt o dan y Mesur yn anhawster i'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus. Byddent yn defnyddio'r ddeddfwriaeth ei hun i ddeall hyn, a byddai rhai hefyd yn defnyddio'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â chynghor swyddogion Llywodraeth Cymru. Gwnaeth llawer sylw ar lefel yr amwysedd yn y ddeddfwriaeth o ran yr hyn oedd yn ofynnol iddynt wneud, ond nid oeddynt yn gytûn ynglŷn â ph'un a oeddynt yn ystyried hyn yn beth cadarnhaol neu negyddol. Teimlai'r rhan fwyaf bod hyn yn gadael gormod o le i ddehongli ac nad oedd yn ddigon clir ynglŷn â pha gamau oedd yn ofynnol, ac yn benodol pa ganlyniadau yr oedd yn ceisio eu cyflawni. Roedd nifer fach, serch hynny, yn gadarnhaol ynglŷn â'r ffaith bod hyn yn eu galluogi i deilwra eu hymateb i anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol.
- 9.22 Nododd y rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus nad oedd cyflwyno'r Mesur wedi peri iddynt gyflwyno gwasanaethau neu raglenni newydd na chynyddu faint o gyllid a ddyrannwyd i raglenni tlodi plant (er nad oedd y rhain ymhlith nodau penodol y Mesur). Ond gwnaeth y Mesur arwain at godi proffil tlodi plant fel pwnc ymysg Cyrff Cyhoeddus, a rhoddodd hyn fantais i unigolion a thimau a hyrwyddai'r achos wrth annog adrannau eraill a sefydliadau partner allanol i gefnogi mentrau tlodi plant. Y mae

hefyd wedi arwain at lefel uwch o gydlyn ymysg rhaglenni sydd ag amcanion yn ymwneud â thlodi plant, yn rhannol yn sgil yr ymarferiad mapio a wnaed gan Gyrff Cyhoeddus wrth ddatblygu eu strategaethau, a thrwy systemau monitro sydd wedi eu cydlynyn well. Mae nifer fach o Gyrff Cyhoeddus wedi gwneud newidiadau i wasanaethau, megis targedu mwy o grwpiau difreintiedig neu addasu cynnwys rhaglenni. Yn olaf, mae nifer fach yn neilltuo adnoddau ychwanegol i raglenni sy'n ceisio trechu tlodi plant, ac mae llawer yn ariannu staff i dreulio mwy o amser ar y pwnc.

- 9.23 Daeth gwella systemau monitro a gwerthuso yn flaenoriaeth i lawer o Gyrff Cyhoeddus o ganlyniad i'r gofyniad i adolygu cynnydd erbyn mis Mawrth 2014 a phob tair blynedd wedi hynny. Mae'r Gyrff Cyhoeddus yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd eu systemau monitro, ac mae'r sbectwm yn amrywio o'r rhai sy'n mesur allbynnau rhaglenni yn unig, i'r rhai sy'n ceisio mesur yr effaith a'r gwerth am arian.

Gwersi allweddol

- 9.24 Gwers 1: Os yw Llywodraeth Cymru yn ceisio dod i gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y mae'n cyflawni ar amcanion polisi lefel uchel – megis trechu tlodi plant – bydd angen dull mwy systematig o werthuso. Dylai hyn olygu:

- a. Mynegi gweledigaeth ac amcanion pob rhaglen yn glir a sut y maent yn perthyn i amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru,
- b. Cynllunio'r gwerthusiadau yn gynharach ochr yn ochr a llunio'r polisi / rhaglen cychwynnol⁹¹,
- c. Defnyddio methodolegau wrth werthuso sy'n caniatáu i ddod i gasgliadau cynnar / rhagarweiniol a chaniatáu i ganlyniadau net canolradd gael eu mesur yn ogystal ag asesiadau gwerth am arian⁹²,

⁹¹ Mae sicrhau bod gwleidyddion, swyddogion polisi a dadansoddwyr yn y llywodraeth yn cydweithio, gyda chymorth arbenigwyr allanol fel sy'n briodol, yn hanfodol a'r cynharaf y bydd hyn yn digwydd, y mwyaf o opsiynau gwerthuso fydd ar gael. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gellir defnyddio'r dull gorau oll o werthuso er mwyn darparu tystiolaeth gadarn ynghylch p'un a yw rhaglen yn gweithio ai peidio, a pham.

⁹² Mae asesiadau Gwerth am Arian yn elfennau hanfodol wrth werthuso a cheir eu bod yn annigonol ym mhorthffolio presennol Llywodraeth Cymru o werthusiadau.

- d. Fframweithiau meta-werthuso trosfwaol i gael eu defnyddio yn y broses o sicrhau bod rhaglenni / polisïau yn gydnaws â strategaethau / cronfeydd cyffredin neu gynlluniau gweithredu,
 - e. Rhoi mwy o ystyriaethau i fuddsoddi mewn gwerthuso fel rhan annatod o gyllidebau rhaglen.
- 9.25 Gwers 2: Gallai'r dystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n 'gweithio' o ran gwaith rhaglennu wrth geisio cyfrannu at drechu tlodi yng Nghymru a rheoli'r wybodaeth hon gael eu gwella drwy gynnal gwerthusiad manylach a mwy amserol o'r cam peilot. Gellid defnyddio'r wers hon yn fwy effeithiol o'i rhannu'n fwy rhagweithiol yn lleol. Gallai'r gwersi a gwyd o ddefnyddio setiau dysgu fel rhan o Deuluoedd yn Gyntaf gael eu defnyddio i wella / creu prosesau gwybodaeth o lefel genedlaethol i lefel leol ar gyfer polisïau allweddol.
- 9.26 Gwers 3: Dylid casglu tystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio i gynyddu neu leihau maint gweithgarwch mewn meysydd polisi allweddol. Ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth o'r hyn sy'n cynhyrchu canlyniadau yn gyfyngedig. Mae maint gweithgarwch yn aml yn anghyfrannol o isel o gymharu â maint y broblem. Ar y llaw arall, dylai'r comisiynwyr fod yn barod i leihau cyllid i raglenni nad oes angen lefelau uwch o gyllid arnynt yn sgil newidiadau i'r amgylchedd, a rhoi'r gorau i gyllido'r rhai yr aseswyd nad ydynt yn cynnig gwerth da am arian.
- 9.27 Gwers 4: Gan na all un rhaglen unigol fynd i'r afael â thlodi plant mae'n hanfodol integreiddio rhaglennu sydd â gwasanaethau ategol, ac sydd â darpariaeth oddi wrth y cwsmer ac at y cwsmer, i sicrhau bod cymorth i blant a theuluoedd yn parhau heb ddyblygu'r ddarpariaeth bresennol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau i sicrhau bod gwell cyswllt rhwng rhaglenni sy'n trechu tlodi, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, o'r lefel uchaf (dwyn y rhaglenni hyn at ei gilydd mewn un adran o'r llywodraeth) ac ar lawr gwlad. Er hyn, gellid gwneud mwy i sicrhau eu bod yn fwy cydnaws â gwasanaethau prif ffrwd megis iechyd.
- 9.28 Gwers 5: Gellid cryfhau rôl y Tîm Trechu Tlodi er mwyn gwella'r effaith ar ddylunio, gweithredu a gwerthuso polisi. Yn benodol, argymhellir bod y tîm yn canolbwyntio yn y tymor byr ar wella'r sylfaen dystiolaeth sy'n

cael ei datblygu yn Llywodraeth Cymru drwy ymwneud â'r gwaith o ddylunio, tendro a llywio contractau gwerthuso. Byddai gwell sylfaen dystiolaeth yn gwella'r gwaith o raglennu a gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau i'r dyfodol, ac yn galluogi i'r hyn sy'n 'gweithio' gael ei rannu yn fwy eang wrth drechu tlodi ledled Cymru.

9.29 Gwers 6: Gallai rhannu profiadau ac arferion da ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio'n dda ar lefel leol wella effaith y ddyletswydd ar Awdurdodau a Chyrff Cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau i wneud hyn, megis drwy 'Ddigwyddiadau Rhanbarthol i Drechu Tlodi' sydd ar y gweill i'w cynnal ym mis Mawrth a mis Ebrill 2014, a bydd yn gyfle i Hyrwyddwyr Gwrthdlodi ddod at ei gilydd i drafod lleihau nifer y bobl ifanc NEET a babanod pwysau geni isel.

9.30 Gwers 7: Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael arweiniad gan lefelau uchaf Llywodraeth Cymru drwy'r gwerthusiad hwn. Mae'r ffaith i'r Prif Weinidog roi trechu tlodi yn flaenoriaeth a'i fod wedi ei gynnwys yn un o'r tri nod allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu wedi bod yn eithriadol bwysig i godi proffil y mater hwn gan roi cymorth i unigolion sy'n gweithio ar amryw lefelau i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â threchgu tlodi plant.

Atodiadau

Atodiad A: Strategaeth Tlodi Plant Cymru – Dangosyddion Sylfaen

Tabl cynnwys

Crynodeb a chyflwyniad.....	114
1 Canfyddiadau cyffredinol.....	121
2 Tlodi incwm	131
3 Gwaith a bod heb waith.....	137
4 Addysg a chymwysterau	151
5 Tai a gwasanaethau	163
6 Iechyd.....	168
Atodiad – Rhestr o bolisiau perthnasol (yn nhrefn yr wyddor).....	180

Crynodeb a chyflwyniad

Cefndir

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o werthusiad Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Ei ddiben, fel a nodir yn y Cylch Gorchwyl, yw diweddarw'r proffil **sylyfaenol** o Dlodi Plant a roddwyd yn gynharach yn y prosiect. Diben yr adroddiad oedd
 - Llunio proffil **sylyfaen** meintiol cynhwysfawr a manwl o Dlodi Plant yn 2005 yng Nghymru a'r DU.
 - I gyd-fynd â hyn, darparu **amserlen** o'r prif ddatganiadau polisi a chymau perthnasol ar lefel y DU a Chymru dros yr un cyfnod.
 - **Tynnu sylw** at unrhyw fylchau neu ddiffygion difrifol sy'n rhwystro'r gwaith monitro a dadansoddi ar lefel Cymru.
2. Mae'n rhoi darlun cyffredinol o'r cyfeiriad y mae tlodi plant yng Nghymru yn symud iddo, ac yn gosod hyn yn y cyd-destun economaidd a pholisi gan ddarparu data gwledydd a rhanbarthau eraill er mwyn cymharu.
3. Mae'r sylfaen yn cynnwys 23 o ddangosyddion ar draws tlodi incwm, gwaith a bod heb waith, addysg a chymwysterau, tai a gwasanaethau ac anghydraddoldebau ieuchyd. Ar gyfer pob dangosydd, caiff lefel sylfaen 2005 ei chymharu â data'r flwyddyn ddiweddaraf⁹³. Mae pob dangosydd lle mae data addas ar gael wedi ei ddiweddarw.
4. Lle y bo'n bosibl, gwneir cymariaethau â rhannau eraill o'r DU. Mewn rhai achosion, llwyddwyd i gymharu â dyddiadau cyn cyflwyno'r Strategaeth, er mwyn dangos cyd-destun y tymor hwy.
5. Cytunwyd â Llywodraeth Cymru ar y dangosyddion yn y llinell sylfaen yn dilyn proses o drafodaeth gan dynnu ar i) dangosyddion / cerrig milltir a ddefnyddiwyd mewn adroddiadau monitro tlodi plant blaenorol yng Nghymru; ii) barn gweision sifil Llywodraeth Cymru ynglŷn â bylchau yn yr hyn a wnaed yn flaenorol; iii) asesiad gan dîm y prosiect o'r lle i wella a/neu ychwanegiadau posibl. Wrth wneud sylwadau ar newidiadau dros amser, gwnaethom brofion ystadegol i ddangos p'un a yw'r newidiadau yn ystadegol arwyddocaol.

⁹³ Mae hyn yn cynnwys y data perthnasol sydd ar gael ar 14 Chwefror 2014.

6. Wrth adolygu'r canlyniadau a ddangosir yma, gwiriwyd yn erbyn Adroddiad Cynnydd y Strategaeth Tlodi Plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2013.⁹⁴ O'r chwe dangosydd a roddir, dim ond un y gellir ei gymharu'n uniongyrchol ag un sydd wedi ei gynnwys yma (plant mewn aelwydydd heb waith). Trafodir y gymhariaeth yn yr adran berthnasol isod.
7. Mae tair prif gydran i'r llinell amser. Yn gyntaf, mae tri dangosydd allweddol – tlodi plant, aelwydydd heb waith a diweithdra. Yr ail elfen yw'r cyd-destun economaidd, sy'n dangos effeithiau'r dirwasgiad. Yr elfen olaf yw'r cyd-destun polisi yn y DU ac yng Nghymru. Mae'r llinell amser yn cynnwys dyddiadau cyflwyno'r polisiau allweddol hyn, a roddwyd inni gan Lywodraeth Cymru.
8. Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau sy'n tynnu sylw at faterion ynglŷn ag ansawdd y data a pha ddata sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys sylwadau ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd a'r data sydd ei angen i werthuso polisiau yn y dyfodol.

Newidiadau ers yr adroddiad cyntaf

9. Y prif newid ers y drafft cyntaf yw bod y ffigurau tlodi plant newydd yn dangos bod tlodi plant wedi cynyddu ers 2005. Yn flaenorol, y casgliad oedd nad oedd y newid yn ystadegol arwyddocaol. Y mae bellach.
10. Caiff hyn ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd mawr yng nghyfran y plant mewn teuluoedd sy'n gweithio sydd mewn tlodi. Mae hyn wedi digwydd ledled y DU, ond mae'r cynnydd yng Nghymru, o 14% i 24%, yn arbennig o serth.

Y cyd-destun economaidd

11. Y dull a ddefnyddiwyd gennym yw cymharu'r data diweddaraf sydd ar gael â data 2005, sef y flwyddyn y cyflwynwyd y Strategaeth Tlodi Plant. Mewn llawer o achosion, y mesurau tlodi incwm yn fwyaf nodedig, rydym yn cyfuno tair blynedd o ddata gan gymharu'r tair blynedd diweddaraf â'r tair blynedd yn arwain at lansio'r Strategaeth yn 2005.

⁹⁴ <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/poverty/newcpstrategy/?lang=en>

12. Mae'r dewis hwn o ddyddiad cychwyn yn bwysig iawn ac yn lliwio nifer o'r canfyddiadau. O edrych yn ôl, gwelir mai 2005 oedd y flwyddyn gryfaf i economi'r Deyrnas Unedig. Ni bu diweithdra mor isel wedyn ag y bu yn 2005, a'r lefel bryd hynny oedd 4.6%.
13. Darlun tebyg oedd i tlodi plant. Yn y DU, cyfran y plant a oedd yn byw mewn aelwyd oedd â llai na 60% o'r canolrif cyfoes oedd 29% yn 2005, ac nid yw wedi disgyn o dan y lefel hon ers hynny. Yng Nghymru (fel y mae'r adroddiad hwn yn dangos yn nes ymlaen) y lefel oedd 28%, y pwynt isaf ar unrhyw adeg yn y 15 mlynedd diwethaf.
14. Gellid disgwyl bod y dirwasgiad a gychwynnodd yn 2008 a'r diffyg twf economaidd a ddaeth yn sgil hynny wedi rhwystro cynnydd ar leihau tlodi plant. Ond dylid nodi bod diweithdra a thlodi plant eisoes wedi dechrau cynyddu rhyw dair blynedd cyn hynny. Ymhellach, mae'r incwm canolrifol wedi disgyn ers 2008 gan olygu bod trothwy tlodi wedi gostwng yn y flwyddyn ddiweddaraf. Cyfrannodd hyn at leihad mewn tlodi plant ar lefel y DU yn y casgliad diweddaraf o ystadegau.

Y cyd-destun polisi

15. Mae polisiau Llywodraethau'r DU a Chymru yn bwysig wrth osod y cyd-destun ar gyfer yr adroddiad llinell sylfaen hwn. Gellir olrhain polisiau ar lefel y DU i drechu tlodi plant yn ôl i 1999, pan yr addawodd y Prif Weinidog y byddai'n gwaredu tlodi plant erbyn 2020. Roedd cyfres o bolisiau yn gysylltiedig a hynny, gan gynnwys Credyd Treth Plant a'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol.
16. Roedd y rhan fwyaf o'r polisiau allweddol ar lefel y DU wedi eu cyflwyno erbyn 2005, ond mae'r newidiadau ers hynny yn bwysig. Er enghraifft, gallai lefel Credyd Treth Plant, a osodir yn flynyddol gan y Canghellor, gael effaith ar nifer y plant sy'n byw mewn tlodi incwm.
17. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd, ac yn ceisio canfod gwersi i'w dysgu lle y bo'n bosibl. Bu darnau eraill o waith ymchwil, yn fwyaf nodedig gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS), yn edrych ar beth allai fod wedi digwydd pe na byddai polisiau penodol yn eu lle. Daethpwyd i'r casgliad y byddai tlodi plant, ar lefel y DU yn gyfan, wedi cynyddu yn y ddegawd hyd at 2010 o

ryw chwarter petai budd-daliadau yn gysylltiedig â chwyddiant yn unig yn hytrach na'r cynyddiadau a gyhoeddwyd gan y Canghellor. Hyd yn oed yn y blynyddoedd pan nad oedd tlodi plant yn lleihau, roedd y polisïau ynghylch budd-daliadau yn ymwneud â phlant yn cadw tlodi rhag cynyddu⁹⁵.


18. Nododd Llywodraeth Cymru y rhaglenni allweddol a allai effeithio ar dlodi plant ac anfonwyd atom restr o bolisïau perthnasol (mae'r rhain wedi eu rhestru yn yr Atodiad). Cânt eu trafod yn y man perthnasol yn yr adroddiad. Mae llawer (er enghraifft, Camau at Waith, y Cynllun Ymgysylltu a Gweithredu Ieuencid) wedi eu cyflwyno yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ac felly ni fydd eu heffaith yn dod i'r amlwg yn y dadansoddiad hwn o'r llinell sylfaen. Rydym hefyd wedi ystyried y polisïau a restrir yn nogfen fewnol Llywodraeth Cymru "Effaith Rhaglenni Llywodraeth Cynlluniad Cymru ar Dlodi Plant: Synthesis o dystiolaeth o werthusiadau".
19. O'r polisïau sydd wedi eu sefydlu'n ddigonol i gael effaith ar y dadansoddiad, y ddau sydd â'r mwyaf o botensial i fynd i'r afael â thlodi plant oedd Dechrau'n Deg, Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar (2006) a Genesis Cymru, sy'n ceisio gwella cyfranogiad yn y farchnad lafur (2004).

Llinellau amser

20. Mae'r llinell amser isod yn dangos dau o ddangosyddion yr adroddiad – cyfradd tlodi plant a chyfran y plant yng Nghymru sydd mewn aelwydydd heb waith (ill dau wedi eu dangos ar ffurf cyfartaledd tair blynedd symudol). Dewisir y dangosyddion hyn oherwydd eu pwysigrwydd yn strategaethau 2005 a 2011, a'r ffaith bod data ar gael er mwyn cymharu yn y tymor hwy. Mae'n dangos y newidiadau o gymharu â'u lefel yn 2005, lle maent wedi eu gosod i 100%. Rhoddir llinellau ar gyfer Cymru a Phrydain (GB).

⁹⁵ Dyfynnwyd yn Dileu Tlodi Plant erbyn 2020: Cynnydd a Wnaed a Gwersi a Ddysgwyd, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant 2012.

Llinell amser 1 – Tueddiadau mewn tlodi plant, plant mewn aelwydydd heb waith a diweithdra ymysg pobl o oedran gweithio, gyda datblygiadau polisi allweddol wedi eu nodi




Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cartrefi Islaw'r Cyfartaledd Incwm; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Cartrefi Heb Waith

21. Mae adegau cyflwyno polisiâu allweddol wedi eu nodi ar y siart, ond rhoi'r cyd-destun yn unig yw diben hyn, er mwyn deall beth oedd yn digwydd pryd. Nid yw'n dangos, ac ni fwriedir iddo ddangos, effeithiolrwydd y polisi neu beidio.
22. Daeth y gyfres tlodi plant i'w phwynt isaf yn 2006. Ond bu'r gyfres o blant mewn aelwydydd heb waith yn parhau i ddisgyn hyd nes i'r dirwasgiad ddechrau yn 2008, ac wedi hynny cododd yn sydyn gan barhau i godi hyd 2012. Mae'r data ar gyfer hanner cyntaf 2013 yn awgrymu bod y duedd hon tuag i lawr (yn sydyn) er y byddai angen data o leiaf blwyddyn arall i gadarnhau hyn.
23. Rhwng 2008/09 a 2011/12, ni chododd tlodi plant ym Mhrydain, a chododd ychydig bach yn unig yng Nghymru ar ôl cyfnod o amrywiad sylweddol yng nghyfradd tlodi plant. Gallai'r arian ychwanegol a roddwyd tuag at gredydau treth, a addawyd yn 2007 ac a gyflenwyd yn 2008, fod

yn gyfrifol am hyn i ryw raddau. Ond yr un mor bwysig fu'r gwmp yn yr incwm canolrifol, sydd wedi golygu bod y llinell dlodi ei hun wedi dod i lawr.

24. Mae'r llinell amser nesaf yn rhoi dangosyddion sydd ychydig bach yn wahanol – 'y cyflenwad llafur posibl' a'r lefel gyffredinol o fod heb waith, yng Nghymru a Phrydain. Mae'r cyflenwad llafur posibl yn cynnwys diweithdra, y rhai sy'n economaidd anweithgar ond sydd eisiau gwaith â thâl, a'r rhai sydd mewn swydd ran amser yn unig ond sydd eisiau swydd amser llawn. Mae'r darlun yn y llinell amser hon yn debyg iawn i'r un diwethaf.

Llinell amser 2 – Tueddiadau yn y cyflenwad llafur posibl a'r lefel gyffredinol o fod heb waith, gyda datblygiadau polisi allweddol wedi eu nodi



Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau'r Farchnad Lafur

25. Unwaith eto, caiff y data eu cymharu â 2005. Mae'n werth nodi'r gwmp fawr yng nghyfran y cyflenwad llafur posibl hyd at 2005, yn arbennig yng ngoleuni'r cynnydd mawr wedi hynny. Mae'r mesur hwn wedyn yn codi'n

sydyn yng Nghymru ac yn y DU gyda'r dirwasgiad, tra bod y lefel gyffredinol o fod heb waith yn cynyddu'n arafach. Gan fod y newid yn y lefel o fod heb waith yn cael ei adlewyrchu ym mesur y farchnad lafur bosibl, mae'r cynnydd uwch yn yr ail fesur yn adlewyrchu cynnydd yn y gydran 'mewn gwaith', sef y rhai sydd mewn swyddi rhan amser sydd eisiau swyddi amser llawn.

26. Mae llinellau Cymru a Phrydain yn dilyn ei gilydd yn agos iawn. Bu'r newidiadau yn y cyfrannau ers 2005 yn debyg, er bod y lefelau cyffredinol yn wahanol.

1 Canfyddiadau cyffredinol

1.1 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r 23 dangosydd yn yr adroddiad. Mae'n dangos lefel a chyfeiriad y newid yng Nghymru ac yn cymharu hynny â'r sefyllfa yng Ngogledd Lloegr. Dewisir Gogledd Lloegr fel 'cymydog ystadegol' agos, gan fod y gyfradd tlodi plant yno yn debyg i'r hyn a oedd yng Nghymru ar ddechrau'r cyfnod. Caiff cod lliw ei ddefnyddio i ddangos y newid ers blwyddyn sylfaen 2005. Mae gwyrdd yn dangos cynnydd, oren yn dangos dim newid a choch yn dangos gwaethgiad.

Tabl 1 – crynodeb o'r dangosyddion yng Nghymru a Gogledd Lloegr, y data diweddaraf o gymharu â llinell sylfaen 2005

Pwnc	Dangosydd	Data diweddaraf ⁹⁶	Cymru: lefel yn y flwyddyn ddiweddaraf	Cymru: newid ers y flwyddyn sylfaen	Gogledd Lloegr: lefel yn y flwyddyn ddiweddaraf	Gogledd Lloegr: newid ers y flwyddyn sylfaen
Tlodi incwm	Plant mewn tlodi cymharol (AHC)	3 blynedd hyd at 2011/12	33%	Gwaeth	30%	Dim newid
	Plant mewn tlodi mewn gwaith (AHC)	3 blynedd hyd at 2011/12	24%	Gwaeth	21%	Gwaeth
Gwaith a bod heb waith	Heb waith	2012	33%	Gwaeth	32%	Gwaeth
	Cyflenwad llafur posibl	2012	17%	Gwaeth	17%	Gwaeth
	Plant mewn aelwydydd heb waith	3 blynedd hyd at 2012	19%	Gwaeth	18%	Gwaeth
	Cyfraddau cyflogaeth unig rieni	3 blynedd hyd at 2012	54%	Dim newid	57%	Gwell
	Cyflog yr awr gros – gwerth degfed canradd	2012	£6.30	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Cyflog yr awr gros – gwerth canolrifol	2012	£10.10	Gwaeth	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
Sgiliau a chymwysterau	Bwlch cyrhaeddiad yn CA2	2013	18 pwynt canran	Gwell	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Bwlch cyrhaeddiad yn CA4	2013	33 pwynt canran	Gwaeth	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Oedolion ifanc heb gymwysterau Lefel 3	3 blynedd hyd at 2012	45%	Dim newid	44%	Gwell

⁹⁶ This report includes all relevant data available as at 14 February 2014.

Pwnc	Dangosydd	Data diweddaraf ⁹⁶	Cymru: lefel yn y flwyddyn ddiweddaraf	Cymru: newid ers y flwyddyn sylfaen	Gogledd Lloegr: lefel yn y flwyddyn ddiweddaraf	Gogledd Lloegr: newid ers y flwyddyn sylfaen
	Oedolion ifanc NEET	2012	19%	Gwaeth	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau Lefel 3	2012	48%	Gwell	49%	Gwell
Tai a gwasanaethau	Teuluoedd digartref mewn llety dros dro	2012/13	2,500	Gwell	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Teuluoedd â phlant yn byw mewn amodau gorllawn	2010	23,000	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Teuluoedd (â phlant) heb fynediad at gyfrifon banc	3 blynedd hyd at 2011/12	1%	Gwell	2%	Gwell
Iechyd	Cymhareb marwolaethau babanod rhwng y bumed ran o amddifadedd mwyaf a'r bumed ran ganol	2008	1.2	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Cymhareb pwysau geni isel yn ôl cwintellau o amddifadedd	2007	1.2	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Cymhareb plant 5 oed â phydredd dannedd yn ôl cwintellau amddifadedd	2007-08	1.5	Gwell	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Cymhareb pobl ifanc â phydredd dannedd yn ôl cwintellau amddifadedd	2008-09	1.4	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Rhai dan 16 oed sy'n beichiogi yn ôl cwintellau amddifadedd	4 blynedd hyd at 2008	1.7	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Anafiadau i gerddwyr 5-14 oed (cleifion preswyl mewn ysbyty) yn ôl cwintellau amddifadedd	4 blynedd hyd at 2008	1.7	Dim newid	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu
	Plant a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damwain ffordd	2012	92	Gwell	Ni ellir cymharu	Ni ellir cymharu

1.2 Mae ein casgliadau ynghylch p'un a yw'r amcangyfrif wedi newid neu beidio o gymharu â data'r flwyddyn sylfaen yn adlewyrchu'r newid cyffredinol yn y mesur yn hytrach nag amrywiadau yn ystod y blynyddoedd yn y cyfamser.

1.3 Lle bynnag y bo modd, defnyddiwn gyfartaleddau tair blynedd neu ragor er mwyn cael sampl fwy a lleihau'r amrywiadau. Er mwyn pennu statws y dangosydd, defnyddiwn brofion cyfwng hyder ar lefel hyder o 95% er mwyn sicrhau nad ydym yn gweld amrywiant 'ar hap'. Ystyrir bod metrig wedi gwella/gwaethygu yn unig pan fo'r cynnydd/cwmp yn ystadegol

arwyddocaol ar y lefel hon, fel arall rhoddir statws 'dim newid' iddo. Mae'n bwysig nodi nad yw prawf cyfwng hyder yn derfynol gan mai amcangyfrifon yw cyfyngau hyder ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth i wahaniaethau yn nyluniad y samplu. Gan mai diben y llinell sylfaen hon yw cael darlun eang o tlodi plant, mae amrywiaeth y pynciau a ystyrir yn bwysicach nag arwyddocâd ystadegol unrhyw ddangosydd unigol.

- 1.4 Gwelwyd gwaethygiad yn ôl 8 o'r 23 mesuriad, ac mae'r newid hwnnw yn ystadegol arwyddocaol lle y bo'n berthnasol. Mae dau ohonynt yn ymwneud ag incwm isel – tlodi plant a thlodi plant mewn teuluoedd sy'n gweithio, gyda'r ail yn amlwg yn is-set o'r cyntaf.
- 1.5 Mae pedwar o'r rhain yn yr adran Gwaith a Bod Heb Waith, ac mae'n glir bod un arall, mesuriad NEETs, yn cael ei effeithio gan y cynnydd mewn diweithdra yn gyffredinol. Felly, mae llawer o'r gwaethygu a welir yn ganlyniad i'r gwaethygu cyffredinol yn yr amodau economaidd. Mae chwe dangosydd, ar draws yr amrywiaeth o bynciau, yn dangos gwelliant. Mae naw dangosydd yn dangos na fu newid.

Cymharu â gweddill y DU

- 1.6 Wrth gymharu'n rhanbarthol ar draws Prydain, yn achos y rhan fwyaf o ddangosyddion gwelir bod Cymru yn parhau i fod yn debyg i Ogledd Lloegr, o ran maint y broblem a chyfeiriad y newid ers 2005. Ar draws y dangosyddion sy'n mesur incwm isel, bod heb waith a sgiliau, mae'r cyfraddau yng Nghymru yn cymharu â chyfraddau Gogledd Lloegr ac maent wedi symud i'r un cyfeiriad.
- 1.7 O'r safbwynt hwn, dilynodd Cymru yr un llwybr â Gogledd Lloegr dros y degawd diwethaf heb lawer o dystiolaeth y bu polisïau penodol Cymru yn fwy nac yn llai effeithiol na'r rhai yng Ngogledd Lloegr.
- 1.8 Mae Llundain yn sefyll ar wahân yn ôl y dangosyddion hyn, gan mai yno y gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn tlodi plant a'r cynnydd lleiaf mewn diweithdra wedi i'r dirwasgiad ddechrau. Efallai'n wir bod Llundain yn lle ar wahân, na ellir ei gymharu â Chymru. Ond yr oedd ganddo Gomisiwn Tlodi Plant, ac mae yno gorff canolog etholedig ar ffurf y Cynulliad nad oes yn bodoli yn rhanbarthau eraill Lloegr, felly mae'n bosib bod gwersi i'w dysgu o Lundain.

- 1.9 Mae'r dangosyddion hefyd yn caniatáu inni gymharu Cymru a'r Alban, er mae pwysig yw nodi bod gwahaniaethau sylweddol rhwng Cymru a'r Alban, ac ill dwy â rhywfaint o bwerau wedi eu datganoli.
- 1.10 O edrych ar dueddiadau hirdymor yng nghyfraddau tlodi plant, roedd gan yr Alban gyfradd is na Chymru i gychwyn yng nghanol/diwedd y 1990au. Gwelwyd gostyngiad cyson mewn tlodi plant yn y ddwy wlad o ganol y 1990au hyd at yn gynnar yn y 2000au. Roedd y bwlch rhwng y ddwy wlad ar ei leiaf yn gynnar yn y 2000au. Ond ar ôl canol y 2000au, wrth i'r gostyngiad yng nghyfradd tlodi Cymru arafu a dechrau mynd am yn ôl hyd yn oed, gwnaeth tlodi plant yn yr Alban barhau i ostwng. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, mae'r bwlch bellach yn fwy na 10 pwynt canran – y bwlch mwyaf erioed.
- 1.11 Mae patrwm tebyg i'w weld o ran diweithdra; roedd y lefelau diweithdra yn yr Alban yn debyg i Gymru yn y 1990au cynnar. Gwelwyd gostyngiad parhaus mewn diweithdra yn y ddwy wlad hyd at ganol y 2000au. Yn wir, yn sgil gwelliannau sylweddol yng Nghymru, roedd ei chyfradd diweithdra yn is nag yn yr Alban yng nghanol y 2000au. Ond dechreuodd diweithdra gynyddu yng Nghymru ers 2005, ymhell cyn y dirwasgiad, tra'r oedd yn parhau i ostwng yn yr Alban, hyd at 2008. Yn hyn o beth, yr Alban oedd yr eithriad ym Mhrydain.
- 1.12 Gwelwyd cynnydd mewn diweithdra yn y ddwy wlad yn dilyn y dirwasgiad. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, dim ond ychydig bach yn uwch na'r gyfradd diweithdra yn yr Alban yw'r gyfradd yng Nghymru. Mae diweithdra bellach yn disgyn.

Tlodi incwm

- 1.13 Yn ôl y prif fesur – cyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd sydd ag incwm is na 60% o'r canolrif cyfoes ar ôl costau tai – mae tlodi plant wedi cynyddu 5 pwynt canran i 33% rhwng y tair blynedd hyd 2005/06 a'r tair blynedd hyd 2011/12. Mae hwn yn newid ystadegol arwyddocaol. Wedi dweud hynny, mae'r gyfran yn amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall.
- 1.14 Rhaid i ni nodi, serch hynny, mai'r rheswm dros y cynnydd yn y gyfradd yw am fod y lefel yn isel yn y flwyddyn sylfaen, o gymharu â gweddill y

gyfres. Cyfradd tlodi plant yn y tair blynedd hyd at 2005/06 oedd 28%. 31% ydoedd flwyddyn ynghynt, a 32% ddwy flynedd ynghynt. Felly er ein bod yn pennu mai “gwaeth” yw’r dangosydd yn yr adroddiad hwn, petai’r flwyddyn flaenorol neu’r flwyddyn olynol wedi ei dewis yn flwyddyn sylfaen, byddai’r asesiad wedi dangos “dim newid”.

- 1.15 Gan ddefnyddio’r mesur cyn costau tai, bu i dlodi plant ostwng ychydig, o un pwynt canran dros y cyfnod. Gallai’r gwahaniaeth hwn yn y tueddiadau cyn ac ar ôl costau tai awgrymu rhywbeth ynglŷn â bod cynnydd mewn budd-daliadau tai ymysg aelwydydd incwm isel yn cydfynd â’r cynnydd mewn costau tai, ond nid ydym wedi archwilio hyn ymhellach.
- 1.16 Mae cyfran y plant mewn teuluoedd incwm isel sy’n byw gyda rhiant sy’n gweithio hefyd wedi cynyddu. Gan ddilyn yr un patrwm ag yn y DU yn gyfan, cynyddodd hyn o 14% adeg cyflwyno’r Strategaeth, i 24% yn y tair blynedd hyd at 2011/12.

Gwaith a bod heb waith

- 1.17 Rhwng 2005 a 2012, ni fu llawer o newid yn lefel gyffredinol gweithgarwch economaidd (y rhai sydd mewn gwaith â thâl a’r rhai sy’n ddi-waith). Yn 2005 a 2012, ychydig o dan dri-chwarter yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru oedd yn economaidd weithgar.
- 1.18 Ond oddi mewn i’r grŵp hwnnw, roedd y gyfran oedd yn ddi-waith wedi cynyddu. Erbyn 2012, roedd 6.3% o’r oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn ddi-waith, o gymharu â 3.8% yn 2005.
- 1.19 Gwelwyd newidiadau sylweddol hefyd yng nghyfradd gweithio teuluoedd. Cynyddodd nifer y plant mewn aelwydydd heb waith o 16% i 19%. Roedd hyn yn gynnydd uwch nag yn unrhyw un o ardaloedd eraill y DU a ddadansoddwyd.
- 1.20 Yn ail, bu cynnydd yn nifer y bobl sydd heb fod yn gweithio’r hyn yr hoffent weithio – y cyflenwad llafur posibl. Gwelwyd eisoes bod lefel diweithdra wedi cynyddu, ond yn ychwanegol at hynny, mae cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd mewn swydd ran amser am na allant ddod o hyd i swydd amser llawn wedi dyblu, o 2% i 4% (tua 80,000 o bobl). Gan gyfuno’r rhain â’r rhai sydd naill ai’n ddi-waith neu’n

economaidd anweithgar ond sydd eisiau gwaith, mae 17% o'r boblogaeth o oedran gweithio heb fod yn gweithio cymaint ag yr hoffent weithio yn ôl y mesur penodol hwn.

- 1.21 Mae'r cyfuniad hwn, o gyflogau heb godi a gweithio llai o oriau, ynghyd â chynnydd mewn diweithdra yn troi teuluoedd lle mae dau yn ennill cyflog yn deuluoedd lle mae un yn ennill cyflog, wedi cyfrannu at y cynnydd mewn tlodi mewn gwaith.

Addysg a chymwysterau

- 1.22 Rydym yn edrych ar ddangosyddion addysg ar gyfer gwahanol grwpiau oedran – 11 oed, 16 oed, oedolion ifanc, a'r boblogaeth gyfan o oedran gweithio. Ymddengys y bu gwelliant sylweddol mewn cyrhaeddiad ymysg rhai 11 oed.
- 1.23 Ymysg rhai 16 oed, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim na chyrrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn TGAU (5 TGAU A*-C gan gynnwys mathemateg a Chymraeg neu Saesneg) rhwng 2005 a 2013. Er hynny, ymysg y rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim, gwelwyd y gyfran a fethodd â chyrraedd y safon hon yn disgyn yn gyflymach i gychwyn, gan olygu bod y bwlch yn 2013 yn fwy na'r hyn ydoedd yn 2005. Ond mae'r bwlch wedi cau ychydig yn y ddwy flynedd diwethaf.
- 1.24 Wrth edrych ar rai ychydig yn hŷn, gwelwn gynnydd sydyn hefyd yng nghyfran y rhai 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs), yn arbennig felly ymysg y rhai 19 oed a hŷn. Nid yng Nghymru yn unig, o bell ffordd, y gwelwyd y niferoedd hyn yn codi.

Iechyd

- 1.25 Mae'r dangosyddion iechyd yn yr adroddiad hwn yn aml yn ailadrodd yr hyn a roddir yn yr adroddiad Cerrig Milltir diwethaf gan nad oes unrhyw ddata newydd ar gael sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd nad ydynt yn ddifreintiedig. O ran y cyfnod y gallwn edrych arno, bu i bob dangosydd ddangos gwelliant i blant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ogystal ag i blant yn yr ardaloedd sydd ar lefel gyfartalog o ran pa mor ddifreintiedig ydynt. Ni allwn ddweud p'un a yw'r bylchau wedi cau i lefel sy'n ystadegol arwyddocaol, ond bach fu unrhyw arwydd o gau'r bylchau dros y cyfnod hwnnw beth bynnag.
- 1.26 Y mae'n nodedig bod y bwlch o ran risgiau yn newid yn ôl oedran y plant. Felly er bod cyfradd marwolaethau babanod yn uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, mae'r gwahaniaeth mewn risg o gymharu â'r ardaloedd cyfartalog tua 25%. Mae'r risg ychwanegol o bwysau geni isel mewn ardaloedd difreintiedig o gymharu ag ardaloedd cyfartalog hefyd tua 25%. Wrth edrych ar iechyd deintyddol rhai yn eu harddegau,

mae'r gwahaniaeth mewn risg yn cynyddu i ryw 40%. Yn achos anafiadau yn sgil damweiniau ffyrdd a beichiogi o dan oed, mae'r cynnydd yn y risg ryw 70%.

- 1.27 Cymhariaeth go fras a "ffwrdd â hi" yw hyn – wedi'r cyfan, mae'r mesurau yn gwbl wahanol. Ond ar y man lleiaf, y mae'n awgrymu bod plant o gefndiroedd sydd ag incwm is yn wynebu risgiau uwch o niwed na phlant eraill yn gyson.

Sylwadau ar y data

- 1.28 Wrth lunio'r adroddiad hwn, rydym wedi gallu cael trosolwg cynhwysfawr o'r data sydd ar gael. Yn ein barn ni, mae data digonol ar gael i asesu'r rhan fwyaf o feysydd y mae'r strategaeth yn cyffwrdd â hwy. Ond mae rhai materion i'w hystyried.

Y Sampl o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog

- 1.29 Caiff y canfyddiadau a gyflwynir yn y ddogfen hon eu mynegi'n aml yn nhermau arwyddocâd ystadegol. Weithiau bydd meintiau'r sampl o ffynonellau a ddefnyddiwn yn gymharol fach, gan olygu bod yn rhaid gweld newidiadau go fawr er mwyn i ni allu dweud eu bod yn arwyddocaol.
- 1.30 Yr enghraifft amlycaf o hyn yw dangosyddion tlodi incwm, lle mae angen newid o ryw dri phwynt canran dros dair blynedd o ddata er mwyn i'r newid fod yn arwyddocaol. O ystyried yr amcangyfrifir bod tua 30% o blant mewn tlodi, mae hyn yn golygu y byddai angen i ryw 1 ymhob 10 o'r plant mewn tlodi gael eu codi allan o dlodi cyn i ni fod yn siŵr ein bod wedi gweld newid.
- 1.31 Yn yr un modd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi bod gofyn talgrynnu i'r 100,000 agosaf wrth ddyfynnu eu canlyniadau. Byddai hyn yn golygu mai nifer y plant mewn tlodi yng Nghymru yw 200,000 am y degawd diwethaf – ni fyddai hyn yn ganfyddiad arbennig o ddefnyddiol.
- 1.32 Hefyd, mae'r tueddiadau rhwng un flwyddyn a'r llall yng Nghymru yn newidiol iawn. Yn y blynyddoedd ers 2002/03, bu cyfran y plant sy'n byw mewn tlodi mor isel â 27% ac mor uchel â 35%. Yn yr Alban, y ffigwr isaf

oedd 24% a'r uchaf oedd 27%, amrediad o lai na hanner yr amrediad yng Nghymru.

- 1.33 Byddai sampl mwy yn gwneud gwahaniaeth. Er nad yw'n fach o gymharu â rhanbarthau Lloegr, mae'r sampl yng Nghymru (un aelwyd ym mhob 1,400 yng Nghymru) yn llai o safbwynt cymharol na'r sampl yn yr Alban (un aelwyd ym mhob 700) ac yng Ngogledd Iwerddon (un ym mhob 400). Er hyn, byddai cost ynghlwm wrth hyn. I ddyblu cywirdeb arolwg, byddai angen i'r sampl fod bedwar gwaith y maint.
- 1.34 Nid maint y sampl yn unig a allai beri anhawster, ond ei strwythur hefyd. Mae'r arolwg yn samplu clystyrau o aelwydydd ledled Cymru. Drwy gynyddu nifer y clystyrau ond lleihau nifer yr aelwydydd ym mhob clwstwr, byddai'r sampl yn dod yn fwy cynrychioliadol ac o bosib yn llai tueddol o amrywio. Yn anffodus, ni allwn ganfod drwy'r data ei hun faint o glystyrau a ddefnyddiwyd mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Cyrhaeddiad addysgol ymysg plant 11 oed

- 1.35 Rydym wedi cynnwys dangosydd ar gyrhaeddiad addysgol plant 11 oed. Mae'r dangosydd yn seiliedig ar asesiad athro yn hytrach na phrofion sydd hefyd yn cael eu hystyried yn achos ystadegau cyrhaeddiad addysg yn Lloegr.

Cyfathrebu data ar draws y llywodraeth a ph'un a yw data ar gael

- 1.36 Wrth lunio'r adroddiad hwn, gwnaethom geisiadau i lechyd Cyhoeddus Cymru am ddata ar anghydraddoldebau iechyd. Mae'r data ei hun yn gyfoethog iawn, a gallai arwain at ddadansoddi diddorol iawn. Yn hytrach na chomisiynu setiau data neu arolygon newydd, mae potensial i Lywodraeth Cymru wneud mwy o ddefnydd o'r data sydd ganddi yn y maes hwn. Bydd data newydd ar gael yn nes ymlaen yn 2014.

P'un a yw data ar gael ynghylch Strategaeth 2011

- 1.37 Mae Strategaeth Tlodi Plant 2011 yn rhoi pwyslais ar helpu pobl i gael swydd â thâl, lleihau anghydraddoldebau, a sicrhau bod tlodi yn llai niweidiol i blant. Gellir mesur yr elfen gyntaf gan ddefnyddio ystadegau

presennol yn go dda – sefydlwyd yr Arolwg o'r Llafurlu i wneud hyn yn union, er bod dilyn trywydd cynnydd unigolion yn anodd.

- 1.38 Mae data ar anghydraddoldebau iechyd ac addysg, sef yr ail faes y mae'r strategaeth yn canolbwyntio arno, wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, felly y mae'n bendant ar gael. Yr anhawster fan hyn yw sicrhau data cywir ar gyfer plant 11 oed a rhai sy'n gadael ysgol, yn ogystal â myfyrwyr TGAU.
- 1.39 Mae her go iawn ynghlwm wrth y trydydd. Ymysg pethau eraill, mae peri i dlodi fod yn llai niweidiol yn gofyn am ganolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus. Ar hyn o bryd, nid oes data ar lefel Cymru a all fesur hyn yn gywir, a bydd unrhyw werthusiad o Strategaeth 2011 yn y pen draw yn dibynnu ar sefydlu ffynonellau data newydd.

2 Tlodi incwm

Dangosyddion

- Plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel.
- Tlodi mewn gwaith.


Plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel

Pwyntiau allweddol

- Yn y tair blynedd hyd at 2011/12, roedd 33% neu 200,000 o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel yng Nghymru gan fesur ar ôl costau tai.
- Er bod y cynnydd mewn tlodi plant ers 2005-06 yn ddigon mawr i fod yn ystadegol arwyddocaol, bu'r amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn arbennig o fawr ers 2005.
- Dros y cyfnod, ni welwyd unrhyw newid ystadegol arwyddocaol mewn tlodi plant yn y rhan fwyaf o'r DU.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel yng Nghymru dros amser



- 2.1 Mae'r dangosydd hwn yn dangos dau fesur o dlodi cymharol – mesurau Ar Ôl Costau Tai, a Chyn Costau Tai. Rydym yn defnyddio cyfartaledd y tair blynedd hyd at 2005-06 fel amcangyfrif o linell sylfaen, ac fel mae'n digwydd dyma'r pwynt isaf yn y gyfres gyfan o ran mesurau Ar Ôl Costau Tai a Chyn Costau Tai.
- 2.2 Ar fesur Cyn Costau Tai, cyfradd tlodi plant yng Nghymru oedd 23% yn y tair blynedd hyd at 2011-12, ac felly heb newid llawer ers y 24% a nodwyd yng nghyfnod y llinell sylfaen.
- 2.3 Ar fesur Ar Ôl Costau Tai, roedd 33% neu tua 200,000 o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel yn y tair blynedd hyd at 2011-12. Mae hyn tua phum pwynt canran yn uwch na'r gyfradd yn y tair blynedd hyd at 2005-06. Mae'r cynnydd yn awr yn uwch na'r trothwy sy'n nodi arwyddocâd ystadegol, er bod yr amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn dal yn go fawr. Mae barnu p'un a yw'r newid yn arwyddocaol neu beidio yn dibynnu ar y flwyddyn a ddewisir yn llinell sylfaen (2005/06). Roedd tlodi plant yn is y flwyddyn honno na'r blynyddoedd blaenorol a'r blynyddoedd olynol.
- 2.4 Daw'r ystadegau a ddefnyddir yn y fan hon o gyhoeddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n argymhell defnyddio rhifau wedi eu talgrynnu i'r 100,000 agosaf. O ganlyniad, mae'r amcangyfrif o nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru bob amser yn 200,000, gan ei gwneud yn anodd dod i gasgliad ar unrhyw newidiadau yn y lefel.
- 2.5 Nid yw'n bosibl gwneud sylw ar newidiadau flwyddyn i flwyddyn mewn tlodi plant yng Nghymru gan fod y ffigurau yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, mae cyfradd tlodi plant Ar Ôl Costau Tai yn disgyn o 36% yn 2007-08 i 27% yn 2008-09, ac wedyn yn codi eto i 35% yn 2009-10. Wrth edrych ar gyfartaleddau tair blynedd treigl dros y 10 mlynedd diwethaf, gwelwn fod cyfradd tlodi plant Ar Ôl Costau Tai wedi disgyn yn gyflym o'r 2000au cynnar hyd at 2005/06, ac wedi dechrau codi ers hynny.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyfradd tlodi plant (Ar Ôl Costau Tai) yn ôl rhanbarth dros amser

	2003-04 hyd 2005-06	2009-10 hyd 2011-12	Newid
Gogledd Lloegr	31%	30%	Dim newid
Canolbarth Lloegr	30%	29%	Dim newid
De a Dwyrain Lloegr	24%	23%	Dim newid
Llundain	41%	36%	Gwell
Cymru	28%	33%	Gwaeth
Yr Alban	25%	22%	Dim newid

Ffynhonnell: fel uchod

2.6 Yn Llundain y mae'r gyfradd uchaf o dlodi plant ym Mhrydain. Mae cyfradd tlodi plant Cymru yn is na Llundain, ond yn uwch na'r Alban a rhanbarthau eraill Lloegr.

Polisiâu perthnasol

- Y Strategaeth Tlodi Plant, 2005.
- Strategaeth Gofal Plant Cymru, 2005, a strategaeth newydd yn 2011.
- Genesis Cymru, 2004.
- Dechrau'n Deg, 2006.
- Canolfannau Plant Integredig, 2005.
- Teuluoedd yn Gyntaf, 2012.

Diffiniadau

2.7 Caiff tlodi ei fesur gan ystadegau swyddogol ar incwm aelwyd isel. Mae'r mesur yn y fan hon yn defnyddio trothwy o 60% o incwm aelwydydd canolrifol y DU yn yr un flwyddyn, ac ar ôl addasu ar gyfer maint a chyfansoddiad yr aelwyd. Mae'r incwm yn net o dreth incwm a chyngor ac ar ôl i gostau tai – rhent neu log morgais yn bennaf – gael ei dalu.

2.8 Caiff yr ystadegau swyddogol eu cyhoeddi ar sail cyn costau tai. Mae'r mesur ar ôl costau tai yn well gan ei fod yn cynrychioli incwm gwario teulu yn fwy cywir. Hefyd, gall y mesur cyn costau tai fod yn gamarweiniol oherwydd, yn ôl y mesur hwn, gallai teulu gael ei godi allan o dlodi pe byddai ei fudd-dal tai yn cynyddu, gan fod hyn yn cynyddu ei

incwm cyn costau tai. Ond yn ymarferol, mae arian budd-dal tai yn mynd i'r landlord i dalu'r rhent ac nid yw'n gwella sefyllfa faterol y teulu.


Tlodi mewn gwaith

Pwyntiau allweddol

- Yn y tair blynedd hyd at 2011-12, roedd 24% o'r plant yng Nghymru a oedd yn byw mewn teuluoedd gydag o leiaf un oedolyn mewn gwaith â thâl yn byw mewn tlodi.
- Gwelwyd cynnydd clir yn lefel tlodi mewn gwaith o gymharu â'r flwyddyn sylfaen yng Nghymru ac ym mhobman arall yn y DU.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel lle mae o leiaf un oedolyn mewn gwaith â thâl dros amser



- 2.9 Yn y tair blynedd hyd at 2011-12, roedd ychydig o dan chwarter y plant yng Nghymru a oedd yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd o leiaf un oedolyn mewn gwaith â thâl yn byw mewn tlodi, sef tua 118,000 o blant. Roedd y plant a oedd yn byw mewn teuluoedd gweithio incwm isel o'r fath yn cyfri am ryw hanner yr holl blant a oedd yn byw mewn tlodi. O gymharu â'r cyfnod sylfaen, cynyddodd tlodi mewn gwaith ryw 10 pwynt canran erbyn 2011-12, ac roedd y cynnydd hwn yn ystadegol arwyddocaol.
- 2.10 Wrth ddadansoddi ymhellach, gwelir mai plant sy'n byw mewn teuluoedd hunangyflogedig a theuluoedd sy'n gweithio rhan amser (lle mae pob oedolyn yn gweithio rhan amser neu lle mae un partner heb fod yn gweithio) yw'r rhan fwyaf (tua 80%) o'r plant sy'n byw mewn tlodi mewn gwaith.
- 2.11 Hefyd, mae gan deuluoedd o'r fath gyfradd llawer yn uwch o dlodi plant (40%), o gymharu â 9% o deuluoedd sy'n gweithio amser llawn (lle mae o leiaf un oedolyn mewn gwaith amser llawn a'r partner yn gweithio o leiaf rhan amser).
- 2.12 Fel yn achos cyfraddau tlodi plant, mae'r cyfraddau tlodi mewn gwaith hefyd yn dangos amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r data yn awgrymu tuedd debyg i dlodi plant yn gyffredinol – disgynnodd tlodi mewn gwaith rhwng y 2000au cynnar a chanol y 2000au, cyn dechrau cynyddu eto.
- 2.13 Caiff y cynnydd mewn tlodi mewn gwaith ei gadarnhau hyd yn oed o ddefnyddio dull arall o fesur. Roedd adroddiad cynnydd dangosyddion tlodi plant Llywodraeth Cymru yn defnyddio data Credydau Treth Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC) i fonitro cyfraddau tlodi mewn gwaith. Yn ôl yr adroddiad, gwelwyd cynnydd amlwg yng nghanran y plant sydd mewn tlodi mewn gwaith rhwng 2006-07 a 2008-09.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyfran y plant mewn aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn mewn gwaith â thâl sydd mewn tlodi yn ôl rhanbarth dros amser

	2003-04 hyd 2005-06	2009-10 hyd 2011-12	Newid dros amser
Gogledd Lloegr	15%	21%	Gwaeth
Canolbarth Lloegr	14%	20%	Gwaeth
De a Dwyrain Lloegr	10%	17%	Gwaeth
Llundain	16%	27%	Gwaeth
Cymru	14%	24%	Gwaeth
Yr Alban	11%	13%	Gwaeth

Ffynhonnell: fel uchod

2.14 Mae'r gyfradd tlodi mewn gwaith yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU. Cynyddodd tlodi mewn gwaith ym mhob un o ranbarthau a gwledydd y DU. Cynyddodd lefel gyffredinol tlodi mewn gwaith yn y DU ers 2005-06 ac y mae ar ei lefel uchaf erioed.

Polisiâu perthnasol

- Strategaeth Gofal Plant Cymru, 2005, a strategaeth newydd yn 2011.
- Genesis Cymru, 2004.
- Canolfannau Plant Integredig, 2005.
- Teuluoedd yn Gyntaf, 2012.

Diffiniadau

2.15 Caiff tlodi ei fesur yn y fan hon ar sail ar ôl costau tai. Ystyrir bod teulu mewn gwaith os oes o leiaf un oedolyn mewn cyflogaeth â thâl neu'n hunangyflogedig, naill ai'n rhan amser neu'n amser llawn.

3 Gwaith a bod heb waith

Dangosyddion

- Lefelau cyffredinol o fod heb waith.
- Cyflenwad llafur posibl
- Plant mewn aelwydydd heb waith.
- Unig riant mewn gwaith â thâl.
- Cyflog yr awr canolrifol a degfed canradd.


Lefelau cyffredinol o fod heb waith

Pwyntiau allweddol

- Roedd tua thraean yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru heb waith erbyn diwedd 2012.
- Roedd y gyfran hon wedi codi ers y flwyddyn sylfaen, fel y gwnaeth ym mhob rhan o'r DU ac eithrio Llundain.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb waith dros amser



- 3.1 Mae'r dangosydd hwn o'r farchnad lafur yn mesur y lefel gyffredinol o fod heb waith dros amser. Mae'n rhannu'r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt mewn gwaith â thâl i rai sy'n ddi-waith a rhai sy'n economaidd anweithgar.
- 3.2 Roedd tua thraean yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru heb waith erbyn diwedd 2012 – roedd 6% yn ddi-waith a 26% yn anweithgar. Roedd hyn yn gyfanswm o ryw 620,000 o oedolion.
- 3.3 O gymharu â 2005, roedd y lefel gyffredinol o fod heb waith wedi cynyddu tua dau bwynt canran erbyn 2012. Roedd y cynnydd yn ystadegol arwyddocaol.
- 3.4 Oddi mewn i'r boblogaeth heb waith, roedd cyfran y bobl ddi-waith wedi cynyddu bron i ddau draean, tra bo cyfran y rhai a oedd yn anweithgar heb newid llawer.
- 3.5 Er nad yw wedi ei ddangos yn y graff, ac er bod y lefel heb waith yn uwch, roedd cyfradd y rhai mewn cyflogaeth yn 2012 (1.3 miliwn) ar yr un lefel â'r flwyddyn sylfaen.
- 3.6 Wrth ddadansoddi ymhellach, gwelir bod y gyfradd heb waith yng Nghymru yn wastad, o amgylch 31%, rhwng 2004 a 2008, a'i bod wedi cynyddu ers hynny. Er nad yw'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn caniatáu inni ddadansoddi blynnyddoedd cynharach, mae ystadegau am y farchnad lafur o'r Arolwg o'r Llafurlu yn dangos y gwelwyd cwymp cyson yn y lefel heb waith yng Nghymru rhwng diwedd y 1990au a chanol y 2000au.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb waith yn ôl rhanbarth dros amser

	2005	2012	Newid dros amser
Gogledd Lloegr	29%	32%	Gwaeth
Canolbarth Lloegr	27%	30%	Gwaeth
De a Dwyrain Lloegr	23%	26%	Gwaeth
Llundain	32%	31%	Dim newid
Cymru	31%	33%	Gwaeth
Yr Alban	27%	29%	Gwaeth

Ffynhonnell: fel uchod

3.7 Ar 33%, Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o fod heb waith ym Mhrydain yn 2012; hynny yw, Cymru sydd â'r gyfradd isaf mewn cyflogaeth. Er bod cyfradd diweithdra Cymru yn debyg i'r cyfartaledd yn genedlaethol, ei lefel o anweithgarwch economaidd oedd yr uchaf o blith yr holl ranbarthau.

3.8 Dros y cyfnod ers 2005, roedd y lefel heb waith wedi cynyddu ym mhob rhanbarth ac eithrio Llundain.

Polisiau perthnasol

- Yn Awyddus i Weithio, 2004.
- Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd, 2010.
- Genesis Cymru, 2004.
- Canolfannau Plant Integredig, 2005.
- Menter Cyflogaeth dan Gymorth wrth ymyl yr Ysgol ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, 2009-11.
- Camau at Waith, 2011.

Diffiniadau

3.9 'Diweithdra' yw diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ffigurau diweithdra swyddogol y llywodraeth. Mae'n cynnwys pawb sydd heb waith â thâl yn ystod wythnos yr arolwg a oedd

ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf, ac a oedd naill ai wedi chwilio am waith yn y mis diwethaf neu a oedd yn aros i ddechrau swydd yr oeddynt eisoes wedi ei chael.


Y cyflenwad llafur posibl

Pwyntiau allweddol

- Cynyddodd nifer y bobl sydd naill ai'n ddi-waith, yn economaidd anweithgar ac eisiau gwaith neu'n gweithio'n rhan amser ac eisiau swydd amser llawn yng Nghymru o 11% i 17% rhwng 2005 a 2012.
- Sbardunwyd y cynnydd hwn gan gynnydd mewn diweithdra a nifer y bobl sydd mewn swydd ran amser ond sydd eisiau swydd amser llawn. Ni fu newid yng nghyfran y bobl sy'n economaidd anweithgar ond sydd eisiau gweithio.
- Gwelwyd cynnydd yn y mesur cyfansawdd hwn o gyflenwad posibl y farchnad lafur ledled y DU dros y cyfnod hwn.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Y cyflenwad llafur posibl – cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb fod yn gweithio cymaint ag yr hoffent



3.10 Yn 2012, roedd tua 125,000 (neu 7%) o oedolion yn ddi-waith, yn ogystal â thua 115,000 (6%) o oedolion a oedd yn economaidd anweithgar ond eisiau gwaith â thâl a thua 80,000 o oedolion (4%) a oedd mewn swyddi rhan amser am na allent ddod o hyd i swydd amser llawn. Mae hyn yn gyfanswm o ryw 17% o'r boblogaeth o oedran gweithio.

3.11 Roedd y cyfanswm hwn tua 6 phwynt canran, neu 115,000, yn uwch yn 2012 nag yn y flwyddyn sylfaen (2005), sef pwynt isaf y gyfres. Sbardunwyd y cynnydd yn bennaf gan y cynnydd yn niferoedd y rhai di-waith a'r rhai mewn swyddi rhan-amser sydd eisiau swyddi amser llawn, gyda'r ddwy elfen hon wedi bron â dyblu yn ystod y cyfnod.

3.12 O gymharu â degawd yn ôl, roedd cyfanswm nifer y bobl a oedd naill ai'n ddi-waith, yn anweithgar ond eisiau gwaith neu mewn swydd ran amser ac eisiau swydd amser llawn yn 2012 wedi codi 4 pwynt canran.

Gwelwyd cynnydd yng nghyfran y bobl sy'n ddi-waith a'r rhai sydd mewn swydd ran amser ac eisiau swydd amser llawn, arhosodd cyfran y bobl a oedd yn economaidd anweithgar ond eisiau gweithio tua'r un lefel.

3.13 Yn y blynyddoedd rhwng 2005 a 2012, bu'r cyfanswm hwn yn cynyddu'n flynyddol, gyda chynnydd arafach ar ddechrau'r cyfnod, cynnydd mawr yn 2008/09 a chynnydd arafach wedi hynny.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyflenwad llafur posibl yn ôl rhanbarth dros amser

	2005	2012	Newid dros amser
Gogledd Lloegr	11%	17%	Gwaeth
Canolbarth Lloegr	10%	15%	Gwaeth
De a Dwyrain Lloegr	9%	14%	Gwaeth
Llundain	14%	16%	Gwaeth
Cymru	11%	17%	Gwaeth
Yr Alban	12%	15%	Gwaeth

Ffynhonnell: fel uchod

3.14 Yn ôl y mesur hwn, roedd Cymru yn 2012 yn debyg i'r cyfartaledd yn genedlaethol. Yn ystod y cyfnod rhwng 2005 a 2012, cynyddodd y gyfran hon ym mhob un o'r rhanbarthau.

Polisïau perthnasol

Polisïau cyffredinol:

- Yn Awyddus i Weithio, 2004.
- Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, 2007-14.
- Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd, 2010.

Polisïau wedi eu hanelu at deuluoedd sydd â phlant:

- Menter Cyflogaeth dan Gymorth wrth ymyl yr Ysgol ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, 2009-11.
- Genesis Cymru, 2004.
- Canolfannau Plant Integredig, 2005.
- Camau at Waith, 2011.

Polisïau wedi eu hanelu at oedolion ifanc:

- Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid, 2011-15.
- Llwybrau at Brentisiaethau, 2010-11.
- Rhaglen Hyfforddeiaeth, 2011.
- Y Rhaglen Recriwtiaid Newydd, 2009.
- Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid, 2010-15.

Diffiniadau

3.15 Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio mesur y farchnad lafur o'r galw posibl am lafur. Mae hyn yn cynnwys i) y rhai sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd yn ddi-waith yn ôl y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (eisiau gweithio, yn chwilio'n weithgar am waith ac ar gael ar unwaith i weithio); ii) y rhai rhwng 16 a 64 oed ac yn economaidd anweithgar ond sydd eisiau gweithio (y rhai sydd eisiau gwaith ond heb fod yn chwilio'n weithgar am waith neu heb fod ar gael ar unwaith); a iii) y rhai sydd mewn swydd ran amser ond sydd eisiau swydd amser llawn.

3.16 Cafodd y mesur hwn o 'dangyflogaeth', yn seiliedig ar fesur 'U6' Unol Daleithiau America, ei ddefnyddio yn y DU ers o leiaf 2010. Y mae'n cynnwys y rhai sydd heb waith ac sydd eisiau gweithio (boed yn ddi-waith neu beidio), ac mae'n ehangach na'r mesur swyddogol a ddefnyddir gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Mae i'r mesur a ddefnyddir yn y fan hon y fantais o allu dangos effeithiau'r galw gwan am lafur yn ystod y dirwasgiad a'r hyn a ddaeth yn ei sgil mewn un dangosydd unigol.⁹⁷

Plant mewn aelwydydd heb waith

Pwyntiau allweddol


- Erbyn 2012, roedd tua 1 ym mhob 5 plentyn yn byw mewn aelwydydd heb waith yng Nghymru.

⁹⁷ Yn ôl diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, gweithwyr sydd wedi eu tangyflogi yw'r rhai sydd mewn swydd sydd yn barod i weithio mwy o oriau, naill ai drwy weithio mewn swydd ychwanegol, drwy weithio mwy o oriau yn eu swydd bresennol, neu drwy newid i swydd arall. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.ilo.org/global/statistics-and-databases/statistics-overview-and-topics/underemployment/lang-en/index.htm>

- O gymharu â rhanbarthau eraill, yng Nghymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf yng nghyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith ers 2005.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith dros amser



3.17 Erbyn diwedd 2012, roedd 19% o blant, neu tua 1 ym mhob 5, yn byw mewn aelwydydd heb waith yng Nghymru. Roedd hyn yn gyfanswm o ryw 101,000 o blant. Roedd y gyfran yn 2012 oddeutu tri phwynt canran yn uwch na'r flwyddyn sylfaen, sef 2005. Mae'r cynnydd ers y blynyddoedd sylfaen yn ystadegol arwyddocaol.

3.18 Mae'r data ar gyfer blynyddoedd unigol yn dangos bod cyfran y plant mewn aelwydydd heb waith yn gostwng yn gyson rhwng 2001 a 2008, ac ar ôl hynny dechreuodd gynyddu. Yn 2013, mae arwyddion y gallai'r ffigwr hwn fod yn gostwng. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, roedd 14% o blant yng Nghymru yn byw mewn aelwydydd heb waith, sydd yn

llawer is na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyd-fynd â newidiadau yn y DU yn gyfan. Nid yw'r data ar gyfer ail hanner y flwyddyn ar gael eto.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyfran y plant mewn aelwydydd heb waith yn ôl rhanbarth dros amser

	Cyfartaledd 2004-06	Cyfartaledd 2010-12	Newid dros amser
Gogledd Lloegr	17%	18%	Gwaeth
Canolbarth Lloegr	14%	16%	Gwaeth
De a Dwyrain Lloegr	11%	11%	Dim newid
Llundain	24%	20%	Gwell
Cymru	16%	19%	Gwaeth
Yr Alban	15%	16%	Dim newid

Ffynhonnell: fel uchod

3.19 Erbyn 2012, Cymru oedd â'r ail gyfran uchaf o blant yn byw mewn aelwydydd heb waith yn y DU; Llundain oedd yr unig ranbarth â chyfran uwch na Chymru. Nid dyma oedd yr achos yn 2005, pan oedd y gyfran yng Nghymru yn debyg i'r cyfartaledd. Ers 2005, gwelwyd cynnydd yng nghyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith yng Ngogledd Lloegr, Canolbarth Lloegr a Chymru, ond yng Nghymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf.

3.20 Mae Adroddiad Cynnydd y Strategaeth Tlodi Plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2013 yn dangos y ffigurau blynyddol o ran canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith. Cyfartaledd y ffigurau a ddangosir yw 18.4%, sef tua 1% yn is na'r nifer a ddangosir yn y fan hon. Mae'r esboniad technegol o'r gwahaniaeth yn ymwneud â'r ychydig o ddargyfeiriad sydd rhwng dau ffynhonnell o ddata swyddogol sy'n berthynol iawn, ac yn gorgyffwrdd hyd yn oed (yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu). Ond gan fod cyfwng hyder y gyfran hon ar gyfer blwyddyn unigol tua +/-3%, nid yw gwahaniaeth o ddim ond 1% rhwng dau gyfartaledd 3 blynedd yn ystadegol arwyddocaol.

Polisiâu perthnasol

- Menter Cyflogaeth dan Gymorth wrth ymyl yr Ysgol ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, 2009-11.
- Genesis Cymru, 2004.
- Canolfannau Plant Integredig, 2005.
- Camau at Waith, 2011.

Diffiniadau

3.21 Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar gyfran y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, hynny yw aelwydydd sy'n cynnwys o leiaf un person 16 i 64 oed lle nad oes unrhyw un dros 16 oed mewn cyflogaeth. Mae 'plant' yn cyfeirio at rai o dan 16 oed.


Unig rieni mewn gwaith â thâl

Pwyntiau allweddol

- Rhwng 2010 a 2012, roedd cyfartaledd o 54%, neu 79,000, o unig rieni yng Nghymru mewn gwaith â thâl.
- Mae cyfradd cyflogaeth unig rieni yng Nghymru wedi parhau'n debyg i'r hyn ydoedd ym mlwyddyn sylfaen 2005.
- Mae'r lefel a'r newidiadau dros amser yn debyg i'r sefyllfa yng Ngogledd Lloegr.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran yr unig rieni sydd mewn gwaith dros amser



3.22 Yn y tair blynedd hyd at 2012, ychydig dros hanner (54%) yr unig rieni yng Nghymru oedd mewn gwaith â thâl. Mae hyn yn golygu tua 79,000 o unig rieni. Nid oedd y gyfran wedi newid llawer ers 2005. Er y bu cwymp bach yn y gyfran sy'n gyflogedig o gymharu â'r flwyddyn sylfaen, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol o ystyried maint bach y sampl.

3.23 Mae maint y sampl ar gyfer yr ystadegyn hwn yn go fach. Mae'r data o flwyddyn i flwyddyn yn dangos rhai newidiadau mawr sydyn sy'n annibynadwy felly defnyddiwn gyfartaleddau tair blynedd i roi ystadegyn mwy dibynadwy inni. Mae'r data tymor hir yn awgrymu bod lefel cyflogaeth ymysg unig rieni yn cynyddu'n raddol rhwng dechrau a chanol y 2000au, yn wastad rhwng 2005 a 2008, ac wedi dechrau gostwng yn raddol wedi hynny.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyfran yr unig rieni mewn gwaith â thâl dros amser

	Cyfartaledd 2003-2005	Cyfartaledd 2010-2012	Newid dros amser
Gogledd Lloegr	55%	57%	Gwell
Canolbarth Lloegr	56%	58%	Dim newid
De a Dwyrain Lloegr	61%	64%	Gwell
Llundain	42%	50%	Gwell
Cymru	56%	54%	Dim newid
Yr Alban	57%	58%	Dim newid

Ffynhonnell: fel uchod

3.24 Yn 2012, roedd cyfran yr unig rieni mewn gwaith â thâl yng Nghymru ychydig yn is na rhanbarthau Gogledd Lloegr, Canolbarth Lloegr a'r Alban. Roedd yn sylweddol is nag yn Ne a Dwyrain Lloegr ac yn uwch nag yn Llundain. Ni newidiodd y gyfran ryw lawer yng Nghymru a'r Alban dros y cyfnod, ond cynyddodd yn Llundain, De a Dwyrain Lloegr a Gogledd Lloegr.

Polisiau perthnasol

- Genesis Cymru, 2004.
- Canolfannau Plant Integredig, 2005.

Diffiniadau

3.25 Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar gyfran yr unig rieni o 'oedran gweithio' hynny yw rhwng 16 a 64 oed. Mae rhai sydd mewn 'gwaith â thâl' yn cyfeirio at rai sydd â swydd neu sydd yn hunangyflogedig.


Cyflog yr awr canolrifol a degfed canradd

Pwyntiau allweddol

- Roedd cyflog yr awr yng Nghymru ar waelod y dosbarthiad yr un peth yn 2012 ag ydoedd yn 2005, ond gwelwyd cwmp yn y cyflog yr awr canolrifol dros y cyfnod hwn.
- Roedd cyflog yr awr yng Nghymru, ar y gwaelod ac yn y canol, yn is nag mewn unrhyw ranbarth arall.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyflog yr awr 10^{fed} canradd a chanolrifol yng Nghymru dros amser, prisiau 2012



3.26 Gan edrych ar gyflog ar y gwaelod (gwerth degfed canradd), y gyfradd fesul awr yn 2012 oedd £6.30, ychydig bach yn is na'r £6.40 yn 2005, ond ychydig yn uwch na'r gyfradd ddegawd yn flaenorol (£5.70).

3.27 Y cyflog fesul awr canolrifol yn 2012 oedd £10.10, sy'n is na'r hyn ydoedd yn 2005, sef £11.10, ond ychydig yn uwch na'r hyn ydoedd ddegawd yn flaenorol, sef £9.70.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyflog yr awr 10^{fed} canradd a chanolrifol fesul rhanbarth dros amser, prisiau 2012

	2005		2012	
	Degfed canradd	Canolrif	Degfed canradd	Canolrif
Gogledd-ddwyrain Lloegr	£6.22	£10.46	£6.29	£10.31
Gogledd-orllewin Lloegr	£6.43	£11.13	£6.30	£10.46
Swydd Efrog a Humber	£6.40	£10.73	£6.32	£10.29
Dwyrain Canolbarth Lloegr	£6.42	£11.00	£6.29	£10.18
Gorllewin Canolbarth Lloegr	£6.48	£11.09	£6.28	£10.37
Dwyrain Lloegr	£6.64	£12.12	£6.40	£10.80
Llundain	£7.50	£15.33	£7.29	£15.70
De-ddwyrain Lloegr	£6.97	£12.84	£6.65	£12.06
De-orllewin Lloegr	£6.49	£11.03	£6.38	£10.36
Cymru	£6.40	£10.82	£6.26	£10.05
Yr Alban	£6.46	£11.18	£6.46	£11.04

Ffynhonnell: fel uchod. Talgrynwyd i'r 10 ceiniog agosaf.

3.28 Roedd y cyflog yng Nghymru, ar y gwaelod ac yn y canol, yn is nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr, er mai bach iawn yw'r gwahaniaeth rhwng Gogledd Lloegr a Chymru. Rhwng 2005 a 2012, ni bu unrhyw dwf yn y cyflog canolrifol yn unrhyw ran o Brydain.

Diffiniadau

3.29 Er mwyn addasu'r cyflog fesul awr i roi cyfrif am chwyddiant, defnyddiwyd Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

4 Addysg a Chymwysterau

Dangosyddion

- Bwlch cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 – disgyblion nad ydynt yn cyflawni Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2 yn ôl statws Prydau Ysgol am Ddim.
- Bwlch cyrhaeddiad TGAU – disgyblion 15 oed nad ydynt yn cael 5 TGAU graddau A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg yn ôl statws Prydau Ysgol am Ddim.
- Cyrhaeddiad addysg oedolion ifanc – heb gymwysterau NVQ Lefel 3.
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Dysgu oedolion – heb gymwysterau sy'n gyfwerth â Lefel 3 neu uwch.


Bwlch cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2

Pwyntiau allweddol

- Mae tua 30% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a 12% o'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn methu â chyrraedd Lefel 4 yn y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Bu'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn cau'n gyson rhwng 2005 a 2013.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran y disgyblion nad ydynt yn cyrraedd Lefel 4 yn y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ôl statws prydau ysgol am ddim dros amser



- 4.1 Yn gyffredinol, ychydig dros un ym mhob chwech (4,800) o ddisgyblion a fethodd â chyrraedd Lefel 4 yn y Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2. Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad y disgyblion oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oeddynt yn gymwys. Cyfeirir hyn at 'fwlch prydau ysgol am ddim'. Roedd y gyfran nad oedd yn cyrraedd y lefel a nodwyd ymysg disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (30%) mwy na dwywaith cyfran y disgyblion nad ydynt yn gymwys (12%).
- 4.2 Er hyn, mae perfformiad disgyblion yng Nghymru sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi bod yn gwella ers 2005, a bu'r gwelliant hwn yn gyflymach yn achos y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae'r bwlch

cyrhaeddiad wedi lleihau dros y cyfnod, o 28 pwynt canran yn 2005 i 18 pwynt canran yn 2013.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

- 4.3 Er y gall perfformiad Cyfnod Allweddol 2 yn ôl statws prydau ysgol am ddim yng Nghymru gael ei gymharu â'r perfformiad yn Lloegr, ni chaiff Dangosydd Pynciau Craidd ei gyhoeddi yn Lloegr. Er hyn, gan edrych ar y cyrhaeddiad ym mhynciau Saesneg a Mathemateg, roedd tua 34% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim heb gyrraedd Lefel 4 yn 2012, sef dwywaith cyfran y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (18%). Mae'r bwlch cyrhaeddiad yn debyg i'r hyn ydyw yng Nghymru (gweler Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Disgyblion Cyfnod Allweddol 2, Blwyddyn Academaidd 2012, yr Adran Addysg, Tabl 10a).

Polisiâu perthnasol

- Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, 2007.
- Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion mewn Addysg (Rhagori), 2006-07 hyd 2008-09.
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, 2008.

Diffiniadau

- 4.4 Mae'r dangosydd pynciau craidd yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (laith Gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad.
- 4.5 I dderbyn prydau ysgol am ddim, rhaid bod y rhieni yn derbyn budd-daliadau allan o waith sy'n dibynnu ar brawf modd. Prydau ysgol am ddim yw'r mesur mwyaf addas sydd ar gael o incwm isel mewn ystadegau addysg.


Bwlch cyrhaeddiad ar lefel TGAU

Pwyntiau allweddol

- Roedd cyfanswm o ryw 47% neu 17,000 o ddisgyblion heb gael 5 TGAU graddau A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. Gyda thri chwarter yn methu â chyrraedd y lefel hon, mae'r gyfran yn llawer uwch ymhlith disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.
- Roedd bwlch cyrhaeddiad prydau ysgol am ddim yn 2013 yn llawer mwy nag ydoedd yn y flwyddyn sylfaen; tyfodd y bwlch bob blwyddyn rhwng 2006 a 2010, ond gwelwyd lleihad bychan rhwng 2011 a 2013.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran y disgyblion 15 oed nad ydynt yn cyrraedd 5 TGAU graddau A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg yn ôl statws prydau ysgol am ddim dros amser



4.6 Ychydig o dan hanner (42%) y disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim sydd heb gyrraedd 5 TGAU graddau A*-C gan gynnwys

Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. Mae hyn yn cymharu â thri chwarter (74%) y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Yn gyffredinol, 47% neu 17,000 ddisgyblion a fethodd â chyrraedd y trothwy hwn.

- 4.7 Roedd y gwahaniaeth yng nghyrraedd addysgol y rhai sy'n derbyn a'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim – 'y bwlch prydau ysgol am ddim' – 33 pwynt canran yn 2013, yn fwy nag ydoedd yn 2006 (29 pwynt canran). Yn wir, bu i'r bwlch prydau ysgol am ddim gynyddu bob blwyddyn rhwng 2006 a 2010, cyn dechrau lleihau ychydig yn 2012 a 2013.
- 4.8 Mae'r bwlch wedi tyfu er gwaethaf y gwelliannau ym mherfformiad disgyblion sy'n derbyn a'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim bob blwyddyn ers 2006. Y rheswm am hyn yw am i'r gyfran nad ydynt yn llwyddo i gael 5 TGAU graddau A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg leihau yn gyflymach yn achos disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim, gan ddisgyn 12 y cant rhwng 2006 a 2013, o gymharu â disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, a welodd ostyngiad o 9 pwynt canran dros yr un cyfnod.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

- 4.9 Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol rhwng Cymru a Lloegr o ran perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ôl cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim. Yng Nghymru, mae'r data yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, ond yn Lloegr mae'n seiliedig ar ddisgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Er hynny, ar sail y mesur tebyg hwn, mae'r bwlch prydau ysgol am ddim yn Lloegr wedi parhau'n gymharol gyson, gan leihau ychydig llai na 2 bwynt canran rhwng 2006 a 2012 (gweler TGAU a Chyrraeddau Cyfwerth yn ôl nodweddion disgyblion, 2012, yr Adran Addysg).
- 4.10 Ni ellir cymharu â'r Alban oherwydd y gwahaniaethau yn strwythurau'r cymwysterau.

Polisiâu perthnasol

- Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru (Rhagori), 2006-07 to 2008-09.
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, 2008.

Diffiniadau

- 4.11 Mae'r graff yn dangos canran y disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd nad ydynt yn llwyddo i gael 5 TGAU graddau A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. Mae hyn yn gyfwerth â throthwy NVQ Lefel 2.
- 4.12 I dderbyn prydau ysgol am ddim, rhaid bod y rhieni yn derbyn budd-daliadau allan o waith sy'n dibynnu ar brawf modd. Prydau ysgol am ddim yw'r mesur mwyaf addas sydd ar gael o incwm isel mewn ystadegau addysg.


Cyrhaeddiad addysg oedolion ifanc

Pwyntiau allweddol

- Roedd tua 45% o'r bobl ifanc 20 i 24 yng Nghymru heb gymhwyster ar Lefel 3 (a elwir hefyd yn HND 3, cyfwerth â 2 Safon Uwch) neu uwch.
- O gymharu â 2005, cwymp bach iawn yn unig a fu.
- Mae'r gwir ffigwr yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond o fewn terfynau go gyfyng.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran o bobl ifanc 20 i 24 oed sydd heb gymwysterau NVQ Lefel 3 dros amser



4.13 Roedd 45% o bobl ifanc 20 i 24 oed yng Nghymru heb gymhwyster Lefel 3 neu uwch yn y tair blynedd hyd at 2012. Mae hyn yn golygu tua 93,000 o oedolion ifanc. Roedd y rhai a oedd yn cyfrif fel bod â chymhwyster o'r fath yn cynnwys rhai ar brentisiaethau crefft.

4.14 Anodd yw dehongli newidiadau rhwng blynyddoedd unigol gan fod yr amcangyfrifon o flwyddyn i flwyddyn yn amrywio rhwng 45% a 49%. Oherwydd hyn, rydym wedi cyfuno gwerth tair blynedd o ddata.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyfran y bobl ifanc 20 i 24 oed sydd heb gymwysterau NVQ Lefel 3 yn ôl rhanbarth dros amser

	2004-2006	2010-2012	Newid dros amser
Gogledd Lloegr	48%	44%	Gwell
Canolbarth Lloegr	49%	46%	Dim newid
De a Dwyrain Lloegr	45%	42%	Dim newid
Llundain	46%	34%	Gwell
Cymru	46%	45%	Dim newid
Yr Alban	41%	40%	Dim newid

Ffynhonnell: fel uchod

4.15 Mae cyfran yr oedolion sydd heb gymwysterau Lefel 3 yng Nghymru ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yn genedlaethol, a Chanolbarth Lloegr yn unig sydd â lefelau uwch na Chymru. Yn Llundain yn unig y gwelwyd cwymp sydyn iawn yn y lefel hon dros y cyfnod a ddadansoddwyd, ond nid yw wir yn bosibl cymharu poblogaeth 20-24 oed Llundain ag unrhyw ran arall o'r wlad, gan ei bod yn llawer mwy mudol. Gwelwyd gostyngiad o ryw dri phwynt canran yng Ngogledd Lloegr a De a Dwyrain Lloegr.

Polisiau perthnasol

- Cymunedau yn Gyntaf, 2001.
- Llwybrau at Brentisiaethau, 2010-11.
- Y Rhaglen Recriwtiaid Newydd, 2009.
- Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

Diffiniadau

4.16 Mae'r graff yn dangos canran y rhai 20-24 oed sydd heb o leiaf gymhwyster Lefel 3. I wneud y cyfrifiad, rydym yn cyfri Prentisiaethau Crefft fel Lefel 3, yn ogystal â'r cymwysterau Lefel 3 a 4 safonol.

4.17 Mae hyn ychydig, ond dim ond ychydig, yn wahanol i'r data a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru at ei dibenion monitro ei hun. Mae'r canlyniadau bron yn unfath, ac un pwynt canran yn unig o wahaniaeth sydd dros y tair blynedd mwyaf diweddar. Yn ychwanegol,

yn achos y naill ddull a'r llall, gwelir bod y ffigwr yn disgyn yn y data ar gyfer y flwyddyn unigol ddiweddaraf.


Oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Pwyntiau allweddol

- Roedd tua un ym mhob pump o'r oedolion ifanc rhwng 16 a 24 oed (19%) heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru ar ddiwedd 2012.
- Mae'r gyfran hon yn sylweddol uwch nag yn y flwyddyn sylfaen. Mae'r cynnydd rhwng y ddwy flwyddyn bron yn llwyr seiliedig ar y cynnydd yng nghyfran y rhai rhwng 19 a 24 oed.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant dros amser



- 4.18 Erbyn diwedd 2012, roedd tua un ym mhob pump (19%) neu tua 71,000 o oedolion ifanc 16 i 24 oed yn NEET. O gymharu â 2005, cynyddodd y gyfran hon ryw pedwar pwynt canran. Mae'r cynnydd bron yn llwyr yn seiliedig ar gynnydd ymysg y rhai 19 i 24 oed (o 18% i 23%); mae cyfran y rhai 16 i 18 oed sy'n NEET heb newid llawer o gymharu â'r flwyddyn sylfaen (tua 10%).
- 4.19 Mae'r data yn dangos bod cyfran y rhai 16 i 24 oed sy'n cael eu hystyried yn NEET wedi lleihau'n gyson rhwng 2001 a 2004, sef pwynt isaf y gyfres. Dechreuodd godi'n raddol ac araf wedyn, gan neidio yn 2009 i fod dros 19% (y lefel uchaf erioed yn y gyfres a ddechreuodd ym 1996) ac mae wedi parhau ar y lefel honno ers hynny. Dylid nodi hefyd bod y ffigwr yn achos y rhai 16 i 18 yn y flwyddyn ddiweddaraf ryw ddau bwynt canran yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol.
- 4.20 Yn ôl gwaith dadansoddi'r data hwn gan Lywodraeth Cymru, nodwyd cyfwng hyder 95% ar amcangyfrifon Cymru gyfan o gyfran y rhai 16 i 24 oed oddeutu 1.3%.⁹⁸ Ar sail hyn, mae gwahaniaeth o fwy na 2% rhwng unrhyw ddwy flynedd yn ystadegol arwyddocaol. Mae cynnydd o 4% yn y fan hon.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

- 4.21 Nid oes ffigurau rhanbarthol o gyfraddau NEETs ar gael sydd wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio methodolegau cymharol. Gan ddefnyddio ffynhonnell wahanol, mae cymariaethau ar gael rhwng gwledydd, yn achos rhai 16-18 oed a rhai 19-24 oed. Yn achos rhai 16 i 18 oed, y gyfradd yng Nghymru yw 12%, o gymharu â 9% yn Lloegr a 12% yn yr Alban. Yn achos rhai 19 i 24 oed, y gyfradd yng Nghymru yw 23%, o gymharu ag 19% yn Lloegr ac 16% yn yr Alban.

Polisiau perthnasol

- Cymunedau yn Gyntaf, 2001.
- Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid (2011 hyd 2015).

⁹⁸ <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/120306youngpeopleen.pdf>. Mae'r ffigwr 1.4% yn berthnasol i 2010.

- Rhaglen Hyfforddeiaeth, 2011.
- Llwybrau at Brentisiaethau, 2010-11.
- Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid, 2010-15.


Dysgu oedolion (heb gymhwyster sy'n gyfwerth â lefel 3 neu uwch)

Pwyntiau allweddol

- Mae tua hanner yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru heb gymhwyster NVQ Lefel 3 neu uwch.
- Roedd y gyfran hon yn is yn 2012 nag yn y flwyddyn sylfaen.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb gymwysterau NVQ Lefel 3 neu uwch dros amser



4.22 Erbyn diwedd 2012, roedd ychydig dan hanner, neu 975,000, o oedolion 16 i 64 oed, heb gymhwyster NVQ Lefel 3. Roedd hyn tua 8 pwynt

canran yn is na'r gyfran yn 2005, ac mae'r gostyngiad yn ystadegol arwyddocaol.

4.23 Mae'r data ar gyfer blynyddoedd unigol yn awgrymu bod cyfran yr oedolion sydd heb gymwysterau Lefel 3 yn gostwng yn raddol ond yn gyson rhwng 2005 a 2012.

4.24 Mae rhan fawr o'r newid hwn yn gyfansoddiadol – ar gyfartaledd, mae gan y bobl ifanc sy'n ymuno â'r gweithlu well cymwysterau na'r bobl hŷn y maent yn eu disodli.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb gymhwyster NVQ Lefel 3 neu uwch yn ôl rhanbarth dros amser

	2005	2012	Newid dros amser
Gogledd Lloegr	55%	49%	Gwell
Canolbarth Lloegr	56%	50%	Gwell
De a Dwyrain Lloegr	51%	43%	Gwell
Llundain	51%	37%	Gwell
Cymru	56%	48%	Gwell
Yr Alban	46%	41%	Gwell

Ffynhonnell: fel uchod

4.25 Roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb gymwysterau Lefel 3 yng Nghymru ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yn genedlaethol. Bu gwelliannau ym maes dysgu oedolion ym mhob un o'r rhanbarthau ers 2005.

Polisiau perthnasol

- Adduned Cyflogwr, 2010-15.

5 Tai a gwasanaethau

Dangosyddion

- Teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro.
- Teuluoedd sy'n byw mewn amodau gorllawn.
- Aelwydydd â phlant sydd heb gyfrifon banc.


Teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro

Pwyntiau allweddol

- Ar ddiwedd chwarter cyntaf 2013, cafodd 2,500 o aelwydydd digartref eu rhoi mewn llety dros dro yng Nghymru.
- Mae'r ffigwr hwn wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn sylfaen.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Nifer yr aelwydydd digartref mewn llety dros dro dros amser



5.1 Roedd 2,500 o aelwydydd digartref mewn llety dros dro erbyn dechrau 2012-13, sef tua 1,000 yn llai na'r ffigwr yn 2005-06, sef y brig yn y gyfres hon. Teuluoedd â phlant oedd tua 40% o gyfanswm yr aelwydydd

mewn llety dros dro yn 2012-13, ac mae'r gyfran hon wedi gostwng dros y blynyddoedd.

- 5.2 Er hyn, yn dilyn y duedd tuag i lawr yn nifer yr aelwydydd a roddwyd mewn llety dros dro ers 2005-06, mae'r data o flwyddyn i flwyddyn yn dangos y dechreuodd y nifer gynyddu yn 2010-11 a 2011-12, cyn disgyn unwaith eto yn 2012/13.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

- 5.3 Nid yw'n bosibl cymharu digartrefedd yng Nghymru a Lloegr yn sgil gwahaniaethau yn y cyfreithiau sy'n berthnasol i gymhwysedd digartrefedd a'r darpariaethau. Er hyn, bu'r duedd gyffredinol yn Lloegr yn debyg i'r hyn a welwyd yng Nghymru – cynnydd tuag at ganol y degawd diwethaf, a gostyngiad wedi hynny.

Polisiau perthnasol

- Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru o 2009 i 2019.


Teuluoedd â phlant sy'n byw mewn amodau gorlawn

Pwyntiau allweddol

- 5.4 Cynyddodd nifer y teuluoedd â phlant dibynnol sy'n byw mewn amodau gorlawn rhwng 2004 a 2010, er nad yw'r cynnydd yn ystadegol sylweddol.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Nifer y teuluoedd â phlant dibynnol sy'n byw mewn amodau gorlawn



5.5 Yn 2009-10, roedd tua 5% neu 23,000 o deuluoedd ag o leiaf un plentyn dibynnol yn byw mewn amodau gorlawn. Roedd y ffigwr hwn ryw 5,000 yn uwch na'r ffigwr yn 2004.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

5.6 Er na chaiff niferoedd cymharol ar yr un sail (teuluoedd â phlant dibynnol) eu cyhoeddi ar gyfer rhanbarthau Lloegr, mae'r tueddiadau cyffredinol yn achos holl aelwydydd Lloegr sy'n byw mewn amodau gorlawn yn dangos cynnydd cyson dros y cyfnod sylfaen, yn arbennig yn y sectorau rhentu.

Polisiâu perthnasol

- Bil Tai (Cymru)

Diffiniadau

5.7 Caiff amodau gorlawn eu mesur gan Safon Lloftydd. Daw data 2004 o Arolwg Byw yng Nghymru, a daw data 2009-10 o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r data yn weddol gymharol.


Teuluoedd (â phlant) sydd heb gyfrifon banc

Pwyntiau allweddol

- Yn y tair blynedd hyd at 2010-11, dim ond 1% o deuluoedd â phlant yng Nghymru oedd heb gyfrif banc.
- Gostyngodd y gyfran hon yn sylweddol dros y degawd diwethaf a gostyngodd ymhellach yn fwy diweddar. Ni ellir gwahaniaethu rhyngddo â sero mwyach.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfran y teuluoedd (â phlant) yng Nghymru sydd heb gyfrifon banc dros amser



5.8 Erbyn diwedd 2011-12, tua 1% o deuluoedd â phlant oedd heb unrhyw fath o gyfrif banc. Gostyngodd y gyfran hon yn gyflym iawn dros y 10

mlynedd diwethaf, o 13% yn y tair blynedd hyd at 2000-01 i 4% yn y cyfnod sylfaen. Y mae wedi gostwng ymhellach yn y ddwy flynedd ddiweddaraf sydd â data ar gael ar eu cyfer.

Cymru o gymharu â rhanbarthau eraill

Cyfran y teuluoedd (â phlant) sydd heb gyfrifon banc yn ôl rhanbarth dros amser

	2003-04 hyd 2005-06	2009-10 hyd 2011-12	Newid dros amser
Gogledd Lloegr	5%	2%	Gwell
Canolbarth Lloegr	7%	4%	Gwell
De a Dwyrain Lloegr	2%	1%	Gwell
Llundain	5%	2%	Gwell
Cymru	4%	1%	Gwell
Yr Alban	5%	1%	Gwell

Ffynhonnell: fel uchod

5.9 Mae cyfran y teuluoedd â phlant sydd heb gyfrifon banc yn isel ledled Prydain.

Polisiâu perthnasol

- Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.
- Prosiect mynediad at wasanaethau ariannol drwy Undebau Credyd.

Diffiniadau

5.10 Mae teuluoedd (â phlant) sydd heb gyfrif banc yn cyfeirio at deuluoedd sydd heb unrhyw fath o gyfrif, gan gynnwys cyfrifon cynilo, cyfrifon sylfaenol, aelodaeth o Undeb Credyd a Chyfrifon Cerdyn y Swyddfa Bost (POCA).

6 Iechyd

Dangosyddion

- Cyfradd marwolaethau babanod yn ôl cwintellau amddifadedd.
 - Pwysau geni isel yn ôl cwintellau amddifadedd.
 - Plant pum mlwydd oed â phydredd dannedd yn ôl cwintellau amddifadedd.
 - Pobl ifanc â phydredd dannedd yn ôl cwintellau amddifadedd.
 - Cyfraddau beichiogi o dan 16 oed yn ôl cwintellau amddifadedd.
 - Anafiadau i gerddwyr 5-14 oed (cleifion preswyl mewn ysbyty) yn ôl cwintellau amddifadedd.
 - Plant a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ffordd.
- 6.1 Mae pob un o'r dangosyddion uchod, ar wahân i'r olaf, yn mesur cynnydd yn nhermau'r gwahaniaeth (cymhareb) yn y canlyniadau rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd canolig o ran amddifadedd yng Nghymru. Maent felly yn ddangosyddion o anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.
- 6.2 Gwnaethom ddefnydd helaeth o'r data a gyhoeddwyd yn Adroddiad Cerrig Milltir (Tachwedd 2011). Yn achos dangosyddion sy'n defnyddio cyfartaleddau dros flynyddoedd neu lle nad oes data ar gael ar gyfer y flwyddyn sylfaen (2005), defnyddiwyd y cyfnod rhwng 2000 a 2004 fel cyfnod sylfaen i gyfateb yn fras i'r cyfnod cyn cyflwyno'r Strategaeth Tlodi Plant gan ddilyn trywydd y newidiadau ers hynny.
- 6.3 Caiff cwintellau amddifadedd eu cyfrifo gan ddefnyddio trefn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o barthau incwm a chyflogaeth cyfunol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Dim ond y ddau barth hwn a ddefnyddir am mai'r rhain sy'n cynrychioli 'tlodi' orau. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn rhestru'r 1,896 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru yn ôl amddifadedd, lle mae'r ardal yn safle un sydd â'r mwyaf o amddifadedd, a'r ardal yn safle 1,896 sydd â'r lleiaf o amddifadedd. Mae ffigurau 2000-2004 yn seiliedig ar restr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005; mae ffigurau 2004-2008 yn seiliedig ar restr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008.

- 6.4 Roedd parthau incwm a chyflogaeth yn 2008 ill dau yn cynnwys un dangosydd ychwanegol o gymharu â'r parthau yn 2005, ond nid oes arwydd bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i'r cyfrifiadau yn y fan hon ar sail cwintelaau amddifadedd.
- 6.5 Mae'r holl waith dadansoddi yn yr adran hon yn seiliedig ar y ddau gyfnod y mae gennym ddata ar eu cyfer. Gan ystyried y niferoedd bach yn llawer o'r dangosyddion, amhosibl yw llunio cyfres amser ddibynadwy o flwyddyn i flwyddyn.


Cyfradd marwolaethau babanod

Pwyntiau allweddol

- Nid oedd y bwlch yng nghyfradd marwolaethau babanod yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a'r rhai yn y canol wedi lleihau rhwng 2000-04 a 2004-08.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfradd marwolaethau babanod ym mhob 1,000 o enedigaethau byw dros amser



- 6.6 Mae'r dangosydd hwn yn mesur y gwahaniaethau yng nghyfraddau marwolaethau babanod yn ôl lefel amddifadedd yr ardal. Defnyddir y gwahaniaeth rhwng gwerthoedd y bumed ran o amddifadedd mwyaf a'r bumed ran ganol i fonitro cynnydd.
- 6.7 Yn y bum mlynedd hyd at 2008, cyfradd marwolaethau babanod yn y bumed ran o ardaloedd o amddifadedd mwyaf oedd 5.7 ym mhob 1,000 o enedigaethau byw, o gymharu â 4.5 ym mhob 1,000 yn achos y bumed ran ganol, gan roi cymhareb rhwng y gwaelod a'r canol o 1.24. Y ffigurau cymharol ar gyfer y cyfnod 2000-04 oedd 6.1 ym mhob 1,000 o enedigaethau byw yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf o gymharu â 5.2 ym mhob 1,000 yn y bumed ran ganol, gan roi cymhareb o 1.17.
- 6.8 Mae hyn yn awgrymu bod y bwlch rhwng cyfradd marwolaethau yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd cyfartalog heb newid llawer er i'r cyfraddau marwolaethau ddisgyn yn y ddau gwintel. Roedd y gwypm yng nghyfradd y bumed ran ganol ychydig yn fwy na'r gwypm yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf.

Polisiau perthnasol

- Dechrau'n Deg, 2006.
- Cynllun Cychwyn Iach, 2006.
- Cynllun Gweithredu Tybaco, 2012.

Diffiniadau


- 6.9 Y ffigurau yn y fan hon yw'r cyfartaledd dros bum mlynedd o gyfradd marwolaethau babanod ym mhob 1,000 o enedigaethau byw o dan flwydd oed.

Babanod pwysau geni isel

Pwyntiau allweddol

- Er nad oes data newydd yn ôl cwintelau amddifadedd ar gael ers 2007, roedd y bwlch yng nghyfradd y babanod a anwyd â phwysau geni isel rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd canolig wedi parhau oddeutu dau bwynt canran rhwng 1999-2001 a 2005-2007.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru



6.10 Mae'r dangosydd hwn yn ystyried y gyfran o fabanod a anwyd â phwysau geni isel yn ôl cwintel amddifadedd yr ardaloedd. Fel yn achos cyfraddau marwolaethau babanod, defnyddir y gwahaniaeth rhwng gwerthoedd y bumed ran o ardaloedd o amddifadedd mwyaf a'r bum ran ganol i fonitro cynnydd.

6.11 Yn achos y cyfnod diweddaraf y mae data ar gael ar ei gyfer (2005-2007), roedd tua 9% o fabanod yn y cwintel mwyaf amddifad wedi yn

pwysu llai na 2.5 kg, o gymharu â 7% yn y bumed ran ganol. Mae hyn yn rhoi cymhareb rhwng y gwaelod a'r canol o 1.24. Gan edrych ar ddata o 1999-2001 ymlaen, mae'r gymhareb wedi parhau'n go gyson.

Polisiâu perthnasol

- Dechrau'n Deg, 2006.
- Cynllun Cychwyn Iach, 2006.
- Gweledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, 2011

Mentrau diweddar:

Cynllun Gweithredu Tybaco, 2012.


Diffiniadau

6.12 Y ffigwr a ddefnyddir yw'r cyfartaledd dros dair blynedd o gyfran yr holl enedigaethau sy'n pwysu llai na 2.5kg ym mhob un o'r cwintelau amddifadedd.

Plant pum mlwydd oed sydd â phydredd dannedd

Pwytiau allweddol

- Ymysg plant 5 mlwydd oed yng Nghymru, gostyngodd y nifer gyfartalog o ddannedd sydd wedi pydru, wedi eu colli neu wedi eu llenwi rhwng 2007/08 a 2011/12.
- Roedd y gwmp ychydig yn fwy ymysg y rhai yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf, gan olygu bod y bwlch rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a'r rhai cyfartalog wedi lleihau.



Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

6.13 Yn 2011/12, cyfartaledd nifer y dannedd sydd wedi pydru, wedi eu colli neu wedi eu llenwi (dmft) ymysg plant 5 oed yn y bumed ran o ardaloedd o amddifadedd mwyaf oedd 2.2, gan ostwng o ffigwr o 2.7 bedair blynedd yn gynharach.

6.14 Yn y bumed ran ganol o ardaloedd o amddifadedd, roedd y ffigwr wedi gostwng o 1.8 i 1.5 – sy'n llai o ostyngiad. Mae hyn yn golygu bod y bwlch rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd o amddifadedd cyfartalog wedi lleihau o 0.9 dmft i 0.7.

Polisiau perthnasol

- Cynllun Gwên, 2008.
- Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.

Diffiniadau

6.15 Mae'r dangosydd hwn yn cyfeirio at ddannedd cyntaf (dannedd sugno) sydd wedi pydru, wedi eu colli neu wedi eu llenwi (dmft). Mae'r ffigwr dmft cymedrig yn dangos cymedr nifer y dannedd sydd wedi pydru, wedi eu colli neu wedi eu llenwi ymysg pob plentyn pump oed.


Pobl ifanc â phydredd dannedd

Pwyntiau allweddol

- Nid oedd unrhyw newid arwyddocaol yng nghymhareb nifer gymedrig y dannedd sydd wedi pydru, wedi eu colli neu wedi eu llenwi ymysg plant 12 oed rhwng y bumed ran o amddifadedd mwyaf a'r bumed ran ganol rhwng 2004-05 a 2008-09.
- Yn gyffredinol, mae iechyd dannedd plant wedi gwella ymysg pob grŵp.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Nifer gymedrig y dannedd sydd wedi pydru, wedi eu colli neu wedi eu llenwi yn ôl cwintelau amddifadedd dros amser



6.16 Mae'r dangosydd hwn yn mesur pydredd dannedd ymysg ail ddannedd, yn ôl argymhelliad Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'n ystyried y gwahaniaeth yn nifer gyfartalog y dannedd sydd wedi pydru, wedi eu colli neu wedi eu llenwi (dmft) ymysg plant 12 oed ym mhumed rannau o amddifadedd mwyaf a chanolig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

6.17 Ym mlwyddyn sylfaen 2004-05, roedd gan blant 12 oed yn y bumed ran o amddifadedd mwyaf 1.35 dmft ar gyfartaledd, o gymharu ag 1.12 yn y bumed ran ganol, gan roi cymhareb rhwng y gwaelod a'r canol o 1.2. Yn 2008-09, roedd gan blant sy'n byw yn y bumed ran o amddifadedd mwyaf yng Nghymru 1.31 dmft ar gyfartaledd, o gymharu â 0.95 dmft yn y bumed ran ganol, gan roi cymhareb o 1.4. Mae hyn yn awgrymu na fu i'r bwlch gau rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a'r rhai canol.

Polisiâu perthnasol

- Cynllun Gwên, 2008.
- Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.

Diffiniadau

6.18 Mae'r dangosydd hwn yn cyfeirio at ail ddannedd sydd wedi pydru, sydd ar goll neu sydd wedi eu llenwi (dmft). Mae'r ffigwr dmft cymedrig yn dangos cymedr nifer y dannedd sydd wedi pydru, wedi eu colli neu wedi eu llenwi ymysg pob plentyn 12 oed.


Cyfraddau beichiogi o dan 16 oed

Pwyntiau allweddol

- Ni fu newid yng nghymhareb cyfraddau beichiogi o dan 16 oed rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a chanolig rhwng 2000-2004 a 2004-2008.
- Ymysg merched yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a chyfartalog, mae cyfraddau beichiogi o dan 16 oed wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfraddau beichiogi ym mhob 1,000 o ferched 13 i 15 oed



6.19 Mae'r dangosydd hwn yn ystyried achosion o feichiogi ymysg merched 13 i 15 oed yn ôl cwintelau amddifadedd. Mae'r ffigur yn gyfartaledd dros bum mlynedd.

6.20 Yn y pum mlynedd hyd at 2004, y gyfradd feichiogi ymysg merched 13 i 15 oedd 13.1 ym mhob 1,000 yn y cwintel o amddifadedd mwyaf, a 7.5 ym mhob 1,000 yn y cwintel canol, gan awgrymu bod gan ferched yn y bumed ran o amddifadedd mwyaf gyfradd feichiogi 1.75 cymaint â'r merched yn y bumed ran ganol. Erbyn 2008, roedd y gyfradd feichiogi wedi disgyn i 12 ym mhob 1,000 yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf, ond roedd wedi parhau'n eithaf gwastad, ar ryw 7.2 ym mhob 1,000, yn y bumed ran ganol. O ganlyniad, nid oedd y gymhareb (1.7) yn 2004-08 wedi newid llawer ers 2000-04.

Polisiau perthnasol

- Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol, 2010-15.

Diffiniad

6.21 Mae beichiogi yn golygu mamolaethau (nifer y menywod beichiog sy'n rhoi genedigaeth) yn ogystal ag erthyliadau, a chesglir y wybodaeth hon o ffynonellau gweinyddol: hysbysiadau erthyliadau a chofrestriadau genedigaethau. Maent yn cynnwys pob beichiogrwydd ymysg menywod sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru a Lloegr sy'n arwain at un o'r canlyniadau canlynol:

- Mamolaeth lle mae un neu ragor o enedigaethau byw neu farw-enedigaethau yn digwydd, wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr.
- Terfynu beichiogrwydd drwy erthylu o dan Ddeddf 1967, sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr. Ni chaiff achosion o feichiogrwydd sy'n arwain at erthyliadau naturiol (hynny yw, camesgoriadau) eu cynnwys.


Anafiadau i gerddwyr 5-14 oed (cleifion preswyl mewn ysbyty)

Pwyntiau allweddol

- Roedd cyfradd y plant a anafwyd fel cerddwyr ac sy'n gleifion preswyl mewn ysbyty yn y bumed ran o amddifadedd mwyaf ychydig yn is yn 2004-08 nag yn 2000-04, ond arhosodd heb newid llawer ymysg y bumed ran ganol. O ganlyniad, ni cheir llawer o newid yn y gymhareb rhwng y ddau grŵp.

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

Cyfradd ym mhob 100,000 o'r boblogaeth o anafiadau i gerddwyr sy'n blant yn ôl cwintelau amddifadedd



6.22 Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar gyfradd anafiadau cerddwyr, ar sail yr hyn a gofnodir wrth i gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty, yn ôl cwintelau amddifadedd. Cyfartaledd dros bum mlynedd yw'r ffigwr.

6.23 Yn 2004-08, cyfradd y plant a dderbyniwyd yn gleifion preswyl i'r ysbyty yn sgil anafiadau i gerddwyr yn y bumed ran o amddifadedd mwyaf oedd 56 ym mhob 100,000, ychydig yn is na'r 64 ym mhob 100,000 yn 2000-2004. Y cyfraddau cyfatebol yn achos y bumed ran ganol oedd 32 a 33 ym mhob 100,000: y nesaf peth i ddim o newid. Y gymhareb rhwng y ddau grŵp yn 2004-08 oedd 1.7, o gymharu â 1.9 bedair blynedd ynghynt. Er y bu lleihad bach yn y gymhareb, anodd yw asesu p'un a yw'r newid hwn yn ystadegol arwyddocaol.

Polisiâu perthnasol

- Llwybrau Diogel i'r Ysgol, 1999, a ddisodlwyd gan fenter newydd Rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn 2008-09
- Clwb Traffig y Plant – a noddur gan Lywodraeth Cymru
- Hyfforddiant cerdded *Kerbcraft* i blant – a noddur gan Lywodraeth Cymru

Plant a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol mewn damweiniau ffordd

Lefelau a thueddiadau yng Nghymru

6.24 Yn 2006, cafodd tua 144 o blant eu lladd neu eu hanafu yn ddifrifol mewn damweiniau ffordd yng Nghymru. Disgynnodd y ffigwr hwn i 92 yn 2012. Felly gwelwyd cwymp bach o ryw 36% yn nifer y plant a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol mewn damweiniau ffordd.

Polisiâu perthnasol

- Llwybrau Diogel i'r Ysgol, 1999, a ddisodlwyd gan fenter newydd Rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn 2008-09.

7 Atodiad – Rhestr o bolisiâu perthnasol (yn nhrefn yr wyddor)

Blwyddyn	Polisi	Esboniad
2009 - 2013	Prosiect mynediad at wasanaethau ariannol drwy Undebau Credyd	Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth sylweddol i Undebau Credyd yng Nghymru yn eu rôl fel darparwyr credyd fforddiadwy, yn aml i deuluoedd ar incwm isel.
2001	Cymunedau yn Gyntaf	Dyma oedd polisi blaenllaw Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion mewn ardaloedd o amddifadedd. Nod y rhaglen oedd sefydlu partneriaethau ar gyfer pob ardal o amddifadedd (a nodwyd drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) er mwyn lleihau amddifadedd a gwella cyfleoedd bywyd i bawb yn y gymuned.
2008	Cynllun Gwên	Rhaglen genedlaethol i wella iechyd y geg ymysg plant oedd Cynllun Gwên. Roedd dwy brif ran i'r raglen greiddiol, sef cynllun brwsio dannedd dan oruchwyliaeth i blant 3-5 oed, a rhaglen hyrwyddol i blant 6-11 oed.
2010	Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd	Dyma Strategaeth Datblygu Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'i nod yw creu'r amodau y gall busnesau ffynnu ynddynt. Un o flaenoriaethau'r rhaglen yw ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau.

Blwyddyn	Polisi	Esboniad
		Mae'r rhaglen yn cydnabod yr angen i wella ymdrechion i helpu'r rhai sydd wedi dieithrio er mwyn lleihau anweithgarwch a'r arfer o fod heb waith.
	Lwfans Cynhaliaeth Addysg	Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru ac mae ar waith ag ystyried cynigion i ymestyn y Lwfans ar raglen sy'n olyn Adeiladu Sgiliau i bobl ifanc (hynny yw, Hyfforddeiaeth) o 2012 ymlaen.
	Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Mae'r rhain yn gweithio ochr yn ochr ac o amgylch y "Raglen Waith" genedlaethol dan arweiniad y Ganolfan Byd Gwaith a'i chontractwyr. Mae'r prosiectau hyn yn targedu grwpiau o gleientiaid a nodir yn y Rhaglenni, ac yn helpu unigolion i fynd i'r afael ag amrywiaeth o rwystrau i gyflogaeth, sy'n aml yn lluosog, e.e. bod yn barod i weithio, anghenion iechyd, trafnidiaeth neu ofal plant.
2012	Teuluoedd yn Gyntaf	Teuluoedd yn Gyntaf yw rhaglen allweddol Llywodraeth Cymru i ddylunio gwell cymorth i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, gan roi pwyslais ar gamau ataliol a gwarchodol. Bydd y math o wasanaethau a ariennir gan y rhaglen hon ar lefel leol yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol pob awdurdod unigol.
2009	Strategaeth Cynhwysiant Ariannol	Nod cyffredinol y Strategaeth hon (a'r Cynllun Gweithredu) yw hwyluso ymateb amlasiantaeth i gynhwysiant ariannol a fydd yn gwella'r dirwedd ariannol gyfredol – gan gynnwys codi ymwybyddiaeth, gallu ariannol, cyngor ar wneud y mwyaf o incwm a rheoli arian, cwnsela arbenigol ynghylch dyled, cyfleoedd hygyrch i gynilo, a chyfleoedd bancio prif-ffrwd a ffynonellau credyd fforddiadwy drwy fenthycwyr y trydydd sector.
2006	Dechrau'n Deg	Targedwyd y fenter hon at blant 0-3 oed yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ei nod oedd gwella cyfleoedd bywyd y plant a'r teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig drwy ariannu gofal plant am ddim, ymweliadau iechyd, rhaglenni rhianta a datblygu sgiliau sylfaenol.
2004-2008	Genesis Cymru	Prosiect sy'n mynd i'r afael â rhwystrau fel diffyg cymorth gofal plant, hygyrchedd trafnidiaeth, dyled, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio. Ei ddiben yw helpu i wella hyder a chael pobl yn barod i weithio. Lanswyd Genesis Cymru 2 rhwng 2008 a 2014.
2005	Canolfannau Plant Integredig	Mae Canolfannau Plant Integredig yn seiliedig ar y cysyniad o ddarparu gwasanaeth integredig i sicrhau canlyniadau da i blant a'u rhieni ac thrwy hynny sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd. Mae pob canolfan yn cynnig mynediad agored i chwarae, addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant o ansawdd uchel, hyfforddiant cymunedol a gwasanaethau cymorth eraill sy'n hanfodol i deuluoedd.
2006-2007 hyd 2008-2009	Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru (Rhagori)	Un o raglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd hon a oedd yn mynd i'r afael â'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawni gan ddisgyblion yng Nghymru. Roedd yn darparu buddsoddiadau wedi'u targedu i wella cyrhaeddiad addysgol plant difreintiedig mewn ysgolion lle mae 20% neu ragor o'r plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
1999	Llwybrau Diogel i'r Ysgol	Disodlwyd y rhaglen hon gan fenter newydd Rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau 2008-09 – nod y fenter yw gwella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau achosion o anafiadau i blant, gwella iechyd a datblygiad plant a lleihau tagfeydd a llygredd traffig.
2008	Fframwaith Effeithiolrwydd	Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw'r polisi trosfwaol sy'n ceisio trawsnewid safonau a darpariaeth addysgol yn ysgolion Cymru ar sail

Blwyddyn	Polisi	Esboniad
	Ysgolion	diwygio tair lefel (ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru). Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth gysylltiedig: gwella lefelau llythrennedd; gwella lefelau rhifedd; a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.
2009-2011	Menter Cyflogaeth dan Gymorth wrth ymyl yr Ysgol ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful	Roedd hyn yn targedu ail enillwyr posibl yn ysgol gynradd eu plant ac o amgylch. Mae'r prosiect yn cyflenwi pecyn o gyngor, arweiniad a chymorth ochr yn ochr a hyfforddiant anffurfiol a darpariaeth gofal plant.
2010-2015	Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol	Lansiwyd Cynllun Grant Beichiogrwydd yn yr Ardddegau, sy'n cynnwys ymyriadau wedi eu targedu i'r rhai yn eu harddegau sydd mewn mwyaf o berygl o feichiogi, ac mae'n mynd i'r afael â phenderfynyddion beichiogrwydd yn yr ardddegau drwy leihau tlodi plant, gwella safon addysg a darparu gwasanaethau ieuencid o ansawdd uchel.
2011	Camau at Waith	Rhaglen ar gyfer oedolion 18+ nad ydynt mewn cyflogaeth. Mae'n cynnig dau opsiwn: 1. Hyfforddiant sy'n Canolbwyntio ar Waith, a 2. Llwybr – Ffyrdd at Waith.
2009-2019	Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru	Mae'r cynllun hwn yn gosod yr egwyddorion arweiniol i ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru.
2012	Cynllun Gweithredu Tybaco	Mae'r cynllun hwn yn cynnig camau i fynd i'r afael ag anghenion grwpiau blaenoriaeth ynghylch rhoi'r gorau i ysmegu, gan gynnwys camau yn ymwneud ag ysmegu yn ystod beichiogrwydd sy'n cynorthwyo targedau tlodi plant ar farwolaethau babanod a babanod pwysau geni isel.
2005	Y Strategaeth Gofal Plant	Daeth strategaeth newydd i'w holynu yn 2011.
2005	Y Strategaeth Tlodi Plant	Strategaeth drosfwaol ar gyfer pob agwedd ar dlodi plant.
2010-2015	Rhaglen Adduned Cyflogwr	Mae'n rhan o Brosiect Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle, Llywodraeth Cymru, ac mae'n ceisio gwella lefelau sgiliau sylfaenol yn y gweithlu cyflogedig drwy gynyddu a gwella cymorth sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Gan weithio mewn partneriaeth â'r cyflogwyr, bydd y prosiect yn codi ymwybyddiaeth o fanteision gweithlu medrus a bydd yn cynnig cymorth ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol sy'n cael eu nodi.
2006	Cynllun Cychwyn Iach	Mae hyn yn cynnig rhwyd ddiogelwch o ran maeth i blant o dan bedair oed ac i fenywod beichiog sy'n derbyn budd-daliadau penodol.
2010-2011	Llwybrau at Brentisiaethau	O dan y peilot hwn, a oedd yn agored i bobl ifanc 16-24 oed ac yn addas i rai oedd newydd adael ysgol, gallai unigolion dreulio hyd at flwyddyn ar raglen hyfforddiant dwys amser llawn i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â phrentisiaeth lawn wedi i'r hyfforddiant gael ei gwblhau.
2007	Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd	Diben y fenter hon yw helpu i wella iechyd disgyblion a'u gallu i ganolbwyntio, a helpu i wella safonau dysgu a chyrhaeddiad.
2011	Y Rhaglen Hyfforddeiaeth	Yn dilyn Rhaglen Adeiladu Sgiliau, mae'r rhaglen hon wedi eu hanelu at bobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn cyflogaeth ac yn ceisio lleihau nifer y NEETs drwy wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc.

Blwyddyn	Polisi	Esboniad
2009	Rhaglen Recriwtiaid Newydd	Mae'n cynorthwyo cyflogwyr drwy gynnig cymhelliant ariannol i recriwtio mwy o brentisiaid.
2010-2015	Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid	Nod y strategaeth yw cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru i wireddu eu potensial, boed drwy sefydlu busnes, gweithio i rywun arall neu wneud rhywbeth yn y gymuned.
2004-2008	Yn Awyddus i Weithio	Rhaglen y Ganolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd hon a gafodd ei pheilotu mewn pum ardal yng Nghymru rhwng 2004 a 2008. Defnyddiodd y rhaglen amrywiaeth o dechnegau i annog pobl i ddychwelyd i weithio. Rhaglen wirfoddol ydoedd, ac roedd yn canolbwyntio ar bobl ar fudd-dal analluogrwydd ac felly'n economaidd anweithgar.
	Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru	Camau sy'n canolbwyntio ar hybu ymddygiad iechyd da i blant a theuluoedd – yn ymwneud â maeth, ymarfer corff, iechyd rhywiol, iechyd a lles meddyliol ac emosiynol, defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, diogelwch a hylendid.
2011-15	Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid	Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn disodli Cynllun NEETs.

Atodiad B: Crynodeb o dystiolaeth: atal tlodi yn y genhedlaeth nesaf

	<i>Ansawdd tystiolaeth y gwerthusiad</i>	<i>Cwmpas y gwerthusiad</i>	<i>Perthnasedd y rhaglen/tystiolaeth i amcanion y Strategaeth Tlodi Plant</i>
Dechrau'n Deg	Cryf. Yn defnyddio cymysgedd o astudiaethau achos ansoddol, a dyluniad effaith lled-arbrofol yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cymharu. Yn cynnwys asesiad gwerth am arian.	Pob un o 22 ardal Dechrau'n Deg wedi eu cwmpasu. Arolygon yn cwmpasu rhieni plant ≤ 2 oed yn erbyn rhaglen sy'n cwmpasu rhieni plant ≤ 4 oed. Yn cynnwys asesiad ariannol.	Cryf.
Canolfannau Plant Integredig	Tystiolaeth wan o'r asesiad ansoddol yng Nghymru. Y dystiolaeth yn aml yn oddrychol, ac yn amrywio o ardal i ardal. Dim data cadarn.	Cymedrol. Yn canolbwyntio ar bedair Canolfan o 44 ledled Cymru. Amrywiaeth eang o ganlyniadau cymdeithasol/gwybyddol wedi eu cwmpasu, ond nodi'r canlyniadau yn unig y gellir gwneud, nid eu mesur. Dim asesiad gwerth am arian.	Perthnasol iawn, a chysylltiadau â phob un o dri o amcanion y Strategaeth Tlodi Plant. Y sylfaen dystiolaeth yn gyfyngedig: y gwerthusiad yn argymhell i'r Canolfannau eu hunain gasglu data cadarn er mwyn helpu i werthuso effaith wrth symud ymlaen.
Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion	Gwan. Nid oedd yn caniatáu ar gyfer asesu dulliau'r systemau.	Cymedrol. Yn cwmpasu pob un o'r 96 ysgol beilot, ond nid oedd yn ystyried cwestiynau polisi allweddol ynghylch dulliau'r systemau, na gwerth am arian.	Cymedrol. Gwnaed argymhellion i gyflwyno fesul cam yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.
Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion Nghymru (Rhagori) yng	Cymedrol. (Methodoleg gref, ond ni allai'r gwerthusiad yn y pen draw ddefnyddio data hunan-adrodd yr ysgolion yn unol â'r bwriad)	Cryf. Cwmpaswyd 626 o'r 648 o ysgolion. Ffocws cryf ar effaith ar gyrhaeddiad. Ni wnaed asesiad o werth am arian.	Cymedrol. Drwy'r gwerthusiad, nodwyd gwendidau yn nyluniad y rhaglen, yn arbennig ynghylch ysgolion yn cam-dargedu arian, ond gan ddysgu ynglŷn ac ffactorau llwyddiant allweddol. Diffyg dysgu ynglŷn â mathau o ymyriadau sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol ar lefel ysgolion unigol. Adroddiadau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais.
Menter Brechwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd	Cryf. Hap-dreial wedi'i reoli ynghyd â gwerthusiad ansoddol o brosesau.	Cryf. Cwmpaswyd pob un o'r 111 ysgolion a beilotwyd. Dim asesiad gwerth am arian.	Cymedrol. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar effaith ddietegol. Ni chanfuwyd effaith ar alluoedd gwybyddol nac ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, a dim effaith ar osgoi brechwast.
Cymorth	Cymedrol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddata ansoddol a monitro. Data monitro heb fod yn addas i gyfyngiadau'r data monitro.	Cymedrol. Yn cwmpasu pob partneriaeth, ac amrywiaeth o brosiectau. Yn gallu dod i gasgliadau ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth, ond nid ynglŷn ag effaith ar blant a phobl ifanc. Heb ddod i gasgliad am werth am arian oherwydd diffyg tystiolaeth.	Cryf. Ymyriadau wedi eu targedu ar gyfer plant a phobl ifanc. Sylfaen dystiolaeth yn gyfyngedig i newid systemau, yn hytrach na rhoi tystiolaeth ynglŷn â dulliau sy'n gweithio'n dda i blant a phobl ifanc. Defnyddiwyd y gwerthusiad i fireinio dyluniad Teuluoedd yn Gyntaf.
Teuluoedd yn Gyntaf	Cymedrol. Gwerthusiad y cyfnod arloesi yn gyflawn. Gwaith gwerthuso prosesau ac effaith y prif raglen yn barhaus, gan ddefnyddio cymysgedd o ymchwil ansoddol a gwybodaeth fonitro i fesur effaith. Prif werthusiad yn cynnwys asesiad gwerth am	Cymedrol. Gwerthusiad y cyfnod arloesi a'r prif werthusiad yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach nag effaith ar deuluoedd. Defnyddiwyd gwybodaeth fonitro i fesur effaith ar deuluoedd, ond oedi wrth sefydlu fframweithiau rheoli perfformiad. Dylai'r prif werthusiad gynnwys	Cryf. Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi ei dylunio i fynd i'r afael â phob un o dri amcan y Strategaeth Tlodi Plant, gan ddefnyddio dulliau wedi eu teilwra yn lleol. Defnyddiwyd gwersi a ddysgwyd yn y cyfnod arloesi a rhaglen Cymorth i fireinio'r rhaglen genedlaethol.

Gwasanaeth Integredig Cymorth Deuluoedd	arian. Cymedrol. Gwerthusiad ansoddol/meintiol o brosesau, a chasglu data o wybodaeth fonitro gyfredol i werthuso effaith. (Methodoleg gref, ond dim data ar gael ar effaith). Canolbwyntio ar weithredu a chyflenwi yn hytrach nag effaith.	asesiad gwerth am arian. Cryf. Pob un o safleoedd y Gwasanaeth Integredig wedi eu cwmpasu, ac ymdrechion i safleoedd gasglu gwybodaeth fonitro safonol i'w defnyddio i werthuso effaith. Bwriadwyd cynnal asesiad o werth am arian, ond cafodd ei ddileu yn ddiweddarach o gylch gorchwyl y gwerthusiad.	Cymedrol. Cyflwynwyd y Gwasanaeth Integredig fesul cam cyn i'r gwerthusiad gael ei gwblhau, ac felly roedd y gwerthusiad bellach yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach nag effaith. Y ragdybiaeth sylfaenol y caiff canlyniadau i blant eu gwella os ydynt yn aros gyda'r teuluoedd (yn hytrach na mynd i ofal) heb ei rhoi ar brawf.
--	---	---	---

Ffynhonnell: Ipsos MORI

Atodiad C: Crynodeb o dystiolaeth: helpu pobl i godi allan o dlodi

	<i>Ansawdd dystiolaeth y gwerthusiad</i>	<i>Cwmpas y gwerthusiad</i>	<i>Perthnasedd y rhaglen/tystiolaeth i amcanion y Strategaeth Tlodi Plant</i>
Strategaeth Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru: Adnewyddu'r Economi	Dogfen y strategaeth. Allbynnau a chanlyniadau economaidd pob prosiect yn cael eu cofnodi a'u casglu'n flynyddol. Dim dystiolaeth ar lefel strategaeth.	Dangosyddion perfformiad allweddol presennol yn canolbwyntio ar yr economi, ac nid ydynt yn mesur canlyniadau sy'n berthnasol i'r Strategaeth Tlodi Plant (e.e. allbynnau wedi eu dadansoddi ar gyfer rhieni / rhai nad ydynt yn rhieni)	Perthnasol iawn. Yn ceisio ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau, drwy helpu pobl i gael gwaith, cynyddu ymgysylltu a chyflogaeth ieuenctid, a sbarduno cynnydd economaidd.
Twf Swyddi Cymru	Cryf. Yn defnyddio triniaeth a grŵp cymharu i asesu effaith, yn ogystal â gwybodaeth fonitro a gesglir yn rheolaidd.	Yn cwmpasu pob un o bum llinyn y rhaglen, ac yn mesur prosesau ac effaith. Bydd yn galluogi i ddadansoddi is-grwpiau grŵp targed NEET.	Perthnasol iawn: yn canolbwyntio ar greu swyddi i NEETs, a dylai dystiolaeth y gwerthusiad ganiatáu i ddadansoddi'r hyn sy'n gweithio i wahanol is-grwpiau o NEETs.
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Yn cwmpasu llawer o raglenni, a rhai ohonynt wedi eu gwerthuso ar wahân (e.e. Twf Swyddi Cymru). Gwnaed gwaith monitro a gwerthuso ar gyfer rhaglenni unigol. Data allbynnau cyfanredol ar gael ar lefel y gronfa yn gyffredinol yn unig ac nid ffigurau allbynnau net yw'r rhain (nid ydynt yn ystyried yr hyn fyddai wedi digwydd heb yr ymyriadau).	Yn cwmpasu llawer o raglenni, a rhai ohonynt wedi eu gwerthuso. Gwaith monitro a gwerthuso wedi ei gynnal ar gyfer rhaglenni unigol a ariannwyd.	Yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar allbynnau a chanlyniadau economaidd, ac nid ydynt yn cynnwys canlyniadau sy'n berthnasol i'r Strategaeth Tlodi Plant (e.e. allbynnau wedi eu dadansoddi yn ôl rhieni / rhai nad ydynt yn rhieni)
Lwfans Cynhaliaeth Addysgol	Gwan (yng Nghymru), Cryf (yn Lloegr). Gwerthusiad yng Nghymru yn seiliedig ar adborth ansoddol gan ddysgwyr ac ymarferwyr. Gwerthusiad y DU yn defnyddio grŵp cymharu.	Tystiolaeth y gwerthusiad yn Lloegr yn defnyddio data gweinyddol cadarn ar raddfa eang a grwpiau cymharu er mwyn nodi'r effaith.	Perthnasol iawn: Gwerthusiad effaith meintiol y DU yn dangos cynnydd o ryw 6 pwynt canran yn y dysgwyr o aelwydydd incwm isel sy'n parhau mewn addysg. Hefyd yn gysylltiedig â chyfraddau is yn rhoi'r gorau i gyrsiau a phresenoldeb/ymgysylltu.
Cynllun Gweithredu Ymgysylltu Chyflogaeth Ieuenctid Canolfannau Integredig	Dogfen y strategaeth yn cwmpasu llawer o raglenni, a rhai ohonynt o bosibl wedi eu gwerthuso. Dim dystiolaeth ar lefel y cynllun.	Dogfen y strategaeth yn cwmpasu llawer o raglenni, a llawer ohonynt o bosibl wedi eu gwerthuso.	Perthnasol iawn. Yn ceisio lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET neu mewn perygl o fod.
	Gwan. Asesiad effaith ansoddol. Tystiolaeth yn aml yn oddrychol, ac yn amrywio o ardal i ardal. Dim data cadarn.	Cymedrol. Yn canolbwyntio ar bedair canolfan allan o 40+ ledled Cymru. Amrywiaeth eang o ganlyniadau cymdeithasol/gwybyddol wedi eu cwmpasu, ond effeithiau yn cael eu nodi'n unig – ni ellir eu mesur.	Perthnasol iawn, a chysylltiadau â phob un o dri o amcanion y Strategaeth Tlodi Plant. Y sylfaen dystiolaeth yn gyfyngedig: y gwerthusiad yn argymhell i'r Canolfannau eu hunain gasglu data cadarn er mwyn helpu i werthuso effaith wrth symud ymlaen.
Cymunedau Gyntaf	Cymedrol. Amrywiaeth eang o ffynonellau o dystiolaeth wedi eu hystyried i asesu prosesau ac effaith, ond y gwrthffeithiol yn amherffaith. Wedi ei gyfyngu gan	Cymedrol: astudiaethau achos mewn 25 ardal, a defnyddio data rheoli perfformiad. Astudiaethau achos	Rhaglen berthnasol iawn, ond dystiolaeth o effaith yn gyfyngedig iawn hyd yma. Rhaglenni unigol a ariannwyd yn amrywio i ba raddau y

	amrywiaeth a natur feddal effeithiau'r rhaglen. Effaith gadarnhaol ond cyfyngedig ar fod heb waith yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Rhai effeithiau o ran gwella safonau cynnal a chadw, gwelliannau amgylcheddol ar raddfa fach, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a mwy o weithgarwch difyrru ieuenctid. Manteision cadarnhaol yn deillio o'r rhaglen yn cynnig gwerth rhesymol am arian.	manwl mewn 25 ardal yn unig. Yn gallu gwneud cyfres gref o argymhellion i gyfarwyddo adolygiad Cymunedau yn Gyntaf. Dim asesiad gwerth am arian.	maent yn mynd i'r afael ag amcanion sy'n berthnasol i'r Strategaeth Tlodi Plant. Bydd trefniadau'r rhaglen wedi iddynt gael eu hailddiffinio yn mynd i'r afael â chyfyngiadau drwy dynhau'r strwythur rheoli, casglu tystiolaeth mwy eglur, pennu nodau canlyniadau mwy eglur, a lleihau nifer ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
--	--	--	---

Ffynhonnell: Ipsos MORI

Atodiad D: Crynodeb o dystiolaeth: lliniaru effaith tlodi

	<i>Ansawdd tystiolaeth y gwerthusiad</i>	<i>Cwmpas y gwerthusiad</i>	<i>Perthnasedd y rhaglen/tystiolaeth i amcanion y Strategaeth Tlodi Plant</i>
Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd	Cymedrol. Gwerthusiad ansoddol/meintiol o brosesau, a chasglu data o wybodaeth fonitro bresennol er mwyn gwerthuso effaith. (Methodoleg gref ond nid oes data effaith ar gael). Canolbwyntio ar weithredu a chyflenwi yn hytrach nag effaith.	Cryf. Pob safle arloesi'r Gwasanaeth wedi eu cwmpasu, ac ymdrechion i safleoedd gasglu gwybodaeth fonitro safonol i'w defnyddio i werthuso effaith. Dim asesiad gwerth am arian.	Cymedrol. Cyflwynwyd y Gwasanaeth Integredig fesul cam cyn i'r gwerthusiad gael ei gwblhau, ac felly roedd y gwerthusiad bellach yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach nag effaith. Y ragdybiaeth sylfaenol y caiff canlyniadau i blant eu gwella os ydynt yn aros gyda'r teuluoedd (yn hytrach na mynd i ofal) heb ei rhoi ar bawf.
Cymorth	Cymedrol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddata ansoddol a monitro. Data monitro heb fod yn addas i gyfyngiadau'r data monitro.	Cymedrol. Yn cwmpasu pob partneriaeth, ac amrywiaeth o brosiectau. Yn gallu dod i gasgliadau ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth, ond nid ynglŷn ag effaith ar blant a phobl ifanc. Heb ddod i gasgliad am werth am arian oherwydd diffyg tystiolaeth.	Cryf. Ymyriadau wedi eu targedu ar gyfer plant a phobl ifanc. Sylfaen dystiolaeth yn gyfyngedig i newid systemau, yn hytrach na rhoi tystiolaeth ynglŷn â dulliau sy'n gweithio'n dda i blant a phobl ifanc. Defnyddiwyd y gwerthusiad i fireinio dyluniad Teuluoedd yn Gyntaf.
Teuluoedd yn Gyntaf	Cymedrol. Gwerthusiad y cyfnod arloesi yn gyflawn. Gwaith gwerthuso prosesau ac effaith y prif raglen yn barhaus, gan ddefnyddio cymysgedd o ymchwil ansoddol a gwybodaeth fonitro i fesur effaith. Prif werthusiad yn cynnwys asesiad gwerth am arian.	Cymedrol. Gwerthusiad y cyfnod arloesi a'r prif werthusiad yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach nag effaith ar deuluoedd. Defnyddiwyd gwybodaeth fonitro i fesur effaith ar deuluoedd, ond oedi wrth sefydlu fframweithiau rheoli perfformiad. Bydd y prif werthusiad yn cynnwys asesiad gwerth am arian.	Cryf. Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi ei ddylunio i fynd i'r afael â phob un o dri amcan y Strategaeth Tlodi Plant, gan ddefnyddio dulliau wedi eu teilwra yn lleol. Defnyddiwyd gwersi a ddysgwyd yn y cyfnod arloesi a rhaglen Cymorth i fireinio'r rhaglen genedlaethol.
Dechrau'n Deg	Cryf. Yn defnyddio cymysgedd o astudiaethau achos ansoddol, a dyluniad effaith lled-arbrofol yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cymharu. Yn cynnwys asesiad gwerth am arian.	Pob un o 22 ardal Dechrau'n Deg wedi eu cwmpasu. Arolygon yn cwmpasu rhieni plant ≤2 oed yn erbyn rhaglen sy'n cwmpasu rhieni plant ≤4 oed. Yn cynnwys asesiad ariannol.	Cryf.
Cychwyn Iach	Cymedrol. Niferoedd sy'n cymryd rhan yn cael eu monitro yn rheolaidd, ynghyd ag ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol, ac arolygon o fuddiolwyr a manwerthwyr. Dim fframwaith i asesu'r effaith ar iechyd mamolaeth/plentyn.	Cymedrol. Data monitro rheolaidd ynghylch y niferoedd sy'n cymryd rhan yn cwmpasu'r cyfan. Asesiad blynyddol o'r effaith ar gydraddoldeb i fonitro mynediad. Ystyrir bod y gwerth am arian yn dda: cost bach i ddarparu cymorth i nifer fawr o deuluoedd incwm isel.	Cymedrol. Yn cyd-fynd â model ymyrraeth gynnar, yn ogystal â lliniaru effaith tlodi.
Cryfhau Teuluoedd	Cryf. Hap-dreial wedi'i Reoli wedi ei sefydlu (ni welwyd tystiolaeth y treial)	750 o deuluoedd wedi eu cynnwys yn y Treial.	Cymedrol. Yn defnyddio model ymyrraeth gynnar i atal plant rhag datblygu problemau camddefnyddio sylweddau.

	<i>Ansawdd tystiolaeth y gwerthusiad</i>	<i>Cwmpas y gwerthusiad</i>	<i>Perthnasedd y rhaglen/tystiolaeth i amcanion y Strategaeth Tlodi Plant</i>
Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid	Cymedrol. Data yn seiliedig ar ffurflenni adborth yn dilyn cyrsiau gan ddim ond 160 o rai a gymerodd ran mewn cyrsiau. Tystiolaeth ryngwladol o'r gwerthusiad yn ymwneud â'r model.	Gwerthusiad Llywodraeth Cymru wedi ei gyfyngu i adborth yn dilyn cyrsiau. Data rhyngwladol yn adolygu effaith model yr hyfforddiant.	Cymedrol. Cysylltiadau rhwng tlodi a iechyd meddwl gwael.
Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol 2010-2015	Y cynllun heb ei werthuso yn genedlaethol. Gwerthusiad wedi ei wneud o un elfen, LARC (Dull Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor.	Ni werthuswyd y cynllun. Data ystadegol yn unig.	Cymedrol. Cysylltiadau rhwng tlodi a gweithgarwch rhywiol cynnal / cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau.
Undebau Credyd	Cymedrol. Gwerthusiad y cyfnod cyntaf yn canolbwyntio ar fynediad; bydd yr ail gyfnod yn canolbwyntio ar effaith ac effeithiolrwydd.	Cymedrol. Tystiolaeth y cyfnod cyntaf yn gyfyngedig am i'r targedau lleol gael eu diffinio'n wan ac am mai anodd yw cymharu rhwng Undebau Credyd. Gwerthusiad yr ail gyfnod yn fwy strategol, a bydd yn cynnwys mesurau effaith cryfach, ac asesiad o berfformiad ariannol.	Cymedrol.
Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd Cymunedau yn Gyntaf	Gwan. Yn seiliedig ar yr ystadegau a ryddhawyd yn unig.	Ni werthuswyd y cynllun. Data ystadegol yn unig.	Cymedrol. Amodau tai diogel yn gysylltiedig â gwell canlyniadau mewn sawl maes, megis iechyd, addysg ac ati.
	Cymedrol. Amrywiaeth eang o ffynonellau o dystiolaeth wedi eu hystyried i asesu prosesau ac effaith, ond nid y gwrthffeithiol. Wedi ei gyfyngu gan amrywiaeth a natur feddal effeithiau'r rhaglen. Gwerth am arian heb ei asesu, ac ni all y dystiolaeth gyfarwyddo'r farn ar effaith.	Cymedrol: astudiaethau achos mewn 25 ardal, a defnyddio data rheoli perfformiad. Astudiaethau achos manwl mewn 25 ardal yn unig. Yn gallu gwneud cyfres gref o argymhellion i gyfarwyddo adolygiad Cymunedau yn Gyntaf. Gwerth am arian heb ei asesu.	Rhaglen yn berthnasol iawn, ond tystiolaeth o effaith yn gyfyngedig hyd yma. Rhaglenni unigol a ariannwyd yn amrywio i ba raddau y maent yn mynd i'r afael ag amcanion sy'n berthnasol i'r Strategaeth Tlodi Plant. Bydd trefniadau'r rhaglen wedi iddynt gael eu hailddiffinio yn mynd i'r afael â chyfyngiadau drwy dynhau'r strwythur rheoli, casglu tystiolaeth mwy eglur, pennu nodau canlyniadau mwy eglur, a lleihau nifer ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Ffynhonnell: Ipsos MORI